

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 13/01/2015

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)  
[Questions to the First Minister](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)  
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Dyraniadau Canlyniadol Datganiad yr Hydref](#)  
[Statement: Autumn Statement Consequential Allocations](#)

[Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i Amrywio Trefn Ystyried Gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Addysg Uwch \(Cymru\)](#)  
[Motion under Standing Order 26.36 to Vary the Order of Consideration of Stage 3 Amendments to the Higher Education \(Wales\) Bill](#)

[Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth—Gwelliant i Deddf Landlordiaid a Thenant 1954 \(Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol—Memorandwm Rhif 2\)](#)  
[Legislative Consent Motion on the Small Business, Enterprise and Employment Bill—Amendment in relation to Landlord and Tenant Act 1954 \(Supplementary Legislative Consent Memorandum—Memorandum No. 2\)](#)

[Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth—Taliadau Ymadael y Sector Cyhoeddus \(Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol—Memorandwm Rhif 3\)](#)  
[Legislative Consent Motion on the Small Business, Enterprise and Employment Bill - Public Sector Exit Payments \(Supplementary Legislative Consent Memorandum—Memorandum No. 3\)](#)

[Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dadreoleiddio—Diwygiad mewn perthynas â Deddf Cychod Pysgota Prydeinig 1983 Deddf Pysgodfeydd 1868 a Deddf Pysgodfeydd 1891 \(Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol—Memorandwm Rhif 5\)](#)  
[Legislative Consent Motion on the Deregulation Bill—Amendment in relation to British Fishing Boats Act 1983, Fisheries Act 1868 and Fisheries Act 1891 \(Supplementary Legislative Consent Memorandum—Memorandum No. 5\)](#)

[Cynnig i Atal Dros Dro Rheol Sefydlog 11.16 i Ganiatáu i'r Eitem Nesaf o Fusnes Gael ei Thrafod](#)  
[Motion to Suspend Standing Order 11.16 to Allow the Next Item of Business to be Debated](#)

[Gorchymyn Ardrethu Annomestig \(Lluosydd\) \(Cymru\) \(Rhif 2\) 2014](#)  
[The Non-Domestic Rating \(Multiplier\) \(Wales\) \(No. 2\) Order 2014](#)

[Dadl: Setliad Llywodraeth Leol 2015-16](#)  
[Debate: The Local Government Settlement 2015-16](#)

[Dadl: Adroddiad Blynyddol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2013-14](#)  
[Debate: Together for Mental Health Annual Report 2013-14](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)  
[Voting Time](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Good afternoon. The National Assembly for Wales is called to order.

13:30 **Cwestiynau i'r Prif Weinidog**

**Questions to the First Minister**

**Y** [Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Eitem 1: cwestiynau i'r Prif Weinidog.

Item 1: questions to the First Minister.

**Gwasanaethau GIG**

**NHS Services**

13:30 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, and my colleagues, happy new year to you all, from myself, and from this side of the Chamber.

Brif Weinidog, a'm cydweithwyr, blwyddyn newydd dda i chi i gyd, oddi wrthyf fi, ac oddi wrth yr ochr hon i'r Siambur.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

1. Will the First Minister outline his priorities for improving NHS services in Wales in 2015, please? OAQ(4)2026(FM)

1. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau'r GIG yng Nghymru yn 2015, os gwelwch yn dda? OAQ (4)2026(FM)

13:30

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Can I thank the Member for his good wishes, and reciprocate them, of course, and to all Members in the Chamber? Can I say, our priorities for improving NHS services for 2015 include our wish to increase the focus on improving population health and wellbeing, to pursue further the prudent healthcare and integration agendas, and to increase the services the NHS is able to deliver outside of the hospital setting?

A gaf i ddiolch i'r Aelod am ei ddymuniadau da, a'u dychwelyd, wrth gwrs, ac i bob Aelod yn y Siambr? A gaf i ddweud, mae ein blaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau'r GIG ar gyfer 2015 yn cynnwys ein dymuniad i gynyddu'r pwyslais ar wella iechyd a lles y boblogaeth, i ddilyn yr agendâu gofal iechyd ac integreiddio doeth ymhellach, ac i gynyddu'r gwasanaethau y gall y GIG eu darparu y tu allan i'r ystyby?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:31

**Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the reply, First Minister. Accident and emergency waiting times in Wales have not been met in over five years. Ambulance response times are at their lowest since 2011. One in seven people are on waiting lists for treatment, and patients are denied access to a cancer drugs fund. Your party claims that the NHS in England is in crisis. How would you describe the state of the NHS in Wales under your Government, please?

Diolch am yr ateb, Brif Weinidog. Nid yw amseroedd aros damweiniau ac achosion brys yng Nghymru wedi eu bodloni ers dros bum mlynedd. Mae amseroedd ymateb ambiwlansys ar eu gwaethaf ers 2011. Mae un o bob saith o bobl ar restrau aros am driniaeth, ac mae cleifion yn cael gwrthod mynediad at gronfa cyffuriau cancer. Mae eich plaid yn honni bod y GIG yn Lloegr mewn argyfwng. Sut fydddech chi'n disgrifio cyflwr y GIG yng Nghymru dan eich Llywodraeth chi, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:31

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I do not believe that Offa's Dyke is the line between life and death. I think that is a most unfortunate turn of phrase. Can I say that there have been huge pressures on the NHS, across the whole of the UK, over the past few weeks, and that is true of Wales, England, Northern Ireland, and Scotland? I want to pay tribute to the NHS staff, who have dealt, in difficult circumstances, with those pressures, and their dedication and professionalism is very much to be commended. It is right to say that there has been great pressure on A&E. The difficulty with A&E is that it is a demand-led service, and it can be quite difficult to predict what the demand will be, although our winter plans are holding up, in terms of there not being widespread cancellation of surgery and widespread cancellation of outpatients' appointments, but there are great pressures there. But, it does show that those pressures exist across the whole of the UK, and, really, the NHS should not be a political football. That is as true of the Welsh NHS as it is of the English NHS.

Nid wyf yn credu mai Clawdd Offa yw'r llinell rhwng bywyd a marwolaeth. Rwy'n credu bod hwnnw'n ymadrodd hynod anffodus. A gaf i ddweud y bu pwysau aruthrol ar y GIG, ledled y DU gyfan, yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, ac mae hynny'n wir am Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, a'r Alban? Hoffwn dalu teyrnged i staff y GIG, sydd wedi ymdrin â'r pwysau hynny dan amgylchiadau anodd, ac mae eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb i'w ganmol yn fawr. Mae'n iawn i ddweud y bu pwysau mawr ar adrannau damweiniau ac achosion brys. Yr anhawster gyda damweiniau ac achosion brys yw ei fod yn wasanaeth a arweinir gan alw, a gall fod yn eithaf anodd rhagweld beth fydd y galw, er bod ein cynlluniau gaeaf yn ymdopi, o ran y ffaith nad ydym yn gweld gohirio eang o lawdriniaeth a gohirio eang o apwyntiadau cleifion allanol, ond mae pwysau mawr yn hynny o beth. Ond, mae yn dangos bod y pwysau hynny'n bodoli ar draws y DU gyfan, ac, mewn gwirionedd, ni ddylai'r GIG fod yn bêl-droed wleidyddol. Mae hynny yr un mor wir am y GIG yng Nghymru ag y mae am y GIG yn Lloegr.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:32	<b>Ann Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> First Minister, I have mentioned in this Chamber many times the pleasing A&E quadrant—the new emergency quadrant based at Ysbyty Glan Clwyd—together with the announcement last week from your Government Ministers around the roll-out of a new emergency department clinical information management scheme, which will help to improve, I think, some unscheduled care services, by streamlining flows of information about patients. I think that will be of great interest to many Members, and many constituents. With A&E performances and data being very much in the spotlight, across the UK, what impact do you think that the additional capital spending that this Government has put in recently will have on a patient experience?	Brif Weinidog, rwyf wedi sôn sawl gwaith yn y Siambr hon am y cwadrant damweiniau ac achosion brys—y cwadrant brys newydd yn Ysbyty Glan Clwyd—dymunol, ynghyd â'r cyhoeddiad yr wythnos diwethaf gan Weinidogion eich Llywodraeth ynghylch y broses o gyflwyno cynllun rheoli gwybodaeth glinigol adrannau achosion brys newydd, a fydd yn helpu i wella, rwy'n credu, rhai gwasanaethau gofal heb ei drefnu, trwy symleiddio'r llif gwybodaeth am gleifion. Rwy'n credu y bydd hynny o ddiddordeb mawr i lawer o Aelodau, a llawer o etholwyr. Gan fod perfformiadau a data adrannau damweiniau ac achosion brys yn cael sylw mawr ledled y DU, pa effaith ydych chi'n ei gredu y bydd y gwariant cyfalaf ychwanegol y mae'r Llywodraeth hon wedi ei gyfrannu'n ddiweddar yn ei chael ar brofiad cleifion?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:33	<b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Well, investment in a national emergency department clinical system will help to improve unscheduled care services by streamlining the flow of information on patients and cutting down on paperwork for healthcare professionals. Front-line medical staff in the emergency departments using the system will also be able to have instant access to details of a patient's previous A&E visits, and, so, information will be shared that much more quickly, and, of course, the response to an individual patient's needs will be quickened as a result of that.	Wel, bydd buddsoddi mewn system glinigol adrannau achosion brys genedlaethol yn helpu i wella gwasanaethau gofal heb ei drefnu trwy symleiddio'r llif gwybodaeth am gleifion a lleihau'r gwaith papur i weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Bydd staff meddygol rheng flaen yn yr adrannau achosion brys sy'n defnyddio'r system hefyd yn gallu cael gafael ar unwaith ar fanylion ymweliadau blaenorol claf i adrannau damweiniau ac achosion brys, ac, felly, bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu'n llawer cyflymach, ac, wrth gwrs, bydd yr ymateb i anghenion claf unigol yn cael ei gyflymu o ganlyniad i hynny.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:34	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Elin Jones.	Elin Jones.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:34	<b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> No.	Na.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:34	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> No? Peter Black.	Na? Peter Black.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:34	<b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you, Presiding Officer. First Minister, the Cardiff and Vale University Local Health Board provide services for neuroendocrine cancer patients, for those patients living in the Cardiff area, but there is no Wales-wide service, and patients outside of Cardiff do not have access to that service, as confirmed to me by the health board late last year. What plans do you have to commission, through the Welsh Health Specialised Services Committee, a Wales-wide service for those patients who suffer from neuroendocrine cancer?	Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion canser niwroendocrin, i'r cleifion hynny sy'n byw yn ardal Caerdydd, ond nid oes gwasanaeth Gymru gyfan, ac nid oes gan gleifion y tu allan i Gaerdydd fynyddiad at y gwasanaeth hwnnw, fel y cadarnhawyd i mi gan y bwrdd iechyd yn hwyr y llynedd. Pa gynlluniau sydd gennych chi i gomisiynu, trwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, gwasanaeth Cymru gyfan ar gyfer y cleifion hynny sy'n dioddef o ganser niwroendocrin?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:34	<b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Well, of course, hospitals such as Velindre provide a service far more widely than Cardiff. The Member has raised a specific point with regard to a specific condition, and I will ask the Minister for Health and Social Services to write to him with further detail.	Wel, wrth gwrs, mae ysbytai fel Felindre'n cynnig gwasanaeth llawer ehangach na Chaerdydd. Mae'r Aelod wedi codi pwynt penodol am gyflwr penodol, a byddaf yn gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu ato i roi mwy o fanylion.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

- 13:35 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, the Tories' flagship cancer drugs fund continues to be criticised by clinicians and researchers and now even pharmaceutical companies, and the Welsh Tories, as part of their contributory role to the war on Wales, continue to champion the fund, which has been described by clinicians as unethical, discriminatory and a cheap political fix. Does the First Minister stand by his decision that a similar fund in Wales will not be introduced?
- Brif Weinidog, mae cronfa cyffuriau cancer flaenllaw'r Torïaid yn parhau i gael ei beirniadu gan glinigwyr ac ymchwilyr, ac erbyn hyn, cwmnïau fferyllol hyd yn oed, ac mae Torïaid Cymru, yn rhan o'u swyddogaeth sy'n cyfrannu at y rhyfel ar Gymru, yn parhau i hyrwyddo'r gronfa, a ddisgrifiwyd gan glinigwyr fel bod yn anfoesol, yn wahaniaethol ac yn ateb gwleidyddol rhad. A yw'r Prif Weinidog yn glynu at ei benderfyniad na fydd cronfa debyg yn cael ei chyflwyno yng Nghymru?
- 13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Yes, we take the view that there should be a quality of access to treatments regardless of condition. The problem with the cancer drugs fund is that it discriminates in favour of those who have cancer and others who have equally life-threatening conditions. We know that it has dealt with drugs that are not life-saving drugs, although, of course, depending on the individual, they can extend life by weeks, sometimes months, that much is true, but we now see, of course, drugs being taken out of the cancer drugs fund in England. We've seen the publicity that that's engendered today and the criticism of the cancer drugs fund itself. We take the view that there should be a system of funding that is fair and equitable to all people, regardless of their condition.
- Ydw, rydym ni o'r farn y dylid cael mynediad o ansawdd at driniaethau waeth beth fo'r cyflwr. Y broblem gyda'r gronfa cyffuriau cancer yw ei bod yn gwahaniaethu o blaid y rhai sydd â chanser ac eraill sydd â chyflyrau sy'n rhoi bywydau yn y fantol yn yr un modd. Rydym ni'n gwybod ei bod wedi ymdrin â chyffuriau nad ydynt yn gyffuriau achub bywyd, er, wrth gwrs, yn dibynnu ar yr unigolyn, gallant ymestyn bywyd gan wythnosau, misoedd weithiau, mae cymaint â hynny'n wir, ond rydym ni'n gweld nawr, wrth gwrs, cyffuriau'n cael eu cymryd allan o'r gronfa cyffuriau cancer yn Lloegr. Rydym ni wedi gweld y cyhoeddusrwydd y mae hynny wedi arwain ato heddiw a'r feirniadaeth o'r gronfa cyffuriau cancer ei hun. Rydym ni o'r farn y dylid cael system o gyllido sy'n deg a chyfiawn i bawb, waeth beth fo'u cyflwr.
- Trac Môn** **Anglesey Circuit**
- 13:36 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Nhrac Môn? OAQ(4)2029(FM)*
- 2. Will the First Minister make a statement on Welsh Government investment in the Anglesey Circuit? OAQ(4)2029(FM)*
- 13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Wel, mae'r trac wedi cael cyllid drwy raglen gyllido Ewropeaidd a thrwy grant twristiaeth.
- Well, funding has been provided to the circuit via a European funding programme and through a tourism grant.
- 13:36 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Ac rwy'n ddiolchgar am y buddsoddiad yna. Mi fyddem ni i gyd, rwy'n siŵr, yn dymuno'n dda i unrhyw un sydd am fuddsoddi eu harian eu hunain mewn adnodd rasio newydd yng Nghymru ac mae yna sôn am ddatblygiad, wrth gwrs, yng Nglynebwy, ond mae yna bryder y gall y cynyddu capasiti rasio yng Nghymru effeithio ar yr adnoddau sydd yno yn bodoli yn barod. Fyddwn i'n sicr ddim am i fuddsoddiad gan y Llywodraeth, mewn adnodd newydd, danseilio buddsoddiadau y maen nhw wedi eu gwneud mewn llyfdd eraill fel Trac Môn. A ydy'r Prif Weinidog yn rhannu'r ofn yna ac ydy o felly'n cytuno mai'r hyn fyddai'n synhwyrol fyddai cael buddsoddiad cyhoeddus pellach, o bosib, yn Nhrac Môn i gadw hwnnw'n gystadleuol, i warchod buddsoddiad y Llywodraeth a gobeithio i anelu tuag at ddenu Rali Cymru GB yno?
- And I'm grateful for that investment. I'm sure that we would all wish anyone well who wanted to invest their own money in a new race track in Wales, and there is talk of development in Ebbw Vale, but there is concern that increasing capacity in Wales could actually have an impact on resources available already. We certainly wouldn't want Government investment in a new resource to undermine investment that they have made elsewhere, such as the Anglesey Circuit. Does the First Minister share that concern and does he also agree that what would be sensible would be to have further public investment possibly in the Anglesey Circuit to ensure that that remains competitive, to protect Government investment and hopefully to work towards attracting the Wales GB Rally there?

13:37

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, byddwn i'n dweud ein bod ni wedi gwneud hynny, wrth gwrs. Cafodd grant ei roi yn 2010 er mwyn sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu gwella ac, wrth gwrs, £1.35 miliwn, sydd wedi cael ei roi trwy'r trac project, trwy'r ERDF—cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop. Rwyf wedi ymweld â'r trac ei hun. Rwyf wedi cael y profiad o gael fy ngyrru mewn Ferrari rownd y trac—rhywbeth sydd yn brofiad gwerth ei wneud. Nid yw'n rhwydd mynd mewn i'r car; os yw'r Aelod wedi cael yr un profiad, bydd yn gwybod nad yw'n rhywbeth cyfforddus iawn i drial mynd i mewn i'r car yna'r tro cyntaf. Ond, mae'r trac ei hun yn rhywbeth sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn a ni moyn cefnogi Trac Môn yn y ffordd mwyaf cefnogol yn y dyfodol.

Well, I would say that we've already done that, of course. A grant was awarded in 2010 that ensured that the facilities would be improved and, of course, £1.35 million that has been given through the project track, through the ERDF—the European regional development fund. I visited the track itself. I've had the experience of being driven in a Ferrari around that circuit—something that is very worth while doing. It's not easy to get into the car; if the Member has had the same experience, he will know that it's not a very comfortable thing to have to get into that car for the first time. But, the track itself is something that has been very successful and we want to support the Anglesey Circuit in the best way possible in future.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:37

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Minister, I've been fortunate enough to take my own car around the circuit, but I can assure you that it wasn't a Ferrari. [Laughter.] It wasn't a Ferrari, but—. [Interruption.] No, it certainly wasn't a Maserati either; it was an MG—a good British make at the time. But, First Minister, Rhun ap Iorwerth makes an important point that there is a danger that investment elsewhere—and there's talk of some £30 million of Welsh Government money—may undermine existing facilities and, indeed, take investment away from north Wales. Whilst, of course, £1.3 million is a welcome investment, much of that was private investment or at least matched by private funds, and I would ask that you consider the impact on the economic ability of the Anglesey track to be able to generate its income and compete, if the Ebbw Vale track gets substantial sums of Government money.

Wel, Weinidog, rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i yrru fy nghar fy hun o amgylch y trac, ond gallaf eich sicrhau nad Ferrari oedd e. [Chwerthin.] Nid Ferrari oedd e, ond—. [Torri ar draws.] Na, nid Maserati oedd e chwaith, yn sicr; MG oedd e—cynnyrch Prydeinig da ar y pryd. Ond, Brif Weinidog, mae Rhun ap Iorwerth yn gwneud pwynt pwysig bod perygl y gallai buddsoddi mewn manau eraill—a chlywir sôn am tua £30 miliwn o arian Llywodraeth Cymru—danseilio cyfleusterau presennol ac, yn wir, mynd â buddsoddiad oddi wrth y gogledd. Er, wrth gwrs, bod £1.3 miliwn yn fuddsoddiad i'w groesawu, buddsoddiad preifat oedd llawer o hynny, neu o leiaf buddsoddiad wedi ei gyfateb gan arian preifat, a byddwn yn gofyn i chi ystyried yr effaith ar allu economaidd trac Môn i allu cynhyrchu ei incwm a chystadlu, os bydd trac Glyn Ebwy yn cael symiau sylweddol o arian y Llywodraeth.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:39

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There is no question of investment in one part of Wales crowding out investment in another. There is room, I believe, for both. They are far enough apart in that sense. Trac Môn has been very successful. We've been supportive of it and we look to be as supportive as we can be of it in the future.

Nid oes unrhyw gwestiwn o fuddsoddiad mewn un rhan o Gymru yn atal buddsoddiad mewn rhan arall. Mae lle, rwy'n credu, i'r ddau. Maen nhw'n ddigon pell oddi wrth ei gilydd yn yr ystyr hwnnw. Mae Trac Môn wedi bod yn llwyddiannus iawn. Rydym ni wedi bod yn gefnogol ohono ac rydym yn edrych i fod mor gefnogol ag y gallwn ohono yn y dyfodol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau**

**Questions Without Notice from the Party Leaders**

13:39

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from the party leaders and, first this afternoon, we have the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau ac arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies, sydd gyntaf y prynhawn yma.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:39

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, we all witnessed the horrific events last week in France, and it was deeply moving to see the outpouring of grief, but also support that all parts of the globe, and in particular here in Wales, offered the French people in such a dark hour. The terrorist situation and the radicalisation of some sections of communities is a constant worry for many people. I know in your role as First Minister at the JMC a briefing was given about the situation that the security services believe to be existing at the moment. We know from stories that, sadly, people from Wales have fallen under the misapprehension that if they go out and serve a certain cause in the middle east, they are doing justice to their beliefs. What do you think the threat level is at the moment that faces communities and the people of Wales?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, gwelodd pob un ohonom ni'r digwyddiadau erchyll yn Ffrainc yr wythnos diwethaf, ac roedd yn emosïynol iawn gweld y galaru eang, ond hefyd y gefnogaeth o bedwar ban byd, ac yn enwedig o'r fan yma yng Nghymru, a gynigiwyd i bobl Ffrainc yn y fath awr dywyll. Mae'r sefyllfa derfysgol a'r radicaleiddio o rai rhannau o gymunedau yn bryder parhaus i lawer o bobl. Gwn yn eich swyddogaeth fel Prif Weinidog yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion y rhoddwyd sesiwn frifffio ar y sefyllfa y mae'r gwasanaethau diogelwch yn credu sy'n bodoli ar hyn o bryd. Rydym ni'n gwybod o straeon, yn anffodus, bod pobl o Gymru wedi mabwysiadu'r camargraff eu bod yn gwneud cyfiawnder â'u credoau os byddant yn mynd allan i wasanaethu achos penodol yn y dwyrain canol. Beth ydych chi'n gredu yw lefel y bygythiad sy'n wynebu cymunedau a phobl Cymru ar hyn o bryd?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It's not for me to assess the threat level. He will understand, of course, that we did have a briefing in the JMC. It wouldn't be appropriate to reveal the details of that briefing. It's a matter for the UK Government, of course. This is a non-devolved matter, and correctly so, in my view. However, the events in Paris do show us that there is a need to be vigilant at all times. These attacks can come out of nowhere. They are a handful of people. We must bear in mind, of course, that they are in no way representative of the Muslim community in Wales or anywhere else. Of course, there is a sad and tragic irony in the fact that one of their victims—a policeman—was himself a Muslim. So, we must resist, of course, any attempts by some on the very fringes of politics to suggest this is some kind of battle between Islam as a whole and other belief systems. It's far from that. Can I say that I was very honoured to be on the steps of the Senedd on Sunday evening to join many, many others to show solidarity with the employees of 'Charlie Hebdo' and, of course, with the people of France? It shows that there are very many millions of people of all religions and none who will stand up very strongly against terrorist outrages such as this.

Nid fy lle i yw asesu lefel y bygythiad. Bydd yn deall, wrth gwrs, ein bod ni wedi cael sesiwn frifffio yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion. Ni fyddai'n briodol datgelu manylion y sesiwn frifffio honno. Mater i Lywodraeth y DU yw hynny, wrth gwrs. Mae hwn yn fater sydd heb ei ddatganoli, ac yn gywir felly, yn fy marn i. Fodd bynnag, mae'r digwyddiadau ym Mharis yn dangos i ni bod angen bod yn wylidawrus bob amser. Gall yr ymosodiadau hyn ddigwydd yn ddisymwth. Llond llaw o bobl yw'r rhain. Mae'n rhaid i ni gofio, wrth gwrs, nad ydyn nhw'n cynrychioli'r gymuned Fwslimaidd yng Nghymru nac yn unrhyw le arall mewn unrhyw ffordd. Wrth gwrs, ceir eironi trist a thrasig yn y ffaith bod un o'r rhai a laddwyd ganddynt—plismon—yn Fwslim ei hun. Felly, mae'n rhaid i ni wrthsefyll, wrth gwrs, unrhyw ymdrechion gan rai ar ymylon pell gwleidyddiaeth i awgrymu mai rhyw fath o frwydr rhwng Islam yn ei chyfanrwydd a systemau cred eraill yw hon. Mae'n bell o fod yn hynny. A gaf fi ddweud ei bod yn anrhydedd i mi fod ar risiau'r Senedd nos Sul i ymuno â llawer iawn o bobl eraill i ddangos undod gyda gweithwyr 'Charlie Hebdo' ac, wrth gwrs, gyda phobl Ffrainc? Mae'n dangos bod miliynau lawer iawn o bobl o bob crefydd a dim crefydd a fydd yn sefyll yn gryf iawn yn erbyn ymosodiadau derfysgol fel hyn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



13:41

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister. I endorse—and hopefully stand shoulder to shoulder with you—the sentiments that you've expressed in your answer to me on the first question. It is right that the security service and the police, which aren't devolved responsibilities, obviously deal with this on a day-to-day basis. But, many of the services that are funded from the Welsh Government, whether it be in education, whether it be community support, obviously do have a role and input from the Welsh Government in reaching into communities. Some of the commentators, obviously, have pointed out that we need to be addressing why people feel so marginalised in society that they do feel seduced by the radicalisation agenda that is put forward by some people. Given your understanding of the situation we face, do you think that there is more that the Welsh Government can be doing, working with the organisations that it sponsors in the community, or indeed via the education system, so that people do not feel marginalised and seduced by this radical agenda that some—a very small minority—feel that they want to subscribe to?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Rwy'n cymeradwyo—ac yn sefyll ysgwydd yn ysgwydd â chi gobeithio—y teimladau yr ydych chi wedi eu mynegi yn eich ateb i mi i'r cwestiwn cyntaf. Mae'n iawn mai'r gwasanaeth diogelwch a'r heddlu, nad ydynt yn gyfrifoldebau datganoledig, sy'n amlwg yn ymdrin â hyn o ddydd i ddydd. Ond, yn amlwg, mae gan lawer o'r gwasanaethau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, boed hynny mewn addysg, boed yn gymorth cymunedol, swyddogaeth a mewnbwn gan Lywodraeth Cymru o ran estyn allan i gymunedau. Mae rhai o'r sylwebyddion, yn amlwg, wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen i ni ystyried pam mae pobl yn teimlo eu bod wedi'u hymyleiddio i'r fath raddau mewn cymdeithas fel eu bod yn teimlo bod yr agenda radicaiddio a gyflwynir gan rai pobl yn eu denu. O ystyried eich dealltwriaeth o'r sefyllfa rydym ni'n ei hwynebu, a ydych chi'n credu bod mwy y gall Llywodraeth Cymru ei wneud, gan weithio gyda'r sefydliadau y mae'n eu noddi yn y gymuned, neu drwy'r system addysg yn wir, fel nad yw pobl yn teimlo eu bod wedi'u hymyleiddio ac yn cael eu denu gan yr agenda radical hon y mae rhai—lleiafrif bychan iawn—yn teimlo eu bod eisiau cyfrannu ati?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, we have a good relationship with the Muslim Council of Wales. I personally chair the faith communities forum. Certainly, that has been invaluable over the years in ensuring that community tensions don't surface, and also in ensuring that where there is a potential problem with certain individuals, as far as possible, that problem is identified. It can never be perfect, of course, and we know that from the recent months. Yes, of course, there is a role for devolved bodies. I know that Leighton Andrews, as Minister, has met with James Brokenshire to discuss how devolved and non-devolved bodies can work together. That meeting was a meeting that certainly led to a greater understanding of how we can move forward together to face this common threat.

Oes, mae gennym ni berthynas dda gyda Chyngor Mwslimaidd Cymru. Rwyf i'n bersonol yn cadeirio'r fforwm cymunedau ffydd. Yn sicr, mae hynny wedi bod yn hynod werthfawr dros y blynyddoedd o ran sicrhau nad yw tensiynau cymunedol yn dod i'r wyneb, a hefyd o ran sicrhau lle ceir problem bosibl gyda rhai unigolion, bod y broblem honno'n cael ei nodi pan fo hynny'n bosibl. Ni all fyth fod yn berffaith, wrth gwrs, a gwyddom hynny o'r misoedd diwethaf. Oes, wrth gwrs, mae swyddogaeth i gyrrff datganoledig. Gwn fod Leighton Andrews, fel Gweinidog, wedi cyfarfod â James Brokenshire i drafod sut y gall cyrrff datganoledig a heb eu datganoli gydweithio. Roedd y cyfarfod hwnnw'n gyfarfod a arweiniodd yn sicr at well dealltwriaeth o sut y gallwn symud ymlaen gyda'n gilydd i wynebu'r bygythiad cyffredin hwn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the simplest ways, obviously, that would support many people in communities who feel under pressure about radicalisation is the line of communication. They—the security service and the police—are often seen as maybe the last resort because of the seriousness of the situation. What would be helpful, I would suggest, would be an element of communication that could be developed within the community that could be seen as a first point of contact, whether that will be in the education system or the community-based volunteers that could identify actions that they think could lead to radicalisation of young people or the promotion of ideas that could lead to events such as those that we saw in Paris over the last couple of days. Are you confident that the lines of communication that we have at the moment meet those goals, or do you believe that we can set up a different way of responding to some of the concerns that some people find themselves facing in this new climate of radicalisation?

Un o'r ffyrdd symlaf, yn amlwg, a fyddai'n cefnogi llawer o bobl mewn cymunedau sy'n teimlo dan bwysau o ran radicaiddio yw'r llinell gyfathrebu. Yn aml, maen nhw—y gwasanaeth diogelwch a'r heddlu—yn cael eu hystyried fel y dewis olaf efallai, oherwydd difrifoldeb y sefyllfa. Beth fyddai o gymorth, rwyf yn awgrymu, fyddai elfen o gyfathrebu y gellid ei datblygu o fewn y gymuned y gellid ei hystyried fel pwynt cyswllt cyntaf, pa un a yw hynny yn y system addysg, neu'r gwirfoddolwyr cymunedol a allai nodi camau gweithredu y maen nhw'n credu allai arwain at radicaiddio pobl ifanc neu hybu syniadau a allai arwain at ddigwyddiadau fel y rhai a welsom ym Mharis yn ystod y diwrnodau diwethaf. A ydych chi'n hyderus bod y llinellau cyfathrebu sydd gennym ni ar hyn o bryd yn bodloni'r amcanion hynny, neu a ydych chi'n credu y gallwn ni sefydlu ffordd wahanol o ymateb i rai o'r pryderon y mae rhai pobl yn canfod eu hunain yn eu hwynebu yn yr hinsawdd newydd hon o radicaiddio?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think they're as good as they can be. There is always scope, of course, to see how things can be improved, but the faith communities forum is certainly important. The strong links that we have with representative bodies of the Muslim community are important and, of course, there is the civil contingencies forum that I chair as well, which looks at it from a different perspective—a security perspective rather than a communities perspective. Of course, representative bodies of the Muslim community cannot, by their very nature, represent those people who stand outside of those bodies—a handful of people who are radicalised, who are more extreme in their views. Then, of course, it's a matter for the security services to help to identify them and, of course, to take action to make sure that they are no threat to either society around them or indeed the Muslim community itself. But we are always open, of course, to discussions, and we have regular discussions with the UK authorities and with the police to make sure that the system is as robust as it can be.

Rwy'n credu eu bod cystal ag y gallant fod. Mae lle bob amser, wrth gwrs, i weld sut y gellir gwella pethau, ond mae'r fforwm cymunedau ffydd yn sicr yn bwysig. Mae'r cysylltiadau cryf sydd gennym ni gyda chyrrff cynrychioliadol y gymuned Fwslimaidd yn bwysig ac, wrth gwrs, ceir y fforwm argyfyngau sifil yr wyf yn ei gadeirio hefyd, sy'n ystyried y mater o wahanol safbwynt—safbwynt diogelwch yn hytrach na safbwynt cymunedau. Wrth gwrs, ni all cyrrff cynrychioliadol o'r gymuned Fwslimaidd, oherwydd eu natur, gynrychioli'r bobl hynny sy'n sefyll y tu allan i'r cyrrff hynny—llond llaw o bobl sydd wedi'u radicleiddio, sydd yn fwy eithafol eu barn. Mae'n fater wedyn, wrth gwrs, i'r gwasanaethau diogelwch i helpu eu nodi nhw ac, wrth gwrs, i gymryd camau i sicrhau nad ydynt yn cynrychioli unrhyw fygythiad i naill ai'r gymdeithas o'u cwmpas nac yn wir y gymuned Fwslimaidd ei hun. Ond rydym ni bob amser yn agored, wrth gwrs, i drafodaethau, ac rydym ni'n cael trafodaethau rheolaidd gydag awdurdodau'r DU a chyda'r heddlu i wneud yn siŵr bod y system mor gadarn ag y gall fod.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Diolch, Lywydd, a blwyddyn newydd dda i chi i gyd.

Thank you, Presiding Officer, and happy new year to you all.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Happy new year to all of you.

Blwyddyn newydd dda i chi gyd.

First Minister, just a few weeks ago your Minister for Communities and Tackling Poverty said, and I quote, the reality is that the UK Government's

Brif Weinidog, dim ond ychydig wythnosau yn ôl, dywedodd eich Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, a dyfynnaf, mae'r gwirionedd yw bod newidiadau Llywodraeth y DU

'changes are risking the safety of vulnerable people. They are squeezing the income of families and individuals who are already struggling to make ends meet'.

'yn peryglu diogelwch pobl sy'n agored i niwed. Maent yn gwasgu incwm teuluoedd ac unigolion sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd'.

Last week, the Wales Audit Office showed that people in Wales had suffered disproportionately as a result of attacks on the welfare state. Do you agree with Plaid Cymru that austerity, by any measure, has failed?

Yr wythnos diwethaf, dangosodd Swyddfa Archwilio Cymru bod pobl yng Nghymru wedi dioddef yn anghymesur o ganlyniad i ymosodiadau ar y wladwriaeth les. A ydych chi'n cytuno â Phlaid Cymru fod cyni cyllidol, yn ôl unrhyw fesur, wedi methu?

13:46

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think the current programme of the UK Government has failed. There's no question about that. I think the welfare system is not working in the form it should in terms of redistributing money across the whole of the UK—even though I know it is devolved in Northern Ireland, the reality is that it is financially very much part of the UK system. I very much regret that there has been a certain amount of targeting of those who are most vulnerable. The bedroom tax, of course, has been an example of that.

Rwy'n meddwl bod rhaglen gyfredol Llywodraeth y DU wedi methu. Nid oes unrhyw amheuaeth am hynny. Nid wyf yn credu nad yw'r system les yn gweithio yn y modd y dylai o ran aiddosbarthu arian ar draws y DU gyfan—er fy mod i'n gwybod ei bod wedi'i datganoli yng Ngogledd Iwerddon, y gwir amdani yw ei bod yn rhan bendant o system y DU yn ariannol. Rwy'n gresynu'n fawr iawn y bu rhywfaint o dargedu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed. Mae'r dreth ystafell wely, wrth gwrs, wedi bod yn enghraifft o hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



13:46

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, it's inexplicable that you won't miss a single opportunity to come here and attack Tory policies, yet you're reluctant to condemn austerity, which is the heart of the very problem. One in three children in Wales lives in poverty. There's been a 20% increase in the numbers of people using food banks. You know that local services in some cases are being totally withdrawn. The number of tenants in arrears has rocketed by over 23% because of cruel welfare reforms. All of this is from austerity, which has failed, and it has failed badly.

Can you explain then, First Minister, why your Members of Parliament, Labour MPs, will be today voting in favour of the Tories' austerity charter in Westminster later on?

Brif Weinidog, mae'n anesboniadwy nad ydych chi'n colli unrhyw gyfle i ddod yma ac ymosod ar bolisiau Toriaidd, ac eto eich bod yn amharod i gondemnio cyni cyllidol, sef gwraidd yr union broblem. Mae un o bob tri phlentyn yng Nghymru yn byw mewn tloedi. Bu cynnydd o 20% yn nifer y bobl sy'n defnyddio banciau bwyd. Rydych chi'n gwybod bod gwasanaethau lleol mewn rhai achosion yn cael eu tynnu'n ôl yn llwyr. Mae nifer y tenantiaid ag ôl-ddyledion wedi cynyddu'n aruthrol o fwy na 23% oherwydd diwygiadau lles creulon. Mae hyn oll yn dod o gyni cyllidol, sydd wedi methu, ac wedi methu'n llwyr.

A allwch chi egluro felly, Brif Weinidog, pam mae eich Aelodau Seneddol, Aelodau Seneddol Llafur, yn pleidleisio heddiw o blaid siarter cyni cyllidol y Toriaid yn San Steffan yn nes ymlaen?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am the First Minister of Wales and a Member of the National Assembly for Wales. What happens in Westminster happens in Westminster. I take the view, I'm afraid, that I am responsible for answering questions on behalf of the Welsh Government and not the Labour Party elsewhere in the UK. I take the view, however, that much of what she has said is correct. I think what has been put before the Welsh people over the past four and a half years has been the wrong approach. I don't think we're in the position we were in even in 2010. We are worse off. We see the effect on individual vulnerable people. We see the effect on the Welsh budget and we as a Government will do all that we can, given the current powers that we have, to cushion the blows that are falling on the people of Wales as a result of the policies of the last four years.

Prif Weinidog Cymru ac Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ydw i. Mae'r hyn sy'n digwydd yn San Steffan yn digwydd yn San Steffan. Rwyf o'r farn, rwy'n ofni, fy mod i'n gyfrifol am ateb cwestiynau ar ran Llywodraeth Cymru ac nid y Blaid Lafur mewn mannau eraill yn y DU. Rwyf o'r farn, fodd bynnag, bod llawer o'r hyn y mae hi wedi ei ddweud yn gywir. Rwy'n credu bod yr hyn a roddwyd gerbron pobl Cymru dros y pedair blynedd a hanner diwethaf wedi bod yn ddull anghywir. Nid wyf yn credu ein bod yn y sefyllfa yr oeddem ni ynddi yn 2010 hyd yn oed. Rydym ni'n waeth ein byd. Rydym ni'n gweld yr effaith ar bobl agored i niwed unigol. Rydym ni'n gweld yr effaith ar gyllideb Cymru a byddwn ni fel Llywodraeth yn gwneud popeth y gallwn, o ystyried y pwerau presennol sydd gennym, i leddfu'r ergydion sy'n disgyn ar bobl Cymru o ganlyniad i bolisiau'r pedair blynedd diwethaf.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You know full well, First Minister, that what happens in Westminster has an impact in this place here, and the motion and the austerity consensus that your party and your party leader are supporting today will mean further deep and damaging cuts and it will also mean that the eventuality of any recovery will be strangled, too. You've refused to distance yourself from that. Week in, week out you come here and bemoan Tory cuts. Isn't it the truth, First Minister, that you are trying to look both ways on austerity? Isn't it the truth that, if you were in Westminster today, you would be voting with the Tories? You may favour Labour austerity to Tory austerity, but the truth is that you still favour austerity. Isn't that the case, First Minister?

Rydych chi'n gwybod yn iawn, Brif Weinidog, bod yr hyn sy'n digwydd yn San Steffan yn cael effaith yn y lle hwn yma, a bydd y cynnig a'r consensws cyni cyllidol y mae eich plaid ac arweinydd eich plaid yn eu cefnogi heddiw yn golygu toriadau dwfn a niweidiol pellach a hefyd yn golygu y bydd y posibilrwydd o unrhyw adferiad yn cael ei dagu, hefyd. Rydych chi wedi gwrthod ymbellhau eich hun oddi wrth hynny. Rydych chi'n dod yma wythnos ar ôl wythnos ac yn cwyno am doriadau'r Toriaid. Onid yw'n wir, Brif Weinidog, eich bod yn ceisio edrych i'r ddau gyfeiriad o ran cyni cyllidol? Onid yw'n wir, pe byddech chi yn San Steffan heddiw, y byddech chi'n pleidleisio gyda'r Toriaid? Efallai eich bod yn ffafrio cyni cyllidol Llafur i gyni cyllidol y Toriaid, ond y gwir amdani yw eich bod yn dal i ffafrio cyni cyllidol. Onid yw hynny'n wir, Brif Weinidog?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I can assure the leader of Plaid Cymru that I have no desire whatsoever to go to Westminster, so she will not find me voting in the House of Commons. What I can say to her is this: there is a general election in May and the people of Britain will have the opportunity to choose which party, or parties even, they would wish to see governing the UK. I believe that my party at the UK level will put forward a fair, socially just manifesto that will look to grow the economy of Britain in the fairest way possible, and that is what the message will be to the people of Britain, because that is the message we have promoted in Wales over the past four years.
- Gallaf sicrhau arweinydd Plaid Cymru nad oes gennyf unrhyw awydd o gwbl i fynd i San Steffan, felly ni fydd hi'n fy ngweld i'n pleidleisio yn Nhŷ'r Cyffredin. Yr hyn y gallaf ei ddweud wrthi yw hyn: mae etholiad cyffredinol ym mis Mai a bydd cyfle i bobl Prydain ddewis pa blaid, neu bleidiau hyd yn oed, yr hoffent ei gweld yn llywodraethu'r DU. Rwy'n credu y bydd fy mhlaid i, ar lefel y DU, yn cyflwyno maniffesto teg, cymdeithasol gyfiawn, a fydd yn ceisio tyfu economi Prydain yn y ffordd decaf bosibl, a dyna fydd y neges i bobl Prydain, gan mai dyna'r neges yr ydym ni wedi ei hyrwyddo yng Nghymru dros y pedair blynedd diwethaf.
- 13:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams. Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.
- 13:50 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*
- First Minister, what analysis has your Government carried out in recent weeks to ascertain the nature of demands being placed upon Wales's accident and emergency admissions departments? Wouldn't you agree with me that, whilst of course it is right to urge people not to go to A&E if they don't need to be there, are you truly suggesting that the fact that 82% of people are seen within four hours is down to inappropriate people being at the A&E department, or is it down to more complex demands?
- Brif Weinidog, pa ddadansoddiad mae eich Llywodraeth wedi ei wneud yn yr wythnosau diwethaf i ganfod natur y galwadau sy'n cael eu gwneud ar adrannau derbyniadau damweiniau ac achosion brys Cymru? Oni fydddech chi'n cytuno â mi, er wrth gwrs ei bod yn iawn i annog pobl i beidio â mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys os nad oes angen iddyn nhw fod yno, a ydych chi wir yn awgrymu bod y ffaith fod 82% o bobl yn cael eu gweld o fewn pedair awr oherwydd y ffaith bod pobl amhriodol yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys, neu a yw oherwydd galwadau mwy cymhleth?
- 13:50 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*
- 'Complex', I think, is the word. It is right to say that there still remains a number of people who shouldn't be going to A&E. That much is true, and there's no point trying to deny that—that's correct. That said, the pressures that we have seen across the whole of the UK in the last few weeks have been down to a number of factors. One of the major factors has been the appearance of a flu strain that was not foreseen by anybody and wasn't part, I understand, of the vaccination that was available this year to deal with flu. That, of course, has a knock-on effect across the whole of A&E. As I said earlier on, the difficulty with A&E is trying to predict the level of demand when that demand is unforeseen if, for example, a new strain of flu appears. Of course, planning was put in place months beforehand in terms of the winter plans of the local health boards. Those plans have, by and large, held. We're not seeing a situation where large numbers of operations have been cancelled. We're not seeing a situation where large numbers of outpatients' operations have been cancelled. But, of course, I fully acknowledge the huge demands that have been made on A&E across the whole of Britain in the past few weeks.
- 'Cymhleth', rwy'n credu, yw'r gair. Mae'n iawn dweud bod yn dal i fod nifer o bobl na ddylent fod yn mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae cymaint â hynny'n wir, ac nid oes pwynt ceisio gwadu hynny—mae hynny'n gywir. Wedi dweud hynny, mae'r pwysau a welsom ar draws y DU gyfan yn ystod yr wythnosau diwethaf wedi bod oherwydd nifer o ffactorau. Un o'r prif ffactorau fu ymddangosiad straen fflw na ragwelwyd gan unrhyw un ac nad oedd yn rhan, rwy'n deall, o'r brechiad a oedd ar gael eleni i ymdrin â fflw. Mae hynny, wrth gwrs, yn cael effaith ddilynol ar draws pob adran damweiniau ac achosion brys. Fel y dywedais yn gynharach, yr anhawster gyda damweiniau ac achosion brys yw ceisio darogan lefel y galw pan fydd y galw hwnnw'n annisgwyl os, er enghraifft, bydd straen newydd o fflw yn ymddangos. Wrth gwrs, rhoddyd cynlluniau ar waith fisoedd ymlaen llaw o ran cynlluniau gaeaf y byrddau iechyd lleol. Mae'r cynlluniau hynny, ar y cyfan, wedi ymdopi. Nid ydym yn gweld sefyllfa lle mae nifer fawr o lawdriniaethau wedi cael eu gohirio. Nid ydym ni'n gweld sefyllfa lle mae nifer fawr o lawdriniaethau cleifion allanol wedi eu gohirio. Ond, wrth gwrs, rwy'n cydnabod yn llawn y galwadau enfawr a wnaed ar adrannau damweiniau ac achosion brys ar draws Prydain gyfan yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf.

13:51

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is interesting, First Minister, that Wales's figures show that just 83% of people are seen within four hours. Your colleagues in London describe figures 10% better than that as a crisis, but whilst poor statistics are one part of the picture, there is a very human side to what is going on in our A&E departments that was highlighted just yesterday by the heartbreaking account of one of the senior nurses in the A&E department here at the university hospital. What she documents is not about inappropriate attendances, but about the inability of the system as a whole to cope with people coming in through the door with a legitimate need. First Minister, many of these patients are elderly, with multiple health conditions. What ideas does your Government have to bolster primary and community services to minimise the numbers of that cohort of patients ending up in A&E departments?

Mae'n ddiddorol, Brif Weinidog, bod ffigurau Cymru yn dangos mai dim ond 83% o bobl sy'n cael eu gweld o fewn pedair awr. Mae eich cydweithwyr yn Llundain yn disgrifio ffigurau sydd 10% yn well na hynny fel argyfwng, ond er mai dim ond un rhan o'r darlun yw ystadegau gwael, ceir ochr ddynol iawn i'r hyn sy'n digwydd yn ein hadrannau damweiniau ac achosion brys a amlygwyd ddoe ddiwethaf gan ddisgrifiad torcalonnus un o'r uwch nyrsys yn yr adran damweiniau ac achosion brys yma yn yr ysbty athrofaol. Nid yw'r hyn y mae'n ei nodi yn ymwneud â phresenoldeb amhriodol, ond anallu'r system yn ei chyfanrwydd i ymdopi â phobl yn dod i mewn drwy'r drws gydag angen diliys. Brif Weinidog, mae llawer o'r cleifion hyn yn oedrannus, â chyflyrau iechyd lluosog. Pa syniadau sydd gan eich Llywodraeth i gryfhau gwasanaethau sylfaenol a chymunedol i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o bobl o'r garfan honno yn gorfod mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:52

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, it is right to say that bolstering primary care is a way of reducing pressure on A&E—not for some people, of course; they will still need to go to A&E. The pressures have been there in Wales. The account that was given by the nurse is correct. There were great pressures in UHW, and in other hospitals. No states of emergency were declared—that much is true—but, nevertheless, the pressures were there. Now, in terms of how we deal with those pressures, she will be aware of the primary care plan that the Ministers have been promoting, and, of course, of the need to ensure greater consistency of access to primary care services across Wales, making sure that there isn't a wide discrepancy in the services provided by different GPs—sometimes in the same town, but certainly in different parts of Wales. That said, of course, we do know that, at this time of year, there will be extra pressure. The pressures that we see at the moment have not been seen for five years, and these pressures are often difficult to predict. Nevertheless, as I say, I would like to pay tribute to the staff who have dealt with those pressures in very, very difficult circumstances for what has been a problem across the whole of this island.

Ydy, mae'n iawn i ddweud bod cryfhau gofal sylfaenol yn ffordd o leihau pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys—nid i rai pobl, wrth gwrs; bydd yn dal angen iddyn nhw fynd i adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae'r pwysau wedi bod yno yng Nghymru. Mae'r disgrifiad a roddwyd gan y nyrs yn gywir. Roedd pwysau mawr yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ac mewn ysbytai eraill. Ni chafodd unrhyw sefyllfaoedd o argyfwng eu datgan—mae cymaint â hynny'n wir—ond, serch hynny, roedd y pwysau yno. Nawr, o ran sut rydym ni'n ymdrin â'r pwysau hwnnw, bydd hi'n ymwybodol o'r cynllun gofal sylfaenol y mae Gweinidogion wedi bod yn ei hyrwyddo, ac, wrth gwrs, o'r angen i sicrhau mwy o gysondeb o ran mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol ar draws Cymru, gan wneud yn siŵr nad oes anghysondeb mawr o ran y gwasanaethau a ddarperir gan wahanol feddygon teulu—weithiau yn yr un dref, ond yn sicr mewn gwahanol rannau o Gymru. Wedi dweud hynny, wrth gwrs, rydym ni yn gwybod, ar yr adeg hon o'r flwyddyn, y bydd pwysau ychwanegol. Ni welwyd y pwysau yr ydym ni'n ei weld ar hyn o bryd ers pum mlynedd, ac mae'r pwysau hyn yn aml yn anodd ei ragweld. Er hynny, fel y dywedais, hoffwn dalu teyrnged i'r aelodau staff sydd wedi ymdrin â'r pwysau hwnnw dan amgylchiadau anodd iawn o ran yr hyn sydd wedi bod yn broblem ar draws yr ynys gyfan hon.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:54

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, unlike your party colleagues in London, I appreciate that these are very complex issues and there is no easy, one-off solution. You know that I have previously called for a commission to secure the long-term future of the NHS that reflects how services need to change to reflect the demographic changes in our society and other pressures that are being put upon the NHS. Would you agree that we need to move forward urgently with such a proposal to ensure that we reduce the pressure on front-line medical staff who are working tirelessly—at great cost, often, to themselves—to provide patients with the best and most appropriate care that we can?

Brif Weinidog, yn wahanol i gydweithwyr eich plaid yn Llundain, rwy'n gwerthfawrogi bod y rhain yn faterion cymhleth iawn ac nad oes un ateb hawdd unwaith ac am byth. Rydych chi'n gwybod fy mod i wedi galw o'r blaen am gomisiwn i sicrhau dyfodol hirdymor y GIG sy'n adlewyrchu sut mae angen i wasanaethau newid i adlewyrchu'r newidiadau demograffig yn ein cymdeithas a phwysau eraill sy'n cael eu rhoi ar y GIG. A fydddech chi'n cytuno bod angen i ni symud ymlaen ar frys gyda chynnyg o'r fath i sicrhau ein bod yn lleihau'r pwysau ar staff meddygol rheng flaen sy'n gweithio'n ddiflino—ar gost fawr, yn aml, iddyn nhw eu hunain—er mwyn darparu'r gofal gorau a mwyaf priodol y gallwn i gleifion?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:54

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I understand the proposal that she's making. Whether she can get all parties to be part of such a commission, of course, is another question, especially, as we know, with an election coming in May, and, indeed, next year, but I appreciate the sentiment behind it. I have to say, last week, one of the things that did surprise me was the comment by the Prime Minister and by the Secretary of State for Health in England that the NHS should not be a political football—fine—when they then proceeded, almost in the same breath, to attack the Welsh NHS. Now, you can't have it both ways. It is important to understand that, if it is not a political football in England, it is not a political football in Wales.

But it is right to say that one of the challenges that all of us in this Chamber will face, regardless of party—and, indeed, in Westminster as well—will be how to deal with ever-increasing demand. With an elderly population, we know that demand in accident and emergency departments has gone up by 69% in the last 10 years, and these things will need mature reflection. There is a temptation for all of us, I know, to look at health and say, 'Well, if this was done, then everything would be resolved'. It's never quite that easy. Meeting that demand in an honest way—and a commission is one possible way of doing that—I think is, potentially, the correct way forward.

Rwy'n deall y cynnig y mae hi'n ei wneud. Cwestiwn arall wrth gwrs yw pa un a all hi gael yr holl bleidiau i fod yn rhan o gomisiwn o'r fath, yn enwedig, fel y gwyddom, gydag etholiad yn dod ym mis Mai, ac, yn wir, y flwyddyn nesaf, ond rwy'n gwerthfawrogi'r teimladau sy'n sail iddo. Mae'n rhaid i mi ddweud, yr wythnos diwethaf, un o'r pethau a wnaeth fy synnu oedd y sylw gan Brif Weinidog y DU a chan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn Lloegr na ddylai'r GIG fod yn bêl-droed wleidyddol—iawn—pan aethant yn eu blaenau wedyn, bron ar yr un anadl, i ymosod ar y GIG yng Nghymru. Nawr, ni allwch ei chael hi bob ffordd. Mae'n bwysig deall hynny, os nad yw'n bêl-droed wleidyddol yn Lloegr, nid yw'n bêl-droed wleidyddol yng Nghymru.

Ond mae'n iawn dweud mai un o'r heriau y bydd pob un ohonom ni yn y Siambr hon yn eu hwynebu, waeth pa blaid—ac, yn wir, yn San Steffan hefyd—fydd sut i ymdrin â galw sy'n cynyddu'n barhaus. Gyda phoblogaeth oedranus, gwyddom fod y galw mewn adrannau damweiniau ac achosion brys wedi cynyddu 69% yn y 10 mlynedd diwethaf, a bydd angen myfyrio mewn modd aeddfed ar y pethau hyn. Mae temtasiwn i bob un ohonom, rwy'n gwybod, i edrych ar iechyd a dweud, 'Wel, pe bai hyn yn cael ei wneud, yna byddai popeth yn cael ei ddatrys'. Nid yw hi byth mor rhwydd â hynny. Rwy'n credu, o bosibl, mai bodloni galw mewn ffordd ddidwyll—ac mae comisiwn yn un ffordd bosibl o wneud hynny—yw'r ffordd iawn ymlaen.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Byron Davies.

Symudwn yn ôl nawr at gwestiynau ar y papur, a daw cwestiwn 3 gan Byron Davies.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

**Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol**

**National Transport Plan**

13:56

**Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer.

Diolch i chi, Lywydd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynllun trafndiaeth cenedlaethol? OAQ(4)2032(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on the national transport plan? OAQ(4)2032(FM)*

13:56

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, it sets out our priorities to ensure that our investment in transport improves economic competitiveness and provides enhanced access to jobs and services.

Gwnaf, mae'n nodi ein blaenoriaethau i sicrhau bod ein buddsoddiad mewn trafndiaeth yn gwella cystadleurwydd economaidd ac yn darparu gwell mynediad at swyddi a gwasanaethau.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

**Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much. There is considerable concern about the deliverability of the national transport plan, in terms of the projects being on time and prevention of overspends. If you look over the border in England, integrated transport areas and integrated transport authorities deliver clear governance arrangements and push through projects successfully. Specifically, can you outline what governance arrangements this Government—your Government—will be putting in place to ensure that this national transport plan is both delivered and prevents any of these scandalous overspends outlined in the Wales Audit Office report ‘Major Transport Projects’?

Diolch yn fawr iawn. Ceir pryder sylweddol am y gallu i ddarparu'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol, o ran sicrhau bod y prosiectau ar amser ac atal gorwariant. Os edrychwch chi dros y ffin yn Lloegr, mae ardaloedd trafndiaeth integredig ac awdurdodau trafndiaeth integredig yn cyflwyno trefniadau llywodraethu eglur ac yn cyflwyno prosiectau'n llwyddiannus. Yn benodol, a allwch chi amlinellu pa drefniadau llywodraethu fydd y Llywodraeth hon—eich Llywodraeth chi—yn eu gwneud i sicrhau bod y cynllun trafndiaeth cenedlaethol hwn yn cael ei ddarparu ac yn atal yr achosion cywilyddus o orwariant hyn a amlinellir yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Prosiectau Trafndiaeth Mawr'?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the consultation is still open, of course; it closes on 11 March, and I am sure that all will have the opportunity to put forward their views as part of that consultation. But the draft NTP interventions include, of course, a commitment to improve the strategic road infrastructure, a commitment, of course, to modernise the rail network—working with the UK Government on that, as well—and, of course, to ensure that we see the delivery of electrification of rail infrastructure in Wales. I have certainly not heard that the plan is undeliverable, but I am sure that the consultation responses will outline the views of those in the industry.

Wel, mae'r ymgynghoriad yn dal ar agor, wrth gwrs; bydd yn dod i ben ar 11 Mawrth, ac rwy'n siŵr y bydd cyfle i bawb fynegi eu barn yn rhan o'r ymgynghoriad hwnnw. Ond mae ymyriadau drafft y Cynllun Trafndiaeth Cenedlaethol yn cynnwys, wrth gwrs, ymrwymiad i wella'r seilwaith ffyrdd strategol, ymrwymiad, wrth gwrs, i foderneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd—gan weithio gyda Llywodraeth y DU ar hynny, hefyd—ac, wrth gwrs, sicrhau ein bod yn gweld cyflawni trydaneiddio'r seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru. Yn sicr, nid wyf wedi clywed na ellir cyflawni'r cynllun, ond rwy'n sicr y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn amlinellu safbwyntiau'r rhai sydd yn y diwydiant.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

**Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Pwrpas cynllun trafndiaeth cenedlaethol ydy creu cysylltiadau effeithiol integredig, effeithiol diogel a chyflym rhwng pob rhan o'r wlad. Rydych wedi cyfeirio at drydaneiddio, ond nid yw trydaneiddio ond yn effeithio ar un coridor yn y de, fel y gwyyddom. Felly, a oes bwriad o gwbl, drwy'r cynllun yma, i gyflymu a gwella'r cysylltiadau rhwng de a gogledd ac, yn wir, rhwng gorllewin a de-ddwyrain Cymru? Er enghraifft, mae'r gwelliannau sy'n digwydd ar y rheilffyrdd rhwng Caer a Wrecsam yn costio £40 miliwn, ond nid yw'n mynd i gyflymu dim, hyd y gwn i, ar y cysylltiad yna, sydd bron yn bedair awr, rhwng Bangor a Chaerdydd. Felly, a oes bwriad gan y Llywodraeth, drwy'r cynllun yma, i wella a chyflymu'r cysylltiadau rhwng de a gogledd Cymru?

The purpose of the national transport plan is to create effective and integrated, safe and speedy connections between every part of the country. You have referred to electrification, but that has an impact on only one corridor, in south Wales, as we know. Is there any intention whatsoever, through this plan, to speed up and improve north-south links, and, in fact, links between the west and south-east of Wales? For example, the improvements happening on the railway between Chester and Wrexham are going to cost £40 million, but won't improve the time taken on the link, which is almost four hours, between Bangor and Cardiff. So, has the Government any intention, through this plan, to improve and facilitate the connections between north and south Wales?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, yn gyntaf, wrth gwrs, byddwn o blaid—. Nid yw hyn yn un o ddyletswyddau na chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, ond byddwn o blaid trydaneiddio rheilffordd y gogledd, sef y brif reilffordd yn y gogledd, ac, wrth gwrs, fel rhan o'r system o ystyried y 'franchise' ymhen tair blynedd, byddai'n rhaid ystyried, wrth gwrs, cysylltiadau rhwng y de a'r gogledd. Mae pethau wedi newid, wrth gwrs, i'r gwel dros y blynyddoedd. Pan ddechreuodd y Cynulliad ym 1999, nid oedd un gwasanaeth yn mynd i'r gogledd o'r de—roedd yn rhaid aros am amser hir yn Amwythig. Mae hynny wedi newid yn sylweddol i'r gorau dros y blynyddoedd, ac, wrth gwrs, bydd y cynllun ei hun, ac, wrth gwrs, y cytundebau a fydd yn cael eu hystyried yn ôl y 'franchise', yn gyfle eto i sicrhau bod y cysylltiadau hynny yn cael eu cryfhau.

Well, first of all, we are in favour of that. This isn't the responsibility of the Welsh Government, but we would be favour of the electrification of the north Wales main line and, of course, as part of the system to consider the franchise in three years' time, we would have to consider north-south links. Things have improved over the years. When the Assembly came into existence in 1999, there wasn't a single service between north and south—you had to wait for a long time in Shrewsbury. That has improved a great deal over the years, and, of course, the plan itself and the agreements that will be considered under the franchise will be an opportunity to ensure that those connections are improved.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

**Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I was delighted when agreement was reached with the UK Government over powers for rail in Wales and the Valleys lines electrification, but I was disappointed that there was a lack of information, really, on rolling stock in the national transport plan published some months later. We still do not know whether we are to have new trains on the Valleys lines or second-hand stock from England, there are overcrowding problems across Wales, as you will know, and, obviously, in 2018, new legislation will come in that will make some of our rolling stock not fit for purpose because of equalities issues. When will your Government now be in a position to publish its own rolling stock strategy, so that we can understand where our trains are actually coming from, to run the services we would wish to see?

Roeddwn i wrth fy modd pan ddaethpwyd i gytundeb gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â phwerau ar gyfer rheilffyrdd yng Nghymru a thrydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, ond roeddwn i'n siomedig bod diffyg gwybodaeth, a dweud y gwir, am gerbydau yn y cynllun trafniadaeth cenedlaethol a gyhoeddwyd rai misoedd yn ddiweddarach. Nid ydym eto'n gwybod pa un a ydym ni am gael trenau newydd ar reilffyrdd y Cymoedd neu gerbydau ail-law o Loegr. Ceir problemau gorlenwi ledled Cymru, fel y gwyddoch, ac, yn amlwg, yn 2018, bydd deddfwriaeth newydd yn cael ei chyflwyno a fydd yn golygu na fydd rhai o'n cerbydau'n addas at eu diben oherwydd materion cydraddoldeb. Pryd fydd eich Llywodraeth mewn sefyllfa i gyhoeddi ei strategaeth gerbydau ei hun, fel y gallwn ddeall o le mae ein trenau'n dod mewn gwirionedd, i redeg y gwasanaethau y byddem ni'n dymuno eu gweld?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:00

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Bear in mind, of course, that this is not, strictly, devolved, and this is something that the franchise agreement will need to address from 2018 onwards. Of course, the resignalling work, for example in Cardiff, and the expansion of Cardiff Queen Street and Cardiff Central stations will give us the opportunity to ensure that more trains—well, more trains will be running anyway on the Valleys Lines networks in the future. Of course, from 2018, we will be able to look again at what is appropriate in terms of improving and enhancing capacity in the railway pinch-points around Wales. What would resolve this, of course, without any doubt would be the devolution of the rail network, so that we have proper and full control over ensuring that we have a rail system in Wales that is within the control of the people of Wales and, of course, is properly financed to provide the service people would expect.

Cofiwch, wrth gwrs, nad yw hyn yn ddatganoledig, mewn gwirionedd, ac mae hyn yn rhywbeth y bydd angen i'r cytundeb masnachfaint ei ystyried o 2018 ymlaen. Wrth gwrs, bydd y gwaith ailosod signalau, er enghraifft, yng Nghaerdydd, ac ehangu gorsafoedd Heol y Frenhines Caerdydd a Chaerdydd Canolog yn rhoi'r cyfle i ni sicrhau bod mwy o drenau—wel, bydd mwy o drenau'n rhedeg beth bynnag ar rwydweithiau Rheilffyrdd y Cymoedd yn y dyfodol. Wrth gwrs, o 2018 ymlaen, byddwn yn gallu edrych eto ar yr hyn sy'n briodol o ran gwella a chynyddu capasiti ar fannau cul y rheilffyrdd ledled Cymru. Yr hyn a fyddai'n datrys hyn, wrth gwrs, heb unrhyw amheuaeth, fyddai datganoli'r rhwydwaith rheilffyrdd, fel bod gennym reolaeth briodol a llawn dros sicrhau bod gennym system rheilffyrdd yng Nghymru sydd dan reolaeth pobl Cymru ac, wrth gwrs, sy'n cael ei hariannu'n briodol i ddarparu'r gwasanaeth y byddai pobl yn ei ddisgwyl.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

## Cyflyrau'r Galon

## Cardiac Conditions

14:00

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drin cyflyrau'r galon yng Nghymru? OAQ(4)2036(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on the treatment of cardiac conditions in Wales? OAQ(4)2036(FM)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:01

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. The heart disease delivery plan sets out action to prevent heart disease and to provide patients with timely access to high-quality care. The latest annual report shows that we are making considerable progress.

Gwnaf. Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer clefyd y galon yn nodi camau i atal clefyd y galon ac i roi mynediad prydlon i gleifion at ofal o ansawdd uchel. Dengys yr adroddiad blynyddol diweddaraf ein bod yn gwneud cynnydd sylweddol.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)



14:01 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you. A recent report shows, too, that only 38% of patients in Wales who have suffered a heart attack, had bypass surgery or angioplasty actually receive cardiac rehabilitation. That is almost 5,000 people who are missing the opportunity to access potentially life-saving intervention. Given that such a service has the potential to reduce cardiac mortality by up to 39%, what is your Welsh Government doing to increase the take-up of cardiac rehabilitation in Wales?

Diolch. Mae adroddiad diweddar hefyd yn dangos mai dim ond 38% o gleifion yng Nghymru sydd wedi dioddef trawiad ar y galon, wedi cael llawdriniaeth ddargyfeiriol neu angioplasti sy'n derbyn adsefydliad cardiaidd mewn gwirionedd. Mae hynny'n bron i 5,000 o bobl nad ydynt yn cael cyfle i gael mynediad at ymyrraeth a allai achub bywydau. O ystyried bod gan wasanaeth o'r fath y potensial i leihau marwolaethau cardiaidd o hyd at 39%, beth mae eich Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar adsefydliad cardiaidd yng Nghymru?

14:01 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I am aware of the British Heart Foundation report on cardiac rehab. It does, of course, make reference to the need for further improvement in some areas, but it also shows that, for patients who have a heart attack and receive I think it's primary percutaneous coronary intervention, the uptake of cardiac rehabilitation is at nearly 80%. What is now needed, of course—and we're aware of the challenge—is to make sure that good practice extends to all cardiac patients, not just those in that category.

Wel, rwy'n ymwybodol o adroddiad Sefydliad Prydeinig y Galon ar adsefydlu cardiaidd. Mae yn cyfeirio, wrth gwrs, at yr angen am welliant pellach mewn rhai meysydd, ond mae hefyd yn dangos, ar gyfer cleifion sy'n cael trawiad ar y galon ac sy'n derbyn, rwy'n credu, ymyrraeth goronaidd sylfaenol drwy'r croen, bod y nifer sy'n manteisio ar adsefydliad cardiaidd bron yn 80%. Yr hyn sydd ei angen nawr, wrth gwrs—ac rydym ni'n ymwybodol o'r her—yw sicrhau bod arfer da yn ymestyn i bob claf cardiaidd, nid y rhai yn y categori hwnnw yn unig.

14:02 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, you mentioned the report by the British Heart Foundation, and, having read that report, what bothers me the most is that the death rate in the most deprived fifth of wards is almost a third higher than in the least deprived fifth. Yesterday, we would have seen in news reports the issue with regard to lower life expectancy in certain deprived areas of the UK, and some of those areas featured are in Wales. So, my question would be: how do we get to grips with measuring outcomes as opposed to, perhaps, looking at the easier options of treatment emanating from your own action plan, given the complexity of these issues?

Brif Weinidog, soniasoch am yr adroddiad gan Sefydliad Prydeinig y Galon, ac, ar ôl darllen yr adroddiad hwnnw, yr hyn sy'n fy mhoeni i fwyaf yw bod y gyfradd farwolaethau yn yr 20% mwyaf difreintiedig o wardiau bron i draean yn uwch nag yn yr 20% lleiaf difreintiedig. Ddoe, byddem ni wedi gweld mewn adroddiadau newyddion y mater yn ymwneud â disgwyliad oes is mewn rhai ardaloedd difreintiedig o'r DU, ac mae rhai o'r ardaloedd hynny a nodwyd yng Nghymru. Felly, fy nghwestiwn i fyddai: sut ydym ni am fynd i'r afael â mesur canlyniadau yn hytrach na, efallai, edrych ar y dewisiadau haws o driniaeth sy'n deillio o'ch cynllun gweithredu eich hun, o ystyried cymhlethdod y materion hyn?

14:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, there are opportunities legislatively, of course, through the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, as one example, and other opportunities as well. Secondly, the rate of heart disease in Wales has dropped significantly over the past 10 years, but there is nevertheless a discrepancy between different parts of Wales, to do with lifestyle. We know, of course, that smoking is by far the biggest killer in terms of heart problems, and other problems as well, and, of course, issues such as too much alcohol, diet—and they are factors that are linked to poverty, that much is true, or partially linked to poverty. We would expect the local health boards, working with primary care providers, to look to address those issues in the future, to close that gap, to make sure that we do not see that kind of gap in the future in terms of heart disease between different parts of Wales.

Wel, ceir cyfleoedd yn ddeddfwriaethol, wrth gwrs, trwy Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), fel un enghraifft, a chyfleoedd eraill hefyd. Yn ail, mae cyfradd clefyd y galon yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf, ond ceir anghysondeb serch hynny rhwng gwahanol rannau o Gymru, yn ymwneud â ffordd o fyw. Rydym ni'n gwybod, wrth gwrs, mai ysmegu yw'r lladdwr mwyaf o bell ffordd o ran problemau'r galon, a phroblemau eraill hefyd, ac, wrth gwrs, materion fel gormod o alcohol, deiet—ac maen nhw'n ffactorau sy'n gysylltiedig â thlodi, mae cymaint â hynny'n wir, neu'n rhannol gysylltiedig â thlodi. Byddem yn disgwyl i'r byrddau iechyd lleol, gan weithio gyda darparwyr gofal sylfaenol, geisio mynd i'r afael â'r materion hynny yn y dyfodol, i gau'r bwlch hwnnw, i wneud yn siŵr nad ydym yn gweld y math hwnnw o fwch yn y dyfodol o ran clefyd y galon rhwng gwahanol rannau o Gymru.

**Cyfarfod gyda Phrif Weinidog y Deyrnas Unedig**

**Meeting with the UK Prime Minister**

- 14:03 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*5. Pryd y bydd y Prif Weinidog yn cynnal ei gyfarfod nesaf gyda Phrif Weinidog y Deyrnas Unedig? OAQ(4)2038(FM)* *5. When will the First Minister hold his next meeting with the UK Prime Minister? OAQ(4)2038(FM)*
- 14:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
 Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gyfarfod â Phrif Weinidog y Deyrnas Unedig. Mae'n siŵr y bydd pethau eraill yn pwysu ar ei feddwl e rhwng nawr a mis Mai.  
 I don't have any plans at present to meet the Prime Minister of the United Kingdom. I am sure that there will be other things weighing on his mind between now and May.
- 14:04 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Roeddwn i'n falch iawn o groesawu'r Prif Weinidog ar ei ymweliad i ailagor tyrbin newydd yn Nolgarrag yn Nyffryn Conwy yn ddiweddar, pan wnaeth e ddatganiadau pwysig ynglŷn ag ynni adnewyddol. Onid yw e'n hen bryd iddo fo lwyddo i berswadio Prif Weinidog y Deyrnas Unedig fod yn rhaid inni weld datganoli grym caniatadau dros gynllunio ar gyfer ynni i Gymru, a hynny cyn cytundeb Gŵyl Ddewi rhwng y pleidiau yma yn y Cynulliad a'r pleidiau a'r Llywodraeth yn San Steffan?  
 I was very pleased to welcome the First Minister on his visit to reopen a new turbine in Dolgarrog in the Conwy Valley recently, when he made some important statements on renewable energy. Isn't it about time that he managed to persuade the Prime Minister of the United Kingdom that we must see the devolution of permissions powers for planning for energy developments in Wales before the St David's Day agreement between the parties here in the Assembly and the parties and the Government at Westminster?
- 14:04 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
 Yn wir. Mae hwn yn rhywbeth, wrth gwrs, sydd yn bolisi Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei rannu gan sawl Aelod yn y Siambr hon. Nid yw'n awyddus bod pobl Cymru heb y rheolaeth dros adnoddau naturiol Cymru yn yr un ffordd â phobl Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hwn yn rhywbeth hollbwysig cyn bod unrhyw gytundeb yn cael ei arwyddo ar Ddydd Gŵyl Dewi.  
 Indeed. This is something, of course, that is Welsh Government policy, which is shared by a number of Members in this Chamber. We are not happy that the people of Wales do not have control over natural resources in the same way as the people of England, Scotland and Northern Ireland. This is imperative before any agreement is signed on St David's Day.
- 14:05 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 First Minister, when you do finally get to meet the Prime Minister, whenever that might be, I'm sure you'll be discussing the preparation for the devolution of taxes to Wales in 2018—fast approaching now, in the wake of the Silk commission. Will you also raise with the Prime Minister the need for closer co-operation during that process, because I'm sure you'll agree this is completely unchartered territory for the Assembly, and there is a need for the close involvement of the Office for Budget Responsibility, a need to discuss with Westminster the potential for tax avoidance happening within Wales within a newly devolved tax framework, and a need for you and the UK Government to make sure that that certainly does not get tax devolution off to a bad start here?  
 Brif Weinidog, pan gewch chi gyfle o'r diwedd i gyfarfod â Phrif Weinidog y DU, pryd bynnag y bydd hynny, rwy'n siŵr y byddwch yn trafod paratoi ar gyfer datganoli trethi i Gymru yn 2018—sy'n prysur agosáu nawr, yn sgil comisiwn Silk. A wnech chi godi hefyd gyda'r Prif Weinidog yr angen am gydweithredu agosach yn ystod y broses honno, oherwydd rwy'n siŵr y byddwch chi'n cytuno bod hwn yn dir cwbl ddieithr i'r Cynulliad, ac mae angen cyfranogiad agos y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, mae angen trafod gyda San Steffan y potensial y bydd achosion o osgoi treth yng Nghymru o fewn fframwaith treth sydd newydd ei ddatganoli, ac mae angen i chi a Llywodraeth y DU wneud yn hollol siŵr nad yw hynny'n golygu cychwyn gwael i ddatganoli treth yma?

14:05

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, yes. I mean, Members will have heard me say on many occasions that the issue of Wales's funding needs to be addressed first before considering how income taxes and in what way income tax powers might be devolved in the future. Of course, we know that part 2 of Silk provided the text, if you like, in terms of further powers for Wales. I have to say that the Smith commission's recommendations have certainly thrown much of Silk up in the air. For example, air passenger duty being devolved to Scotland and not to Wales is highly discriminatory and something we could not possibly tolerate. That said, I do believe that, with the right level of flexibility on both sides, there is the opportunity of an agreement by St David's Day. The issue of underfunding must be agreed and addressed. Issues such as APD have to be dealt with. Long-standing issues such as the devolution of energy consents, already mentioned, have to be agreed as well. I think, with a level of flexibility, there is scope for such an agreement.

Wel, gwnaf. Hynny yw, bydd yr Aelodau wedi fy nghlywed i'n dweud droeon bod angen rhoi sylw i gyllid Cymru yn gyntaf, cyn ystyried sut ac ym mha ffordd y gellid datganoli pwerau treth incwm yn y dyfodol. Wrth gwrs, gwyddom fod rhan 2 Silk wedi darparu'r testun, os mynnwch chi, o ran pwerau ychwanegol i Gymru. Mae'n rhaid i mi ddweud bod argymhellion comisiwn Smith yn sicr wedi codi amheuan am lawer o Silk. Er enghraifft, mae datganoli treth teithwyr awyr i'r Alban, ac nid i Gymru yn wahaniaethol iawn ac yn rhywbeth na allem ni o bosibl ei oddef. Wedi dweud hynny, rwy'n credu, gyda'r lefel gywir o hyblygrwydd ar y ddwy ochr, bod cyfle i gael cytundeb erbyn Dydd Gŵyl Dewi. Mae'n rhaid cytuno a rhoi sylw i'r mater o danariannu. Mae'n rhaid ymdrin â materion fel y Dreth Teithwyr Awyr. Mae'n rhaid hefyd cytuno ar faterion hirsefydlog fel datganoli cydsyniadau ynni, y soniwyd amdano eisoes. Rwy'n credu, gyda lefel o hyblygrwydd, bod cyfle i gael cytundeb o'r fath.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

**William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, it was my privilege to join you, the Secretary of State for Wales, and colleagues around this Chamber at the rally that you referred to earlier in response to Andrew R.T. Davies. Clearly, the attack on the 'Charlie Hebdo' offices and the associated massacres in Paris that took place last week certainly served to renew the debate about managing extremism and dealing with the consequences of alienation that were referred to. In that context, First Minister, will you commit to seeking a meeting with the Prime Minister to discuss the development of the anti-radicalisation programme, particularly drawing on good practice that already exists here in Wales, such, for example, as the Mosaic programme that has been rolled out by National Parks Wales, which has brought great benefit to members of the ethnic minority communities from the great cities of Wales, enjoying and benefiting from the experience that is afforded to them?

Brif Weinidog, roedd yn ffraind i mi ymuno â chi, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a chydweithwyr o bob rhan o'r Siambr hon yn y rali y cyfeiriasoch ati yn gynharach mewn ymateb i Andrew R.T. Davies. Yn amlwg, mae'n sicr bod yr ymosodiad ar swyddfeydd 'Charlie Hebdo' a'r lladdfeydd cysylltiedig a ddigwyddodd ym Mharis yr wythnos diwethaf wedi ailgychwyn y ddaedl am reoli eithafiaeth ac ymdrin â chanlyniadau dieithrio, y cyfeiriwyd atynt. Yn y cyd-destun hwnnw, Brif Weinidog, a wnewch chi ymrwymo i geisio cyfarfod â Phrif Weinidog y DU i drafod datblygiad y rhaglen gwrth-radicalieiddo, gan fanteisio'n benodol ar arfer da sydd eisoes yn bodoli yma yng Nghymru, fel, er enghraifft, y rhaglen Mosaic a gyflwynwyd gan Barciau Cenedlaethol Cymru, sydd wedi dod â budd mawr i aelodau o'r cymunedau lleiafrifoedd ethnig o ddinasoedd mawr Cymru, yn mwynhau ac yn elwa ar y profiad a roddir iddynt?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can assure Members that much of that work is carried out by individual Ministers, dealing with their Westminster counterparts on, as it were, a day-to-day or week-to-week level. I have met with the Prime Minister on several occasions over the course of the past year. Although not on a one-to-one basis, we do get the opportunity to touch base on issues, as we did before Christmas. It is not common for the Prime Minister and me to meet; on these issues, usually these matters are dealt with by individual Ministers, but I can assure Members that they are dealt with.

Gallaf sicrhau'r Aelodau bod llawer o'r gwaith hwnnw'n cael ei wneud gan Weinidogion unigol yn trafod â'u cymheiriaid yn San Steffan o ddydd i ddydd neu o wythnos i wythnos, fel petai. Rwyf wedi cyfarfod â Phrif Weinidog y DU ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er nad ar sail un i un, rydym ni yn cael y cyfle i drafod y diweddaraf ar faterion, fel y gwnaethom cyn y Nadolig. Nid yw'n arferol i Brif Weinidog y DU a minnau gyfarfod; o ran y materion hyn, Gweinidogion unigol sy'n ymdrin â'r materion hyn fel rheol, ond gallaf sicrhau'r Aelodau eu bod yn cael sylw.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

**Taliadau Gwledig**

**Rural Payments**

14:08

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*6. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer taliadau gwledig yn dilyn penderfyniad i ddiddymu'r taliad ar wahân ar gyfer rhostir? OAQ(4)2034(FM)*

*6. Will the First Minister provide an update on the Government's plans for rural payments following a decision to quash the separate payment for moorland? OAQ(4)2034(FM)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:08 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Wel, mae'r trefniadau ar gyfer cynllun y taliad sylfaenol yn 2015 yn dibynnu ar yr opsiynau talu a ddewisir. Mae gwaith modelu ar y gweill, a fydd yn cael ei drafod gyntaf yr wythnos hon gyda'r grŵp modelu, sy'n cynnwys rhanddeiliaid. Unwaith y byddan nhw'n penderfynu ar yr opsiynau terfynol, byddwn ni, wrth gwrs, yn mynd ati wedyn i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn eu cylch.
- Well, the arrangements for the basic payment scheme in 2015 are dependent on the payment options chosen. Modelling work is under way, which will be first discussed with the modelling group, which includes stakeholders, this week. Once they have decided on the final options, we will, of course, then go about holding a public consultation on those options.
- 14:09 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Brif Weinidog, byddwch chi'n gwybod cyn y Nadolig fod barnwr Uchel Lys wedi diddymu'r ddeddfwriaeth ar daliadau sengl newydd yn dilyn sialens gyfreithiol gan ffermwyr Tegwch i'r Ucheldir. Union flwyddyn yn ôl, fe gawsom ni ddatganiad gan y Gweinidog ar y pryd ar y newidiadau i'r taliad sengl. Flwyddyn yn ddiweddarach, rydym ni yr wythnos yma wedi cael datganiad gan y Gweinidog presennol yn dweud bod rhaid dechrau o'r dechrau eto. Mae digon o rybudd wedi'i roi i'r ddau Weinidog yna fod y penderfyniad ar y llinell 400m wedi bod yn benderfyniad mympwyol ac annheg. Mae yna beryg nawr o ddiifri i'ch Llywodraeth chi fedru gwneud y taliadau yn Rhagfyr eleni. Felly, a gaf i ofyn y cwestiwn i chi: pa adnoddau ychwanegol ydych chi fel Llywodraeth yn eu rhoi nawr i'r adran amaeth i sicrhau bod y penderfyniadau a'r mesurau yn cael eu rhoi yn eu lle i ganiatáu taliadau ddiwedd y flwyddyn, achos nid ydym ni'n moyn sefyllfa lle mae ffermwyr Cymru yn gorfod talu'r pris am fethiannau eich Llywodraeth chi dros y flwyddyn ddiwethaf?
- First Minister, you will be aware that, before Christmas, a High Court judge quashed the decision on the new single payments following a legal challenge by farmers from Tegwch i'r Ucheldir. Exactly a year ago, we had a statement from the Minister at the time on the changes to the single payment. A year later, we have this week received a statement from the current Minister saying that we have to start from the beginning once again. Both Ministers had adequate warning that the decision on the 400m line was an arbitrary decision and an unfair decision. There is a real risk now for your Government to be able to make the payments in December of this year. Therefore, can I ask you the question: what additional resources are you as a Government providing now to the agriculture department to ensure that decisions and measures are put in place to ensure that payments are made at the end of this year, because we don't want to find ourselves in a situation where Welsh farmers have to pay the price for your Government's failings over the past year?
- 14:10 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Wel, yn gyntaf, a gaf i ddweud, wrth gwrs, mai'r un faint o arian fydd ar gael, felly, beth bynnag yw'r system, bydd rhai yn elwa a rhai yn colli? Mae hynny'n mynd i ddigwydd.
- Well, first of all, may I say that the same amount of money will be available, and so, whatever the system, some will gain and others will lose out? That's going to happen.
- 14:10 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Ie, ond nid oes gyda chi ddim system.
- Yes, but you don't have a system.
- 14:10 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Ynglŷn â'r taliadau eu hunain, a gaf i ddweud ein bod ni'n dal i anelu i dalu yn y ffenest, sydd wedi bod yn arferol nawr am flynyddau? Wrth gwrs, rwy'n moyn sicrhau—[Torri ar draws.] Wel, mae'r ateb yn cael ei roi i fi gan yr Aelod. Rydym ni'n dal i anelu i gyrraedd y targed hynny ac, wrth gwrs, rydym ni'n deall pa mor bwysig yw hwn i ffermwyr, wrth gofio bod yna bwysau wedi bod mewn rhai rhannau, sef y sector llaeth, ar hyn o bryd, ac mae yna record dda gyda ni dros y blynyddau o dan sawl Gweinidog amaeth ynglŷn â thalu y tu mewn i'r ffenest hynny.
- As regards the payments themselves, may I say that we are still aiming to pay within the window, which has been our custom now for a number of years? Of course, I want to ensure that—[Interruption.] Well, the Member is answering her own question. We're still aiming to reach the target and we understand how important this is for farmers, considering the pressure in some parts, such as the dairy sector, and we have a good track record over a number of years and under several Ministers for agriculture for making the payments within the window.

- 14:11 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Can I thank the First Minister for the Government statement yesterday on the basic payment scheme? It's clear from that statement that time is constrained and that there is going to be a financial impact for farmers at the start of the next window in December. So, can I ask what time frame the Government is realistically working towards to generate and gain approval for the new payment scheme options, and what contingency plans you're working on now to minimise the payment impact at the end of this year?
- A gaf fi ddiolch i'r Prif Weinidog am ddatganiad y Llywodraeth ddoe ar y cynllun taliadau sylfaenol? Mae'n amlwg o'r datganiad hwnnw bod amser yn brin ac y bydd effaith ariannol i ffermwyr ar ddechrau'r ffenestr nesaf ym mis Rhagfyr. Felly, a gaf fi ofyn pa amserlen mae'r Llywodraeth yn gweithio'n unol â hi'n realistig i lunio a chael cymeradwyaeth i'r dewisiadau o ran y cynllun taliadau newydd, a pha gynlluniau wrth gefn ydych chi'n gweithio arnyn nhw ar hyn o bryd i sicrhau bod yr effaith ar daliadau cyn lleied â phosibl ddiwedd y flwyddyn hon?
- 14:11 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- We are aware of the potential impact, and we are working to make sure that there is no impact, and that those payments are made on time. As I said to the Member for Ceredigion earlier, we do understand how important it is for farmers to receive that part of their income, and, of course, to enable us to keep up the good record that Wales has had over the years in paying on time.
- Rydym ni'n ymwybodol o'r effaith bosibl, ac rydym ni'n gweithio i wneud yn siŵr nad oes unrhyw effaith, a bod y taliadau hynny'n cael eu gwneud yn brydlon. Fel y dywedais wrth yr Aelod dros Geredigion yn gynharach, rydym ni'n deall pa mor bwysig yw hi i ffermwyr dderbyn y rhan honno o'u hincwm, ac, wrth gwrs, i'n galluogi i barhau'r hanes da y bu gan Gymru dros y blynyddoedd o ran talu'n brydlon.
- 14:11 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Brif Weinidog, rydych chi'n derbyn bod y taliadau yma'n bwysig. Hefyd, mae datganiad y Dirprwy Weinidog wedi ei gwneud hi'n amlwg bod yna beryg bod y taliadau ddim yn mynd i gael eu gwneud ym mis Rhagfyr 2015. Rwy'n meddwl mai beth sydd angen i ffermwyr ei wybod ydy'r amserlen benodol gan y Llywodraeth, fel eu bod nhw'n gallu cynllunio ymlaen llaw. Wrth sylweddoli faint o'r arian yma y maen nhw'n dibynnu arno, yr amserlen sy'n bwysig. Rydym ni'n derbyn bod yn rhaid ichi weld yr opsiynau, ond mae'n rhaid i ffermwyr wybod yn union erbyn pryd fydd y Llywodraeth yn penderfynu ar ba opsiwn sy'n symud ymlaen. Hefyd, pryd fyddwch chi'n gwybod yn union os oes yna beryg bod y taliadau ddim yn mynd i gael eu gwneud ym mis Rhagfyr?
- First Minister, you accept that these payments are important. The Deputy Minister's statement also made it clear that there is a risk now that these payments won't be made in December 2015. I think that what farmers need to know is the specific Government timetable, so that they can plan ahead. While understanding how much they depend on this funding, it is the timetable that is important. We accept that you have to consider the options, but farmers need to know exactly when the Government will make a decision as to which option is to proceed. Also, when will you know exactly whether there is a risk that the payments won't be made in December?
- 14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Bydd y grŵp modelu data yn ystyried yr opsiynau mewn tri diwrnod. Bydd yna ymgynghoriad wedyn ar opsiynau newydd; y targed yw i hwnnw ddechrau ym mis Mawrth. Felly, mae yna gyfle i sicrhau bod system newydd mewn lle a sicrhau bod y taliadau yn cael eu gwneud ddiwedd y flwyddyn hyn.
- The data modelling group will consider the options in three days. There will then be a consultation on the new options; the target is for that to start in March. So, there will be an opportunity to ensure that the new system is in place and ensure that the payments are made at the end of this year.
- 14:13 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, with a timetable of March, business plans that farmers made many, many months ago, based on the announcements of the previous Minister, are now being ripped up and put in the bin. Their businesses are being impacted, and what's more, farmers are being told not just that there's a potential delay in payment, but actually that their payments are going to be potentially reduced from their business planning that they did previously. Isn't it time, therefore, for you to reconsider at the same time your 15% modulation in order to mitigate that impact on Welsh farmers? Once again, Welsh farmers are in a position where they are worse off than their competitors, not only in the rest of the UK, but also in Europe.
- Brif Weinidog, gydag amserlen o fis Mawrth, mae cynlluniau busnes a wnaed gan ffermwyr fisoedd lawer iawn yn ôl, yn seiliedig ar gyhoeddiadau'r Gweinidog blaenorol, bellach yn cael eu rhwygo a'u rhoi yn y bin. Mae eu busnesau'n cael eu heffeithio, ac yn ogystal â hynny, mae ffermwyr yn cael eu hysbysu nid yn unig fod yna oedi posibl i'r taliadau ond bod eu taliadau o bosibl yn mynd i gael eu lleihau o'r cynllunio busnes a wnaed ganddynt yn gynharach. Onid yw'n bryd, felly, i chi ailystyried ar yr un pryd eich modiweiddio o 15% er mwyn lliniaru'r effaith honno ar ffermwyr Cymru? Unwaith eto, mae ffermwyr Cymru mewn sefyllfa lle maen nhw'n waeth eu byd na'u cystadleuwyr, nid yn unig yng ngweddill y DU, ond yn Ewrop hefyd.

14:13

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, first of all, let's bear in mind that any system that is different from the one that was proposed is bound to see some people winning and some people losing. That's inevitable with any new system. Of course, we will have to wait and see what the consultation responses are in March. Businesses base their business plans on what they think the price of their product is going to be, and it's important, as we look to see farming become more sustainable in the future, that we provide farming businesses with the opportunity to become more business-oriented than they are now, having to rely less on subsidies, which are important at the moment. Businesses in Wales, farming businesses, cannot live without them; I know that full well. It's important that we improve the sustainability of farming businesses in the future, and the money to do that comes, for example, from modulation, to make sure that farming becomes less reliant on public subsidy and is able to ensure that farming becomes more robust and reliant on the market in the future, as any other business does. Modulation, I have to say, provides the money in order to do that, but I do take the point that it's exceptionally important to provide certainty as soon as possible.

Wel, yn gyntaf oll, gadewch i ni gofio bod unrhyw system sy'n wahanol i'r un a gynigiwyd yn siŵr o weld rhai pobl yn ennill a rhai pobl yn colli. Mae hynny'n anochel gydag unrhyw system newydd. Wrth gwrs, bydd yn rhaid i ni aros i weld beth fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Mawrth. Mae busnesau'n seilio eu cynlluniau busnes ar yr hyn y maen nhw'n ei gredu fydd pris eu cynnyrch, ac mae'n bwysig, wrth i ni edrych i geisio gwneud ffermio'n fwy cynaliadwy yn y dyfodol, ein bod yn cynnig y cyfle i fusnesau ffermio ganolbwyntio mwy ar fusnes nag y maen nhw ar hyn o bryd, gan orfod dibynnu llai ar gymorthdaliadau, sy'n bwysig ar hyn o bryd. Ni all busnesau yng Nghymru, busnesau ffermio, fyw hebddynt; rwy'n gwybod hynny'n iawn. Mae'n bwysig ein bod ni'n gwella cynaliadwyedd busnesau ffermio yn y dyfodol, a daw'r arian i wneud hynny, er enghraifft, o fodiwleiddio, i wneud yn siŵr bod ffermio'n mynd yn llai dibynnol ar gymorthdaliadau cyhoeddus ac yn gallu sicrhau bod ffermio yn dod yn fwy cadarn a dibynnol ar y farchnad yn y dyfodol, fel y mae unrhyw fusnes arall yn ei wneud. Mae modiwleiddio, mae'n rhaid i mi ddweud, yn darparu'r arian i wneud hynny, ond rwy'n derbyn y pwynt ei bod yn eithriadol o bwysig darparu sicrwydd cyn gynted â phosibl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Arferion Ffordd o Fyw Dynion o Gaerffili**

**Lifestyle Habits of Men from Caerphilly**

14:15

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am astudiaeth Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd ynghylch arferion ffordd o fyw dynion o Gaerffili? OAQ(4)2025(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the Cardiff University School of Medicine study into the lifestyle habits of men from Caerphilly? OAQ(4)2025(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:15

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, it's a very precise question that the Member asks. The study does provide hard evidence that a healthy life improves people's quality of life and, of course, lowers their risk of developing chronic illnesses. I believe that the Minister did make a statement on this at the end of November last year.

Wel, mae'n gwestiwn penodol iawn y mae'r Aelod yn ei ofyn. Mae'r astudiaeth yn darparu tystiolaeth gadarn bod bywyd iach yn gwella ansawdd bywyd pobl ac, wrth gwrs, yn lleihau eu risg o ddatblygu salwch cronig. Rwy'n credu bod y Gweinidog wedi gwneud datganiad ar hyn ddiwedd mis Tachwedd y llynedd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:15

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister, for your response. I'm always very pleased when a study comes out and says exactly what I've been saying for some time. [Laughter.] The report highlights the importance of lifestyle, especially the benefit of not smoking and exercise. What action is the Welsh Government planning to get people to improve their lifestyles?

Diolch i chi, Brif Weinidog, am eich ymateb. Rwyf bob amser yn falch iawn pan fydd astudiaeth yn cael ei chyhoeddi ac yn dweud yn union beth yr wyf i wedi bod yn ei ddweud ers cryn amser. [Chwerthin.] Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd ffordd o fyw, yn enwedig y fantais o beidio ag ysmegu ac o wneud ymarfer corff. Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd i gael pobl i wella eu ffordd o fyw?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



14:15

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

In some ways, I suppose, the study confirmed what I suppose many of us would already know, but the Member asked what the Government is proposing to do in response. The public health White Paper gives us the opportunity to take forward legislation and will help to improve public health, whether it's through smoking or through alcohol consumption, and of course there are other possibilities that exist through the Well-being of Future Generations (Wales) Bill. They have already been put forward in terms of the Children and Families (Wales) Measure 2010, the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2010 and, of course, the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2009 that was implemented in, I think, 2013. So, a number of legislative actions have already been taken. There are still opportunities that exist, particularly through forthcoming legislation, to help to address the problem of poor lifestyle and to help to close the gap, as already mentioned by the Member opposite, between different parts of Wales when it comes to healthy life expectancy.

Mewn rhai ffyrdd, mae'n debyg, cadarnhaodd yr astudiaeth yr hyn y mae'n debyg y byddai llawer ohonom ni'n ei wybod eisoes, ond gofynnodd yr Aelod beth mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud mewn ymateb. Mae'r Papur Gwyn iechyd y cyhoedd yn rhoi'r cyfle i ni ddatblygu deddfwriaeth a bydd yn helpu i wella iechyd y cyhoedd, boed hynny yn ymwneud ag ysmegu neu yfed alcohol, ac wrth gwrs ceir posibiladau eraill sy'n bodoli trwy Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Maen nhw wedi eu cyflwyno eisoes o ran Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2010 ac, wrth gwrs, Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 a roddwyd ar waith yn 2013, rwy'n meddwl. Felly, cymerwyd nifer o gamau gweithredu deddfwriaethol eisoes. Mae cyfleoedd yn dal i fodoli, yn enwedig trwy ddeddfwriaeth sydd ar ddod, i helpu i fynd i'r afael â'r broblem o ffordd wael o fyw a helpu i gau'r bwlch, fel y soniwyd eisoes gan yr Aelod gyferbyn, rhwng gwahanol rannau o Gymru pan ddaw i ddisgwyliad oes iach.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

**William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you'll recall that this unique study showed that, following four or five health steps—a balanced diet, exercise, not smoking, healthy body weight and low alcohol—resulted, as the Minister said in the statement, in them being 70% less likely to have developed diabetes, 60% less likely to have a heart attack, 40% less likely to have a stroke and 60% less likely to develop dementia; a really interesting study. Sadly, 'Living Well, Living Longer', produced recently, seems to suggest that we are not living any more healthily than we were in 1979. What does the First Minister intend to do to publicise these good measures to have a more healthy 2015?

Brif Weinidog, byddwch yn cofio bod yr astudiaeth unigryw hon wedi dangos, bod dilyn pedwar neu bum cam iechyd—deiet cytbwys, ymarfer corff, peidio ag ysmegu, pwysau corff iach ac alcohol isel—wedi arwain, fel y dywedodd y Gweinidog yn y datganiad, iddynt fod 70% yn llai tebygol o fod wedi datblygu diabetes, 60% yn llai tebygol o gael trawiad ar y galon, 40% yn llai tebygol o gael strôc a 60% yn llai tebygol o ddatblygu dementia; astudiaeth ddiddorol iawn. Yn anffodus, mae'n ymddangos bod 'Byw yn Dda, Byw'n Hirach', a gynhyrchwyd yn ddiweddar, yn awgrymu nad ydym yn byw bywyd iachach nag oeddem ni ym 1979. Beth mae'r Prif Weinidog yn bwriadu ei wneud i roi cyhoeddusrwydd i'r mesurau da hyn er mwyn cael 2015 iachach?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, of course, the drop in heart disease would indicate certainly that there have been successes in terms of promoting better lifestyles. There are some challenges. I mean, the rate of smoking has dropped dramatically compared to what it would have been—what I remember as a child—when it was almost compulsory in almost any public building. Even in hospitals, doctors would walk around with a pipe in their mouths. Those days have changed, thankfully for the better. People are far more aware of the dangers of alcohol consumption than they were, although the issue of binge drinking remains, and of course the issue of diet is linked to income. That is something that can be quite difficult to break. That said, we've been promoting exercise now for many, many years, and the fact that we see the drop in the rate of heart disease gives us cause for optimism that the message, although perhaps not fully implemented by everybody, is much better understood.

Wel, wrth gwrs, byddai'r gostyngiad mewn achosion o glefyd y galon yn dangos yn bendant y bu llwyddiannau o ran hybu gwell ffyrdd o fyw. Ceir rhai heriau. Hynny yw, mae'r gyfradd ysmegu wedi gostwng yn sylweddol o'i chymharu â'r hyn y byddai wedi bod—yr hyn rwy'n ei gofio fel plentyn—pan roedd hi bron yn orfodol yn unrhyw adeilad cyhoeddus bron. Hyd yn oed mewn ysbytai, byddai meddygon yn cerdded o gwmpas gyda chetyn yn eu cegau. Mae'r dyddiau hynny wedi newid, er gwell diolch i'r drefn. Mae pobl yn llawer mwy ymwybodol o beryglon yfed alcohol nag yr oeddent, er bod y mater o oryfed mewn pyliau yn parhau, ac mae'r mater o ddeiet yn gysylltiedig ag incwm wrth gwrs. Mae hynny'n rhywbeth sy'n gallu bod yn eithaf anodd ei newid. Wedi dweud hynny, rydym ni wedi bod yn hyrwyddo ymarfer corff ers blynnyddoedd lawer iawn erbyn hyn, ac mae'r ffaith ein bod yn gweld y gostyngiad yn y gyfradd o glefyd y galon yn rhoi achos i ni fod yn galonogol bod dealltwriaeth llawer gwell o'r neges, er nad yw'n cael ei dilyn yn llawn gan bawb efallai.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

**Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, First Minister, people, of course, don't respond to being lectured about their health by politicians and the so-called experts. My personal bad habit of eating my own body weight in cheese is now under review. [Laughter.] But seriously, what efforts will the Welsh Government be making to arrange for men who took part in the Caerphilly health survey to visit schools and further education colleges to spread the word amongst young people about the huge benefits of living a healthy lifestyle? It may be too late for some of us, but it's not too late for our young people.

Wel, Brif Weinidog, nid yw pobl, wrth gwrs, yn ymateb i wleidyddion a'r arbenigwyr tybiedig yn traethu wrthynt am eu hiechyd. Mae fy arfer gwael personol o fwyta pwysau fy nghorff fy hun mewn caws yn cael ei adolygu bellach. [Chwerthin.] Ond o ddifrif, pa ymdrechion fydd Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i drefnu i ddynion a gymerodd ran yn arolwg iechyd Caerffili ymweld ag ysgolion a cholegau addysg bellach i ledaenu'r gair ymhlith pobl ifanc ynglŷn â'r manteision enfawr o fyw bywyd iach? Efallai ei bod yn rhy hwyr i rai ohonom, ond nid yw'n rhy hwyr i'n pobl ifanc.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I do sympathise. I'm sure that help is at hand for the Member to deal with his unfortunate condition. He makes an important point. I think that young people are far more aware now in terms of the curriculum, whether it's in terms of what they're taught in terms of design and technology courses in terms of food technology or what they're taught in PE these days. I mean, PE was, 'Go and run around the field and kick the ball around'. Now there is much more thought given to physiology than was previously the case, and of course there are the decisions that have been taken with healthy eating in schools with the Measure to make sure that foods are healthier in school and that young people are more aware of the need to eat healthily. It's difficult to combat advertising and peer pressure in terms of the availability of fast food, which is much more widely available actually than it was in the 1970s, in terms of some of the companies we have in Wales that weren't here in the 1970s. That said, I do believe that the message is certainly understood. The next step now is to make sure that the message is actually implemented.

Rwy'n cydymdeimlo. Rwy'n siŵr bod cymorth wrth law i'r Aelod ymdrin â'i gyflwr anffodus. Mae'n gwneud pwynt pwysig. Rwy'n credu bod pobl ifanc yn llawer mwy ymwybodol erbyn hyn o ran y cwricwlwm, pa un a yw'n ymwneud â'r hyn a addysgir iddyn nhw o ran cyrsiau dylunio a thechnoleg o ran technoleg bwyd neu'r hyn a addysgir iddyn nhw mewn addysg gorfforol y dyddiau hyn. Hynny yw, 'Ewch i redeg o amgylch y cae a chicio'r bêl o gwmpas' oedd addysg gorfforol. Rhoddid llawer mwy o ystyriaeth i ffisioleg erbyn hyn nag oedd yn wir yn y gorffennol, ac wrth gwrs mae penderfyniadau wedi'u gwneud gyda bwyta'n iach mewn ysgolion gyda'r Mesur i sicrhau bod bwydydd yn iachach yn yr ysgol a bod pobl ifanc yn fwy ymwybodol o'r angen i fwyta'n iach. Mae'n anodd brwydro yn erbyn hysbysebu a phwysau gan gyfoedion o ran y bwyd cyflym sydd ar gael, ac sydd ar gael yn llawer mwy eang nag yr oedd yn y 1970au a dweud y gwir, o ran rhai o'r cwmnïau sydd gennym ni yng Nghymru nad oeddent yma yn y 1970au. Wedi dweud hynny, rwy'n credu'n sicr bod dealltwriaeth o'r neges. Y cam nesaf erbyn hyn yw gwneud yn siŵr bod y neges yn cael ei rhoi ar waith yn ymarferol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

**Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, will you join me in congratulating Dr Peter Elwood, who has led the 35-year study and the large cohort of men from Caerphilly, most of whom are my constituents? Do you agree with me that, indeed, if the five key steps—and we have mentioned smoking, lowering alcohol intake, maintaining a healthy weight, eating a balanced diet and exercising—were, indeed, followed more generally, not only would it lead to a healthier and better lifestyle for most people, but, of course, it could significantly reduce the costs for the NHS?

Brif Weinidog, a wnewch ymuno â mi i longyfarch Dr Peter Elwood, sydd wedi arwain yr astudiaeth 35 mlynedd a'r garfan fawr o ddynion o Gaerffili, y rhan fwyaf ohonynt yn etholwyr i mi? A ydych chi'n cytuno â mi, mewn gwirionedd, pe byddai'r pum cam allweddol—ac rydym ni wedi crybwyll smygu, lleihau yfed alcohol, cynnal pwysau iach, bwyta deiet cytbwys a gwneud ymarfer corff—yn cael eu dilyn yn fwy cyffredinol, nid yn unig y byddai hynny'n arwain at ffordd o fyw iachach a gwell i'r rhan fwyaf o bobl, ond, wrth gwrs, gallai leihau'r costau i'r GIG yn sylweddol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That has to be self-evidently true. The study is very different, because it is such a long study over such a long period of time, and it does confirm what many have believed and that is that lifestyle has a strong effect not just on life expectancy, but on a healthy life expectancy. The measures that I have already outlined—both legislative measures and, of course, the other measures through regulation—are having an effect, we believe, on ensuring that the results of the study are acted on. Of course, the Minister made that statement at the end of November in response to the study.

Mae'n rhaid i hynny fod yn wir yn hunanamlwg. Mae'r astudiaeth yn wahanol iawn, gan ei bod yn astudiaeth mor hir dros gyfnod mor hir o amser, ac mae'n cadarnhau'r hyn y mae llawer wedi ei gredu, sef bod ffordd o fyw yn cael effaith gref, nid yn unig ar ddisgwyliad oes, ond ar ddisgwyliad oes iach. Mae'r mesurau yr wyf eisoes wedi'u hamlinellu—mesurau deddfwriaethol ac, wrth gwrs, y mesurau eraill drwy reoleiddio—yn cael effaith, yn ein barn ni, ar sicrhau y cymerir camau ar sail canlyniadau'r astudiaeth. Wrth gwrs, gwnaeth y Gweinidog y datganiad hwnnw ddiweddd mis Tachwedd mewn ymateb i'r astudiaeth.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:21 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

## **Business Statement and Announcement**

Y [Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

### **Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 2, which is a business statement and I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Symudwn nawr at eitem 2, sef datganiad busnes a galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

14:21 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Diolch, Lywydd. There have been two changes to this week's business. I will make a statement on the autumn statement consequential allocations immediately after this business statement. Prior to the debate on the local government settlement 2015-16 later this afternoon, the Minister for Public Services will move a motion to suspend Standing Orders so that the Assembly can debate the Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) (No. 2) Order 2014. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement that can be found among the agenda papers and available to Members electronically.

Diolch, Lywydd. Bu dau newid i fusnes yr wythnos hon. Byddaf yn gwneud datganiad am ddyraniadau canlyniadol datganiad yr hydref yn syth ar ôl y datganiad busnes hwn. Cyn y ddadl ar setliad llywodraeth leol 2015-16 yn hwyrach y prynhawn yma, bydd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnig cynnig i atal Rheolau Sefydlog fel y gall y Cynulliad drafod Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2014. Mae busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y g welir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda ac mae ar gael i'r Aelodau yn electronig.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:22 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Business Minister, I would be grateful if you could ask the Minister for Health and Social Services to bring forward an urgent statement on the impact of the revised neonatal services in the Hywel Dda Local Health Board area. It has almost been 12 months since the Minister took the decision to close the special care baby unit at Withybush hospital and, in that statement, he committed to publishing an independent evaluation of the impact of those changes and what he called newborn outcomes and patient experiences.

Weinidog Busnes, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno datganiad brys ar effaith y gwasanaethau newyddenedigol diwygiedig yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Mae bron i 12 mis wedi mynd heibio ers i'r Gweinidog wneud y penderfyniad i gau'r uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Llwynhelyg ac, yn y datganiad hwnnw, fe ymrwymodd i gyhoeddi gwerthusiad annibynnol o effaith y newidiadau hynny a'r hyn a alwodd yn ganlyniadau i'r newydd-anedig a phrofiadau cleifion .

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

From the correspondence that I've received, I can say to you that the effect of these changes on patient experiences has certainly not been a good one. Now, the Welsh Government has promised to provide an independent evaluation of these changes, and given that it's been a year since the Minister's initial statement, I'd ask the health Minister to bring forward an oral statement as soon as possible outlining the impact of these changes in the interests of transparency.

O'r ohebiaeth yr wyf wedi ei derbyn, gallaf ddweud wrthy ch yn sicr nad yw effaith y newidiadau hyn ar brofiadau cleifion yn dda. Bellach, mae Llywodraeth Cymru wedi addo darparu gwerthusiad annibynnol o'r newidiadau hyn, ac o ystyried bod blwyddyn wedi mynd heibio ers datganiad cychwynnol y Gweinidog, rwyf yn gofyn i'r Gweinidog iechyd gyflwyno datganiad llafar cyn gynted ag y bo modd yn amlinellu effaith y newidiadau hyn er budd tryloywder.

14:22 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I thank Paul Davies for that question, and clearly, that commitment to an independent evaluation will be met and, of course, the points made will be acknowledged by the health Minister.

Wel, diolchaf i Paul Davies am y cwestiwn yna, ac yn amlwg, bydd yr ymrwymiad hwnnw i werthusiad annibynnol yn cael ei fodloni ac, wrth gwrs, bydd y pwyntiau a wnaed yn cael eu cydnabod gan y Gweinidog iechyd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:23

**Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I would request an update from the Welsh Government on the roll-out of next generation broadband across Wales. I've recently been contacted by residents and businesses of Abercynon and Cwmaman in my constituency about what have been perceived as delays in upgrading to superfast broadband. I would be keen to know how the Welsh Government is liaising to ensure that this goes to plan and also how we can make sure that people are fully informed about what is going on; there is a lot of frustration out there at the moment. Next generation broadband offers the opportunity to be a real game changer for our communities and economy, so I would like to know how the Welsh Government can ensure a constituency like mine in Cynon Valley can benefit from this.

Weinidog, gofynnaf am y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar y broses o gyflwyno'r genhedlaeth nesaf o fand eang ledled Cymru. Mae trigolion a busnesau o Abercynon a Chwmaman yn fy etholaeth wedi cysylltu â mi'n ddiweddar am yr hyn a ystyrir yn oedi wrth uwchraddio i fand eang cyflym iawn. Rwyf yn awyddus i gael gwybod sut mae Llywodraeth Cymru yn cydgyssylltu i sicrhau bod hyn yn digwydd yn unol â'r cynlluniau a hefyd sut y gallwn wneud yn siŵr bod pobl yn cael gwybodaeth lawn am yr hyn sy'n digwydd; mae llawer o rwystredigaeth allan yna ar hyn o bryd. Mae'r genhedlaeth nesaf o fand eang yn cynnig y cyfle i roi hwb gwirioneddol i'n cymunedau a'n heconomi, felly hoffwn wybod sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod etholaeth fel fy un i yng Nghwm Cynon yn gallu elwa ar hyn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Cynon Valley for her question. Of course, parts of the country are being upgraded under BT and other commercial operators' own investment programmes and, of course, some of these would be within the Cynon Valley. The Superfast Cymru website identifies the commercially upgraded exchanges, but we are, of course, as you say, making broadband access more widely available to residents and businesses across Wales, and the roll-out, of course, of the Superfast Cymru programme began in earnest in Bangor in January 2013 and is progressing well. The Deputy Minister for Skills and Technology will provide a written update on the Superfast Cymru programme in February.

Diolch i'r Aelod dros Gwm Cynon am ei chwestiwn. Wrth gwrs, mae rhannau o'r wlad yn cael eu huwchraddio dan raglenni buddsoddi eu hunain BT a gweithredwyr masnachol eraill ac, wrth gwrs, byddai rhai o'r rhain yng Nghwm Cynon. Mae gwefan Cyflymu Cymru yn nodi'r cyfnewidfydd sydd wedi eu huwchraddio'n fasnachol, ond rydym, wrth gwrs, fel y dywedwch, yn sicrhau bod band eang ar gael yn ehangach i drigolion a busnesau ledled Cymru, a dechreuodd y broses o gyflwyno'r rhaglen Cyflymu Cymru o ddirif ym Mangor ym mis Ionawr 2013 ac mae hynny'n mynd rhagddo'n dda. Bydd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg yn darparu diweddariad ysgrifenedig ar raglen Cyflymu Cymru ym mis Chwefror.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

**Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I wonder whether we could have a statement on the literacy and numeracy framework, specifically in relation to the report from Estyn with regard to the standards of 11 to 14-year-olds. In every conversation I've had with the Welsh Government, they've told me that standards are adequate, but, in this report, standards are said to be modest and there's a lack of time and support for teachers with regard to the literacy and numeracy framework. I've been told consistently that enough is being put into the system, but then it would be too costly to put anything more into the system. Can we really get an understanding as to how long we're supposed to give the Welsh Government for progress in this particular area?

Weinidog, tybed a allem ni gael datganiad ar y fframwaith llythrennedd a rhifedd, yn benodol o ran yr adroddiad gan Estyn ynglŷn â safonau plant 11 i 14 oed. Ym mhob sgwrs yr wyf wedi ei chael gyda Llywodraeth Cymru, maen nhw wedi dweud wrthyf fod y safonau'n ddigonol, ond, yn yr adroddiad hwn, dywedir mai cymedrol yw'r safonau'n a bod diffyg amser a chefnogaeth i athrawon o ran y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Dywedwyd wrthyf yn gyson bod digon yn cael ei roi i mewn i'r system, ond y byddai'n rhy gostus i roi unrhyw beth arall i mewn i'r system. A allwn ni gael gwir ddealltwriaeth o ran faint o amser yr ydym i fod i'w roi i Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r maes penodol hwn?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:25

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, Estyn is there in order to provide that kind of update in terms of understanding how the implementation of the numeracy and literacy standards is being delivered. Of course, the Minister will respond to that in terms of questions and, of course, respond to the Estyn report.

Wrth gwrs, mae Estyn yno i ddarparu'r math hwnnw o ddiweddariad o ran deall sut mae'r broses o weithredu'r safonau rhifedd a llythrennedd yn cael ei chyflawni. Wrth reswm, bydd y Gweinidog yn ymateb i hynny o safbwynt cwestiynau ac, wrth reswm, yn ymateb i adroddiad Estyn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:25

**Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Minister, ambulance response times for the most urgent calls in Wales fell well below Welsh Government targets in November at just 51%, as I'm sure you will be aware. But, in Rhondda Cynon Taf, in my own region, that figure was just 37%. Two thirds of patients in Rhondda Cynon Taf with the most immediately life-threatening conditions had to wait more than they should have. It was more than half of those patients in your own constituency, Minister, as I am sure you're aware, but, month after month, Rhondda Cynon Taf is at the bottom of the table in Wales—it falls well, well, well below Welsh Government targets. I think we're well beyond the point where we can brush it aside as an issue of winter pressures here. I wonder if I could urge the health Minister to please investigate why it is that Rhondda Cynon Taf suffers so badly with its ambulance response times. Could we request that he comes to the Chamber with a statement on what he discovers?

Diolch, Lywydd. Weinidog, roedd amseroedd ymateb ambiwlansys ar gyfer y galwadau â mwyaf o frys yng Nghymru yn llawer is na thargedau Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd, sef 51% yn unig, fel y gwyddoch rwy'n siŵr. Ond, yn Rhondda Cynon Taf, fy rhanbarth i, 37% yn unig oedd y ffigur hwnnw. Roedd dwy ran o dair o gleifion Rhondda Cynon Taf a oedd â chyflyrau a oedd yn rhoi eu bywydau yn y fantol wedi gorfod aros yn hirach nag y dylent. Roedd yn fwy na hanner y cleifion hynny yn eich etholaeth chi eich hun, Weinidog, fel y gwyddoch rwy'n siŵr, ond, fis ar ôl mis, mae Rhondda Cynon Taf ar waelod y tabl yng Nghymru—mae'n llawer, llawer, llawer is na thargedau Llywodraeth Cymru. Rwy'n credu ein bod ymhell y tu hwnt i'r pwynt lle gallwn anwybyddu hyn a'i alw'n broblem o ganlyniad i bwysau'r gaeaf. Tybed a allwn i annog y Gweinidog iechyd i ymchwilio pam mae Rhondda Cynon Taf yn dioddef mor wael gyda'i amseroedd ymateb ambiwlansys. A gawn ni ofyn iddo ddod i'r Siambr gyda datganiad am yr hyn y bydd yn ei ddarganfod?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:26

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Eluned Parrott for that question. Of course, these are very tough times for ambulance services across the UK. The latest response time figures are not where the ambulance service, health boards or the public would want them to be. I think if you look at the steps that have been taken to improve the ambulance service, £7.5 million has been made available for the recruitment of more than 120 front-line staff. Also, to recognise, the number of calls per day categorised as immediately life threatening in Wales was 2.4% higher every day in November 2014—and that's November; obviously not taking into account December—compared with October 2014. The number of category A calls responded to equates to approximately one call every three minutes. That does give a sense of just how busy the ambulance service is.

Diolchaf i Eluned Parrott am y cwestiwn yna. Wrth gwrs, mae hwn yn gyfnod anodd iawn i wasanaethau ambiwlans ym mhob rhan o'r DU. Nid yw'r ffigurau diweddaraf am amseroedd ymateb yn nodi'r hyn y byddai gwasanaethau ambiwlans, byrddau iechyd na'r cyhoedd yn dymuno ei weld. Rwyf yn credu, os edrychwch chi ar y camau sydd wedi eu cymryd i wella'r gwasanaeth ambiwlans, bod £7.5 miliwn wedi ei neilltuo ar gyfer recriwtio mwy na 120 o staff rheng flaen. Hefyd, i gydnabod, roedd nifer y galwadau fesul diwrnod a gafodd eu categorio yn rai lle yr oedd bywyd yn y fantol yng Nghymru 2.4% yn uwch bob dydd ym mis Tachwedd 2014—a mis Tachwedd yw hynny; yn amlwg gan beidio ag ystyried mis Rhagfyr—o'i gymharu â mis Hydref 2014. Mae nifer y galwadau categori A yr ymatebwyd iddynt yn cyfateb i tua un alwad bob tri munud. Mae hyn yn rhoi rhyw syniad o ba mor brysur yw'r gwasanaeth ambiwlans.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:27

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Business Minister, it was good to hear your colleague, the Deputy Minister, address the FUW, Farmers Union of Wales, breakfast this morning and speak about the Government's ambitious plans to grow the Welsh food and drinks industry by 30% by 2020. Of course, an important part of that will be involved with the dairy industry. You and other Members will be as concerned, as I am, about the current crisis in the industry and the plummeting cost of farm-gate price for milk and, of course, the announcement by First Milk of further delayed payments. As I understand it, the Deputy Minister has an urgent meeting with First Milk in the next few days. It would be helpful, business Minister, if we could have an urgent statement following that meeting so that Members could be updated.

Weinidog Busnes, yr oedd yn dda clywed eich cydweithiwr, y Dirprwy Weinidog, yn cyfarch Undeb Amaethwyr Cymru dros frecwast y bore yma ac yn sôn am gynlluniau uchelgeisiol y Llywodraeth i sicrhau twf o 30% yn y diwydiant bwyd a diodydd erbyn 2020. Wrth gwrs, bydd rhan bwysig o hynny yn ymwneud â'r diwydiant llaeth. Byddwch chi ac Aelodau eraill mor bryderus ag yr wyf innau am yr argyfwng presennol yn y diwydiant a'r gostyngiad difrifol ym mhris llaeth wrth giât y fferm ac, wrth gwrs, cyhoeddiad First Milk am fwy o oedi mewn gwneud taliadau. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae cyfarfod brys wedi'i drefnu rhwng y Dirprwy Weinidog a First Milk yn ystod y dyddiau nesaf. Byddai o gymorth, Weinidog busnes, pe gallem gael datganiad brys yn dilyn y cyfarfod hwnnw er mwyn i'r Aelodau gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



14:28 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I was also very pleased to join the Minister and all those Assembly Members at the farming breakfast this morning, which is an excellent provision, of course, on an annual basis, and to hear the Minister. Of course, the issue of First Milk deferring payment to their members is primarily an issue for the board and its producers. I know that the Deputy Minister is now going to be meeting with Sir Jim Paice MP, who is the chairman of First Milk, and his management team at Haverfordwest. That date has been set and she will be undertaking that engagement.

Roeddwn yn falch iawn hefyd o ymuno â'r Gweinidog a phob un o'r Aelodau Cynulliad hynny a oedd yn y brecwast ffermio y bore yma, sydd yn ddarpariaeth ragorol, wrth gwrs, ar sail flynyddol, ac o gael clywed y Gweinidog. Wrth gwrs, mae'r mater o First Milk yn gohirio taliadau i'w haelodau yn bennaf yn fater i'r bwrdd a'i gynhyrchwyr. Gwn fod y Dirprwy Weinidog bellach yn mynd i fod yn cyfarfod â Syr Jim Paice AS, sef cadeirydd First Milk, a'i dîm rheoli yn Hwlfordd. Mae'r dyddiad hwnnw wedi'i bennu a bydd hi'n bresennol yn y cyfarfod hwnnw.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:29 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, on Christmas day, some of my constituents, as they were starting to have their Christmas dinner, learned from the television that City Link was, effectively, sacking them. There is a culture within employment and with companies that is becoming increasingly immoral and unethical. It relates to taking away people's entitlement to direct employment and forcing them into self-employment, which takes away all their employment protection rights. I wonder, Minister, bearing in mind that this is something that is growing under the coalition Government and has implications for many people within Wales, whether you would consider making time for either a debate or certainly for a statement, assessing the growth of such contracts and such employment practices within Wales, how we might actually deal with them and counter this growth?

Weinidog, ddydd Nadolig, clywodd rai o fy etholwyr, wrth iddynt ddechrau bwyta eu cinio Nadolig, ar y teledu bod City Link, mewn gwirionedd, yn eu diswyddo. Mae diwylliant o fewn y maes cyflogaeth ac o fewn cwmnïau sydd yn mynd yn fwyfwy anfoesol ac anegwyddorol. Mae'n ymwneud â chymryd hawl pobl i gyflogaeth uniongyrchol oddi arnynt, a'u gorfodi i fod yn hunangyflogedig, sy'n diddymu eu holl hawliau diogelu cyflogaeth. Tybed, Weinidog, o gofio bod hyn yn rhywbeth sy'n tyfu o dan y Llywodraeth glymblaid a bod goblygiadau i lawer o bobl yng Nghymru, a fydddech chi'n ystyried neilltuo amser ar gyfer naill ai dadl neu yn sicr datganiad, sy'n asesu twf contractau o'r fath ac arferion cyflogaeth o'r fath yng Nghymru, a sut y gallem ymdrin â nhw mewn gwirionedd ac atal y twf hwn?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:30 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mick Antoniw for bringing that to our attention today, because that, surely, was one of the worst bits of news over Christmas for those employees—those drivers—who were affected by City Link. Now, Members will be aware that the Minister for Economy, Science and Transport wrote to all Members yesterday with an update on City Link. We've been in contact with the administrators to offer any help we can to protect jobs in Wales, and working to ensure that those who have lost their jobs are aware of the support available to them. Employment law is non-devolved, but we're very concerned, as the Member has said, about the uncertainty and insecurity caused by the growing casualization of the workforce.

Diolchaf i Mick Antoniw am ddod a hynny i'n sylw heddiw, oherwydd dyma, yn sicr, oedd un o'r darnau gwaethaf o newyddion dros y Nadolig ar gyfer y gweithwyr hynny—y gyrwyr hynny—yr effeithiwyd arnynt gan City Link. Erbyn hyn, bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi ysgrifennu at yr holl Aelodau ddoe i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am City Link. Rydym wedi bod mewn cysylltiad â'r gweinyddwyr i gynnig unrhyw gymorth y gallwn i ddiogelu swyddi yng Nghymru, ac rydym yn gweithio i sicrhau bod y rhai sydd wedi colli eu swyddi yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Nid yw cyfraith cyflogaeth wedi ei ddatganoli, ond rydym yn bryderus iawn, fel y dywedodd yr Aelod, am yr ansicrwydd a'r annigolwch a achosir drwy i'r gweithlu gael ei roi ar sail dros dro yn gynyddol.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:31 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, a gaf i ategu'r cais blaenorol ynglŷn â chael datganiad buan gan y Dirprwy Weinidog ar sefyllfa'r sector laeth yng Nghymru? Yn amlwg, mae pwysigrwydd First Milk i'r sector yn ddiarnheuo—yn prynu chwarter y laeth sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru. Rwy'n gwerthfawrogi bod llawer o'r grymoedd sy'n dylanwadu ar gyflwr y sector efallai y tu hwnt i gyfrifoldeb a phwerau y Llywodraeth, ond, yn sicr, mae angen inni fod yn glir ynglŷn â beth yw bwriad y Llywodraeth wrth ymateb, a hefyd pa drafodaethau mae'r Llywodraeth yn eu cael gyda Llywodraeth San Steffan a'r Comisiwn Ewropeaidd. Felly, mi fyddai datganiad brys, yn sicr, os nad dim ond datganiad buan, i'w goesawu'n fawr iawn.

Minister, may I endorse the previous request for an early statement from the Deputy Minister on the situation facing the dairy sector in Wales? Clearly, the importance of First Milk to that sector is beyond doubt—it buys 25% of the milk produced in Wales. I appreciate the fact that many of the powers influencing the sector are perhaps beyond the responsibilities of the Government here, but we do need to be clear on the Government's aims and intentions in responding, and also what discussions the Government is having with the Westminster Government and the European Commission. So, an urgent statement, certainly, if not just an early statement, would very much be welcomed.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)



Rydym hefyd yn ymwybodol, wrth gwrs—fe glywson ni gwestiwn Elin Jones i'r Prif Weinidog yn gynharach—o'r newidiadau sydd nawr yn dod yn sgil sgrapio cynllun y taliad sylfaenol i ffermwyr, oherwydd yr her gyfreithiol i greu rhanbarth ar gyfer rhostiored. Mae'r Llywodraeth, yn amlwg, yn mynd yn ôl i'r 'drawing board', felly mae yna ansicrwydd yn mynd i fod o safbwynt i ba ranbarthau mae ffermwyr Cymru yn disgyn, ac yn sgil hynny, pa lefel o daliad y gallant ei ddisgwyl. Bydd hynny yn gadael busnesau fferm mewn limbo, o safbwynt cynllunio hirydymor, heb wybod lle mae'n nhw yn sefyll.

Bydden i'n annog—ar ôl cael datganiad ysgrifenedig ddoe, wrth gwrs—fod yna ddatganiad llafar yn dod i'r fan hon, fel ein bod ni fel gwrthbleidiau yn cael cyfle i ofyn cwestiynau ynglŷn â sut mae'r Llywodraeth wedi ffeindio ei hunan yn gorfod delio â'r fath 'shambles'. Os nad yw hynny'n bosib, yna o leiaf, efallai, fod y Dirprwy Weinidog yn creu amser yn ei dyddiadur er mwyn dod o flaen y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, efallai, er mwyn inni gael cyfle i graffu ar y broses o ran sut y cyrhaeddwyd lle rydym ni nawr, a sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu symud ymlaen.

Finally, if I may, Presiding Officer, there was a vote, I believe, in the European Parliament this morning on genetically modified organisms, which means that individual countries are now likely to be able to vote on whether they remain GM-free. Now, the Department for Environment, Food and Rural Affairs confirmed in July that the Welsh Government could make its own decision on GM cultivation in Wales, and Wales, of course, was a founding member of the GM-free regions network, and this Assembly, in the past, has voted in favour of a GM-free Wales. I would appreciate if you could ensure that we have an early statement from the Deputy Minister, outlining her response to that decision and, of course, what the Welsh Government's intentions now are for retaining a GM-free Wales.

We are also aware of course—we heard Elin Jones's question earlier to the First Minister—of the changes now coming in light of scrapping the basic payment scheme for farmers because of the legal challenge to creating a moorlands region. The Government is clearly going back to the drawing board, so there will be some uncertainty in terms of what regions Welsh farmers fall into and, in light of that, what level of payment they can expect. That will leave farm businesses in limbo in terms of long-term planning, without knowing where they stand.

I would urge—having received the written statement yesterday, of course—that an oral statement be made here, so that we as opposition parties have an opportunity to ask questions about how the Government has found itself having to deal with such a shambles. If that is not impossible, then the Deputy Minister should at least, perhaps, make time available in her diary to appear before the Environment and Sustainability Committee, perhaps, so that we can have an opportunity to scrutinise the process in terms of how we got to where we are now and how the Government intends to progress.

Yn olaf, os caf, Lywydd, yr oedd pleidlais, rwyf yn credu, yn Senedd Ewrop y bore yma ar organebau a addaswyd yn enetig, sy'n golygu bod gwledydd unigol bellach yn debygol o gael pleidleisio ar ba un a ydynt am barhau i fod yn ddi-GM. Nawr, cadarnhaodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ym mis Gorffennaf y gallai Llywodraeth Cymru wneud ei phenderfyniad ei hun ar dyfu GM yng Nghymru, ac roedd Cymru, wrth gwrs, yn aelod sylfaenol o'r rhwydwaith rhanbarthau rhydd o GM, ac mae'r Cynulliad hwn, yn y gorffennol, wedi pleidleisio o blaid Cymru rhydd o GM. Byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech sicrhau ein bod yn cael datganiad yn fuan gan y Dirprwy Weinidog, yn amlinellu ei hymateb i'r penderfyniad hwnnw ac, wrth gwrs, bwriadau Llywodraeth Cymru erbyn hyn ar gyfer cadw Cymru yn rhydd o GM.

14:33

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Llyr Gruffydd. On the first question you raised, and our follow-on additional information to the response I gave to Russell George, of course the Welsh Government has been aware for some time of the restructure of farm-gate milk pricing, which is why the Deputy Minister commissioned Andy Richardson, who is a member, as you know, of the dairy taskforce Wales, to undertake an urgent review into the sector. She commissioned that on 27 November. So, that report will also be important in terms of informing the way forward, and it will be available by the end of February. But, of course, we also have the forthcoming meeting; I know that the Deputy Minister will want to report back on the outcome of that.

Diolch, Llyr Gruffydd. O ran y cwestiwn cyntaf a godwyd gennyf, a'n gwybodaeth ychwanegol ddilynol i'r ymateb a roddais i Russell George, wrth gwrs bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymwybodol ers peth amser o ailstrwythuro prisiau llaeth wrth giât y fferm, a dyna pam y comisynodd y Dirprwy Weinidog Andy Richardson, sydd yn aelod, fel y gwyddoch, o dasglu llaeth Cymru, i gynnal adolygiad brys ynglŷn â'r sector. Comisiynodd hynny ar 27 Tachwedd. Felly, bydd yr adroddiad hwnnw hefyd yn bwysig o ran llywio'r ffordd ymlaen, a bydd ar gael erbyn diwedd mis Chwefror. Ond, wrth gwrs, mae gennym ni hefyd y cyfarfod sydd ar ddod; Gwn y bydd y Dirprwy Weinidog yn awyddus i adrodd yn ôl ar ganlyniad hwnnw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

On your second point, of course, this was dealt with by the First Minister in full in his questions. It is very important, in terms of the written statement, that the Deputy Minister did lay out the Welsh Government's position very clearly on what's happened, what it means for CAP proposals, explaining about the new exercise, developing new options undertaken in conjunction with industry stakeholder bodies. That, of course, will be followed by public consultation, before the Welsh Government considers how to proceed. Also, I note your point in terms of the developments regarding GM foods, which, of course, the Deputy Minister will acknowledge.

O ran eich ail bwynt, wrth gwrs, ymdriniodd y Prif Weinidog yn llawn â hyn yn ei gwestiynau. Mae'n bwysig iawn, o ran y datganiad ysgrifenedig, fod y Dirprwy Weinidog wedi nodi safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir iawn ar yr hyn sydd wedi digwydd, yr hyn y mae'n ei olygu i gynigion PAC, gan esbonio yr ymarfer newydd, datblygu dewisiadau newydd ar y cyd â chyrff sy'n rhanddeiliaid yn y diwydiant. Wrth gwrs, bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn dilyn hynny, cyn i Lywodraeth Cymru ystyried sut i symud ymlaen. Hefyd, nodaf eich pwynt o ran y datblygiadau yn ymwneud â bwydydd GM, y bydd y Dirprwy Weinidog, wrth gwrs, yn ei gydnabod.

14:35

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, could I build upon the request made earlier by my colleague Eluned Parrott with regard to ambulance services in Wales? Undoubtedly, there are increasing demands being placed upon that service, but it's the responsibility of Welsh Government and the Welsh ambulance trust to ensure that that organisation is adequately resourced to respond to those increases in demand and that that resourcing is fairly distributed across Wales. I am concerned, once again, that crews in south Powys—indeed, across Powys—are being taken out of area to cover other parts of Wales, leaving very large geographical areas of Wales with no ambulance provision whatsoever. Now, I appreciate the crews have to respond to calls wherever they are made, but people in Powys deserve an ambulance service too that is based within their county and can respond to emergency calls in an appropriate timescale. Could you ask the Minister, if he is to come forward with any new statements regarding the ambulance trust, to look at a fair distribution of resources across Wales so that rural people have access to adequate ambulance services also?

Weinidog, a gaf i ychwanegu at y cais a wnaed yn gynharach gan fy nghyd-Aelod Eluned Parrott o ran gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru? Yn ddiaw, mae galwadau cynyddol ar y gwasanaeth hwnnw, ond cyfrifoldeb Lywodraeth Cymru ac ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru yw sicrhau bod gan y sefydliad ddigon o adnoddau i ymateb i'r cynnydd hwnnw yn y galw, a bod yr adnoddau hynny yn cael eu dosbarthu'n deg ledled Cymru. Rwyf yn pryderu, unwaith eto, fod criwiau yn ne Powys—yn wir, ledled Powys—yn cael eu galw allan o'r ardal i wasanaethu rhannau eraill o Gymru, gan adael ardaloedd daearyddol mawr iawn o Gymru heb unrhyw ddarpariaeth ambiwlans o gwbl. Nawr, rwyf yn gwerthfawrogi bod yn rhaid i'r criwiau ymateb i alwadau lle bynnag y cânt eu gwneud, ond mae pobl ym Mhowys yn haeddu gwasanaeth ambiwlans hefyd sydd wedi ei leoli yn eu sir ac sy'n gallu ymateb i alwadau brys o fewn amserlen briodol. A wnewch chi ofyn i'r Gweinidog, os yw am gyflwyno unrhyw ddatganiadau newydd ynghylch yr ymddiriedolaeth ambiwlans, i edrych ar ddsbarthiad teg o adnoddau ledled Cymru er mwyn i bobl cefn gwlad gael ymnydiad digonol at wasanaethau ambiwlans hefyd?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:36

**Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Kirsty Williams for providing that information and those views from her constituents' experience in her area, and, indeed, also from other Assembly Members. Of course, these will be noted and responded to by the Ministers.

Diolchaf i Kirsty Williams am ddarparu'r wybodaeth yna a'r sylwadau yna o brofiad yr etholwyr yn ei hardal, ac, yn wir, hefyd gan Aelodau eraill o'r Cynulliad. Wrth gwrs, bydd y rhain yn cael eu nodi a bydd y Gweinidogion yn ymateb iddynt.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Business Minister, I have to say I express huge disappointment that, on our first day back after the Christmas recess, the issue that has dominated the press and is of huge relevance to many people out in the communities we represent—i.e. the situation in accident and emergency centres across Wales and, indeed, the ambulance service—does not feature in any of the Government business that's before us today. It does seem that the only time that the Government respond is when the Presiding Officer very graciously allows for urgent questions to be taken. The Government are not proactive in bringing forward answers to questions that I think every single Member in this place has asked, week in, week out, about ambulance response times, but, in particular, then, about the pressures on accident and emergency centres. When you read the extracts in the press today from the senior nurse at UHW, the University Hospital of Wales, which is a hospital in my own area, I think that many people will be bitterly disappointed that the Government are not taking a more proactive approach on this. I would urge the Government to bring forward an oral statement, so that the Ministers can answer questions and give Members and the public confidence that you do have the solutions to some of the real, long-standing problems that are afflicting many of our A&E departments. I really hope that, next week, when we look at the order paper, we will see a statement on there, and I hope that you will confirm that in response to my request today.

Secondly, could I endorse the comments that have been put forward by other colleagues to the Deputy Minister for rural affairs, in particular around the milk industry? There are huge pressures building. The market will determine the price of milk, and we accept that, but the issue now that the Government can intervene on is giving some comfort and some strength to banks, other financial institutions and auxiliary industries that support the dairy industry that the delayed payments are merely that—delayed payments; they are not lost to the industry—and that bills will be settled. I applaud the Deputy Minister's proactive approach in meeting with First Milk, but I would welcome some indication from that Deputy Minister that she is also meeting financial institutions and some of the support industries in what is a very delicate situation for a very delicate part of our economy in rural Wales. This situation needs to be handled with strong resolve from the Welsh Government, and yet we haven't seen that coming forward, to date, to give us that confirmation that the Deputy Minister will be meeting those parties.

Weinidog Busnes, mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn mynegi siom enfawr nad yw'r mater sydd wedi dominyddu'r wasg ar ein diwrnod cyntaf yn ôl ar ôl toriad y Nadolig, ac sydd yn berthnasol iawn i lawer o bobl allan yn y cymunedau a gynrychiolwn—sef y sefyllfa yng nghanolfannau damweiniau ac achosion brys ledled Cymru ac, yn wir, y gwasanaeth ambiwlans—yn ymddangos yn unrhyw un o eitemau busnes y Llywodraeth sydd ger ein bron heddiw. Mae'n ymddangos mai'r unig adeg y mae'r Llywodraeth yn ymateb yw pan fo'r Llywydd yn haelionus iawn yn caniatáu i gwestiynau brys gael eu derbyn. Nid yw'r Llywodraeth yn rhagweithiol wrth gyflwyno atebion i gwestiynau y credaf fod pob Aelod yn y lle hwn wedi eu gofyn, wythnos ar ôl wythnos, am amseroedd ymateb ambiwlansys, ond, yn benodol, am y pwysau ar ganolfannau damweiniau ac achosion brys. Pan eich bod yn darllen y darnau yn y wasg heddiw gan yr uwch nyrs yn Ysbyty Athrofaol Cymru, sy'n ysbyty yn fy ardal fy hun, credaf y bydd llawer o bobl yn hynod siomedig nad yw'r Llywodraeth yn arddel ymagwedd fwy rhagweithiol ar hyn. Byddwn yn annog y Llywodraeth i gyflwyno datganiad llafar, fel y gall Gweinidogion ateb cwestiynau a rhoi'r hyder i'r Aelodau a'r cyhoedd bod gennych yr atebion i rai o'r problemau hirsefydlog gwirioneddol sy'n effeithio ar lawer o'n hadrannau damweiniau ac achosion brys. Rwyf wir yn gobeithio, yr wythnos nesaf, pan edrychwn ar y papur trefn, y byddwn yn gweld datganiad arno, ac rwyf yn gobeithio y byddwch yn cadarnhau hynny mewn ymateb i fy nghais heddiw.

Yn ail, a gaf fi gymeradwyo'r sylwadau a gyflwynwyd gan gydweithwyr eraill i'r Dirprwy Weinidog materion gwledig, yn enwedig yn ymwneud â'r diwydiant llaeth? Mae pwysau enfawr yn cynyddu. Y farchnad fydd yn penderfynu pris llaeth, ac rydym yn derbyn hynny, ond y mater erbyn hyn y gall y Llywodraeth ymyrryd ynglŷn ag ef yw rhoi rhywfaint o gysur a rhywfaint o nerth i fanciau, sefydliadau ariannol eraill a diwydiannau ategol sy'n cefnogi'r diwydiant llaeth bod oedi yn y taliadau yn golygu'n union hynny—oedi mewn taliadau; nid ydynt wedi'u colli i'r diwydiant—ac y bydd biliau yn cael eu talu. Rwy'n cymeradwyo ymagwedd ragweithiol y Dirprwy Weinidog o ran cyfarfod â First Milk, ond byddwn yn croesawu rhyw arwydd gan y Dirprwy Weinidog ei bod hi hefyd yn cyfarfod â sefydliadau ariannol a rhai o'r diwydiannau cymorth yn yr hyn sy'n sefyllfa fregus iawn i ran fregus iawn o'n heconomi yng Nghymru wledig. Mae angen i'r sefyllfa hon gael ei thrin â phenderfynoldeb cryf gan Lywodraeth Cymru, ond nid ydym wedi gweld hynny'n digwydd, hyd yn hyn, i roi'r cadarnhad hynny i ni y bydd y Dirprwy Weinidog yn cyfarfod â'r partion hynny.

Could I also request a statement from the transport Minister in respect of the A48 Cowbridge bypass? Again, there was another accident on Thursday on that particular, treacherous piece of road. I am sure the Minister, being the constituency Member, is very familiar with it. But I would ask that this statement focuses on the design of that particular bypass. I know it was built in the early 1960s, but I'd be interested to know whether the current configuration of that road is compatible with road safety standards that are required to meet the demands of modern traffic. It seems that, with any inclement weather—whether it be just a heavy shower, ice or more dramatic snowfalls—we do get an accident of some shape or form on that stretch of road and invariably, sadly, very many fatal accidents. Yet, I don't think that that design brief has been looked at in any depth by transport officials.

A gaf fi hefyd ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog trafnidiaeth ynglŷn â ffordd osgoi yr A48 heibio'r Bont-faen? Unwaith eto, bu damwain arall ddydd lau ar y darn penodol, peryglus hwnnw o'r ffordd. Rwyf yn sicr y bydd y Gweinidog, gan mai ef yw Aelod yr etholaeth, yn gyfarwydd iawn â'r darn hwnnw. Ond rwyf am ofyn bod y datganiad hwn yn canolbwyntio ar gynllun y ffordd osgoi benodol hon. Gwn iddi gael ei hadeiladu yn y 1960au cynnar, ond byddai gennyf ddiddordeb mewn gwylbod a yw cynllun presennol y ffordd honno yn cyd-fynd â'r safonau diogelwch ar y ffyrdd gofynnol er mwyn bodloni gofynion traffig cyfredol. Mae'n ymddangos ein bod yn cael rhyw fath o ddamwain ar y darn hwnnw o'r ffordd mewn unrhyw dywydd garw—boed hynny yn ddim ond cawod drom, rhew, neu gawodydd eira trwm—ac yn ddiethriad, yn anffodus, ceir llawer iawn o ddamweiniau angheuol. Er hynny, nid wyf yn credu bod y briff cynllunio hwnnw wedi cael ei ystyried yn fanwl gan swyddogion trafnidiaeth.

14:40

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In response to your questions, I would say, Andrew R.T. Davies, that you will be aware that the Deputy Minister for Health has issued a written statement on winter pressures. At this point, it is important, of course, to recognise the enormous pressure that has been put on the NHS over the past few weeks. I know that you would want to join with the First Minister, me and all Assembly Members to recognise the services being provided by our staff. But it has resulted in a rise in people presenting themselves to A&E departments. I think that one of the points that's very clear is that there are a significant number of elderly people, in particular, whose needs are complex and illnesses are serious. The written statement has been issued and, of course, Ministers have been fully engaged, as I was with the health Minister last week in terms of visiting the centre for minor injuries, the excellent 24-hour nurse-led minor injuries centre at Neath Port Talbot Hospital, with David Rees, to see what is being delivered day in, day out by a nurse-led service, and meeting emergency consultants from the Prince of Wales, Princess of Wales and Morriston hospitals. So, just on that point, of course, you will be interested and, I am sure, aware of the written statement.

Thank you for your further comments on the dairy industry, which, of course, the Deputy Minister will note. These are important and useful comments for her meeting with Jim Paice later in the week.

In terms of the issues on roads, the A48 and the bypass, which I know very well in my constituency, of course, and despite the fact that there are those warning notices, as we know, the danger of that road in terms of design is something that I am sure that I will certainly want to take up with the Minister for Economy, Science and Transport.

I ymateb i'ch cwestiynau, byddwn yn dweud, Andrew R.T. Davies, eich bod yn ymwybodol bod y Dirprwy Weinidog Iechyd wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ynglŷn â phwysau'r gaeaf. Ar y pwynt hwn, mae'n bwysig, wrth gwrs, cydnabod y pwysau aruthrol sydd wedi ei roi ar y GIG yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gwn y byddech yn dymuno ymuno â'r Prif Weinidog, fi a holl Aelodau'r Cynulliad i gydnabod y gwasanaethau a ddarperir gan ein staff. Ond mae wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i adrannau damweiniau ac achosion brys. Rwy'n credu mai un o'r pwyntiau amlwg iawn, yw bod nifer sylweddol o bobl oedranus, yn benodol, y mae eu hanghenion yn gymhleth a'u hafiachyd yn ddirifol. Mae'r datganiad ysgrifenedig wedi ei gyhoeddi ac, wrth gwrs, mae Gweinidogion wedi ymgysylltu'n llawn, fel yr oeddwn innau gyda'r Gweinidog Iechyd yr wythnos diwethaf wrth ymweld â'r ganolfan ar gyfer mân anafiadau, y ganolfan mân anafiadau 24 awr ardderchog dan arweiniad nyrsys yn ysbyty Castell-nedd Port Talbot, gyda David Rees, i weld beth sy'n cael ei ddarparu bob un dydd, gan wasanaeth dan arweiniad nyrsys, a chwrdd ag ymgynghorwyr brys o ysbytai Tywysog Cymru, Tywysoges Cymru a Threforys. Felly, dim ond o ran y pwynt hwnnw, wrth gwrs, bydd gennyf ddiddordeb yn y datganiad ysgrifenedig ac rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol ohono.

Diolch i chi am eich sylwadau ychwanegol ar y diwydiant llaeth, y bydd y Dirprwy Weinidog yn eu nodi, wrth gwrs. Mae'r rhain yn sylwadau pwysig a defnyddiol ar gyfer ei chyfarfod gyda Jim Paice yn ddiweddarach yn yr wythnos.

O ran y materion ar ffyrdd, yr A48 a'r ffordd osgoi, rwyf, wrth gwrs, yn gyfarwydd iawn â hi yn fy etholaeth, ac er gwaethaf y ffaith fod yr arwyddion rhybuddio hynny yno, fel y gwyddom, mae perygl y ffordd honno o ran ei chynllun yn rhywbeth yr wyf yn siŵr y byddaf yn dymuno ei godi gyda'r Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:42

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae penderfyniad y Grid Cenedlaethol i fwrw ymlaen â'r cynllun maen nhw'n ei ffafrio a chodi peilonau ar draws Ynys Môn yn dilyn adeiladu'r Wylfa newydd yn ymwneud, wrth gwrs, â rheoliadau a deddfwriaeth ar lefel y Deyrnas Unedig. Ond mae goblygiadau i'r penderfyniad yna sy'n amlwg yn ymwneud â meysydd y mae Llywodraeth Cymru â chyfrifoldeb amdany'n nhw. Mae yna oblygiadau amgylcheddol, mae yna oblygiadau o ran datblygu economaidd a datblygu'r diwydiant twristiaeth ar Ynys Môn sydd, wrth gwrs, mor bwysig yn y rhan yna o Gymru. A gaf i wneud cais am ddatganiad gweinidogol er mwyn i Lywodraeth Cymru gael y cyfle i ddweud eu bod nhw yn sefyll 100% y tu ôl i'r bobl hynny yn Ynys Môn a'i gwnaeth hi yn glir nad ydyn nhw'n credu y dylen nhw orfod ysgwyddo'r baich am y peilonau ar draws y tir yma ac y dylai'r Grid Cenedlaethol wneud y buddsoddiad i fynd â'r ceblau a'r gwifrau o dan y môr, ac er mwyn i Lywodraeth Cymru allu rhoi datganiad ar sut y maen nhw'n bwriadu rwan frwydro dros bobl Ynys Môn a mynd â'r achos i'r Grid Cenedlaethol i sicrhau eu bod nhw'n ailystyried oherwydd y niwed y byddai adeiladu'r peilonau yma yn ei wneud ar Ynys Môn?

The decision taken by National Grid to proceed with their favoured plan to erect pylons across Anglesey, following the construction of Wylfa newydd relates to legislation and regulations at a UK level. But the implications of that decision clearly relate to areas that the Welsh Government has responsibilities for. There are environmental implications, there are implications in terms of economic development and the development of the tourism industry on Anglesey, which, of course, is so important in that part of Wales. May I request a ministerial statement so that the Welsh Government have an opportunity to state that they stand foursquare behind those people in Anglesey who made it clear that they don't believe that they should have to shoulder the burden of these pylons across the land in Anglesey and that the National Grid should make the necessary investment to underground or undersea these cables, and for the Welsh Government to make a statement on how they now intend to fight for the people of Anglesey and to take the case to National Grid to ensure that they do reconsider this decision because of the damage that these pylons will make to Anglesey?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:44

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, the people of Anglesey—. Of course, we saw the response over the period when this came to the attention of the local people and the local authority as well in terms of their concerns. Obviously, in terms of our powers and opportunities, these are limited but, of course, the points have been clearly made by local representatives.

Yn amlwg, mae pobl Ynys Môn—. Wrth gwrs, gwelsom yr ymateb yn ystod y cyfnod pan ddaeth hyn i sylw'r bobl leol a'r awdurdod lleol hefyd o ran eu pryderon. Yn amlwg, o ran ein pwerau a'r cyfleoedd, mae'r rhain yn gyfyngedig ond, wrth gwrs, mae'r pwyntiau wedi eu nodi'n glir gan gynrychiolwyr lleol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:44

## Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This lunch time I hosted the launch of the report on the national Gypsy, Roma and Traveller symposium that took place in the Pierhead here last October with the Minister, Lesley Griffiths, in attendance. One of the key recommendations of the report is that Roma should be included in the Gypsy and Traveller strategy of the Welsh Government and in the documents, you know, 'Travelling Ahead'. I wondered if the business Minister could suggest a way that a statement could be made about how this could be taken forward.

Amser cinio heddiw cynhaliais lansiad yr adroddiad ar y symposiwm cenedlaethol ar Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gynhaliwyd yn y Pierhead yma fis Hydref diwethaf gyda'r Gweinidog, Lesley Griffiths, yn bresennol. Un o argymhellion allweddol yr adroddiad yw y dylid cynnwys Roma yn strategaeth Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru ac yn y dogfennau, wyddoch chi, 'Teithio Ymlaen'. Tybed a allai'r Gweinidog busnes awgrymu ffordd y gellid gwneud datganiad ynghylch sut y gellid bwrw ymlaen a hyn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:45

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Julie Morgan for that question. This is something, again, where this has been drawn to our attention, quite rightly in terms of the importance of recognising this. I think, very much, this is in line with the options provided by the key local authority partners, by Robert Hill and the Williams commission as well. It is about how we do develop proposals to simplify grant funding arrangements. But, I think it is a question of how we can assure them. The Minister for Communities and Tackling Poverty, I know, is meeting with you shortly to discuss whether there is a need to take a more strategic approach to Roma communities. I also understand that Isaac Blake, who organised the symposium, will also be at the meeting and will feed back the views of the symposium to the Minister, because, clearly, this needs to be in the context of wider opportunities for the Roma community.

Diolchaf i Julie Morgan am y cwestiwn yna. Mae hyn yn rhywbeth, unwaith eto, lle mae hyn wedi ei dynnu i'n sylw, yn gwbl briodol o ran y pwysigrwydd o gydnabod hyn. Rwyf o'r farn, yn sicr, bod hyn yn cyd-fynd â'r dewisiadau a ddarperir gan y partneriaid awdurdod lleol allweddol, gan Robert Hill a chomisiwn Williams hefyd. Mae'n ymwneud â sut yr ydym yn datblygu cynigion i symleiddio trefniadau cyllid grant. Ond, rwy'n credu ei fod yn fater o sut y gallwn roi sicrwydd iddynt. Mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, mi wn, yn cyfarfod â chi cyn bo hir i drafod a oes angen defnyddio dull mwy strategol tuag at gymunedau Roma. Rwyf hefyd yn deall y bydd Isaac Blake, a drefnodd y symposiwm, hefyd yn y cyfarfod a bydd yn rhoi barn y symposiwm i'r Gweinidog, oherwydd, yn amlwg, mae angen i hyn fod yng nghydstun cyfleoedd ehangach ar gyfer y gymuned Roma.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



I rise, Minister, to echo the request made by Llyr Huws Gruffydd about there being either a statement or an opportunity for oral questions of the Deputy Minister herself in relation to the single farm payment issue. There are concerns about why there was no contingency planning. There were many questions that could've been asked of the First Minister today but couldn't be because we're limited to one question. It affects over 27,000 farm businesses in Wales. They have been told that their entitlement payments will change. They have been told that and they don't know what they will change to and we don't know whether it will impact, for example, on the design of the computer system that will have to look at the new payment system. We don't know what many of the implications are. I think to say that three questions or so being asked of the First Minister is adequate scrutiny, when a Deputy Minister put a statement out during Christmas recess, when we were unable to table questions in relation to it, isn't sufficient. We need to have a proper opportunity to question the Minister. We need to know what the implications are for our farm businesses. We need to know from her officials what the exact timetable is, because your timetable, as outlined by the First Minister, would appear to suggest that the middle of the busiest period for livestock farmers in the farming calendar, which is lambing, is when you are going to be consulting on this, which will effectively deprive a large proportion of those farm businesses of the opportunity to be able to comment on the impact of your proposals.

So, I would ask you to reconsider what you said to Llyr Huws Gruffydd and also that you would consider approaching the Deputy Minister, and I know she's listening here to what I'm saying today, making sure that her officials are available to Assembly Members, so that they can go and talk to them about the implications for their farm businesses. Farming is a key business sector in north Wales and it covers a huge variety of businesses, all of which will be affected by this decision, and it may well affect banks lending to those businesses.

The second matter is a statement from the Minister for transport about the A55. Just yesterday there was an accident that closed the A55. There were no warning signs along that road advising motorists, even an hour after it had been closed, and when Traffic Wales had on their own website that it was going to be closed until 4 p.m., the whole junction between the A55 and the A483 was completely closed off to motorists and I do think it's important where, for one day in three—. The A55 has had roadworks on it for two out of every three days, and it is impacting severely on businesses in north Wales. I know that there are some mitigating features that have been taken, for example, to do roadworks at night, but there is a cumulative effect that these roadworks—. There are a number of sections that have roadworks on them at the moment. I would like to see that there is some sort of strategic overview by the Minister about how those roadworks are impacting on north Wales and what she's doing in order to limit it, to limit the impact on north Wales businesses. Thank you.

Codaf, Weinidog, i adleisio'r cais a wnaed gan Llyr Huws Gruffydd am ddatganiad neu gyfle i ofyn cwestiynau llafar i'r Dirprwy Weinidog ei hun ynglŷn â mater y taliad sengl. Mae pryderon ynghylch pam nad oedd cynlluniau wrth gefn ar gael. Yr oedd llawer o gwestiynau a allai pobl fod wedi eu gofyn i'r Prif Weinidog heddiw, ond ni allai hynny ddigwydd gan ein bod wedi ein cyfyngu i un cwestiwn. Mae'n effeithio ar dros 27,000 o fusnesau fferm yng Nghymru. Maent wedi cael gwybod y bydd eu taliadau hawl yn newid. Maent wedi cael gwybod hynny ac nid ydynt yn gwybod sut y byddant yn newid ac nid ydym yn gwybod a fydd hynny'n effeithio, er enghraifft, ar ddyluniad y system gyfrifiadurol a fydd yn gorfod edrych ar y system dalu newydd. Nid ydym yn gwybod beth fydd llawer o'r goblygiadau. Rwyf o'r farn nad yw dweud bod tua thri chwestiwn yn cael eu gofyn i'r Prif Weinidog yn cynrychioli craffu digonol, pan fo Dirprwy Weinidog yn cyflwyno datganiad yn ystod toriad y Nadolig, pan nad oeddem yn gallu cyflwyno cwestiynau ynglŷn ag ef, yn ddigonol mewn gwirionedd. Mae angen i ni gael cyfle priodol i holi'r Gweinidog. Mae angen i ni wybod beth yw'r goblygiadau ar gyfer ein busnesau fferm. Mae angen i ni wybod gan ei swyddogion beth yw'r union amserlen, oherwydd mae'n ymddangos bod eich amserlen chi, fel yr amlinellwyd gan y Prif Weinidog, yn awgrymu mai yng nghanol y cyfnod prysuraf i ffermwyr da byw yn y calendr ffermio, sef wyna, y byddwch yn ymgynghori ar hyn, a fydd mewn gwirionedd yn atal cyfran fawr o'r busnesau fferm hynny rhag cael cyfle i roi eu sylwadau ar effaith eich cynigion.

Felly, byddwn yn gofyn i chi ailystyried yr hyn a ddywedasoed wrth Llyr Huws Gruffydd a hefyd eich bod yn ystyried mynd at y Dirprwy Weinidog, a gwn ei bod yn gwrando yma ar yr hyn yr wyf yn ei ddweud heddiw, gan sicrhau bod ei swyddogion ar gael i Aelodau'r Cynulliad, er mwyn iddynt allu mynd i siarad â nhw am y goblygiadau ar gyfer eu busnesau fferm. Mae ffermio yn sector busnes allweddol yng ngogledd Cymru ac mae'n cynnwys amrywiaeth enfawr o fusnesau. Bydd pob un ohonynt yn cael ei effeithio gan y penderfyniad hwn, a gallai effeithio ar fanciau sy'n benthycia i'r busnesau hynny.

Yr ail fater yw datganiad gan y Gweinidog trafndiaeth am yr A55. Ddoe ddiwethaf, bu damwain a achosodd cau'r A55. Nid oedd unrhyw arwyddion rhybudd ar hyd y ffordd honno i roi gwybod i fodurwyr, hyd yn oed awr ar ôl iddi gael ei chau, a phan yr oedd Traffig Cymru ar ei wefan ei hun yn nodi ei bod yn mynd i fod ar gau tan 4pm, roedd y gyffordd gyfan rhwng yr A55 a'r A483 ar gau yn gyfan gwbl i fodurwyr ac rwyf yn credu ei bod yn bwysig pan, am un diwrnod o bob tri—. Bu gwaith ffordd ar yr A55 ar ddau o bob tri diwrnod, ac mae'n cael effaith ddifrifol ar fusnesau yn y gogledd. Gwn fod rhai camau lliniaru wedi eu cymryd, er enghraifft, gwneud gwaith ar y ffordd yn ystod y nos, ond ceir effaith gronnus oherwydd y gwaith hwnnw ar y ffordd—. Mae nifer o rannau lle y ceir gwaith ffordd yn cael ei gynnal arnynt ar hyn o bryd. Hoffwn weld bod gan y Gweinidog ryw fath o oruchwyliaeth strategol o ran y modd y mae'r gwaith hwnnw ar y ffordd yn effeithio ar ogledd Cymru a'r hyn y mae hi'n ei wneud er mwyn cyfyngu ar hynny, i gyfyngu ar yr effaith ar fusnesau ogledd Cymru. Diolch.



14:50

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I'd certainly like to put on the record, not just for Antoinette Sandbach, but for Members, that the Deputy Minister issued a written statement on the CAP proposals that are due to take effect later this month on 12 January, but also she did make a statement on 12 December regarding the 400m line, and also the Deputy Minister held a telephone conference with opposition spokespeople during the Christmas recess to update them. That is, the commitment of the Deputy Minister has been clear and, of course, I'm just reporting on her engagement to this point, but I think, as I've laid out and as she's laid out in her written statement, we now move forward to make sure that there is full engagement in terms of the new options, and that has to be not just recognising farmers' engagement— farming community engagement—but also industry stakeholder bodies, and they will of course be crucial in terms of the representations that will be made before the Welsh Government considers how to proceed.

Wel, byddwn yn sicr yn hoffi rhoi ar y cofnod, nid yn unig ar gyfer Antoinette Sandbach, ond ar gyfer yr Aelodau, fod y Dirprwy Weinidog wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar y cynigion PAC sydd i fod i ddod i rym yn ddiweddarach yn y mis ar 12 Ionawr, ond hefyd gwnaeth ddatganiad ar 12 Rhagfyr ynghylch y llinell 400m, a chafodd y Dirprwy Weinidog gynhadledd ffôn hefyd gyda llefarwyr y gwrthbleidiau yn ystod toriad y Nadolig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Hynny yw, mae ymrwymiad y Dirprwy Weinidog wedi bod yn glir ac, wrth gwrs, y cyfan yr wyf fi'n ei wneud yw adrodd ar ei hymgysylltiad at y pwynt hwn, ond rwyf o'r farn, fel yr wyf wedi nodi, ac fel y mae hi wedi nodi yn ei datganiad ysgrifenedig, ein bod bellach yn bwrw ymlaen i wneud yn siŵr y ceir ymgysylltiad llawn o ran y dewisiadau newydd, ac y mae'n rhaid i hynny nid yn unig gydnabod ymgysylltiad ffermwyr— ymgysylltiad â'r gymuned ffermio—ond hefyd cyrff rhanddeiliaid y diwydiant, a byddan nhw wrth gwrs yn hanfodol o ran y sylwadau a fydd yn cael eu nodi cyn i Lywodraeth Cymru ystyried sut i fwrw ymlaen.

I will just say also, on the point about the A55, that of course, as you know, this work is essential in terms of resilience improvements on the A55. Of course, there's daytime traffic management necessary. Information is on the Traffic Wales website and on roadside signs for the travelling public.

Rwyf am ddweud hefyd, ar y pwynt am yr A55, bod y gwaith hwn, wrth gwrs, fel y gwyddoch, yn hanfodol o ran gwella cydnheredd ar yr A55. Wrth gwrs, mae rheoli traffig yn ystod y dydd yn angenrheidiol. Ceir gwylbodaeth ar wefan Traffig Cymru ac ar arwyddion ar ochr y ffordd ar gyfer y cyhoedd sy'n teithio.

14:51

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Can I ask the remaining speakers now to be somewhat more concise than the previous speakers? Angela Burns.

A gaf fi ofyn nawr i'r siaradwyr sydd ar ôl fod ychydig yn fwy cryno na'r siaradwyr blaenorol? Angela Burns.

14:52

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, Presiding Officer. Minister, I listened with great interest to your reply to a previous Member as to the request for the Minister for education to bring forward a statement on the interim report on literacy in key stage 3. You said that he would no doubt bring something forward in due course, and I would argue with you, Minister, that due course does not cut the mustard. This literacy framework was implemented two years ago with a view to improving declining standards in literacy in Welsh schools. Much is being staked upon this and, amongst the many comments made in the report, there are two very clear ones that contain severe barriers to successful implementation, and I would ask, Minister, once again, on behalf of the schoolchildren of Wales, that this is addressed really urgently, because what is two years in the eyes of politicians is a mere blink, but two years in the educational life of a child is an enormous amount of time. Those two key barriers are that the majority of schools do not have a clear understanding of progression in standards of pupils' literacy and that there's insufficient guidance on assessment, including exemplification of standards of literacy and of test materials, and they are critical, and if Welsh Government are unable to get that right over the next couple of years, it'll be another generation of children who are not being served well, and I would urge you, business Minister, to ask the education Minister to bring forward an oral statement on this, so that we may examine this report as soon as possible. Thank you.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Weinidog, gwrandewais gyda diddordeb mawr ar eich ateb i Aelod blaenorol o ran y cais i'r Gweinidog addysg gyflwyno datganiad ar yr adroddiad dros dro ar lythrennedd yng nghyfnod allweddol 3. Dywedasoch y byddai heb os yn cyflwyno rhywbeth maes o law, a byddwn yn dadlau gyda chi, Weinidog, nad yw maes o law yn ddigon da. Gweithredwyd y fframwaith llythrennedd hwn ddwy flynedd yn ôl gyda'r bwriad o wella safonau sy'n dirywio mewn llythrennedd yn ysgolion Cymru. Mae llawer yn dibynnu ar hyn ac, ymhlith y nifer fawr o sylwadau a wnaed yn yr adroddiad, mae dau o rai clir iawn sy'n cynnwys rhwystrau difrifol i weithredu llwyddiannus, ac rwyf yn gofyn, Weinidog, unwaith eto, ar ran plant ysgol Cymru, i hyn gael sylw ar frys gwirioneddol, oherwydd mae dwy flynedd yn gwibio heibio ym mywyd gwleidyddion, ond mae dwy flynedd ym mywyd addysgol plentyn yn gyfnod sylweddol iawn o amser. Y ddau rwystr allweddol yw nad oes gan y rhan fwyaf o ysgolion ddealltwriaeth glir o gynnydd mewn safonau llythrennedd disgyblion ac nad oes digon o ganllawiau ar asesu, gan gynnwys enghreifftiau o safonau llythrennedd a deunyddiau prawf, ac maen nhw'n hanfodol, ac os nad yw Lywodraeth Cymru yn gallu cael hynny'n iawn yn ystod y ddwy flynedd nesaf, bydd cenhedlaeth arall o blant nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n dda, a byddwn yn eich annog, Weinidog busnes, i ofyn i'r Gweinidog addysg gyflwyno datganiad llafar ar hyn, fel y gallwn edrych ar yr adroddiad hwn cyn gynted â phosibl. Diolch.

14:53

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I think as well as the Estyn report—of course I've already responded to that on behalf of the education Minister, because he will obviously be responding himself—it is useful also to look at the literacy and numeracy framework tests in terms of the survey, and there's been some positive responses from some Association of Teachers and Lecturers members, and the tests and the data they provide are fundamental to raising standards in Wales, and schools can use that diagnostic information to identify learners' strengths and areas for development. And, of course, it is pleasing that ATL members agree with it and that 72% of teachers surveyed say that the tests have informed their teaching.

Wel, rwyf yn credu yn ogystal ag adroddiad Estyn—wrth gwrs rwyf eisoes wedi ymateb i hwnnw ar ran y Gweinidog addysg, oherwydd bydd ef yn amlwg yn ymateb ei hun—mae'n ddefnyddiol hefyd i edrych ar brofion y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn nhermau yr arolwg, a chafwyd rhai ymatebion cadarnhaol gan rai aelodau Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr, ac mae'r profion a'r data a ddarperir ganddynt yn sylfaenol ar gyfer codi safonau yng Nghymru, a gall ysgolion ddefnyddio'r wybodaeth ddiagnostig honno i nodi cryfderau dysgwyr a meysydd ar gyfer eu datblygu. Ac, wrth gwrs, mae'n braf bod aelodau'r Gymdeithas yn cytuno â hyn, a bod 72% o'r athrawon a holwyd yn dweud bod y profion wedi cyfrannu at eu haddysgu.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:54

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I was also at this morning's excellent Welsh farmhouse breakfast hosted by my colleague Paul Davies, at which the issue of milk prices was raised. I won't labour the point. You've had many calls today for a statement on the dairy industry from the Deputy Minister. I wish to add my name to those calls. On a second point, I'd like to know where we are with the trunk road review, which I think the Minister for Economy, Science and Transport undertook some time last year. I thought we would have the details of that fully before the Assembly now—if we could have a statement on that as well. Thirdly and finally, on the issue of health, an issue that affects Lynne Neagle as well, as it is on the boundary between Torfaen and Monmouthshire, is the proposed new critical care centre. I see that some preparatory work has already started there in terms of that centre. Could we have an update from the health Minister on whether we are on course to have that unit finished as soon as possible? It is the one part of the Assembly's restructuring of the health service in Wales that seems to have met with universal approval, so I think it would be to your benefit if it was actually built within the time frame specified.

Weinidog, roeddwn innau hefyd yn y brecwast ffermdy Cymreig rhagorol y bore yma a gynhaliwyd gan fy nghyd-Aelod, Paul Davies, pryd y codwyd mater y prisiau llaeth. Nid wyf am rygnu ymlaen am y pwynt. Rydych chi wedi cael llawer o alwadau heddiw am ddatganiad ar y diwydiant llaeth oddi wrth y Dirprwy Weinidog. Hoffwn ychwanegu fy enw i at y galwadau hynny. O ran ail bwynt, byddwn i'n hoffi gwybod beth yw'r sefyllfa gyda'r adolygiad o gefnffyrdd, y credaf i'r Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ei gynnal rywbryd y llynedd. Roeddwn i'n meddwl y byddem wedi cael y manylion hyn yn llawn ger bron y Cynulliad erbyn hyn—os cawn ddatganiad ar hynny hefyd. Yn drydydd ac yn olaf, ar fater iechyd, mater sy'n effeithio ar Lynne Neagle hefyd, gan ei fod ar y ffin rhwng Torfaen a Sir Fynwy, sef y ganolfan gofal critigol newydd arfaethedig. Rwyf yn gweld bod peth gwaith paratoi eisoes wedi dechrau yno o ran y ganolfan honno. A gawn ni'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog iechyd ynghylch pa un a ydym ar y trywydd iawn i sicrhau bod yr uned honno yn cael ei chwblhau cyn gynted ag y bo modd? Dyma'r unig ran o ailstrwythuro'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru gan y Cynulliad y mae'n ymddangos iddo gael cymeradwyaeth gyffredinol, felly rwyf yn credu y byddai o fudd i chi pe byddai'n cael ei adeiladu mewn gwirionedd o fewn yr amserlen benodedig.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:55

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, in response to three questions, I note Nick Ramsay's views, and also the concerns he has raised on milk prices. I am sure he will have the opportunity to ask the Minister for Economy, Science and Transport tomorrow in her OAQs about the trunk road review. And, of course, the Minister for Health and Social Services is in charge of his capital programme and implementing it accordingly.

Wel, i ymateb i dri chwestiwn, nodaf sylwadau Nick Ramsay, a hefyd y pryderon y mae wedi eu codi ynglŷn â phrisiau llaeth. Rwyf yn siŵr y bydd yn cael y cyfle i ofyn i'r Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yfory yng nghwestiynau llafar y cynulliad am yr adolygiad o gefnffyrdd. Ac, wrth gwrs, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am ei raglen gyfalaf a'i gweithredu yn briodol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:56

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

If I can call for two statements, firstly, endorsing the call by my colleague Antoinette Sandbach for a statement over the roadworks to the main trunk roads in north Wales. Of course we need work to improve traffic flow, of course we need resilience, and we need the north Wales railway to have its fair share of Wales's transport funding, but the issue is strategy. The issue is not the works being done; the issue is that having three major schemes in north-east Wales—the A55 from junction 27 at St Asaph to 31 at Caerwys, the road works at the A55 junction 34 Ewloe loop, and the A494 from Ewloe to Deeside industrial park—all over the same two months causes risk to traffic safety, causes delays, and damages the local and regional economy. This does merit a statement, preferably an oral statement, and it is not simply a question over resilience.

Os caf fi alw am ddau ddatganiad, yn gyntaf, i gefnogi galwad gan fy nghydweithiwr Antoinette Sandbach am ddatganiad ar y gwaith ffordd ar y prif gefnffyrdd yn y gogledd. Wrth gwrs, rydym angen gwaith i wella llif traffig, wrth gwrs bod angen cydnerthu, ac mae angen i reilffordd gogledd Cymru gael ei chyfran deg o gyllid trafndiaeth Cymru, ond y strategaeth yw'r broblem. Nid y gwaith sy'n cael ei wneud yw'r broblem; y broblem yw bod cael tri chynllun mawr yn y gogledd-ddwyrain—yr A55 o gyffordd 27 yn Llanelwy i 31 yng Nghaerwys, y gwaith ffordd ar gyffordd 34 dolen Ewloe yr A55, a'r A494 o Ewloe i barc diwydiannol Glannau Dyfrdwy—i gyd ar yr un pryd dros gyfnod o ddau fis yn achosi risg i ddiogelwch traffig, yn achosi oedi, ac yn niweidio'r economi leol a rhanbarthol. Mae hyn yn haeddu datganiad, yn ddefnyddol datganiad llafar, ac nid dim ond cwestiwn yn ymwneud â chydnerthu yw hwn.

Finally, given the reports during the recess over the case of Pauline Cafferkey, the Scottish nurse who returned from volunteering admirably to help people infected by Ebola, who, as you know, was found to have Ebola, despite being cleared on testing at Heathrow airport, subsequent to this, the UK health Secretary, Jeremy Hunt, announced extended Ebola screening, but what dialogue has or is the Welsh Government having with the UK Government given this matter, given that I understand there has been testing of somebody from Wales over the last week, and given calls and international precedents for quarantine for workers, and to prevent workers coming back from volunteering flying on commercial flights?

Yn olaf, o ystyried yr adroddiadau yn ystod y toriad am achos Pauline Cafferkey, y nyrs o'r Alban a ddychwelodd o wirfoddoli clodwiw i helpu pobl wedi'u heintio gan Ebola, y canfuwyd, fel y gwyddoch, bod ganddi Ebola, er iddi gael ei chlirio mewn profion ym maes awyr Heathrow. Yn dilyn hyn, cyhoeddodd Ysgrifennydd Iechyd y DU, Jeremy Hunt, brofion sgrinio Ebola estynedig, ond pa drafodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chael neu wedi ei chael â Llywodraeth y DU, o ran y mater hwn, o gofio fy mod yn deall y bu profion ar rywun o Gymru yn ystod yr wythnos ddiwethaf, ac o ystyried galwadau a chynseiliau rhyngwladol am gwarantïn ar gyfer gweithwyr, ac i atal gweithwyr rhag dod yn ôl o wirfoddoli drwy hedfan ar deithiau masnachol?

14:58

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I understand, Mark Isherwood, that the Minister for Economy, Science and Transport is writing to north Wales Members about the A55. Also, of course, Ministers are working very closely, as indeed are Public Health Wales and Public Health England, in terms of the Ebola situation.

Rwyf yn deall, Mark Isherwood, fod y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ysgrifennu at Aelodau'r gogledd ynglŷn â'r A55. Hefyd, wrth gwrs, mae Gweinidogion yn gweithio'n agos iawn, fel yn wir y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Iechyd y Cyhoedd Lloegr, ynglŷn â'r sefyllfa Ebola.

14:58

**Datganiad: Dyraniadau Canlyniadol Datganiad yr Hydref Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

**Statement: Autumn Statement Consequential Allocations**

**Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to item 3, which is a statement by the Minister for Finance and Government Business on the autumn statement consequential allocations. Jane Hutt.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef datganiad gan Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar ddyraniadau canlyniadol datganiad yr hydref. Jane Hutt.

14:58

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*  
In December, the UK Government revisited its budget plans for 2015-16. As a result of its decisions about spending in English departments, the Welsh Government has some limited additional resources, and today I am confirming how they will be used.

Ym mis Rhagfyr, ailedrychodd Llywodraeth y DU ar gynlluniau'r gyllideb ar gyfer 2015-16. Yn sgil ei phenderfyniadau ynglŷn â gwario mewn adrannau yn Lloegr, mae gan Lywodraeth Cymru rai adnoddau ychwanegol cyfyngedig, a heddiw rwyf yn cadarnhau sut y byddant yn cael eu defnyddio.

Whilst we welcome additional resources coming to Wales, the Welsh Government's budget in 2015-16 is still 9% lower in real terms than at the start of this Assembly term. This equates to £1.5 billion being removed from the funding of public services across Wales. Whilst I have taken every opportunity to mitigate against UK-level cuts—for example, by using innovative means of boosting our capital spending power—the autumn statement allocation we have received cannot reverse the reductions we have been subjected to.

Despite the challenging financial environment, the Welsh Government has a strong record of delivering on our priorities. These are health and wellbeing, educational attainment, supporting children, families and deprived communities, and growth and jobs. In preparing our spending plans for 2015-16, I have reflected these priorities and have focused on prevention and early intervention. The decisions that Cabinet has reached about the autumn statement allocations, which I am announcing today, build on this.

As a result of the autumn statement, we have an additional £113.3 million of revenue in 2015-16, and an additional £8.8 million of capital, of which £2.3 million is for financial transactions. These reflect our Barnett consequential of UK Government decisions, and, as usual, the Welsh Government has discretion over how we spend resources in line with our priorities.

Investing in our health service is a priority of the Welsh Government; that is what the people of Wales expect. I announced in my written statement on 3 December that the Welsh Government will allocate a further £70 million in 2015-16 to the health and social services main expenditure group to support the operational changes that the NHS needs to make. The Nuffield Trust report highlighted that the NHS in Wales will continue to be affordable if we increase the level of funding and if the NHS continues to reform and reshape services. The additional investment of £225 million we allocated to the NHS in the final budget, together with the additional £200 million in 2014-15, meets the funding requirement identified by Nuffield. The additional £70 million complements this funding and will ensure that the NHS has the resources to make the changes it needs, whilst continuing to deliver services. The resources are earmarked for measures that will have an impact on high-demand services, and the Minister for Health and Social Services will make an announcement in due course about his plans for deploying this resource.

Er ein bod yn croesawu'r adnoddau ychwanegol i Gymru, mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn 2015-16 yn dal i fod 9% yn is mewn termau real nag ar ddechrau tymor y Cynulliad hwn. Mae hyn yn cyfateb i gwtogi £1.5 biliwn ar arian y gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Er fy mod wedi manteisio ar bob cyfle i liniaru toriadau ar lefel y DU—er enghraifft, trwy ddefnyddio dulliau blaengar o roi hwb i'n grym gwario cyfalaf—ni all dyraniad datganiad yr hydref yr ydym wedi ei dderbyn wydroi'r gostyngiadau yr ydym wedi eu dioddef.

Er gwaethaf yr amgylchedd ariannol anodd, mae gan Lywodraeth Cymru hanes cryf o gyflawni ein blaenoriaethau. Y blaenoriaethau hynny yw iechyd a lles, cyrhaeddiad addysgol, cefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig, a thwf a swyddi. Wrth baratoi ein cynlluniau gwario ar gyfer 2015-16, rwyf wedi adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn ac wedi canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Mae'r penderfyniadau y mae'r Cabinet wedi eu gwneud ynglŷn â dyraniadau datganiad yr hydref, yr wyf yn ei gyhoeddi heddiw, yn adeiladu ar hyn.

O ganlyniad i ddatganiad yr hydref, mae gennym referniw ychwanegol o £113.3 miliwn yn 2015-16, a chyfalaf ychwanegol o £8.8 miliwn, y mae £2.3 miliwn ohono ar gyfer trafodion ariannol. Mae'r rhain yn adlewyrchu symiau canlyniadol Barnett o benderfyniadau Llywodraeth y DU, ac, yn ôl yr arfer, mae gan Lywodraeth Cymru ddisgresiwn dros y ffordd yr ydym yn gwario adnoddau yn unol â'n blaenoriaethau.

Mae buddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru; dyna y mae pobl Cymru yn ei ddisgwyl. Yn fy natganiad ysgrifenedig ar 3 Rhagfyr cyhoeddais y bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu £70 miliwn yn rhagor yn 2015-16 i'r prif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cefnogi'r newidiadau gweithredol y mae angen i'r GIG eu gwneud. Tynnodd adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield sylw at y ffaith y bydd y GIG yng Nghymru yn parhau i fod yn fforddiadwy os bydd lefel y cyllid yn cynyddu ac os bydd y GIG yn parhau i ddiwygio ac ail-lunio gwasanaethau. Mae'r buddsoddiad ychwanegol o £225 miliwn a neilltuwyd gennym i'r GIG yn y gyllideb derfynol, ynghyd â'r £200 miliwn ychwanegol yn 2014-15, yn bodloni'r angen am gyllid a nodwyd gan Nuffield. Mae'r £70 miliwn ychwanegol yn ategu'r arian hwn a bydd yn sicrhau bod gan y GIG yr adnoddau i wneud y newidiadau y mae angen eu gwneud, ac i barhau i ddarparu gwasanaethau ar yr un pryd. Mae'r adnoddau'n cael eu clustnodi ar gyfer mesurau a fydd yn cael effaith ar wasanaethau y mae galw uchel amdanynt, a bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud cyhoeddiad maes o law am ei gynlluniau ar gyfer defnyddio'r adnodd hwn.

I am today announcing further allocations in support of our priorities—specifically in relation to growth and jobs and educational attainment. Although we've seen signs of economic recovery, helping small businesses across Wales continues to be important. We've regularly argued that the UK Government should extend its rate relief schemes to give us the flexibility and resources to do the same in Wales. We are also at a critical point in terms of the devolution of non-domestic rates to Wales. Stability and continuity in this period is important; I am, therefore, announcing today that we will invest £34.9 million in non-domestic rate relief schemes in Wales. The Minister for Economy, Science and Transport will be making a further announcement about non-domestic rates policy in due course, including how those resources will be used to support businesses in Wales.

Our continuing commitment to education is a key part of our focus on prevention and early intervention. Investment in education and skills reduces the likelihood of unemployment, shrinking the number of poorly paid jobs and reducing the number of young people not in employment, education or training. It helps individuals, it helps communities and it helps our economy. I am, therefore, taking the opportunity presented by these additional resources to increase the allocation to education and skills by £8.4 million in 2015-16. The Minister for Education and Skills will make a further announcement about his plans for deploying these additional resources in line with our priorities.

In relation to the capital consequentials, I will be considering allocations to projects that deliver our investment objectives as set out in the Wales infrastructure investment plan. I will provide the Assembly with further information in due course.

The Welsh Government, Llywydd, is a responsible Government that continues to stand up for the people of Wales. We've shown, through a careful focus on our priorities of health and wellbeing, educational attainment, supporting children, families and deprived communities, and promoting growth and jobs, the difference that we can make. These additional allocations that I am announcing today build on the final budget, and I will support public services to deliver better outcomes for the people of Wales.

Heddiw, rwyf yn cyhoeddi rhagor o ddyraniadau i gefnogi ein blaenoriaethau—yn benodol mewn perthynas â thwff a swyddi a chyrhaeddiad addysgol. Er ein bod wedi gweld arwyddion o adferiad economaidd, mae'n dal i fod yn bwysig helpu busnesau bach ledled Cymru. Rydym wedi dadlau'n gyson y dylai Llywodraeth y DU estyn ei chynlluniau rhyddhad ardrethi er mwyn rhoi'r hyblygrwydd a'r adnoddau inni i wneud yr un peth yng Nghymru. Rydym hefyd wedi cyrraedd adeg allweddol o ran datganoli ardrethi annomestig i Gymru. Mae sefydlogrwydd a pharhad yn bwysig yn y cyfnod hwn; rwyf felly'n cyhoeddi heddiw y byddwn yn buddsoddi £34.9 miliwn mewn cynlluniau rhyddhad ardrethi annomestig yng Nghymru. Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud cyhoeddiad arall ynglŷn â pholisi ardrethi annomestig maes o law, gan gynnwys sut y bydd yr adnoddau hynny'n cael ei defnyddio i gefnogi busnesau yng Nghymru.

Mae ein hymrwymiad parhaus i addysg yn rhan allweddol o'n pwyslais ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Mae buddsoddi mewn addysg a sgiliau yn lleihau'r tebygolrwydd o ddiweithdra, yn lleihau nifer y swyddi nad ydynt yn talu cyflog da ac yn golygu bod llai o bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Mae'n helpu unigolion, mae'n helpu cymunedau ac mae'n helpu ein heconomi. Rwyf felly'n manteisio ar y cyfle y mae'r adnoddau ychwanegol hyn yn ei roi inni i ddyrannu £8.4 miliwn yn rhagor i addysg a sgiliau yn 2015-16. Bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau'n gwneud cyhoeddiad pellach ynglŷn â'i gynlluniau ar gyfer defnyddio'r adnoddau ychwanegol hyn yn unol â'n blaenoriaethau.

O ran y cyfalaf canlyniadol, byddaf yn ystyried dyrannu i brosiectau sy'n cyflawni ein hamcanion buddsoddi fel y nodir yn y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Byddaf yn rhoi mwy o wybodaeth i'r Cynulliad maes o law.

Mae Llywodraeth Cymru, Lywydd, yn Llywodraeth gyfrifol sy'n parhau i sefyll dros bobl Cymru. Rydym wedi dangos y gwahaniaeth y gallwn ei wneud drwy ganolbwyntio'n ofalus ar ein blaenoriaethau iechyd a lles, cyrhaeddiad addysgol, cefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig, a hybu twf a swyddi. Mae'r dyraniadau ychwanegol hyn yr wyf yn eu cyhoeddi heddiw yn adeiladu ar y gyllideb derfynol, a byddaf yn cefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau gwell canlyniadau i bobl Cymru.

15:03

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the Minister for finance for her statement today on the autumn statement consequential allocations? I think that, in many ways, Assembly Members listening to you, Minister, would recognise that this is an announcement about many future announcements, which will contain much of the detail.

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog cyllid am ei datganiad heddiw am ddyraniadau canlyniadol datganiad yr hydref? Credaf, mewn sawl ffordd, y byddai Aelodau'r Cynulliad sy'n gwrandao arnoch chi, Weinidog, yn cydnabod bod hwn yn gyhoeddiad ynglŷn â llawer o gyhoeddiadau yn y dyfodol, a fydd yn cynnwys llawer o'r manylion.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I am pleased to note that the Chancellor, like you, has allocated additional resources to the Welsh Assembly budget. I think that you admitted that rather grudgingly, Minister, but we do welcome that additional funding. Although the budget might well, as you pointed out, be 9% lower in real terms, I do think that, Minister, you also have to recognise that the spending cuts that have happened were made necessary by the last Labour UK Government's spending spree, which left their colleagues here—your Government—in a bit of a mess.

Turning to the figures, there is an additional £113.3 million for revenue, as we have heard, and a further £8.8 million for capital. Turning to health, whilst we welcome—I welcomed it during the budget discussions, and I welcome it again—the additional money allocated to the health budget, long called for by the Welsh Conservatives, I have to say again that this is no substitute for the proper protection of health budgets in Wales, and health boards need to have certainty as to the money that they are going to receive in order to plan effectively.

As the Minister knows—again, I raised it in the budget discussions before Christmas—there has been considerable confusion over what is expected from local health boards in Wales in terms of the new funding going to them. Have you, Minister, had any further discussions with the health boards regarding the savings, which you said last year that you would expect them to make—efficiency savings? Regarding the £70 million of additional funding, are you putting similar conditions on the way that that is to be spent? It is one thing to have money given to you, but, on the other hand, if you are then having a number of conditions put on you—in some cases, retrospectively—that does not help the health boards in making their decisions, does it?

You mentioned business rates, and there has been considerable progress here, I accept. Turning to the devolution of non-domestic rates, we welcome the decision of the UK Government to provide greater flexibility in this area. I look forward to the Minister for Economy, Science and Transport's announcement regarding the non-domestic rate policy. Can I ask that the Welsh Government does listen to the cause of small business in Wales with rateable values of up to £15,000? There is a growing clamour for those small businesses to be taken out of the system of business rates altogether, and certainly to have a greater degree of tapered relief. That would allow them to put more money into their businesses, to take more employees on and to build for the future.

Jobs: on the face of it, the £8.4 million looks good, but I am concerned by the cuts to the Jobs Growth Wales scheme of 1,000 places, reported last year, as well as ongoing issues over apprenticeships.

Rwyf yn falch o nodi bod y Canghellor, fel chithau, wedi dyrannu adnoddau ychwanegol i gyllideb y Cynulliad. Credaf eich bod yn gwarafun cyfaddef hynny braidd, Weinidog, ond rydym yn croesawu'r cyllid ychwanegol. Er bod y gyllideb, fel y nodasoch, 9% yn is mewn termau real, credaf, Weinidog, fod yn rhaid ichi hefyd gydnabod bod y toriadau sydd wedi digwydd yn angenrheidiol oherwydd sbri gwariant Llywodraeth Lafur ddiwethaf y DU, a adawodd eu cydweithwyr yma—eich Llywodraeth chi—mewn tipyn o lanast.

O ran y ffigurau, mae £113.3 miliwn ychwanegol ar gyfer refeniw, fel y clywsom, ac £8.8 miliwn ychwanegol ar gyfer cyfalaf. O ran iechyd, er ein bod yn croesawu'r arian ychwanegol a ddyrannwyd i'r gyllideb iechyd, y bu galw amdano gan y Ceidwadwyr Cymreig ers amser maith—fe'i croesewais yn ystod y trafodaethau ar y gyllideb, ac rwyf yn ei groesawu eto—rhaid imi ddweud unwaith eto nad yw hyn yn disodli'r angen i warchod cyllidebau iechyd yng Nghymru'n briodol, ac mae angen sicrwydd ar fyrddau iechyd ynghylch yr arian y byddant yn ei dderbyn er mwyn cynllunio'n effeithiol.

Fel y gwyr y Gweinidog—unwaith eto, codais hyn yn y trafodaethau ar y gyllideb cyn y Nadolig—bu cryn ddryswch ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan fyrddau iechyd lleol yng Nghymru o ran y cyllid newydd sy'n mynd iddynt. A ydych, Weinidog, wedi cael rhagor o drafodaethau â'r byrddau iechyd am yr arbedion, y dywedasoch y llynedd y byddech yn disgwyl iddynt eu gwneud—arbedion effeithlonrwydd? O ran y £70 miliwn ychwanegol, a ydych yn gosod amodau tebyg ar y ffordd y dylai hwnnw gael ei wario? Mae cael arian yn un peth, ond, ar y llaw arall, os oes nifer o amodau yn cael eu gosod—yn ôl-weithredol mewn rhai achosion—nid yw hynny'n helpu'r byrddau iechyd i wneud eu penderfyniadau, nac ydy?

Soniasoch am ardrethi busnes, ac rwyf yn derbyn bod cynnydd sylweddol wedi bod yma. O ran datganoli trethi annomestig, rydym yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU i roi mwy o hyblygrwydd yn y maes hwn. Edrychaf ymlaen at gyhoeddiad Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynghylch y polisi ardrethi annomestig. A gaf fi ofyn i Lywodraeth Cymru wrando ar achos busnesau bach yng Nghymru sydd â gwerth ardrethol o hyd at £15,000? Mae galw cynyddol am i'r busnesau bach hynny gael eu tynnu o'r system ardrethi busnes yn gyfan gwbl, ac yn sicr am iddynt gael mwy o ryddhad graddol. Byddai hynny'n eu galluogi i roi mwy o arian yn eu busnesau, i gyflogi mwy o weithwyr ac i greu sylfaen ar gyfer y dyfodol.

Swyddi: ar yr olwg gyntaf, mae'r £8.4 miliwn yn edrych yn dda, ond rwyf yn pryderu ynglŷn â'r toriadau o 1,000 o leoedd yng nghynllun Twf Swyddi Cymru, yr adroddwyd amdanynt y llynedd, yn ogystal â materion sy'n parhau ynglŷn â phrentisiaethau.



You mentioned capital consequences in, I think, three lines—one paragraph—towards the end of the statement, which I was disappointed about. I called on the Welsh Government to provide further detailed information on how you're going to spend the capital consequential coming from the UK Government in the budget last year. It still hasn't been forthcoming. I do find it strange that, after the Welsh Government has complained for so long about cuts to capital budgets, now we know that we do have additional funding coming on, you've kicked the football down the road, and we are promised some statement at some point in the future by the Minister about capital spend. I really don't think that is good enough. Will you put some meat on the bones on that and give us some firm dates, and some firm times, and some firm commitments in terms of capital spend, so that Wales can benefit from that money coming from the UK Government as quickly as possible?

15:07

## Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

I do welcome the fact that Nick Ramsay clearly agrees with our decisions as a Welsh Labour Government in terms of the use of this additional funding. This is the first time that we have had additional funding. We have had nearly five years of cuts by your Government and, of course, those cuts have led to hardship, the hollowing out of our economy and great difficulties in terms of a rebalanced and recovered economy for Wales, apart from our investments, which are clearly making a positive impact.

In terms of the point about health, of course this extra £70 million is going to have an impact, particularly on the high-demand services that we have been talking about this afternoon—the projects and schemes that will help the Welsh NHS to make those transformative changes that the Nuffield Trust has made clear are what is now needed. Of course, I do think that it is important to put on record again that this means that, over two years, we have increased investment in our Welsh NHS by more than £0.5 billion. This demonstrates our clear commitment to a sustainable NHS in Wales, based on the reforms outlined in the Nuffield report. Of course, that is also based on the fact that we have moved to new planning regimes—the three-year PlanET Health financial planning regimes—and a very tight management in terms of monitoring of spend and engagement with our health boards.

You also welcomed our earmarking in terms of non-domestic rates. As I said in my statement, in terms of the £34 million for non-domestic rates, we have been calling for these extensions for some time, and we are following through on this by earmarking the relating funds. Of course, we have now got—which we welcome, I am sure, across the Chamber—the full devolution of NDR, and that does give the Welsh Government an opportunity to forge its own path. We are at a point of transition between one set of arrangements and the other and we want to use this—this will help ensure the smoothest possible transition. Of course, the Member is well aware of the panel that has been set up by the Minister for Economy, Science and Transport to look at the future approach in terms of detailed policy issues in relation to NDRs, and she will be making further announcements in due course.

Soniasoch am y canlyniadau cyfalaf, rwyf yn meddwl, mewn tair llinell—un paragraff—tua diwedd y datganiad, ac roedd hynny'n destun siom imi. Galwais ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o wybodaeth fanwl ynghylch sut y byddwch yn gwario'r cyfalaf canlyniadol sy'n dod gan Lywodraeth y DU yn y gyllideb y llynedd. Nid yw'r wybodaeth wedi ymddangos. Rwyf yn ei gweld yn rhyfedd, ar ôl i Lywodraeth Cymru gwyno cyhyd am y toriadau i gyllidebau cyfalaf, a ninnau'n gwybod yn awr fod arian ychwanegol ar ddod, eich bod wediicio'r bêl i lawr y lôn, ac addewir rhyw ddatganiad ar ryw adeg yn y dyfodol gan y Gweinidog ynglŷn â gwariant cyfalaf. Nid wyf yn meddwl bod hynny'n ddigon da. A wnewch chi roi rhywfaint o gig ar yr esgyrn ynglŷn â hynny a rhoi dyddiadau pendant, ac amseroedd pendant, ac ymrwymadau pendant inni ynglŷn â gwariant cyfalaf, er mwyn i Gymru gael elwa o gael yr arian hwnnw gan Lywodraeth y DU cyn gynted â phosibl?

Rwyf yn croesawu'r ffaith bod Nick Ramsay yn amlwg yn cytuno â'n penderfyniadau fel Llywodraeth Lafur Cymru o ran defnyddio'r arian ychwanegol hwn. Dyma'r tro cyntaf inni gael cyllid ychwanegol. Rydym wedi cael bron i bum mlynedd o doriadau gan eich Llywodraeth chi ac, wrth gwrs, mae'r toriadau hynny wedi arwain at galedi, at wagio ein heconomi ac at anawsterau mawr o ran ailgioriannu ac adfer economi Cymru, ar wahân i'n buddsoddiadau, sy'n amlwg yn cael effaith gadarnhaol.

O ran y pwynt ynglŷn ag iechyd, wrth gwrs mae'r £70 miliwn ychwanegol yn mynd i gael effaith, yn arbennig ar y gwasanaethau y mae galw uchel amdanynt yr ydym wedi bod yn eu trafod y prynhawn yma—y prosiectau a'r cynlluniau a fydd yn helpu GIG Cymru i wneud y newidiadau trawsnewidiol hynny y mae Ymddiriedolaeth Nuffield wedi ei gwneud yn glir fod eu hangen bellach. Wrth gwrs, credaf ei bod yn bwysig dweud ar goedd eto fod hyn yn golygu ein bod, dros ddwy flynedd, wedi buddsoddi dros £0.5 biliwn yn rhagor yn y GIG yng Nghymru. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad clir i GIG cynaliadwy yng Nghymru, yn seiliedig ar y diwygiadau a amlinellir yn adroddiad Nuffield. Wrth gwrs, mae hynny hefyd yn seiliedig ar y ffaith ein bod wedi symud i gyfundrefnau cynllunio newydd—trefniadau cynllunio ariannol tair blynedd PlanET Health—a rheolaeth dynn iawn o ran monitro gwariant ac ymgysylltu â'n byrddau iechyd.

Roeddech hefyd yn croesawu'r ffaith ein bod yn clustnodi trethi annomestig. Fel y dywedais yn fy natganiad, o ran y £34 miliwn ar gyfer ardrethi annomestig, rydym wedi bod yn galw am yr estyniadau hyn ers peth amser, ac rydym yn gweithredu yn hyn o beth drwy glustnodi'r arian cysylltiedig. Wrth gwrs, mae ardrethi annomestig bellach i'w datganoli'n llawn—ac rydym yn croesawu hynny, rwyf yn siŵr, ar draws y Siambr—ac mae hynny'n rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru i dorri ei chwys ei hun. Rydym wedi cyrraedd cyfnod o bontio rhwng un set o drefniadau a'r llall ac rydym am ddefnyddio hyn—bydd hyn yn helpu i sicrhau pontio mor ddiraffferth â phosibl. Wrth gwrs, mae'r Aelod yn gwybod yn iawn am y panel sydd wedi ei sefydlu gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i edrych ar yr ymagwedd yn y dyfodol o ran y materion polisi manwl sy'n gysylltiedig ag ardrethi annomestig, a bydd yn gwneud rhagor o gyhoeddiadau maes o law.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I think it is also very important in terms of our capital spend, the £8.8 million, of which, of course, £2.3 million is for financial transactions, so those are loans, that we recognise that the spend is being steered by the Wales infrastructure investment plan, and I did indeed—and I think you responded at the time, Nick Ramsay—of course provide a report on the Wales infrastructure investment plan when we debated our final budget in December. Of course, that also outlined the pipeline of future spend in terms of our capital resources, and it is that pipeline of course that will steer the spend in terms of the £8.8 million.

Credaf ei bod yn bwysig iawn hefyd o ran ein gwariant cyfalaf, yr £8.8 miliwn, y mae £2.3 miliwn ohono ar gyfer trafodion ariannol wrth gwrs felly mae'r rheini'n fenthyciadau, ein bod yn cydnabod bod y gwariant yn cael ei lywio gan y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, ac yn wir darperais—a chredaf i chi ymateb ar y pryd, Nick Ramsay—adroddiad wrth gwrs ar y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru pan gawsom ddadl ar ein cyllideb derfynol ym mis Rhagfyr. Wrth gwrs, roedd hynny hefyd yn amlinellu'r gwariant sydd ar y gweill yn y dyfodol o ran ein hadnoddau cyfalaf, a'r gwariant hwnnw sydd ar y gweill, wrth gwrs, fydd yn llywio gwario'r £8.8 miliwn.

15:11

### **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the statement by the Minister for Finance and Government Business. It would be churlish not to welcome the £133.3 million increase in revenue funding, even if it is less than 10% of the £1.5 billion real-terms cut in the Welsh Government's revenue budget, so we are getting less than 10% back of the £1.5 billion that has gone. I welcome the extra £70 million for health. Can I ask that the health Minister seriously consider using this money for primary care? Too often in Wales, for health we see hospitals and perhaps we don't think enough about primary care. I also welcome the additional funding for education. Can I ask that the education Minister considers using it to support the Schools Challenge Cymru project, which has a huge opportunity to deal with the problems of education in Wales?

Rwyf yn croesawu'r datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth. Peth anfoesgar fyddai peidio â chrosawu'r cynnydd o £133.3 miliwn mewn cyllid refeniw, hyd yn oed os yw'n llai na 10% o'r toriad termau real o £1.5 biliwn yng nghyllideb refeniw Llywodraeth Cymru, felly rydym yn cael llai na 10% yn ôl o'r £1.5 biliwn sydd wedi mynd. Rwyf yn croesawu'r £70 miliwn ychwanegol ar gyfer iechyd. A gaf fi ofyn i'r Gweinidog iechyd ystyried o ddifrif defnyddio'r arian hwn ar gyfer gofal sylfaenol? Yn rhy aml yng Nghymru, ar gyfer iechyd gwelwn ysbytai ac efallai nad ydym yn meddwl digon am ofal sylfaenol. Rwyf hefyd yn croesawu'r cyllid ychwanegol ar gyfer addysg. A gaf fi ofyn i'r Gweinidog addysg ystyried ei ddefnyddio i gefnogi prosiect Her Ysgolion Cymru, y mae cyfle aruthrol iddo i ymdrin â phroblemau addysg yng Nghymru?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:12

### **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mike Hedges for his questions, and, to acknowledge the importance of primary care, again, of course, the Ministers did announce the primary care plan last year and that has a huge impact in terms of delivering that as part of the transformational reforms responding in terms of the Nuffield Trust's report. Also, of course, it is in it as well in terms of investment in primary care, which will help to support the ways in which we address, particularly at this present time, the winter pressures, and that has been raised today.

Diolch i Mike Hedges am ei gwestiynau ac, a chydabod pwysigrwydd gofal sylfaenol, unwaith eto, wrth gwrs, cyhoeddodd y Gweinidogion gynllun gofal sylfaenol y llynedd ac mae hwnnw wedi cael effaith aruthrol o ran cyflawni hynny fel rhan o'r diwygiadau trawsnewidiol i ymateb i adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield. Hefyd, wrth gwrs, y mae ynddo hefyd o ran buddsoddi mewn gofal sylfaenol, a fydd yn helpu i gefnogi'r ffyrdd yr ydym yn mynd i'r afael â phwysau'r gaeaf, yn enwedig ar hyn o bryd, ac mae hynny wedi'i godi heddiw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Now, I think the issues that you've raised in terms of education are important. The Minister will be coming back to report on how he would like to allocate the £8.4 million for education. I think it's important also to remember that we've protected schools' funding at 1% above the changes to the Wales departmental expenditure limit over this spending review period, and the pupil deprivation grant funding, as, of course, a result of budget agreements, added to this. Of course, it is important that we look at the pressures, and indeed I have to say also, in terms of Schools Challenge Cymru, that we were able to make an allocation from reserves to Schools Challenge Cymru this time last year. Of course, the Minister will also come back in terms of funding pressures across the whole of his portfolio.

Yn awr, credaf fod y materion yr ydych wedi eu codi ynglŷn ag addysg yn bwysig. Bydd y Gweinidog yn dod yn ôl i adrodd ar sut yr hoffai ddyrannu'r £8.4 miliwn ar gyfer addysg. Credaf ei bod yn bwysig cofio hefyd ein bod wedi cadw cyllid ysgolion 1% yn uwch na'r newidiadau i derfyn gwariant adrannol Cymru yn ystod y cyfnod hwn o adolygu'r gwariant, ac arian y grant amddifadedd disgyblion, o ganlyniad wrth gwrs i gytundebau'r gyllideb, yn ychwanegol at hyn. Wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod yn edrych ar y pwysau, ac yn wir rhaid imi ddweud hefyd, o ran Her Ysgolion Cymru, ein bod wedi gallu neilltuo arian o'r cronfeydd wrth gefn i Her Ysgolion Cymru yr adeg hon y llynedd. Wrth gwrs, bydd y Gweinidog hefyd yn dod yn ôl o ran y pwysau cyllido ar draws ei bortffolio cyfan.

Diolch am y datganiad, er nad oes gennym syniad sut bydd yr arian yma yn cael ei wario er budd pobl Cymru ar hyn o bryd. Mae'ch datganiad chi yn dechrau gyda chŵyn sydd wedi bod yn thema gyson gan Lywodraeth Cymru, sef bod polisi llymder Llywodraeth glymblaid San Steffan yn cael effaith niweidiol ar unigolion, teuluoedd a chymunedau Cymru. Felly, rwy'n credu ei fod o'n deg i mi ofyn cwestiwn penodol i chi: pe bai Mr Miliband yn arwain Llywodraeth yn dilyn etholiad gyffredinol y Deyrnas Unedig, sut bydd pethau'n wahanol yma yng Nghymru? Pa wahaniaeth fyddai i gyllideb Cymru, er enghraifft, yn y flwyddyn gyntaf ac yn y blynnyddoedd sydd yn dilyn, o gofio bod Mr Balls wedi dweud y bydd o yn dileu y ddyled, yn union fel mae'r Torïaid yn ei wneud? Felly, a fuasech chi'n egluro y cyddestun yna, gan eich bod chi eto yn eich ymateb i'r Torïaid wedi beio y glymblaid am y diffygion yn y gyllideb? Mae'r datganiad yma, unwaith eto, yn cyfeirio at yr adnoddau ychwanegol, y £70 miliwn, sydd eisoes wedi'i glustnodi i'r adran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. A wnewch chi gadarnhau mai y byrddau iechyd fydd yn elwa o'r arian yma, ac na fydd dim yn mynd i'r gwasanaethau cymdeithasol. Wrth gwrs, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu'r un un pwysau â'r gwasanaeth iechyd, efo twf yn y boblogaeth oedranus, sydd yn dod â gofynion ychwanegol ar ein gwasanaethau cymdeithasol. A wnewch chi gadarnhau mai dyna ydy eich bwriad chi efo'r £70 miliwn?

O ran yr £8.5 miliwn sydd wedi'i glustnodi ar gyfer addysg, bydd hynny'n cael ei groesawu wrth gwrs, ond dyma'r realiti ar lawr gwlad, er eich bod chi'n dweud eich bod chi wedi gwarchod y gyllideb honno i raddau. Mi oeddwn i mewn ysgol yn fy etholaeth y diwrnod o'r blaen, etholaeth sydd â chanran uchel o'i phlant yn dod o gartrefi diffreintiedig yn ôl mynegrif y Llywodraeth, ac roedd o'n dweud—y prifathro—wrthyf i y bydd o'n wynebu toriad o 6% yn ei gyllideb yn ystod y tair blynedd nesaf. Felly, faint o wahaniaeth ydych chi'n credu y bydd yr £8 miliwn yma yn ei wneud i ysgolion Cymru dros y flwyddyn nesaf?

O ran yr arian sy'n ymwneud â'r dreth annomestig, unwaith eto, rydych chi wedi dweud y bydd yna ddatganiad ynglŷn â hwn, ond ai bwriad yr arian ychwanegol yma ydy ymestyn y cynllun rhyddhad trethi, fel y mae Plaid Cymru, a'r Torïaid hefyd, wedi galw amdano yn ystod y blynnyddoedd diwethaf? Diolch yn fawr.

Thank you for the statement, although we've no idea how this money will be spent for the benefit of the people of Wales at present. Your statement begins with the complaint that has been a constant theme by Welsh Government, namely that the austerity policy of the Westminster coalition Government is having a detrimental effect on individuals, families and the communities of Wales. So, I do believe that it's fair for me to ask you a specific question: if Mr Miliband were to lead the Government following the United Kingdom general election, how would things be different here in Wales? What difference would it make to the Welsh budget, for example, in the first year and in subsequent years, bearing in mind that Mr Balls has said that he would get rid of the deficit, exactly as the Tories have said? So, could you, in that context, explain, because you have again in your response to the Tories blamed the coalition for the deficiencies in the budget? This statement, once again, refers to the additional resources, the £70 million, already been allocated to the department for health and social services. Will you confirm that it is the health boards that will benefit from this funding, and that none of it will go to social services? Of course, the social services are facing exactly the same pressures as the health service, with the growth in the elderly population, which brings with it additional demands on our social services. Will you confirm that that is your intention with the £70 million?

As regards the £8.5 million that has been allocated for education, that of course will be welcomed, but this is the reality on the ground, although you say that you have protected that budget to an extent. I was in a school in my constituency the other day, a constituency with a high proportion of its children coming from deprived households according to the Government's own index, and he said—the headteacher—told me that he will be facing a 6% cut in its budget over the next three years. So, how much of a difference do you think this £8 million will make to the schools of Wales over the next year?

As regards the funding for non-domestic rates, once again, you have said that there will be a further statement about this, but is it the intention for this additional funding to extend the rate relief scheme, as Plaid Cymru, and the Tories have called for in recent years? Many thanks.

Diolch yn fawr i Alun Ffred Jones. I don't think Alun Ffred Jones will be at all surprised that I want to respond to my statement today, but in terms of how I wish to allocate this additional funding as a result of the autumn statement, and how a Welsh Labour Government is allocating and choosing to use this, being steered by its priorities in terms of using this very welcome funding, I have to say, in response to Mike Hedges's point, as well. Of course the funding is welcome, but we then have to use our judgment and our policies here in Wales to allocate that. I would say that I think it would be worth while, Alun Ffred, if you looked at the Institute of Fiscal Studies assessment in terms of forecasting at this stage how future political parties have said that they would plan for spend in 2015-16 and 2016-17, following the election. Look at the IFS and that will tell you a lot, I think, in terms of your particular question.

Now, £8.5 million, I think, is an important allocation to the education budget and, of course, this is in addition to the allocations, the considerable allocation uplift, indeed, as far as the pupil deprivation grant—. I acknowledge that you were talking about a school where there was deprivation, so, you know, in terms of the reductions that you have said were reported back to you, I'm not sure under which budget head they would come through, but, I mean, the pupil deprivation grant addition will be considerable in terms of the next years and the impact that will have.

I think, in terms of health and social services, clearly, this is £70 million for the health and social services budget—that is the budget—and the Minister for Health and Social Services will make an announcement. It is important today that your views are given. I think that this is very clear, in terms of the pressures on health, that we are already—in terms of that extra £0.5 billion we're putting into the health service. We do recognise that the £70 million can additionally help us to target those areas where there is particular pressure, but also to consider how we can take this forward in terms of the important interface between health and social care. The Minister will respond to that in due course when he makes his statement.

Now, in terms of non-domestic rates, I think it is important today that we do come forward with this response to the autumn statement—£30.9 million revenue earmarked for non-domestic rates measures. Of course, it has been very clear in what I've said about what we've called for, in terms of continuation of rate relief and also drawing on the expertise of the panel that the Minister has set up to advise her.

Diolch yn fawr i Alun Ffred Jones. Nid wyf yn credu y bydd yn syndod i Alun Ffred Jones fod arnaf eisiau ymateb i fy natganiad heddiw, ond o ran sut yr wyf yn dymuno dyrannu'r cyllid ychwanegol hwn yn sgil datganiad yr hydref, a sut y mae Llywodraeth Lafur Cymru'n dyrannu ac yn dewis defnyddio hwn, ar sail ei blaenoriaethau o ran defnyddio'r cyllid derbynol iawn hwn, rhaid imi ddweud, wrth ymateb i bwynt Mike Hedges hefyd. Wrth gwrs, mae'r cyllid i'w groesawu, ond yna mae'n rhaid inni arfer doethineb a'n polisiau yma yng Nghymru i ddyrannu hynny. Byddwn yn dweud fy mod yn credu y byddai'n werth i chi, Alun Ffred, edrych ar asesiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid o ran darogan ar hyn o bryd sut y mae pleidiau gwleidyddol wedi dweud y byddent yn cynllunio ar gyfer gwariant yn 2015-16 a 2016-17, ar ôl yr etholiad. Edrychwch ar y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a bydd hynny'n dweud llawer wrthy, rwyf yn meddwl, am eich cwestiwn penodol.

Yn awr, mae £8.5 miliwn, yn fy marn i, yn ddyraniad pwysig i'r gyllideb addysg ac, wrth gwrs, mae hyn yn ychwanegol at y dyraniadau, y codiad sylweddol yn wir yn y dyraniad, o ran y grant amddifadedd disgyblion—. Rwyf yn cydnabod eich bod yn siarad am ysgol lle'r oedd amddifadedd, felly, o ran y gostyngiadau y dywedwch ichi gael gwybod amdanynt, nid wyf yn siŵr o dan ba bennawd yn y gyllideb y byddent yn dod, ond bydd ychwanegiad y grant amddifadedd disgyblion yn sylweddol o ran y blynyddoedd nesaf a'r effaith a gaiff hynny.

Credaf, o ran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, wrth gwrs, fod hyn yn £70 miliwn ar gyfer y gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol—dyna'r gyllideb—a bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud cyhoeddiad. Mae'n bwysig heddiw fod eich barn yn cael ei rhoi. Credaf fod hyn yn glir iawn, o ran y pwysau ar iechyd, yr ydym ni eisoes—o ran y £0.5 biliwn ychwanegol hwnnw yr ydym yn ei roi i'r gwasanaeth iechyd. Rydym yn cydnabod y gall y £70 miliwn hefyd ein helpu i dargedu'r ardaloedd hynny lle y mae pwysau penodol, ond hefyd i ystyried sut y gallwn fwrw ymlaen â hyn o ran y rhyngwyneb pwysig rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y Gweinidog yn ymateb i hynny maes o law pan fydd yn gwneud ei ddatganiad.

Yn awr, o ran ardrethi annomestig, credaf ei bod yn bwysig heddiw ein bod y cyflwyno ymateb i ddatganiad yr hydref—refeniw o £30.9 miliwn wedi ei glustnodi ar gyfer mesurau ardrethi annomestig. Wrth gwrs, mae wedi bod yn glir iawn o ran yr hyn yr wyf wedi ei ddweud am yr hyn yr ydym wedi galw amdano, ynglŷn â pharhad rhyddhad ardrethi, a thynnu hefyd ar arbenigedd y panel y mae'r Gweinidog wedi ei sefydlu i roi cyngor iddi.

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for the statement. I will do you the courtesy of asking you questions on your statement rather than actually fighting the next general election in the Chamber here. Can I ask you in terms of the allocation to health? I think that we heard earlier on, in First Minister's questions, Kirsty Williams asking the First Minister about the severe pressures that the health service are under, and those pressures are largely down to structural matters rather than just A&E coping in terms of winter pressures. I think that it's quite clear to many, many people that, without proper investment into social services and community care, we're not going to be able to relieve a lot of those pressures. So, can I ask you when will we expect to have that statement in terms of how that extra £70 million will be allocated, and how much of that money will be put into social services, given that we will be debating very shortly the local government settlement and the amount of money that local authorities will have to deal with? They'll be making decisions following on from that in terms of what they can allocate to social services. Therefore, it's quite important that those local authorities do know fairly quickly if any additional money will be available to try to get better integration of health and social care in terms of the future. If that money is not forthcoming and that integration is not continued on, Minister, then I think we will find those pressures on hospitals increasing even further. So, could you give us an indication of when that statement will be brought forward and whether social services will be included in that, in terms of relieving the pressure not just on social services but also on the health service as well?

Diolch ichi, Weinidog, am y datganiad. O ran cwrteisi, gofynnaf gwestiynau ichi am eich datganiad yn hytrach nag ymladd yr etholiad cyffredinol nesaf yn y Siambr hon. A gaf fi eich holi ynglŷn â'r dyraniad i iechyd? Credaf inni glywed yn gynharach, yn ystod cwestiynau'r Prif Weinidog, Kirsty Williams yn gofyn am y pwysau difrifol sydd ar y gwasanaeth iechyd, a materion strwythurol sy'n gyfrifol am y pwysau hynny'n bennaf yn hytrach na dim ond pwysau'r gaeaf ar yr adran damweiniau ac achosion brys. Credaf ei bod yn eithaf amlwg i lawer iawn o bobl na fydd dim modd inni, heb fuddsoddi priodol mewn gwasanaethau cymdeithasol a gofal yn y gymuned, leddfu llawer o'r pwysau hynny. Felly, a gaf fi ofyn ichi pryd y gallwn ddisgwyl cael y datganiad hwnnw ynglŷn â dyrannu'r £70 miliwn ychwanegol, a faint o'r arian hwnnw fydd yn cael ei roi tuag at y gwasanaethau cymdeithasol, o ystyried y byddwn yn trafod y setliad llywodraeth leol yn fuan iawn a swm yr arian y bydd yr awdurdodau lleol yn ymdrin ag ef? Byddant yn gwneud penderfyniadau ar ôl hynny ynglŷn â'r hyn y gellir ei ddyrannu i'r gwasanaethau cymdeithasol. Felly, mae'n eithaf pwysig bod yr awdurdodau lleol hynny'n gwybod yn eithaf buan a fydd unrhyw arian ychwanegol ar gael er mwyn ceisio integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well yn y dyfodol. Os nad yw'r arian hwnnw ar ddod ac os na pharheir â'r integreiddio hwnnw, Weinidog, yna credaf y byddwn yn gweld y pwysau hynny ar ysbytai'n cynyddu eto fyth. Felly, a wnewch chi roi syniad inni pryd y bydd y datganiad hwnnw'n cael ei gyflwyno ac a fydd y gwasanaethau cymdeithasol wedi'u cynnwys yn hynny, o ran lleddfu pwysau ar y gwasanaethau cymdeithasol, ac ar y gwasanaeth iechyd yn ogystal?

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Peter Black for responding to my statement this afternoon and also for recognising the particular links that he's making to the current position in terms of winter pressures. Of course, a written statement has just been issued in terms of how the health service has borne the winter pressures, the winter plans that are in place, the agreements and actions that are being used to manage through this very difficult period, and of course the ways in which we have seen some very great innovation in Wales in terms of handling that winter pressure. I mentioned earlier on our visit to Neath Port Talbot Hospital, and I am sure you will know, of course, of that very resilient and effective 24/7 nurse-led minor injuries service, which of course then helps ensure that the pressures on A&E are not so great in terms of those minor injuries being dealt with so effectively.

Diolch i Peter Black am ymateb i'm datganiad y prynhawn yma, ac am gydnabod y cysylltiadau penodol y mae'n eu gwneud â'r sefyllfa bresennol o ran pwysau'r gaeaf hefyd. Wrth gwrs, mae datganiad ysgrifenedig newydd gael ei gyhoeddi ynglŷn â sut y mae'r gwasanaeth iechyd wedi ymdopi â phwysau'r gaeaf, y cynlluniau sydd ar waith ar gyfer y gaeaf, y cytundebau a'r camau gweithredu sy'n cael eu defnyddio i ddygymod â chyfnod anodd iawn, ac wrth gwrs y ffyrdd yr ydym wedi gweld blaengaredd mawr iawn yng Nghymru o ran dod i ben â phwysau'r gaeaf. Soniais yn gynharach am ein hymweliad ag Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, ac rwyf yn sicr y byddwch yn gwybod, wrth gwrs, am y gwasanaeth mân anafiadau 24 awr y dydd 7 diwrnod yr wythnos dan arweiniad nyrsys, gwasanaeth cydnerth ac effeithiol iawn, sydd wrth gwrs wedyn yn helpu i sicrhau nad yw'r pwysau ar yr adran damweiniau ac achosion brys mor drwm gan fod y mân anafiadau'n cael eu trin mor effeithiol.



I think it is important that the Minister for Health and Social Services will be responding as soon as possible in terms of the £70 million, but we have recognised the importance of social services to the health service, and of course those concerns were echoed by local government. We're investing as a result of that an additional £10 million in our budget in recognition of these pressures, and of course we are going on to debate the settlement shortly for local government. Also, we do have the opportunities with the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 in terms of providing not only the £10 million but also recognising that this can also help with transitions to new arrangements under the new Social Services and Well-being Act, and the importance of the health service and social care working together is clear. So, I acknowledge these points and of course the Minister is here and he's acknowledging, and it's an important opportunity in my statement to scrutinise on these points.

Credaf ei bod yn bwysig y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymateb cyn gynted ag y bo modd ynglŷn â'r £70 miliwn, ond rydym wedi cydnabod pwysigrwydd y gwasanaethau cymdeithasol i'r gwasanaeth iechyd, ac wrth gwrs roedd llywodraeth leol yn adleisio'r pryderon hynny. O ganlyniad i hynny rydym yn buddsoddi £10 miliwn ychwanegol yn ein cyllideb i gydnabod y pwysau hyn, ac wrth gwrs byddwn yn mynd ymlaen i drafod setliad llywodraeth leol cyn hir. Hefyd, mae gennym gyfleoedd gyda Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ran darparu'r £10 miliwn, ond hefyd o ran cydnabod y gall hyn hefyd helpu i bontio i drefniadau newydd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd, ac mae pwysigrwydd cydweithredu rhwng y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn glir. Felly, rwyf yn cydnabod y pwyntiau hyn ac wrth gwrs mae'r Gweinidog yma ac mae'n cydnabod, ac mae'n gyfle pwysig yn fy natganiad i graffu ar y pwyntiau hyn.

15:24 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for your statement. I know that you're very well aware of my concerns about funding for social services, and, with that in mind, I would echo the concerns raised by Peter Black and by Alun Ffred Jones this afternoon. I hear what you're saying about the Minister making a statement, and I do welcome that assurance. Will you take this opportunity to restate your commitment to dealing with the pressures facing social services, particularly in the light of the new Act, which places a great deal of emphasis on preventative and early intervention work, which will be the first work undermined by cuts in social services?

Diolch ichi, Weinidog, am eich datganiad. Gwn eich bod yn ymwybodol iawn o'm pryderon ynglŷn ag arian i'r gwasanaethau cymdeithasol, a gyda hynny mewn golwg, rwyf am adleisio'r pryderon a fynegwyd gan Peter Black ac Alun Ffred Jones y prynhawn yma. Clywaf yr hyn yr ydych yn ei ddweud o ran datganiad gan y Gweinidog, ac rwyf yn croesawu'r sicrwydd hwnnw. A wnewch chi fanteisio ar y cyfle hwn i ailddatgan eich ymrwymiad i ymdrin â'r pwysau sy'n wynebu'r gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig yng ngoleuni'r Ddeddf newydd, sy'n rhoi llawer o bwyslais ar waith ataliol ac ymyrraeth gynnar, sef y gwaith cyntaf y bydd toriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol yn ei danselilio?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:24 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I certainly have no problem at all with again re-emphasising my commitment to social services and to the social services spend. I mean, that has been reflected over the past four and half years. In terms of making allocations to social services. I think this is one way in which if you do—and I'm sure many analyses are being done and will be done of the winter pressures and how we've managed them across the UK. The fact is that we have invested in social care and social services and we have protected local government, comparatively, compared with England in terms of our allocations, and we have sought to integrate the working between health and social care. Indeed, as you say, Lynne Neagle, on the importance of the new Social Services and Well-being (Wales) Act and recognising this £10 million that I've allocated, we're also maintaining funding of £67.4 million to support policy transformation. That, of course, as well underpins the delivery of social care in Wales in the health and social service main expenditure group.

lawn, nid oes gennyf yn sicr ddim problem o gwbl o ran ailbwysleisio fy ymrwymiad i'r gwasanaethau cymdeithasol ac i'r gwariant ar y gwasanaethau cymdeithasol. Mae hynny wedi bod yn amlwg dros y pedair blynedd a hanner diwethaf. O ran gwneud dyraniadau i'r gwasanaethau cymdeithasol. Credaf fod hyn yn un ffordd, os gwnewch—ac rwyf yn siŵr bod llawer o ddadansoddiadau'n cael eu gwneud ac y bydd llawer yn cael eu gwneud o bwysau'r gaeaf a sut yr ydym wedi dod i ben â hynny ledled y DU. Y gwir yw ein bod wedi buddsoddi mewn gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol, ac rydym wedi gwarchod llywodraeth leol, yn gymharol, o gymharu â Lloegr o ran ein dyraniadau, ac rydym wedi ceisio integreiddio'r gwaith a wneir rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Yn wir, fel y dywedwch, Lynne Neagle, ynglŷn â phwysigrwydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) newydd a chydnabod y £10 miliwn hwn yr wyf wedi ei ddyrannu, rydym hefyd yn cynnal cyllid o £67.4 miliwn i gefnogi trawsnewid polisiau. Mae hynny hefyd, wrth gwrs, wrth wraidd y broses o ddarparu gofal cymdeithasol yng Nghymru ym mhrif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



15:26	<b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Minister, you've made a very good job of avoiding answering the questions that have been put to you on whether any of the £70 million will be afforded to social services and local authorities. The statement is quite clear, saying that the £70 million will be allocated to the health and social service MEG. Can you confirm, therefore, that none of the £70 million will be awarded to local authorities?	Weinidog, rydych wedi llwyddo i osgoi ateb y cwestiynau sydd wedi'u gofyn ichi ynglŷn ag a fydd rhywfaint o'r £70 miliwn yn cael ei roi i wasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau lleol. Mae'r datganiad yn eithaf clir, y bydd y £70 miliwn yn cael ei ddyrannu i Brif Grŵp Gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. A allwch chi gadarnhau, felly, na fydd dim o'r £70 miliwn yn cael ei ddyfarnu i awdurdodau lleol?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:26	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	The £70 million is going to the Minister for Health and Social Service's MEG—[Interruption.] I confirm.	Mae'r £70 miliwn yn mynd i Brif Grŵp Gwariant y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol—[Torri ar draws.] Rwyf yn cadarnhau.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:26	<b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	[Inaudible.] Finish the sentence.	[Anghlywadwy.] Gorffennwch y frawddeg.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:26	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	I think what's important is, you know, the fact that the consequential was money allocated by the UK Government to the health service. We immediately took the decision, on the day, that we would take that consequential, which was for the health service, and put it into the health service in Wales. It does happen to be a health and social services MEG. So, it is a health and social services MEG and here in Wales—and, again, it goes back to the point that I made—we are working very closely together to drive the integration of health and social care and, of course, that involves local government, as well.	Credaf mai'r hyn sy'n bwysig, wyddoch chi, yw'r ffaith mai arian a ddyrannwyd gan Lywodraeth y DU i'r gwasanaeth iechyd oedd y cyllid canlyniadol. Gwnaethom y penderfyniad, ar y diwrnod, y byddem yn cymryd y cyllid canlyniadol hwnnw, a oedd ar gyfer y gwasanaeth iechyd, a'i roi tuag at y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Mae'n digwydd bod yn Brif Grŵp Gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Felly, mae'n Brif Grŵp Gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac yma yng Nghymru—ac, unwaith eto, mae hyn yn mynd yn ôl at y pwynt a wneuthum—rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'n gilydd i sbarduno integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ac, wrth gwrs, mae hynny'n cynnwys llywodraeth leol hefyd.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:27	<b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	You are driving it, but you are not doing it.	Rydych yn ei sbarduno, ond nid ydych yn ei wneud.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:27	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Thank you, Minister.	Diolch ichi, Weinidog.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:27	<b>Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i Amrywio Trefn Ystyried Gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Addysg Uwch (Cymru)</b>	<b>Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<b>Motion under Standing Order 26.36 to Vary the Order of Consideration of Stage 3 Amendments to the Higher Education (Wales) Bill</b>	Y Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	We now move onto item 4, which is a motion under Standing Order 26.36 to vary the order of consideration of Stage 3 amendments to the higher education Bill.	Symudwn ymlaen yn awr i eitem 4, sef cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 y Bil addysg uwch.		
	I call on the Minister for Education and Skills to move the motion: Huw Lewis.	Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i gyflwyno'r cynnig: Huw Lewis.		
	Cynnig NDM5659 Huw Lewis	Motion NDM5659 Huw Lewis		

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Addysg Uwch (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

Agrees to dispose of sections and schedules to the Higher Education (Wales) Bill at Stage 3 in the following order:

a) adrannau 2-59

a) sections 2-59

b) atodlen

b) schedule

c) adran 1

c) section 1

d) teitl hir.

d) long title.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:27 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

I move.

Cynigiau.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Move. I have no other speakers, so you obviously don't wish to wind up the debate. So, the proposal is that we agree the motion. Does any Member object? No objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Cynnig. Nid oes gennyf ddim siaradwyr eraill, felly mae'n amlwg nad ydych yn dymuno dirwyn y ddadl i ben. Felly, y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:28 **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth—Gwelliant i Deddf Landlordiaid a Tenant 1954 (Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol—Memorandwm Rhif 2)**

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 5. It is a legislative consent motion on the Small Business, Enterprise and Employment Bill: an amendment in relation to the Landlord and Tenant Act 1954, supplementary legislative consent memorandum—memorandum no. 2. I call on the Minister, Lesley Griffiths.

**Legislative Consent Motion on the Y Small Business, Enterprise and Employment Bill—Amendment in relation to Landlord and Tenant Act 1954 (Supplementary Legislative Consent Memorandum—Memorandum No. 2)**

Symudwn yn awr at eitem 5. Cynnig cydsyniad deddfwriaethol yw hwn ar y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth: diwygiad mewn cysylltiad â'r Ddeddf Landlord a Tenant 1954, memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol—memorandwm rhif 2. Galwaf ar y Gweinidog, Lesley Griffiths.

Cynnig NDM5655 Lesley Griffiths

Motion NDM5655 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y gwelliannau i'r Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth sy'n ymwneud â thenantiaethau busnesau yn y cartref, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that amendments to the Small Business, Enterprise and Employment Bill, relating to home business tenancies in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I move the motion. We had two LCM debates on this Bill last year, and Plenary previously approved motions concerning provisions in the Bill relating to exports, education and training. This supplementary LCM on the UK Government's Small Business, Enterprise and Employment Bill concerns amendments to support home businesses. I'd like to thank the Assembly's Enterprise and Business Committee for its scrutiny of the supplementary LCM and for its report. I am pleased Members found the supplementary LCM to be clear and were content with the memorandum.

However, since the memorandum was laid and considered by the committee, the UK Government has laid a number of amendments to the Bill concerning provisions relating to the Landlord and Tenant Act 1954 and home business tenancies. The most significant amendment concerns the procedure for making secondary legislation to define a home business in the context of home business tenancies. Following a recommendation from Parliament's delegated powers committee, the UK Government recently laid an amendment to change the procedure from the negative to the affirmative procedure. I agree the amendment should also apply in Wales.

As this is a significant amendment, the Welsh Government has laid an amended LCM, and I trust Members are content with this change, which provides greater powers for the Assembly to scrutinise secondary legislation.

The UK Government has also made some other minor amendments to the Bill, ensuring consistency in the application of the provisions. The revised LCM also refers to these amendments. There are over 187,000 homeworkers in Wales, and, at present, there is an implied incentive for landlords to bar tenants operating a business from their home. Section 23 of the Landlord and Tenant Act 1954 states that, where there is a business use of a property, a business tenancy exists. And because business tenancies enjoy greater security of tenure, residential landlords tend to avoid them, as they fear it will be more difficult to recover the property at the end of the lease.

The new provision will amend the 1954 Act so its provisions for security of tenure of business tenancies do not apply to home business tenancies, which are defined as tenancies of dwellings granted to individuals for occupation, as homes where tenants, with their landlord's permission, carry on business of a kind that might reasonably be carried on at home. Landlords will be free to choose what sort of activities to permit, but the amendment is intended to remove the current incentive to bar all forms of business activity.

Cynigiad y cynnig. Cawsom ddwy ddatl ar gynigion cydsyniad deddfwriaethol ar y Mesur hwn y llynedd, a chymeradwywyd cynigion yn ymwneud â darpariaethau yn y Bil ynghylch allforion, addysg a hyfforddiant gan Gyfarfod Llawn yn flaenorol. Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn ar Fil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth Llywodraeth y DU, yn ymwneud â gwelliannau i gefnogi busnesau cartref. Hoffwn ddiolch i Bwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad am graffu ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol ac am ei adroddiad. Rwy'n falch bod yr Aelodau o'r farn bod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol yn glir a'u bod yn fodlon ar y memorandwm.

Fodd bynnag, ers i'r memorandwm gael ei osod a'i ystyried gan y pwyllgor, mae Llywodraeth y DU wedi gosod nifer o welliannau i'r Bil yn ymwneud â darpariaethau mewn cysylltiad â Deddf Landlord a Tenant 1954 a thenantiaethau busnesau cartref. Mae'r gwelliant mwyaf arwyddocaol yn ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth i ddiffinio busnes cartref yng nghydestun tenantiaethau busnesau cartref. Yn dilyn argymhelliad gan bwyllgor pwerau dirprwyedig y Senedd, gosododd Llywodraeth y DU welliant yn ddiweddar i newid y weithdrefn o'r weithdrefn negyddol i'r weithdrefn gadarnhaol. Rwy'n cytuno y dylai'r gwelliant fod yn gymwys yng Nghymru hefyd.

Gan fod hwn yn welliant arwyddocaol, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig, a hyderaf fod Aelodau'n fodlon ar y newid hwn, sy'n rhoi mwy o bwerau i'r Cynulliad i graffu ar is-ddeddfwriaeth.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi gwneud rhai mân welliannau eraill i'r Bil, gan sicrhau cysondeb yn y ffordd y rhoddir y darpariaethau ar waith. Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol diwygiedig hefyd yn cyfeirio at y gwelliannau hyn. Mae dros 187,000 o weithwyr cartref yng Nghymru, ac, ar hyn o bryd, mae cymhelliant i landlordiaid wahardd tenantiaid rhag rhedeg busnes o'u cartref ymhlwg yn y ddeddfwriaeth. Mae Adran 23 o Ddeddf Landlord a Tenant 1954 yn datgan bod tenantiaeth busnes yn bodoli, lle mae eiddo'n cael ei ddefnyddio at ddibenion busnes. Ac oherwydd bod gan denantiaethau busnes fwy o sicrwydd deiliadaeth, mae landlordiaid preswyl yn tueddu i'w hosgoi, gan eu bod yn ofni y bydd yn fwy anodd adennill yr eiddo ar ddiwedd y brydles.

Bydd y ddarpariaeth newydd yn diwygio Deddf 1954, fel nad yw ei darpariaethau ar gyfer sicrwydd deiliadaeth tenantiaethau busnes yn berthnasol i denantiaethau busnes cartref, a ddiffinnir fel tenantiaethau anheddau a roddwyd i unigolion fyw ynddynt fel cartrefi, lle mae tenantiaid, gyda chaniatâd eu landlord, yn rhedeg busnes o fath y gellid yn rhesymol ei redeg o gartref. Bydd landlordiaid yn rhydd i ddewis pa fath o weithgareddau i'w caniatáu, ond bwriedir i'r gwelliant ddileu'r cymhelliad presennol i wahardd pob math o weithgarwch busnes.

The provisions also give powers to the Welsh Minister to make consequential amendments and to commence the provisions in Wales. I commend the motion to the Chamber.

Mae'r darpariaethau hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud diwygiadau canlyniadol ac i gychwyn y darpariaethau yng Nghymru. Cymeradwyaf y cynnig i'r Siambr.

15:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I call the Chair of the Enterprise and Business Committee, William Graham.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes, William Graham.

15:31 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer.

Diolch i chi, Lywydd.

This is the second legislative consent motion that the Enterprise and Business Committee has considered in relation to this Bill. The first LCM related to support for exports and information relating to education, and was considered by our committee on 24 September. The supplementary LCM was laid on 7 November and relates to amendments made at Committee Stage in the House of Commons to encourage business use of residential premises. We considered the supplementary memorandum on 26 November, and our view was that the supplementary LCM was clear, and we were content with the memorandum.

Hwn yw'r ail gynnis cydsyniad deddfwriaethol i'r Pwyllgor Menter a Busnes ei ystyried mewn cysylltiad â'r Bil hwn. Roedd y cynnis cydsyniad deddfwriaethol cyntaf yn ymwneud â chefnogaeth i allforion a gwybodaeth yn ymwneud ag addysg, a chafodd ei ystyried gan ein pwyllgor ar 24 Medi. Gosodwyd y cynnis cydsyniad deddfwriaethol atodol ar 7 Tachwedd ac mae'n ymwneud â gwelliannau a wnaed ar y cam Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin er mwyn annog defnydd busnes o eiddo preswyl. Ystyriwyd y memorandwm atodol gennym ar 26 Tachwedd, a'n barn ni oedd bod y cynnis cydsyniad deddfwriaethol atodol yn glir, ac rydym yn fodlon ar y memorandwm.

May I thank the Minister for her letter of 7 January, explaining that further amendments to the Bill had been tabled by the UK Government since we laid our report? The Minister's letter has been included as a paper to note for our meeting on 15 January, but I am most grateful for the copy of the revised memorandum. On behalf of the committee, I am content with her approach.

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei llythyr dyddiedig 7 Ionawr yn egluro bod gwelliannau ychwanegol i'r Bil wedi'u cyflwyno gan Lywodraeth y DU ers inni osod ein hadroddiad? Mae Llythyr y Gweinidog wedi cael ei gynnwys fel papur i'w nodi ar gyfer ein cyfarfod ar 15 Ionawr, ond rwy'n ddiolchgar iawn am y copi o'r memorandwm diwygiedig. Ar ran y pwyllgor, rwy'n fodlon ar ei dull hi o weithredu.

15:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I have no other speakers. Minister.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill. Weinidog.

15:32 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I thank William Graham for his comments and I ask Members to support the LCM.

Diolch i William Graham am ei sylwadau a gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r cynnis cydsyniad deddfwriaethol.

15:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No Member objects, therefore it is agreed in accordance with Standing Orders.

Y cynnis yw derbyn y cynnis. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ni does yr un Aelod yn gwrthwynebu, felly fe'i derbyniwyd yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

*Derbyniwyd y cynnis yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth—Taliadau Ymadael y Sector Cyhoeddus (Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol—Memorandwm Rhif 3)

### Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 6, which is the Legislative Consent Motion on the Small Business, Enterprise and Employment Bill—Public Sector Exit Payments (Supplementary Legislative Consent Memorandum—Memorandum No. 3). I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt, to move the motion.

Cynnig NDM5656 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth sy'n ymwneud â thaliadau ymadael y sector cyhoeddus, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

*Cynigiwyd y cynnig.*

## Legislative Consent Motion on the Y Small Business, Enterprise and Employment Bill - Public Sector Exit Payments (Supplementary Legislative Consent Memorandum—Memorandum No. 3)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Symudwn yn awr at eitem 6, sef y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth—Taliadau Ymadael y Sector Cyhoeddus (Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol—Memorandwm Rhif 3). Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt, i gynnig y cynnig.

Motion NDM5656 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Small Business, Enterprise and Employment Bill, relating to public sector exit payments in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

*Motion moved.*

### Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

I'd like to begin by expressing my thanks to the Communities, Equality and Local Government Committee for considering the legislative consent memorandum and for producing their report. The provisions within the UK Government's Small Business, Enterprise and Employment Bill mainly relate to new opportunities for small business—matters we've already considered in this Chamber. However, the Bill also includes provisions to recover exit payments made to high-earning public sector workers if they're then re-employed into similar jobs in the public sector. It is these provisions we're considering today.

The UK Government introduced the Small Business, Enterprise and Employment Bill into Parliament in June last year and are aiming to achieve Royal Assent by the end of March. The public sector exit payment provisions within the Bill will provide the legislation required to create regulations for implementation in April 2016. It is intended that the exit payments made to highly paid public sector workers are within the scope of the regulations made under these provisions. Specifically, this means those earning over £100,000 a year, or more, and then being re-employed into a similar job in the public sector within 12 months. Exit payments are compensation that is paid when employment is terminated, such as redundancy payments, payment on voluntary exit, or payments for unplanned loss of employment or loss of office.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Hoffwn ddechrau drwy fynegi fy niolch i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am ystyried y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ac am lunio eu hadroddiad. Mae'r darpariaethau o fewn Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth Llywodraeth y DU yn ymwneud yn bennaf â chyfleoedd newydd i fusnesau bach—materion rydym eisoes wedi eu hystyried yn y Siambr hon. Fodd bynnag, mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau i adennill taliadau ymadael a wneir i weithwyr sy'n ennill cyflogau uchel yn y sector cyhoeddus os cânt eu hailgyflogi wedyn mewn swyddi tebyg yn y sector cyhoeddus. Y darpariaethau hyn yr ydym yn eu hystyried heddiw.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth gerbron y Senedd ym mis Mehefin y llynedd, a'r nod yw cael Cydsyniad Brenhinol erbyn diwedd mis Mawrth. Bydd y darpariaethau ynghylch taliadau ymadael y sector cyhoeddus o fewn y Bil yn darparu'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i greu rheoliadau i'w gweithredu ym mis Ebrill 2016. Y bwriad yw bod y taliadau ymadael a wneir i weithwyr sy'n ennill cyflogau uchel yn y sector cyhoeddus o fewn cwmmpas y rheoliadau a wneir o dan y darpariaethau hyn. Yn benodol, mae hyn yn golygu pobl sy'n ennill dros £100,000 y flwyddyn, neu fwy, ac sydd wedyn yn cael eu hailgyflogi i swydd debyg yn y sector cyhoeddus o fewn 12 mis. Iawndal yw taliadau ymadael sy'n cael ei dalu pan fydd cyflogaeth yn cael ei therfynu, megis taliadau dileu swydd, taliad wrth ymadael yn wirfoddol, neu daliadau am golli cyflogaeth neu golli swydd heb i hynny fod wedi'i gynllunio.

Ensuring that highly paid public sector workers repay exit payments before returning to a similar job is important. It shows good stewardship of our limited public resources. It also helps reassure people that we will not support the inappropriate use of public money. Indeed, it is only fair, right and proper for any highly paid individual seeking to be quickly re-employed in the same type of job to repay compensation they might have received.

I do understand that there may need to be exceptions to these rules, for example where highly skilled individuals need to be brought back in one of our Welsh public sector roles to help meet new business priorities or to cover unplanned emergencies. Such circumstances will be rare and would need to be carefully considered on a case-by-case basis, but I am pleased that the UK Government agree and intend to make provisions for Welsh Ministers to be responsible for waiving the repayment regulations by authorities that fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales.

To conclude, the UK Government's intention is that the regulations made under these provisions, in respect of exit payments, will only apply to workers earning over £100,000 per year who have received an exit payment and are then re-employed in a similar role within 12 months of departure. I commend the motion and ask that you support it to ensure that we do not miss the opportunity to strengthen public service severance arrangements across Wales.

Mae'n bwysig sicrhau bod gweithwyr sy'n ennill cyflogau uchel yn y sector cyhoeddus yn ad-dalu taliadau ymadael cyn dychwelyd i swydd debyg. Mae'n dangos stiwardiaeth dda ar ein hadnoddau cyhoeddus cyfyngedig. Mae hefyd yn helpu i roi sicrwydd i bobl na fyddwn yn cefnogi defnydd amhriodol o arian cyhoeddus. Yn wir, nid yw ond yn deg, yn iawn ac yn briodol i unrhyw unigolyn ar gyflog mawr sy'n ceisio cael ei ailgyflogi'n gyflym yn yr un math o swydd, ad-dalu iawndal y gallai fod wedi ei dderbyn.

Rwy'n deall y bydd angen gwneud eithriadau i'r rheolau hyn o bosibl, er enghraifft lle mae angen dod ag unigolion medrus iawn yn ôl i lenwi un o'n swyddi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i gynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau busnes newydd neu i ymdrin ag argyfyngau heb eu cynllunio. Bydd amgylchiadau o'r fath yn brin a byddai angen eu hystyried yn ofalus fesul achos, ond rwy'n falch bod Llywodraeth y DU yn cytuno ac yn bwriadu gwneud darpariaethau i Weinidogion Cymru fod yn gyfrifol am hepgor y rheoliadau ad-dalu gan awdurdodau sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

I gloi, bwriad Llywodraeth y DU yw i'r rheoliadau a wneir o dan y darpariaethau hyn fod yn berthnasol yn unig i weithwyr sy'n ennill dros £100,000 y flwyddyn ac sydd wedi derbyn taliad ymadael, ac yna'n cael eu hailgyflogi mewn rôl debyg o fewn 12 mis iddynt adael. Cymeradwyaf y cynnig a gofynnaf ichi ei gefnogi er mwyn sicrhau nad ydym yn colli'r cyfle i gryfhau trefniadau diswyddo gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

15:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no speakers. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections, therefore the motion is agreed in accordance with the Standing Order.

Nid oes gennyf siaradwyr. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly derbynnir y cynnig yn unol â'r Rheol Sefydlog.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:35 **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dadreoleiddio—Diwygiad mewn perthynas â Deddf Cychod Pysgota Prydeinig 1983 Deddf Pysgodfeydd 1868 a Deddf Pysgodfeydd 1891 (Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol —Memorandwm Rhif 5)**

We move to item 7, which is the legislative consent motion on the Deregulation Bill—amendment in relation to British Fishing Boats Act 1983, Fisheries Act 1868 and Fisheries Act 1891. I am going to ask Carl Sargeant to move the motion, as he was there when it was agreed, I think. [Laughter.]

Cynnig NDM5657 Carl Sargeant

**Legislative Consent Motion on the Y Deregulation Bill—Amendment in relation to British Fishing Boats Act 1983, Fisheries Act 1868 and Fisheries Act 1891 (Supplementary Legislative Consent Memorandum —Memorandum No. 5)**

**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rydym yn symud at eitem 7, sef y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Dadreoleiddio—gwelliant mewn cysylltiad â Deddf Cychod Pysgota Prydeinig 1983, Deddf Pysgodfeydd 1868, a Deddf Pysgodfeydd 1891. Rwyf am ofyn i Carl Sargeant gynnig y cynnig, gan ei fod yno pan gafodd ei gytuno, rwy'n meddwl. [Chwerthin.]

Cynnig NDM5657 Carl Sargeant

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)



Cynnig y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, gytuno y dylai darpariaethau yn y Bil Dadreoleiddio, sy'n berthnasol i bysgodfeydd a physgota i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gael eu hystyried gan Senedd y DU.

*Cynigiwyd y cynnig.*

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Deregulation Bill, relating to, fisheries and fishing in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

*Motion moved.*

15:36

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Formally.

Yn ffurfiol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:36

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no other speakers. Anyone wish to speak on this monumental—? No. The proposal is to agree the motion. Does anyone object? No objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill. A oes unrhyw un yn dymuno siarad ar y mater aruthrol—? Na. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:36.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:36.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:36

**Cynnig i Atal Dros Dro Rheol Sefydlog 11.16 i Ganiatáu i'r Eitem Nesaf o Fusnes Gael ei Thrafod**

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now have a motion to suspend Standing Order 11.16 to allow the next item of business to be debated. I call on the Minister for Public Services to move the motion—Leighton Andrews.

Cynnig NNDM5662 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal dros dro y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM5661 gael ei hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 13 Ionawr 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

**Motion to Suspend Standing Order 11.16 to Allow the Next Item of Business to be Debated**

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nawr mae gennym gynnig i atal Rheol Sefydlog 11.16 dros dro er mwyn caniatáu i'r eitem busnes nesaf gael ei drafod. Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig y cynnig—Leighton Andrews.

Motion NNDM5662 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Orders 33.6 and 33.8:

Suspends that part of Standing Order 11.16 that requires the weekly announcement under Standing Order 11.11 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow NNDM5661 to be considered in Plenary on Tuesday 13 January 2015.

*Motion moved.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:36

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Dirprwy Lywydd, I move the motion to suspend Standing Order 11.16 to allow the Order to be voted on today. This is necessary due to the timing of the decision to cap the increase in the multiplier in England, which was announced in the Chancellor's autumn statement. Although there was speculation as to a cap being applied, we had no prior knowledge of the cap, the level of the cap or any associated consequential funding. Welsh Ministers therefore had to consider the implications and costs for Wales before making a decision.

Fulfilling these responsibilities meant that it was not possible to comply with the normal requirements under Standing Orders for this to be included on the last business statement before recess, which was made on 9 December. The Order must be agreed before the local government settlement, already scheduled for debate today, can be agreed. Therefore, it is necessary to suspend the Standing Order to allow for the Order to be considered today. A delay would have meant postponing consideration of the local government finance report, with consequences for the budget-setting processes of local government.

Dirprwy Lywydd, cynigiau y cynnig i atal Rheol Sefydlog 11.16 dros dro i ganiatáu ar gyfer pleidleisio ar y Gorchymyn heddiw. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd amseriad y penderfyniad i gapio'r cynnydd yn y lluosydd yn Lloegr, a gyhoeddwyd yn natganiad yr hydref gan y Canghellor. Er bod dyfalu wedi bod ynglŷn â chap, nid oedd gennym unrhyw wybodaeth flaenorol ynglŷn â'r cap, lefel y cap nac unrhyw gyllid canlyniadol cysylltiedig. Roedd yn rhaid felly i Weinidogion Cymru ystyried y goblygiadau a'r costau i Gymru cyn gwneud penderfyniad.

O ganlyniad i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, nid oedd yn bosibl cydymffurfio â'r gofynion arferol o dan y Rheolau Sefydlog i hyn gael ei gynnwys ar y datganiad busnes olaf cyn y toriad, a wnaed ar 9 Rhagfyr. Rhaid derbyn y Gorchymyn cyn bod modd derbyn y setliad llywodraeth leol, y trefnwyd eisoes i'w drafod heddiw. Felly, mae angen atal y Rheol Sefydlog dros dro er mwyn caniatáu i'r Gorchymyn gael ei ystyried heddiw. Byddai oedi wedi golygu gohirio ystyriaeth o'r adroddiad cyllid llywodraeth leol, gyda chanlyniadau i brosesau llywodraeth leol ar gyfer pennu cyllidebau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:37

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no speakers. The proposal is therefore to suspend Standing Orders. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

Nid oes gennyf siaradwyr. Y cynnig felly yw atal y Rheolau Sefydlog dros dro. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbyniwyd y cynnig felly yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:38

**Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) (Rhif 2) 2014**

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We move then to item 8, the Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) (No. 2) Order 2014. I call on the Minister for Public Services to move the motion—Leighton Andrews.

Cynnig NNDM5661 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo'r Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) (Rhif 2) 2014 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Rhagfyr 2014.

*Cynigiwyd y cynnig.*

**The Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) (No. 2) Order 2014**

Rydym yn symud felly at eitem 8, Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) (Rhif 2) 2014. Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig y cynnig—Leighton Andrews.

Motion NNDM5661 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Approves the Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) (No. 2) Order 2014 laid in the Table Office on 23 December 2014.

*Motion moved.*

**Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:38

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Thank you, Deputy Presiding Officer. This Order will restrict the increase in the non-domestic rates multiplier for 2015-16 to 2%. In his statement in December, the Chancellor announced plans for a 2% cap on the increase in the multiplier for England, and, after careful consideration, we propose an equivalent cap in Wales. Restricting the increase in the multiplier to 2% ensures that Welsh businesses are not placed at a disadvantage compared to their counterparts in England.

Normally, the multiplier is increased in line with inflation, which would have resulted in bills being increased by 2.3%. By supporting the cap, Members will therefore ensure rates bills are lower than they would otherwise have been. The cost is expected to be approximately £4 million. Cabinet Members, as the finance Minister has just confirmed, have already agreed that consequential funding resulting from capping the multiplier in England will be set aside to support the implementation of this policy in Wales. Therefore, there will be no impact on local authority budgets as a result of issuing lower bills for non-domestic properties.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Bydd y Gorchymyn hwn yn cyfyngu'r cynnydd yn y lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer 2015-16 i 2%. Yn ei ddatganiad ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd y Canghellor gynlluniau ar gyfer cap o 2% ar y cynnydd yn y lluosydd ar gyfer Lloegr, ac, ar ôl ystyried yn ofalus, rydym yn cynnig cap cyfatebol yng Nghymru. Mae cyfyngu'r cynnydd yn y lluosydd i 2% yn sicrhau nad yw busnesau Cymru'n cael eu rhoi o dan anfantais o'u cymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr.

Fel arfer, mae'r lluosydd yn cael ei gynyddu yn unol â chwyddiant, a byddai hyn wedi arwain at gynnydd o 2.3% mewn biliau. Drwy gefnogi'r cap, bydd yr Aelodau felly'n sicrhau bod biliau trethi yn is nag a fyddent fel arall. Mae disgwyl i'r gost fod oddeutu £4 miliwn. Mae Aelodau'r Cabinet, fel y mae'r Gweinidog Cyllid newydd ei gadarnhau, eisoes wedi cytuno y bydd cyllid canlyniadol sy'n deillio o gapio'r lluosydd yn Lloegr yn cael ei roi o'r neilltu i gefnogi gweithrediad y polisi hwn yng Nghymru. Felly, ni fydd unrhyw effaith ar gyllidebau awdurdodau lleol o ganlyniad i gyhoeddi biliau is ar gyfer eiddo annomestig.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:39

**Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wnaif i ddim siarad yn hir o gwbl. Rydyn ni'n derbyn, wrth gwrs, yn llwyr fod angen cymryd y cam yma, dim ond i ddefnyddio'r cyfle yma i edrych ymlaen at gael y pwerau ychwanegol fydd gennym ni yma yn fuan dros osod trethi yma yng Nghymru. Rydyn ni yn y blaid yma yn credu bod angen 'multiplier' ychwanegol er mwyn gallu sicrhau bod Cymru yn gallu bod yn lle mwy cystadleuol fyth er mwyn i fusnesau bach wneud busnes ynddo fo. Rydym ni'n edrych ymlaen at ddefnyddio'r pwerau newydd fydd gennym ni maes o law, ond, wrth gwrs, mae'r cam yma yn un synhwyrol am y tro.

I won't take too much of your time. We entirely accept that this step is necessary, but I did want to take this opportunity to look forward to having the additional powers that we will have in due time for setting these rates here in Wales. We in this party believe that we need an additional multiplier in order to ensure that Wales can be even more competitive for small businesses to work. We look forward to using the new powers that we will have in due time, but, of course, this step is a sensible one.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:40

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:40

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

I'm grateful to the Plaid Cymru spokesperson for his observations, and can I say that I'm also grateful to the Constitutional and Legislative Affairs Committee for making the time to scrutinise this Order?

Rwy'n ddiolchgar i lefarydd Plaid Cymru am ei sylwadau, ac a gaf i hefyd ddweud fy mod i'n ddiolchgar i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am neilltuo'r amser i graffu ar y Gorchymyn hwn?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:40

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

## Dadl: Setliad Llywodraeth Leol 2015-16

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Item 9 is the debate on the local government settlement for 2015-16, and I call on the Minister for Public Services to move the motion—Leighton Andrews.

Cynnig NDM5658 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2015-2018 (Setliad Terfynol – Cynghorau), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Ionawr 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

## Debate: The Local Government Settlement 2015-16

Eitem 9 yw'r ddadl ar setliad llywodraeth leol ar gyfer 2015-16, a galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig y cynnig—Leighton Andrews.

Motion NDM5658 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Section 84H of the Local Government Finance Act 1988, approves the Local Government Finance Report (No. 1) 2015-2016 (Final Settlement - Councils), which was laid in the Table Office on 6 January 2015.

*Motion moved.*

### Leighton Andrews [Bywgraffiad Biography](#)

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Deputy Presiding Officer, I am pleased to present to the Assembly next year's local government settlement for the unitary authorities in Wales. They will receive £4.1 billion in general revenue funding. This is a decrease of 3.4% compared with 2014-15, but, of course, this settlement is significantly better than the worst-case scenario on which local authorities had been planning before its announcement. In line with the Welsh Government budget, I am unable to provide indications beyond 2015-16. This is due to the absence of information regarding the UK Government spending plans. As Members will be aware, as a result of UK Government decisions in 2015-16, the Welsh Government budget will be around 10% lower in real terms than it was in 2010-11. However, in Wales, we have protected local government from the worst of the cuts. Over the past five years, spending per head on services provided by local government in England has decreased by around 7% in cash terms. In Wales, this has increased by 3%.

In this settlement, we have recognised the importance of strong local social services to the long-term success of the health service in Wales. We are providing an additional £10 million through the settlement in recognition of this.

In line with the First Minister's commitment, we are also continuing to protect schools funding. The settlement includes resources to protect funding for schools at 1% above the overall change in the Welsh revenue budget.

We are proud of our commitment to maintain full entitlement for eligible applicants under the council tax reduction scheme. We are supporting local government to deliver the scheme in 2015-16 by, again, distributing £244 million within the settlement. To limit the effect of the overall reduction in the settlement for any individual authority, I am applying a damping mechanism for 2015-16. This ensures that no authority will see a reduction of more than 4.5% in its core provision compared to 2014-15.

Ddirprwy Lywydd, rwyf yn falch o gyflwyno i'r Cynulliad setliad llywodraeth leol y flwyddyn nesaf i'r awdurdodau unedol yng Nghymru. Byddant yn derbyn £4.1 biliwn o gyllid refeniw cyffredinol. Mae hyn 3.4% yn llai na 2014-15, ond, wrth gwrs, mae'r setliad hwn gryn dipyn yn well na'r sefyllfa waethaf yr oedd awdurdodau lleol wedi bod yn cynllunio ar ei chyfer cyn cyhoeddi'r setliad. Yn unol â chyllideb Llywodraeth Cymru, ni allaf ddarparu amcanion y tu hwnt i 2015-16. Mae hyn oherwydd diffyg gwybodaeth ynghylch cynlluniau gwariant Llywodraeth y DU. Fel y gwyr yr Aelodau, oherwydd penderfyniadau Llywodraeth y DU yn 2015-16, bydd cyllideb Llywodraeth Cymru tua 10% yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2010-11. Fodd bynnag, yng Nghymru, rydym wedi gwarchod llywodraeth leol rhag y gwaethaf o'r toriadau. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae gwariant y pen ar wasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol yn Lloegr wedi gostwng tua 7% mewn termau arian parod. Yng Nghymru, mae'r gwariant wedi cynyddu 3%.

Yn y setliad hwn, rydym wedi cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol lleol cryf i lwyddiant hirdymor y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Rydym yn darparu £10 miliwn yn ychwanegol drwy'r setliad hwn er mwyn cydnabod hynny.

Yn unol ag ymrwymiad y Prif Weinidog, rydym hefyd yn parhau i warchod cyllid ysgolion. Mae'r setliad yn cynnwys adnoddau i sicrhau bod cyllid i ysgolion yn parhau i fod 1% yn uwch na'r newid cyffredinol yn y gyllideb refeniw yng Nghymru.

Rydym yn falch o'n hymrwymiad i gadw hawl lawn i ymgeiswyr cymwys o dan gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Rydym yn cynorthwyo llywodraeth leol i roi'r cynllun ar waith yn 2015-16, unwaith eto drwy ddsosbarthu £244 miliwn o fewn y setliad. Er mwyn cyfyngu effaith y gostyngiad cyffredinol yn y setliad i awdurdodau unigol, rwyf yn rhoi mecanwaith lleddfu ar waith ar gyfer 2015-16. Mae hyn yn sicrhau na fydd yr un awdurdod yn gweld gostyngiad o fwy na 4.5% yn ei ddarpariaeth graidd o gymharu â 2014-15.

The settlement also includes a net transfer in of funding, totalling over £10 million, previously provided through ring-fenced grants. Included in this figure is £4.6 million for regional integrated family support services and £880,000 for the development of autistic spectrum disorder strategies. Also included is £8 million to support the costs of financing twenty-first century schools, an increase of £4.5 million on the funding supplied outside the settlement last year.

Deputy Presiding Officer, I have recycled £800,000 of additional funding into the settlement from the funding released by discontinuing the grant to the WLGA, the Welsh Local Government Association, for improvement services. Authorities are able to determine how best to use this funding to support their responsibilities to seek continuous improvement or may allocate it to other priorities.

Alongside the settlement, I have published the latest information on Welsh Government grant schemes planned for 2015-16, which gives local authorities a comprehensive picture of their funding from the Welsh Government. The grant information includes details of the outcome agreement funding, which has been distributed on the same basis as in previous years. My Cabinet colleagues have reviewed their portfolios to provide greater funding flexibility for local government. In particular, my colleague the Minister for Education and Skills has amalgamated 11 grants into a single education improvement grant for schools, worth over £140 million, for 2015-16.

I have also released up-to-date information on local authority capital funding. Indications show overall capital funding will be £398 million for local authorities for 2015-16, which is a small reduction of 0.8% on 2014-15.

It is inevitable that, with reductions in funding, there will be implications for staff and services in local authorities. We will work closely with local authorities to mitigate the effects, where possible, but it is for local authorities to manage those reductions themselves. The pressure on budgets means that it is more important than ever that authorities engage local people in decisions about how local resources are prioritised and spent. In particular, they need to engage their residents in difficult decisions about where any cuts in spending have to be made.

Shortly, local authorities will be setting their budgets and council tax levels for 2015-16. I expect every authority to take account of all the available funding streams in considering service provision and setting their budgets and council tax. Whilst the settlement provides the largest single contribution to local government funding, it is not the only source. Authorities need to consider all aspects of their income and service provision in planning ahead. I believe this to be a fair and realistic settlement for local government in difficult times. It underlines our commitment to maintaining public services for those who need them most and continuing to invest in local government despite funding reductions elsewhere. I ask Members to support the motion.

Mae'r setliad hefyd yn cynnwys trosglwyddiad cyllid net i mewn, dros £10 miliwn i gyd, a ddarperid cyn hyn drwy grantiau wedi'u neilltuo. Yn gynwysedig yn y ffigur hwn mae £4.6 miliwn ar gyfer gwasanaethau integredig rhanbarthol cymorth i deuluoedd ac £880,000 ar gyfer datblygu strategaethau anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Hefyd wedi ei gynnwys y mae £8 miliwn i helpu i ariannu ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, sydd £4.5 miliwn yn fwy na'r hyn a ddarparwyd y tu allan i'r setliad y llynedd.

Ddirprwy Lywydd, rwyf wedi ailgylchu £800,000 o gyllid ychwanegol i mewn i'r setliad o'r arian a ryddhawyd drwy ddirwyrn i ben y grant i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer gwasanaethau gwella. Caiff yr awdurdodau benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r arian hwn i helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau i sicrhau welliant parhaus neu cânt ei ddyrannu i flaenoriaethau eraill.

Ochr yn ochr â'r setliad, rwyf wedi cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau grant Llywodraeth Cymru sydd ar y gweill ar gyfer 2015-16, sy'n rhoi darlun cynhwysfawr i awdurdodau lleol o'u cyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth am y grantiau'n cynnwys manylion am gyllid y cytundeb canlyniadau, sydd wedi ei ddsbarthu ar yr un sail ag o'r blaen. Mae fy nghydweithwyr yn y Cabinet wedi adolygu eu portffolios er mwyn darparu mwy o hyblygrwydd ariannu i lywodraeth leol. Yn arbennig, mae fy nghydweithiwr y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi cyfuno 11 o grantiau i greu un grant gwella addysg ar gyfer ysgolion, sy'n werth dros £140 miliwn, ar gyfer 2015-16.

Rwyf hefyd wedi rhyddhau gwybodaeth gyfredol am gyllid cyfalaf awdurdodau lleol. Mae'r rhagamcanion yn dangos y bydd cyllid cyfalaf cyffredinol yn £398 miliwn i awdurdodau lleol ar gyfer 2015-16, sy'n ostyngiad bach o 0.8% ers 2014-15.

Mae'n anochel, gyda'r cyllid yn lleihau, y bydd goblygiadau i staff a gwasanaethau awdurdodau lleol. Byddwn yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i liniaru'r effeithiau, lle y bo modd, ond mater i'r awdurdodau lleol yw rheoli'r gostyngiadau hynny eu hunain. Mae'r pwysau ar gyllidebau'n golygu ei bod yn bwysicach nag erioed i awdurdodau gynnwys pobl leol mewn penderfyniadau am sut y mae adnoddau lleol yn cael eu blaenoriaethu a'u gwario. Yn benodol, mae angen iddynt gynnwys eu preswylwyr mewn penderfyniadau anodd ynghylch ble y mae'n rhaid gwneud unrhyw doriadau i wariant.

Cyn hir, bydd awdurdodau lleol yn gosod eu cyllidebau a lefelau'r dreth gyngor ar gyfer 2015-16. Rwyf yn disgwyl i bob awdurdod ystyried yr holl ffrydiau ariannu sydd ar gael wrth ystyried darpariaeth gwasanaethau ac wrth osod eu cyllidebau a'r dreth gyngor. Y setliad yw'r cyfraniad unigol mwyaf i gyllid llywodraeth leol, ond nid dyma'r unig ffynhonnell. Mae angen i awdurdodau ystyried pob agwedd ar eu hincwm a darpariaeth gwasanaethau wrth gynllunio at y dyfodol. Rwyf yn credu bod hwn yn setliad teg a realistig i lywodraeth leol mewn cyfnod anodd. Mae'n tanlinellu ein hymrwymiad i gynnal gwasanaethau cyhoeddus i'r rhai sydd eu hangen fwyaf ac i barhau i fuddsoddi mewn llywodraeth leol er gwaethaf gostyngiadau cyllido mewn mannau eraill. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r cynnig.

- 15:45 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Thank you, Minister, for your introduction to the local government settlement for 2015-16. I echo your own concerns that this is a challenging time for our local authorities across Wales, as they are now faced with deciding how they will cope with demands and what services they are still able to continue delivering. Council leaders have warned you—and warned us all, really—that cuts of £146 million to the overall local government budget will damage the social fabric of our communities across Wales. I think, really, disappointment has been shown by some authorities that, whilst you have your formula and your ways of sorting it out—and I know that it is in the green book—we have seen sort of a better settlement provision, shall we say, in Labour-run councils. [Interruption.] Oh, yes we have; yes we have. I mean, if you look at those that, you know, have faced cuts of 2.5%, and look at Conservative-led Monmouthshire facing a 4.3% cut. And it is imperative—
- Diolch i chi, Weinidog, am eich cyflwyniad i setliad llywodraeth leol 2015-16. Ate gaf eich pryderon fod hwn yn gyfnod heriol i'n hawdurdodau lleol ledled Cymru, gan eu bod bellach yn gorfod penderfynu sut y byddant yn ymdopi â'r galw a pha wasanaethau y gallant barhau i'w cynnig. Mae arweinwyr y Cynghorau wedi'ch rhybuddio chi—ac wedi'n rhybuddio ni oll, mewn gwirionedd—y bydd toriadau o £146 miliwn i gyllideb gyffredinol llywodraeth leol yn andwyol i wead cymdeithasol ein cymunedau ledled Cymru. Credaf, yn wir, fod rhai awdurdodau wedi mynegi siom ein bod, er bod gennyh eich fformiwla a'ch ffyrdd o ddatrys pethau—a gwn ei fod yn y llyfr gwyrdd—wedi gweld setliadau gwell yn cael eu darparu, ddywedwn ni, mewn cynghorau lle mae'r Blaid Lafur wrth y llyw. [Torri ar draws.] O, ydym; ydym. Hynny yw, edrychwch ar y rhai hynny sydd, fel y gwyddoch, wedi wynebu toriadau o 2.5%, ac yna ar Sir Fynwy, lle mae'r Ceidwadwyr wrth y llyw, sy'n wynebu toriad o 4.3%. Ac mae'n hanfodol—
- 15:46 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Will you take an intervention on this?
- A wnech chi dderbyn ymyriad ar hyn?
- 15:46 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Yes.
- Gwnaf.
- 15:46 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Is the real difference not between authorities in Wales but between Wales and England? Where Welsh authorities have seen a 7.6% reduction in their funding, in England the same figure is nearly 40%.
- Onid yw'r gwahaniaeth go iawn i'w weld nid rhwng awdurdodau yng Nghymru ond rhwng Cymru a Lloegr? Tra bo awdurdodau yng Nghymru wedi gweld eu cyllid yn gostwng 7.6%, yn Lloegr mae'r un ffigur bron yn 40%.
- 15:47 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- I'm not talking about England; I'm talking about this formula and the distribution of the settlement funding, and how an authority like Monmouthshire, which is a very transparent authority publishing everything online, is seen to be penalised, actually, with the level of settlement that it's had. A letter from the leader of Conwy County Borough Council, which you have actually kindly addressed, called for the introduction of a floor and a ceiling to be applied to the formula in order to produce a narrower range of movement. The WLGA see the formula as outdated. I have to say that I am very pleased that your local government reform White Paper coming forward has a pledge to look at the funding formula.
- Nid wyf yn sôn am Lloegr; rwyf yn sôn am y fformiwla hon a dosbarthu arian y setliad, a'r ffaith bod awdurdod fel Sir Fynwy, sy'n awdurdod tryloyw iawn sy'n cyhoeddi popeth ar-lein, fel petai'n cael ei gosbi, mewn gwirionedd, o ran lefel y setliad y mae wedi'i gael. Roedd llythyr oddi wrth arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yr ydych yn garedig iawn wedi rhoi sylw iddo a dweud y gwir, yn galw am gyflwyno terfyn isaf ac uchaf i'r fformiwla er mwyn creu ystod gulach o symud. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'r farn bod y fformiwla'n hen ffasiwn. Mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn falch iawn fod eich Papur Gwyn ar ddiwygio llywodraeth leol sydd ar y gweill yn cynnwys addewid i edrych ar y fformiwla ariannu.



This harsh settlement—let's be honest—is a product of years of the Welsh Labour Government's underfunding of the health budget. So, now, you are having to drastically address those years of constant underfunding. The Welsh Government has prioritised resources on health, which was well overdue, but I do fear—and I am not alone; we have taken evidence on this in committee—that some of these cuts that will have to be taken by local authorities will actually affect the very intervention services and vital services that actually will impact in a negative manner. Council tax in Wales has already risen by over 150%. That is largely down to choices since 1997. [Interruption.] That is largely down to choices made by the Welsh Labour Government, which did, for three years, receive Barnett consequential to freeze council tax but instead decided to keep it for their own pet projects. Had you have applied that—

Mae'r setliad llym hwn—a dweud y gwir—yn ganlyniad i flynyddoedd o danariannu'r gyllideb iechyd gan Lywodraeth Lafur Cymru. Felly, yn awr, rydych yn gorfod mynd ati mewn difrif i fynd i'r afael â'r blynyddoedd hynny o danariannu cyson. Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu adnoddau ar iechyd, ac roedd yn hen bryd i hynny ddigwydd, ond rwyf yn ofni—ac nid fi yw'r unig un; rydym wedi cymryd tystiolaeth ar hyn yn y pwyllgor—y bydd rhai o'r toriadau hyn y bydd yn rhaid i'r awdurdodau lleol eu gwneud mewn gwirionedd yn effeithio ar yr union wasanaethau ymyrraeth a'r gwasanaethau hanfodol a fydd yn cael effaith negyddol mewn gwirionedd. Mae'r dreth gyngor yng Nghymru eisoes wedi codi dros 150%. Mae hynny i raddau helaeth yn fater o ddewis ers 1997. [Torri ar draws.] Mae hynny i raddau helaeth oherwydd y dewisiadau a wnaed gan Lywodraeth Lafur Cymru, a dderbyniodd, am dair blynedd, arian canlyniadol Barnett i rew'r dreth gyngor ond a benderfynodd yn hytrach ei gadw ar gyfer ei brosiectau ei hun. Pe byddech wedi defnyddio hwnnw—

15:49 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Is the Member aware that, in England, 30 Conservative councils are not going to freeze council tax, despite the money that they have got from Eric Pickles?

A yw'r Aelod yn ymwybodol bod 30 o gynghorau Ceidwadol yn Lloegr nad ydynt yn bwriadu rhewi'r dreth gyngor, er gwaethaf yr arian y maent wedi'i gael gan Eric Pickles?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:49 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, that's up to England. [Interruption.] I represent a constituency in Wales, and my residents in Aberconwy have been failed by your Labour Government and the successive council tax increases that you have, you know, put on. Residents would be £149 a year better off if you would have actually—

Wel, mater i Loegr yw hynny. [Torri ar draws.] Rwyf fi'n cynrychioli etholaeth yng Nghymru, ac mae fy nhrigolion yn Aberconwy wedi cael cam gan eich Llywodraeth Lafur chi a'r codiadau dro ar ôl tro yn y dreth gyngor yr ydych, fel y gwyddoch, wedi eu gweithredu. Byddai preswylwyr £149 y flwyddyn yn well eu byd pe byddech—

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:49 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Council tax rates are lower in those areas.

Mae cyfraddau'r dreth gyngor yn is yn yr ardaloedd hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:49 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well—

Wel—

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. I have four Members of the Labour group to be called, and then the Minister will reply. So, you don't need to have a conversation amongst yourselves when one of the speakers is on her feet. Janet Finch-Saunders.

Trefn. Mae gennyf bedwar Aelod o'r grŵp Llafur i'w galw, ac yna bydd y Gweinidog yn ateb. Felly, nid oes angen ichi gael sgwrs ymysg eich gilydd pan fydd un o'r siaradwyr ar ei thraed. Janet Finch-Saunders.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:49

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Whilst we don't say that you should be interfering in local authorities, there should be some guidance and leadership. One thing that is crucial now is that we need to see efficiencies, we need to see transparency and we need to see accountability. I think it's fair to say that, in the last 12 months to two years, under Welsh Labour, some local authorities, frankly, have gone their own way. We've seen, you know, that payments—senior level payments—are extortionate. We've seen closed-door meetings where people have written their own reports and we've seen unlawful practice in some authorities. Again, I will refer to Monmouthshire council. They publish everything online and they are a very transparent authority. Because of the tight budgets facing our authorities, they've entered into engagement processes with their residents.

You know, I will just finish off, really—. Bob Wellington, leader of Welsh local government said:

'Austerity is set to last well into the future and we urgently need our national politicians to show leadership, to support the difficult decisions made...and to start setting clear and realistic priorities for public services in Wales as a whole... The financial issues—

Diolch. Nid ydym yn dweud y dylech fod yn ymyrryd ag awdurdodau lleol, ond mae angen rhywfaint o arweiniad ac arweinyddiaeth. Un peth sy'n hanfodol yn awr yw bod yn rhaid wrth arbedion effeithlonrwydd, mae'n rhaid wrth dryloywder ac mae'n rhaid wrth atebolrwydd. Credaf ei bod yn deg dweud bod rhai awdurdodau, dros y 12 mis i ddwy flynedd diwethaf, o dan Lafur Cymru, a dweud y gwir, wedi dilyn eu trywydd eu hunain. Rydym wedi gweld, fel y gwyddoch, fod taliadau—taliadau ar lefel uwch—yn afresymol. Rydym wedi gweld cyfarfodydd y tu ôl i ddrysau caeedig lle mae pobl wedi ysgrifennu eu hadroddiadau eu hunain ac rydym wedi gweld arferion anghyfreithlon mewn rhai awdurdodau. Unwaith eto, cyfeiriaf at gyngor Sir Fynwy. Mae'n cyhoeddi popeth ar-lein ac mae'n awdurdod tryloyw iawn. Oherwydd y cyllidebau tynn sy'n wynebu ein hawdurdodau, mae wedi cychwyn ar brosesau ymgysylltu â'i breswylwyr.

Rwyf am ddirwyn i ben, a dweud y gwir—. Dywedodd Bob Wellington, arweinydd llywodraeth leol yng Nghymru:

Mae'n debyg y bydd y cyni'n para ymhell i'r dyfodol ac mae gwir angen i'n gwleidyddion cenedlaethol ddangos arweinyddiaeth, a chefnogi'r penderfyniadau anodd a wnaed ... a dechrau pennu blaenoriaethau clir a realistig ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gyfan .... Bydd y materion ariannol—

15:51

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finish quickly now.

Gorffennwch yn gyflym yn awr.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

15:51

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—affecting local government will impact on us all.'

Thank you.

[Yn parhau.]—sy'n effeithio ar lywodraeth leol yn effeithio ar bob un ohonom.

Diolch.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

15:51

**Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I recognise that the blame for these reductions in funding lies squarely at the door of the Tories and Lib Dems at Westminster and their failed deficit reduction strategy. And yes, it remains true that local authorities in Wales have been shielded from the kind of cuts we've seen inflicted on their counterparts in England. But, at the same time, I think we simply have to recognise from the outset that this is an incredibly challenging settlement for Welsh councils. Indeed, Members will recall the draft budget debate back in November, when I highlighted the situation facing Torfaen and some of the really worrying cuts that are being looked at as they consider how to plug the £10 million budget shortfall they face for the financial year ahead.

Rwyf yn cydnabod mai'r Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan a'u strategaeth aflwyddiannus i leihau'r diffyg sydd ar fai yn llwyr am y gostyngiadau hyn mewn cyllid. Ac ydy, mae'n dal i fod yn wir bod awdurdodau lleol yng Nghymru wedi eu cysgodi rhag y math o doriadau yr ydym wedi gweld yn cael eu gorfodi ar eu cymheiriaid yn Lloegr. Ond, ar yr un pryd, credaf fod yn rhaid inni gydnabod o'r cychwyn fod hwn yn setliad hynod heriol i gynghorau Cymru. Yn wir, bydd yr Aelodau'n cofio'r ddadl ar y gyllideb ddrafft yn ôl ym mis Tachwedd, pan dynnais sylw at y sefyllfa sy'n wynebu Torfaen a rhai o'r toriadau gwirioneddol ofidus sy'n cael eu hystyried wrth iddo ystyried sut i wneud iawn am y diffyg o £10 miliwn yn y gyllideb y mae'n ei wynebu yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

I remain very fearful that, despite the major funding boost we've seen for the health service in Wales, the kind of cuts we're seeing in areas like adult social care will end up increasing, not alleviating, the pressures facing A&E, the ambulance service and the NHS more widely. Unlike the Tories in England, whose strategy to denigrate the Welsh NHS has now completely unravelled, I don't take any pleasure from the issues they've been experiencing over Christmas—serious problems that have led to a number of hospital trusts declaring major incidents in order to try to avert imminent meltdown. But the pressures on the NHS across the UK should serve as an alarm call to us all. I agree with Andy Burnham's recent assessment that at the root of the problems we're seeing in England is the really drastic cuts we've seen there to adult social care.

As I've already said, I fully understand that councils in Wales have received a much fairer deal from the Welsh Labour Government than they would have under the Tories and Lib Dems, but, at the same time, we shouldn't underestimate the impact of the range of mitigations now on the table in places like Torfaen, despite the fact that I know the Labour council there have worked incredibly hard to protect the most vulnerable, at the same time as delivering a balanced budget. They are being forced to look at introducing a waiting list for adult social care, for instance, which will mean people waiting in hospital longer unless there is capacity in terms of funding. That is very worrying when we know that delayed transfers of care are already on the increase in Gwent. By the same token, I'm worried too about the implications locally of restructuring the community rehabilitation team in Torfaen—a move that will impact on the much-praised Gwent frailty programme. There's another longer-term concern I've also spoken about before: that the cuts that the council's being forced to make for sports clubs in the borough will end up costing the NHS more in the long term.

While I'm conscious of the fact that the wider debate on local government reform has moved on considerably since the publication of Williams and the appointment of the Minister for Public Services, I still believe it's going to be a tough sell for my constituents that we're going forward with this reorganisation, which is potentially very costly, at the same time as councils are being forced to cut local services that people care about. I have every confidence in the Minister for Public Services and I know that that kind of concern will be at the forefront of his mind as he develops his proposals.

I am sure that the Minister for finance has listened very carefully to the concerns raised about social services funding this afternoon, and I would just like to conclude by asking the public services Minister to place on record his assurances that he will work with local authorities, as well as colleagues across Welsh Government, to ensure that we're doing absolutely everything we can in Wales to ensure that the burden of public sector cuts is not falling disproportionately on exactly the kind of areas that keep people out of hospitals, out of GP surgeries and in their own homes for longer. Thank you.

Rwyf yn dal yn bryderus iawn, er gwaethaf yr hwb ariannol mawr yr ydym wedi'i weld i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, y bydd y math o doriadau yr ydym yn eu gweld mewn meysydd fel gofal cymdeithasol i oedolion yn y pen draw yn rhoi mwy, nid llai, o bwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys, y gwasanaeth ambiwlans a'r GIG yn ehangach. Yn wahanol i'r Torïaid yn Lloegr, y mae eu strategaeth i bardduo GIG Cymru bellach wedi methu yn llwyr, nid yw'r materion y maent wedi bod yn eu profi dros y Nadolig yn rhoi dim plaser imi—problemau difrifol sydd wedi peri bod yn rhaid i nifer o ymddiriedolaethau ysbysu ddatgan digwyddiadau mawr er mwyn ceisio osgoi chwalfa. Ond dylai'r pwysau ar y GIG ledled y DU fod yn rhybudd i ni oll. Rwyf yn cytuno ag asesiad diweddar Andy Burnham mai'r hyn sydd wrth wraidd y problemau yr ydym yn eu gweld yn Lloegr yw'r toriadau gwirioneddol lym yr ydym wedi eu gweld yno i ofal cymdeithasol i oedolion.

Fel yr wyf wedi'i ddweud eisoes, rwyf yn deall bod cynghorau yng Nghymru wedi cael bargaen decach o lawer gan Lywodraeth Lafur Cymru nag y byddent o dan y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol, ond, ar yr un pryd, ni ddylem roi amcangyfrif rhy isel ar effaith yr amryw fesurau lliniaru sydd yn awr o dan ystyriaeth mewn mannau fel Torfaen, er gwaethaf y ffaith fy mod yn gwybod bod y cyngor Llafur yno wedi gweithio'n aruthrol o galed i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed, ac i ddarparu cyllideb gytbwys ar yr un pryd. Maent yn cael eu gorfodi i ystyried cyflwyno rhestr aros ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion, er enghraifft, a fydd yn golygu bod yn rhaid i bobl aros yn hwy yn yr ysbty oni bai bod capasiti o ran cyllid. Mae hynny'n destun pryder mawr a ninnau'n gwybod bod oedi wrth drosglwyddo gofal eisoes ar gynydd yng Ngwent. Yn yr un modd, rwyf yn poeni hefyd am oblygiadau lleol ailstrwythuro'r tîm adsefydlu cymunedol yn Nhorfaen—cam a fydd yn effeithio ar y rhaglen eiddilwch mawr ei chanmoliaeth yng Ngwent. Mae pryder arall yn y tymor hwy yr wyf hefyd wedi siarad amdano o'r blaen: y bydd y toriadau y mae'r cyngor yn cael ei orfodi i'w gwneud i glybiau chwaraeon yn y fwrdeistref yn y pen draw yn costio mwy i'r GIG yn y tymor hir.

Er fy mod yn gwybod bod y ddadl ehangach ynghylch diwygio llywodraeth leol wedi symud ymlaen gryn dipyn ers cyhoeddi Williams a phenodi'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, rwyf yn dal i fod o'r farn y bydd yn anodd darbwylo fy etholwyr ei bod yn dda o beth parhau â'r ad-drefnu hwn, a allai fod yn gostus iawn, ar adeg pan fo cynghorau'n cael eu gorfodi i dorri gwasanaethau lleol sy'n bwysig i bobl. Mae gennyf bob ffydd yn y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a gwn y bydd y math hwnnw o bryder yn flaenllaw yn ei feddwl wrth iddo ddatblygu ei gynigion.

Rwyf yn siŵr bod y Gweinidog cyllid wedi gwrando'n ofalus iawn ar y pryderon a godwyd ynghylch cyllid y gwasanaethau cymdeithasol y prynhawn yma, a hoffwn orffen drwy ofyn i'r Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus roi ar gofnod ei sicrwydd y bydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol, yn ogystal â chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru, i sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu yng Nghymru i sicrhau nad yw baich y toriadau yn y sector cyhoeddus yn effeithio'n anghyfesur yn yr union fath o feysydd sy'n cadw pobl allan o ysbtyai, allan o feddygyfeydd meddygon teulu ac yn eu cartrefi eu hunain yn hwy. Diolch.

Diolch am y cyfle i gyfrannu at y drafodaeth yma, ac i wneud yn glir na fydd Plaid Cymru yn cefnogi'r cynnig hwn. Mae'r setliad llywodraeth leol terfynol yn doriad o bron i £150 miliwn yng nghyfanswm y gyllideb—toriad, fel sydd wedi cael ei ddweud, o 3.4%. O ran y dosbarthiad, mae'n ddiddorol bod y chwech sydd â thoriad o dros 4% yn siroedd gwledig. Nid wyf yn mynd ar ôl y mater pleidiol, ond mae'r chwech ohonyn nhw yn siroedd gwledig. Y rhai sy'n gwneud orau mewn setliad gwael yw'r rhai mwy dinesig, wrth gwrs. Mae hynny'n mynd i gael effaith ddifïol ar wasanaethau ar hyd a lled Cymru.

Wrth gwrs, prif achos y toriadau ydy agenda llymder San Steffan. Hyd y gwelaf i, mae'r tair prif blaid yn Lloegr wedi ymrwymo i barhau â'r llymder hwnnw—er, wrth gwrs, mai nid y gwasanaethau cyhoeddus a achosodd yr argyfwng ariannol sydd yn sail i hyn i gyd. Felly, rwy'n credu bod yna neges y byddem ni am ei rhoi allan yn glir i Lywodraeth nesaf y Deyrnas Gyfunol, bod angen inni warchod y gwasanaethau hynny sydd yn rhoi cefnogaeth i bobl sydd wirioneddol eu hangen nhw.

Mae sefyllfa gyllidol llywodraeth leol yn wybyddus i bawb. Nid ydy fel petai'r toriadau yma yn cael eu gwasgaru rhwng bob man. Mae 40% o gyllideb llywodraeth leol yn mynd ar addysg, ac mae addysg yn cael rhyw gymaint o warchodaeth, sydd ynddi'i hun yn cael effaith ar weddill y gyllideb. Mae tua chwarter y gyllideb yn mynd ar wasanaethau cymdeithasol, ac mae Lynne Neagle wedi nodi yn deg iawn, iawn y pwysau eithriadol sydd ar y gwasanaethau hynny ledled Cymru. Ychwanegwch chi fod dros 10% o'r gyllideb hefyd nad oes dim rheolaeth gan gynghorau arni, mae'n golygu bod y gweddill, felly, yn gorfod cymryd y pwysau. Mae'r ffeithiau yn weddol amlwg gan lywodraeth leol. Mae'r toriadau mawr wedi digwydd, wrth gwrs, ar chwaraeon a hamdden—bron i 27%—mae llyfrgelloedd wedi gweld gostyngiad o 20%, ac mae trafnidiaeth wedi gweld gostyngiad o tua 16%. Hynny ydy, mae'r toriadau mawr yma sydd wedi digwydd yn mynd i barhau i ddiwydd: mae llyfrgelloedd yn mynd i gau, mae canolfannau hamdden yn mynd i gau. A ydym ni'n credu o ddifri mai dyna'r math o gymdeithas rydym eisiau ei chreu yng Nghymru? A ydym ni'n credu o ddifri y bydd hynny'n gwella amodau byw pobl? A ydym ni'n credu y bydd hynny'n gwella iechyd pobl yn y pen draw? Mae'n amheus gen i. Wrth gwrs, ar ben hynny, byddwn ni'n gweld di-swyddo gorfodol. Lle mae cynghorau yn trio gwarchod cyflogaeth, wrth gwrs, maen nhw wedyn yn gorfod targedu amodau cyflog y bobl hynny, sydd ynddi'i hun yn creu problem ychwanegol.

Mi fydd cynghorau—ac mae'r Gweinidog mwy neu lai wedi dweud hynny—yn gorfod cynyddu'r dreth gyngor dros y blynyddoedd nesaf, dim ond i geisio cadw rhai o'r gwasanaethau hynny yn hyfyw ac yn effeithiol. Ond mae hynny, yn ei dro, yn cael effaith ar lawer iawn o deuluoedd, gan wybod bod cyflogau isel yn broblem barhaus ym mhob rhan—wel, yn y rhan fwyaf—o Gymru. Yng nghymoedd y de neu yn yr ardaloedd gwledig, mae cyflogau isel yn ffaith na fedrwyd chi ei gwadu. Yr unig nodyn cadarnhaol yw bod Llywodraeth Cymru, o'r diwedd, wedi peth perswadio, wedi amddiffyn yr aelwydydd mwyaf bregus rhag talu'r dreth gyngor, er nad oedden nhw, i ddechrau, eisiau darparu'r warchodaeth honno.

Thank you for the opportunity to contribute to this discussion, and to make it clear that Plaid Cymru will not support this motion. The final local government settlement is a cut of nearly £150 million in the total budget—a cut, as has been said, of 3.4%. In terms of the distribution, it is interesting that the six with a reduction of over 4% are rural counties. I am not going after the party political point, but the six are rural counties. Those that do best in a poor settlement are the most urban, of course. That is going to have a devastating impact on services across Wales.

Of course, the main cause of the cuts is the Westminster austerity agenda. As far as I can see, the three main parties in England have committed to continue with that austerity—though, of course, it is not public services that caused the financial crisis behind all this. Therefore, I think that there is a message that we want to convey very clearly to the next UK Government, that we need to safeguard those services that provide support to people who really need them.

Local government's budgetary position is known to everyone. It is not as if these cuts have been spread everywhere. Forty per cent of local government budgets go on education, and education is given some degree of protection, which in itself has an impact on the rest of the budget. About a quarter of the budget goes on social services, and Lynne Neagle has noted very, very fairly the exceptional pressures on those services across Wales. If you add to that the more than 10% of the budget over which councils have no control, it means that the remainder, therefore, has to take the burden. The facts are quite clear from local government. The big cuts have happened, of course, in leisure and sport—nearly 27%—libraries have seen a reduction of 20%, and transport has seen a reduction of about 16%. That is, the big cuts have happened and they are going to continue to happen: libraries are going to close, leisure centres are going to close. Do we really believe that that is the sort of society that we want to create in Wales? Do we really think that that will improve people's living conditions? Do we believe that that will improve people's health, ultimately? I doubt that. Of course, on top of that, we will see compulsory redundancies. Where councils try to protect employment, of course, they then have to target the workers' pay and conditions, which in itself creates an additional problem.

Councils—and the Minister has more or less said this—will have to increase council tax over the next few years, only to try to keep some of those services viable and effective. But that, in turn, has an impact on a great many families, knowing that low wages are a continuing problem across all parts—well, most parts—of Wales. In the south Wales Valleys or in the rural areas, low pay is a fact that you cannot deny. The only positive note is that the Welsh Government, at last, after some persuasion, has protected the most vulnerable households from paying council tax, although it did not initially want to provide that protection.

Felly, nid yw'n amser da i fod yn gynghorydd, nac, yn sicr, yn amser da i fod yn oedrannus, os ydych chi'n derbyn gofal y gwasanaethau cymdeithasol. Ni allaf weld bod yna —. Dwy ochr o'r un geiniog ydy gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd, ac mae un yn dibynnu ar y llall. Mae tlodi un yn golygu bod yna ragor o bwysau yn mynd i fod ar y gwasanaeth iechyd. Mi fyddwn ni'n ôl yn y cylch diefflig yna rydym mor gyfarwydd â fo. Felly, rydym ni wedi gwrthwynebu cyllideb Llywodraeth Cymru am 2015-16 oherwydd penderfyniad y Llywodraeth ar yr M4. Rydym yn bryderus iawn, iawn ar yr ochr yma am yr hyn sydd yn mynd i ddigwydd yn ein cymunedau ni oherwydd y setliad hwn i lywodraeth leol.

Therefore, it is not a good time to be a councillor, nor, certainly, is it a good time to be elderly, if you receive the care of social services. I cannot see that there is—. Social services and the health service are two sides of the same coin, and one depends on the other. Poverty on one side means that there is going to be more pressure on the health service. We will be back in the vicious circle then we are so familiar with. So, we have opposed the Welsh Government budget in 2015-16 because of the Government's decision on the M4. We are very, very concerned on this side of the Chamber about what is going to happen in our communities as a result of this settlement to local government.

16:00

## **Mick Antoniw** [Bywgraffiad Biography](#)

I think that it is fair to say that the position of councillors of all parties across Wales, and, indeed, across the UK, is difficult, and the situation where councillors are elected to work in their communities and support local services, and find that they are faced with having to make cuts, is not one that any of those councillors entered into. I think that, across Wales, we can, actually, give a great deal of respect to the way in which councillors are engaging with their communities and trying to deal with what is a most difficult situation.

I particularly welcome, out of this settlement, the efforts that have been made to try to alleviate some of the poverty issues; as far as Rhondda Cynon Taf is concerned, which is recognised by the auditor general as one of the most efficient of the councils within Wales, the maintenance of the deprivation grant and the significant contribution that that will be making to the alleviation of poverty in Rhondda Cynon Taf; and also measures such as prudential borrowing, such as the £40 million that will come into my constituency in respect of twenty-first century schools.

Can I raise a real concern that I have? Minister, I hope that you will comment on this. As we look ahead, you say, of course, that you can't predict what the future will hold, but, of course, we had the Institute for Fiscal Studies on the radio this morning saying that the difference between the Labour Party and the Conservative Party in their manifestos is, effectively, £50 billion; that is, a Labour Government in May will spend a further £50 billion investing in growth, as opposed to a Tory party that is committed to cutting a further £50 billion. I'd ask you to consider what the implications might be for public services in Wales if the Tories were elected and if they were to cut a further £50 billion out of public spending, and what the implications might be for Wales.

Can I also say, though, as I have looked into this issue, I find myself agreeing more and more with the Conservative Party councillors in certain areas? I particularly find myself agreeing with the Conservative leader of Rutland County Council, who says that:

Credaf ei bod yn deg dweud bod sefyllfa cynghorwyr o bob plaid ledled Cymru, ac, yn wir, ledled y DU, yn anodd, ac nid y sefyllfa hon lle mae cynghorwyr yn cael eu hethol i weithio yn eu cymunedau a chefnogi gwasanaethau lleol, ac yn gweld eu bod yn gorfod gwneud toriadau, yw'r hyn yr oedd yr un o'r cynghorwyr hynny wedi disgwyl gorfod ei wynebu. Credaf y gallwn, ledled Cymru, mewn gwirionedd, barchu'n fawr iawn y ffordd y mae cynghorwyr yn ymgysylltu â'u cymunedau ac yn ceisio ymdrin â'r sefyllfa anodd iawn hon.

Croesawaf yn arbennig, yn y setliad hwn, yr ymdrechion a wnaed i geisio lliniaru rhai o'r materion o ran tlodi; o safbwynt Rhondda Cynon Taf, cyngor y mae'r archwilydd cyffredinol yn cydnabod ei fod yn un o'r rhai mwyaf effeithlon yng Nghymru, cynnal y grant amddifadedd a'r cyfraniad sylweddol y bydd yn ei wneud i lliniaru tlodi yn Rhondda Cynon Taf; a hefyd mesurau megis benthyca darbodus, megis y £40 miliwn a fydd yn dod i'm hetholaeth i mewn perthynas ag ysgolion yr unfed ganrif ar hugain.

A gaf fi godi un pryder gwirioneddol sydd gennyf? Weinidog, rwyf yn gobeithio y byddwch yn gwneud sylw am hyn. Wrth inni edrych ymlaen, rydych yn dweud, wrth gwrs, na allwch ragweld yr hyn a fydd yn ein haros yn y dyfodol, ond, wrth gwrs, clywsom y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar y radio y bore yma yn dweud mai'r gwahaniaeth rhwng y Blaid Lafur a'r Blaid Geidwadol yn eu manifestos, i bob pwrpas, yw £50 biliwn; hynny yw, bydd Llywodraeth Lafur ym mis Mai yn gwario £50 biliwn yn rhagor i fuddsoddi mewn twf, yn wahanol i'r blaid Doriaidd sydd wedi ymrwymo i dorri £50 biliwn yn rhagor. Gofynnaf ichi ystyried beth fyddai'r goblygiadau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru pe bai'r Toriaid yn cael eu hethol ac yn torri £50 biliwn yn rhagor o wariant cyhoeddus, a'r goblygiadau posibl i Gymru.

A gaf fi hefyd ddweud, fodd bynnag, gan fy mod wedi ymchwilio i'r mater hwn, fy mod yn cytuno fwyfwy â chynghorwyr y Blaid Geidwadol mewn rhai ardaloedd? Rwyf yn cytuno'n arbennig ag arweinydd Ceidwadol Cyngor Sir Rutland, sy'n dweud bod:

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

'Rural authorities for the last 10 to 12 years have been seriously underfunded in relation to urban areas... We have been working with the government reviewing the [spending] formula that takes into account deprivation. Now that has been ignored completely and all the promises ministers made have disappeared. We are going to have to do something.'

Then, another Tory councillor, from Worcestershire County Council, says:

'We are all struggling in local authorities—we've taken huge amounts of cuts over the last three years as part of the [Government's] comprehensive spending review and it's hurting in all areas... It is tough and we'd like it to stop.'

Another Tory councillor says that:

'The cuts to more rural routes could make the rest of the network unprofitable like the Beeching cuts did with railway lines.'

That is the warning from Tory councillor Sue Osborne, who continues:

'I don't know if the council realise the black hole they are opening up.'

Of course, the Minister has already mentioned at least 30 councils that are already telling Eric Pickles that the comments that he is making are an absolute nonsense. Even the Lib Dems are jumping the coalition ship, where you've got Danny Alexander now saying that, having supported the austerity programme, Conservative spending plans will lead to the 'wilful destruction' of public services, and even Vince Cable saying that the obsession that the Tories have with cuts and cutting public services to the bone—

Minister, we are, clearly, facing a major challenge coming in May, and I wonder if, perhaps, you could comment on the implications for Wales out of all those issues that are now arising, and, particularly, the proposals coming from the coalition Government to absolutely decimate and kill off what is left of public service.

awdurdodau gwledig dros y 10 i 12 mlynedd diwethaf wedi cael eu tanariannu'n ddifrifol o'u cymharu ag ardaloedd trefol ... Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r llywodraeth i adolygu'r fformiwla [gwariant] sy'n ystyried amddifadedd. Yn awr y mae hynny wedi ei anwybyddu'n llwyr ac mae'r holl addewidion a wnaed gan weinidogion wedi diflannu. Bydd yn rhaid inni wneud rhywbeth.

Yna, mae cynghorydd Toriaidd arall, o Gyngor Sir Swydd Gaerwrangon, yn dweud:

Rydym i gyd yn ei chael hi'n anodd mewn awdurdodau lleol —rydym wedi dioddef llawer iawn o doriadau yn ystod y tair blynedd diwethaf fel rhan o adolygiad cynhwysfawr o wariant [y Llywodraeth] ac mae'n brifo ym mhob man ... Mae'n galed a hoffem iddo ddod i ben.

Dywed cynghorydd Toriaidd arall:

Gallai'r toriadau i lwybrau mwy gwledig wneud gweddill y rhwydwaith yn amhroffidiol fel y gwnaeth toriadau Beeching i'r rheilffyrdd.

Dyna'r rhybudd gan y cynghorydd Toriaidd Sue Osborne, sy'n dweud hefyd:

Nid wyf yn gwybod a yw'r cyngor yn sylweddoli ei fod yn agor twll du.

Wrth gwrs, mae'r Gweinidog eisoes wedi crybwyll o leiaf 30 o gynghorau sydd eisoes yn dweud wrth Eric Pickles fod y sylwadau y mae'n eu gwneud yn nonsens llwyr. Mae hyd yn oed y Democratiaid Rhyddfrydol yn neidio oddi ar fwrdd llong y glymblaid, ac mae Danny Alexander yn awr yn dweud, ar ôl cefnogi'r rhaglen gyni, y bydd cynlluniau gwariant y Ceidwadwyr yn arwain at 'ddinistrio bwriadol' ar wasanaethau cyhoeddus, a hyd yn oed Vince Cable yn dweud bod yr obsesiwn sydd gan y Toriaid â thoriadau a thorri gwasanaethau cyhoeddus hyd at yr asgwrn—

Weinidog, rydym, wrth gwrs, yn wynebu her aruthrol ym mis Mai, a tybed a allech, efallai, sôn am y goblygiadau i Gymru o blith yr holl faterion hynny sydd yn awr yn codi, ac yn arbennig y cynigion sy'n dod o du'r Llywodraeth glymblaid i anrheithio a lladd yr hyn sy'n weddill o wasanaeth cyhoeddus.



Can I start by endorsing the comments of Vince Cable and Danny Alexander, as quoted by Mick Antoniw? I think that they were, of course, referring to the plans the Tories were laying out for the next Government, and I think that it is right that, although we do need to bring the deficit under control, there are other ways of doing it apart from cuts, and taxes have to form part of that. Certainly, I am not in favour of substantially massive more cuts to public budgets in the next Parliament, on top of what we already have, and I acknowledge what the Minister says: the Minister started off by saying that the Government have protected local government from the worst of the cuts. It is in fact a fact that, by and large, over this Assembly and the previous Assembly, the Welsh Government have followed the block grant in terms of the money that they've given to local government, and the local government settlement has reflected, I think, the settlements that we've received from the UK Government in terms of whether it's gone up or down, and I think that that has been fair and local government have recognised that.

The problem we're facing now of course is that, because the Government has taken the decision to pile a huge amount of extra money into the health service, which I think we all accept has been needed, but possibly needed over a much longer period of time than all at once, because it's all been done this year, effectively, all those cuts have been saved up and piled onto councils in one year and I think that that is why councillors—I acknowledge I'm a councillor myself; I think I need to declare that, especially with the new standards regime that is coming into play—are going to be facing some very difficult decisions as a result of that, and as a result of the substantial cut in the money that they now have to allocate over the next few months, when they come to set their budget.

I do welcome, as part of this local government settlement, the protection for schools, and clearly that has been helped again by the pupil deprivation grant that we negotiated as part of the two-year budget settlement this year. I also recognise the damping mechanism that has been put in place to try to ensure that those councils that are particularly hard hit by the formula—councils that are smaller than others and have different, difficult tax bases as a result of that—will not face the huge cuts they would otherwise face as part of the way the formula works out. I think though there is a case to have a look in future settlements for a ceiling as well, to try to narrow the differences between councils in terms of that settlement. I think that's maybe not for this time, but certainly for future local government settlements.

A gaf fi ddechrau drwy ategu sylwadau Vince Cable a Danny Alexander, fel y'u dyfynnwyd gan Mick Antoniw? Credaf eu bod, wrth gwrs, yn cyfeirio at y cynlluniau yr oedd y Toriaid yn eu cyflwyno ar gyfer y Llywodraeth nesaf, ac rwyf yn meddwl ei bod yn wir, er bod angen inni ddod â'r diffyg o dan reolaeth, fod ffyrdd eraill o wneud hynny ar wahân i doriadau, ac mae'n rhaid i drethi fod yn rhan o hynny. Yn sicr, nid wyf o blaid rhagor o doriadau enfawr sylweddol i gyllidebau cyhoeddus yn y Senedd nesaf, ar ben yr hyn sydd gennym yn barod, ac rwyf yn cydnabod yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud: dechreuodd y Gweinidog drwy ddweud bod y Llywodraeth wedi diogelu llywodraeth leol rhag y gwaethaf o'r toriadau. Mae'n wir a dweud y gwir fod Llywodraeth Cymru, ar y cyfan, dros y Cynulliad hwn a'r Cynulliad blaenorol, wedi dilyn y grant bloc o ran yr arian y mae wedi'i roi i lywodraeth leol, ac mae'r setliad llywodraeth leol wedi adlewyrchu, rwyf yn meddwl, y setliadau yr ydym wedi'u derbyn gan Lywodraeth y DU o ran a yw wedi mynd i fyny neu i lawr, a chredaf fod hynny wedi bod yn deg ac mae llywodraeth leol wedi cydnabod hynny.

Y broblem yr ydym yn ei hwynebu yn awr wrth gwrs, oherwydd bod y Llywodraeth wedi penderfynu pentyrru swm enfawr o arian ychwanegol i mewn i'r gwasanaeth iechyd, a chredaf ein bod i gyd yn derbyn bod angen hynny, ond bod ei angen o bosibl dros gyfnod hwy o lawer nag i gyd ar unwaith, am ei fod i gyd wedi cael ei wneud eleni, i bob pwrpas, yw bod pob un o'r toriadau hynny wedi cael eu cadw a'u pentyrru ar gynghorau mewn un flwyddyn a chredaf mai dyna pam y mae cynghorwyr—rwyf yn cydnabod fy mod yn gynghorydd fy hun; credaf fod yn rhaid imi ddatgan hynny, yn enwedig â'r gyfundrefn safonau newydd sy'n dod i rym—yn mynd i fod yn wynebu rhai penderfyniadau anodd iawn o ganlyniad i hynny, ac o ganlyniad i'r toriad sylweddol yn yr arian y mae'n rhaid iddynt bellach ei ddyrannu dros yr ychydig fisoedd nesaf, pan fyddant yn gosod eu cyllidebau.

Rwyf yn croesawu, fel rhan o'r setliad llywodraeth leol hwn, yr amddiffyniad ar gyfer ysgolion, ac wrth gwrs mae'r grant amddifadedd disgyblion a negodwyd gennym fel rhan o setliad y gyllideb ddwy flynedd eleni wedi helpu yn hynny o beth. Rwyf hefyd yn cydnabod y mecanwaith lleddfu sydd wedi ei roi ar waith i geisio sicrhau na fydd y cynghorau hynny y mae'r fformiwlâ'n eu taro'n arbennig o galed—cynghorau sy'n llai nag eraill a chanddynt sylfeini treth gwahanol ac anodd, oherwydd hynny—yn wynebu'r toriadau enfawr y byddent fel arall yn eu hwynebu oherwydd y ffordd y mae'r fformiwlâ'n gweithio. Rwyf yn credu fodd bynnag fod lle mewn setliadau yn y dyfodol i ystyried gosod terfyn hefyd, er mwyn ceisio lleihau'r gwahaniaethau rhwng cynghorau o ran y setliad hwnnw. Credaf efallai nad dyma'r adeg iawn i drafod hyn, ond mae'n sicr yn rhywbeth i'w drafod o ran setliadau llywodraeth leol yn y dyfodol.

I also welcome the reduction in the number of hypothecated direct grants, which we have been arguing for some time. I know Ann Jones doesn't agree with me on this, but I think that it's important that local councils do have as much discretion as possible over their budgets, in being able to allocate them. Of course, the danger is that the more you hypothecate, particularly in terms of declining budgets, that means that those less vital, non-statutory services will suffer even more, as a result of the fact that you've hypothecated a whole load of other budgets, and that means that the councils' discretion and their latitude for making changes to their budgets are severely limited. So, I think that that is a move in the right direction, and certainly think that that is something that councils themselves will welcome.

Of course, one of the problems of the settlement is that council tax will go up— mostly around about 5% in most areas—and that is going to add even more to the cost of living of many people around Wales. But the issue I wanted to concentrate most on here was in terms of social services, very much reflecting the comments of Lynne Neagle, and, of course, even the statement that the Deputy Minister for health has just issued in terms of winter pressures, where he says, in that statement,

'The NHS in Wales has seen a rise in the number of elderly patients who have complex needs and chronic conditions who need to be treated at and admitted to hospital. This is particularly challenging for Wales, which has the highest proportion of people over 85 in the UK.'

Social services is an important part of that mix and although the extra £10 million that has been put into the budget is very much welcome, it is really a drop in the ocean. In fact, £10 million will most probably just about cover the overspend in some of the bigger councils in terms of social services. We have a growing elderly population with complex health needs. They're putting pressure on accident and emergency and bed spaces because they're not able to be discharged quickly enough, because we haven't got social care and community care in place, and that is why I believe that the extra £70 million that is being allocated by the finance Minister as a result of budget consequential needs to be used to extend the integrated care fund into future years, so that we're able to work even more and build on the work that has been done this year in terms of that fund, to get better integration between health and social care, so that people are not putting that pressure on health as they have done in the past. I hope that those words will be listened to. Thank you, Deputy Presiding Officer.

Rwyf hefyd yn croesawu'r gostyngiad yn nifer y grantiau uniongyrchol wedi'u neilltuo, yr ydym wedi bod yn dadlau o'u plaid ers peth amser. Gwn nad yw Ann Jones yn cytuno â mi ynglŷn â hyn, ond credaf ei bod yn bwysig bod cyngorau lleol yn cael cymaint o ddisgresiwn â phosibl dros eu cyllidebau, o ran gallu eu dyrannu. Wrth gwrs, y perygl yw, po fwyaf y byddwch yn ei neilltuo, yn enwedig o ran cyllidebau sy'n crebachu, mae hynny'n golygu y bydd gwasanaethau llai hanfodol, anstatudol hynny'n dioddef hyd yn oed yn fwy, yn sgil y ffaith eich bod wedi neilltuo llwyth o gyllidebau eraill, ac mae hynny'n golygu bod disgresiwn y cyngorau a'u rhyddid i wneud newidiadau i'w cyllidebau wedi'u cyfyngu'n ddifrifol. Felly, credaf fod hynny'n gam i'r cyfeiriad iawn, a chredaf yn sicr fod hynny'n rhywbeth y mae'r cyngorau hwythau'n ei groesawu.

Wrth gwrs, un o broblemau'r setliad yw y bydd y dreth gyngor yn codi—oddeutu 5% yn y rhan fwyaf o ardaloedd—ac mae hynny'n mynd i ychwanegu hyd yn oed mwy at gostau byw llawer o bobl o amgylch Cymru. Ond mae'r mater yr oeddwn am ganolbwyntio fwyaf arno yma'n ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol, ac yn adlewyrchu i raddau helaeth iawn sylwadau Lynne Neagle, ac, wrth gwrs, hyd yn oed y datganiad y mae'r Dirprwy Weinidog iechyd newydd ei gyhoeddi o ran pwysau'r gaeaf, lle mae'n dweud, yn y datganiad hwnnw,

'Mae'r GIG yng Nghymru wedi gweld cynnydd yn nifer y cleifion hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau cronig sydd angen triniaeth a'u derbyn i'r ystyby. Mae hyn yn arbennig o heriol yng Nghymru, lle ceir y gyfran fwyaf o bobl dros 85 oed yn y DU.'

Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn rhan bwysig o'r cymysgedd hwnnw ac er bod y £10 miliwn ychwanegol sydd wedi ei roi yn y gyllideb yn dderbyniol iawn, diferyn yn y môr ydyw mewn gwirionedd. Yn wir, prin y bydd £10 miliwn yn ôl pob tebyg yn talu am orwariant rhai o'r cyngorau mwy o ran gwasanaethau cymdeithasol. Mae gennym boblogaeth oedrannus sy'n tyfu a chanddi anghenion iechyd cymhleth. Maent yn rhoi pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys a gwelyau am nad ydynt yn gallu cael eu rhyddhau yn ddigon cyflym, oherwydd nad oes gofal cymdeithasol a gofal yn y gymuned ar gael, a dyna pam yr wyf yn credu bod angen i'r £70 miliwn ychwanegol sy'n cael ei dyrannu gan y Gweinidog Cyllid yn sgil symiau canlyniadol y gyllideb gael ei ddefnyddio i estyn y gronfa gofal integredig i'r blynyddoedd sydd i ddod, er mwyn inni allu gweithio hyd yn oed yn fwy ac adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud eleni o ran y gronfa honno, er mwyn sicrhau gwell integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, fel nad yw pobl yn rhoi pwysau ar iechyd fel y maent wedi'i wneud yn y gorffennol. Rwyf yn gobeithio y bydd y geiriau hynny'n cael eu clywed. Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd.

I think many of us, over the last few weeks and months particularly, have had some very difficult conversations with, not only constituents, but friends and family who are concerned about the pressures on local government funding. Those conversations haven't been the abstract conversations about the future of local government budgets or funding formulae, they have been very real conversations about the future of key services that people rely on every day of their lives. They've been very hard conversations about the future of local jobs, which in an area such as Blaenau Gwent is especially important. The local authority is not only the biggest single employer in the area, but is also a procurer of services from other local businesses. There are many thousands of families in my constituency that depend on the local authority for their jobs and their services, and that is something that has been right at the centre, I think, of the conversations that I've been having over the last few months.

Like my good friend Mick Antoniw, I want to pay tribute not only to councillors in Blaenau Gwent, but also to councillors up and down Wales who have wrestled with some very, very difficult decisions over the budget-setting period, and have taken this debate into communities and have spoken with people in different towns and communities about the choices and the difficulties they face. But, let us also be clear: the Minister, in opening this debate, spoke about the protection that is being given to local services by this Government. We know that Wales is facing a very difficult budget and is facing some very difficult decisions as a consequence of that, but we also know that the nightmare that is taking place in local government in England is not taking place here. The National Audit Office estimates that the real-terms reduction in funding for local government in England is 37%. The equivalent figure in Wales is around 7.6%. That is not an accident. It hasn't happened because of some statistical anomaly; it has happened because different Governments have taken different decisions, for different reasons, to protect local services and local jobs. Welsh local government has not been protected because of the Barnett formula, it has not been protected because of consequentials; it has been protected by political decisions taken by this Government in this Chamber, and we need to recognise that.

We also, I hope, will work—as the Minister has been doing—with local government to ensure that we are able to guarantee the future of local services. It is not a good enough response to this issue to simply rehearse some of the arguments, rehearse some of the decisions that have been taken, and then sit on one's hands when it comes to a vote. I hope that we will be able to work with local government to ensure that we are able to face the future and to guarantee key services.

Credaf fod llawer ohonom, dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf yn arbennig, wedi cael rhai sgysiau anodd iawn, nid yn unig ag etholwyr, ond hefyd â ffrindiau a theulu sy'n pryderu am y pwysau ar gyllid llywodraeth leol. Nid yw'r sgysiau hynny wedi bod yn rhai haniaethol am ddyfodol cyllidebau llywodraeth leol neu fformiwlâu ariannu, maent wedi bod yn sgysiau go iawn am ddyfodol gwasanaethau allweddol y mae pobl yn dibynnu arnynt bob dydd. Maent wedi bod yn sgysiau anodd iawn am ddyfodol swyddi lleol, sydd mewn ardal fel Blaenau Gwent yn arbennig o bwysig. Yr awdurdod lleol yw'r cyflogwr mwyaf yn yr ardal, ac mae hefyd yn caffael gwasanaethau gan fusnesau lleol eraill. Mae miloedd lawer o deuluoedd yn fy etholaeth i sy'n dibynnu ar yr awdurdod lleol ar gyfer eu swyddi a'u gwasanaethau, ac mae hynny'n rhywbeth sydd wedi bod yn ganolog iawn, rwyf yn meddwl, i'r sgysiau yr wyf wedi eu cael dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

Fel fy nghyfaill da Mick Antoniw, rwyf am dalu teyrnged nid yn unig i gynghorwyr ym Mlaenau Gwent, ond hefyd i gynghorwyr ar hyd a lled Cymru sydd wedi ymgodymu â rhai penderfyniadau anodd iawn, iawn dros gyfnod gosod y gyllideb, ac wedi mynd â'r ddadl hon i mewn i gymunedau ac wedi siarad â phobl mewn trefi a chymunedau am y dewisiadau a'r anawsterau y maent yn eu hwynebu. Ond, gadewch inni hefyd fod yn glir: soniodd y Gweinidog, wrth agor y ddadl, am warchod gwasanaethau lleol gan y Llywodraeth hon. Rydym yn gwybod bod Cymru'n wynebu cyllideb anodd iawn ac yn wynebu rhai penderfyniadau anodd iawn o ganlyniad i hynny, ond rydym hefyd yn gwybod nad yw'r hunllef sy'n digwydd mewn llywodraeth leol yn Lloegr yn digwydd yma. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn amcangyfrif mai 37% yw'r gostyngiad mewn termau real yn yr arian ar gyfer llywodraeth leol yn Lloegr. Y ffigur cyfatebol yng Nghymru yw tua 7.6%. Nid damwain mo hynny. Nid yw wedi digwydd oherwydd rhyw anghysondeb ystadegol; mae wedi digwydd oherwydd bod gwahanol Lywodraethau wedi gwneud penderfyniadau gwahanol, am resymau gwahanol, i warchod gwasanaethau lleol a swyddi lleol. Nid yw llywodraeth leol yng Nghymru wedi ei gwarchod oherwydd fformiwlâ Barnett, nid yw wedi ei gwarchod oherwydd symiau canlyniadol; mae wedi ei gwarchod oherwydd penderfyniadau gwleidyddol y Llywodraeth hon yn y Siambr hon, ac mae angen inni gydnabod hynny.

Byddwn hefyd, rwyf yn gobeithio, yn gweithio—fel y mae'r Gweinidog wedi bod yn ei wneud—gyda llywodraeth leol i sicrhau ein bod yn gallu sicrhau dyfodol gwasanaethau lleol. Nid yw'n ddigon da ymateb i'r mater hwn drwy aildrafod rhai o'r dadleuon, aildrafod rhai o'r penderfyniadau a wnaethpwyd, ac yna eistedd ar ein dwylo pan ddaw'n bryd pleidleisio. Rwyf yn gobeithio y gallwn weithio gyda llywodraeth leol i sicrhau y gallwn wynebu'r dyfodol ac i sicrhau gwasanaethau allweddol.

One of the things that I find constantly surprising is the amount of reserves that are maintained by local government across Wales. £1.4 billion is held by local government in reserves across Wales—£1.4 billion. I hope that the Welsh Government will allow or compel local government to use some of those reserves. We need to understand why those reserves are in place. Some of them are in place for very good reasons in terms of capital schemes, schools' reserves, and the rest of it. We recognise that, and we recognise the need for that, but £1.4 billion is a huge resource. I was told once that it was being kept for a rainy day; I would suggest that it is pouring down outside and that we need to look hard at how we use those reserves.

I would also like to ask the Minister to look at how he can use the current law, or future law changes, to enable local government to do more in terms of creating local social enterprises. I think easily of energy generation, local generation, which can help local government to save on expenditure but also generate income and deliver services, particularly in some of the poorest parts of the country.

Like others, and like my good friend Lynne Neagle, I want to talk about the integration of services, such as social services as well. Peter Black and others have referred to this, so I won't spend too much time on the issue, but it is absolutely critical that, if we maintain the budgets for health, we also maintain budgets for social services, and that we also integrate and link up services. The Deputy Minister for Health was in Tredegar yesterday, launching the Living Well Living Longer project—absolutely critical in an area with such a large amount of premature death—but the local authority is increasing pitch fees and cutting back on sporting facilities.

Un o'r pethau sy'n peri syndod cyson imi yw faint o gronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cadw gan lywodraeth leol ledled Cymru. Mae gan lywodraeth leol gronfeydd wrth gefn o £1.4 biliwn ledled Cymru—£1.4 biliwn. Gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cymru yn caniatáu neu'n gorfodi llywodraeth leol i ddefnyddio rhywfaint o'r cronfeydd wrth gefn hynny. Mae angen inni ddeall pam y mae'r cronfeydd wrth gefn hynny yno. Mae rhai ohonynt yno am resymau da iawn o ran cynlluniau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn ysgolion, a'r gweddill. Rydym yn cydnabod hynny, ac rydym yn cydnabod bod angen hynny, ond mae £1.4 biliwn yn adnodd aruthrol. Dywedwyd wrthyf unwaith ei fod yn cael ei gadw ar gyfer diwrnod glawog; awgrymaf ei bod yn tywallt y glaw y tu allan, a bod angen inni edrych yn ofalus ar sut i ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn hynny.

Hoffwn hefyd ofyn i'r Gweinidog edrych ar sut y gall ddefnyddio'r gyfraith fel ag y mae, neu newidiadau i'r gyfraith yn y dyfodol, er mwyn galluogi llywodraeth leol i wneud mwy i greu mentrau cymdeithasol lleol. Rwyf yn meddwl yn syth am gynhyrchu ynni, cynhyrchu lleol, a all helpu llywodraeth leol i arbed ar wariant, ond a all hefyd greu incwm a darparu gwasanaethau, yn enwedig yn rhai o rannau tlotaf y wlad.

Fel eraill, ac fel fy nghyfaill da Lynne Neagle, rwyf am sôn am integreiddio gwasanaethau, megis gwasanaethau cymdeithasol yn ogystal. Mae Peter Black ac eraill wedi cyfeirio at hyn, felly nid wyf am dreulio gormod o amser ar y mater, ond mae'n gwbl hanfodol, os ydym yn cynnal cyllidebau ar gyfer iechyd, ein bod hefyd yn cynnal cyllidebau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, a'n bod hefyd yn integreiddio ac yn cysylltu gwasanaethau â'i gilydd. Roedd y Dirprwy Weinidog Iechyd yn Nhredegardd, yn lansio'r prosiect Byw'n Iach Byw'n Hirach—sy'n gwbl hanfodol mewn ardal lle y mae cynifer o farwolaethau cynamserol—ond mae'r awdurdod lleol yn cynyddu ffioedd meysydd chwarae ac yn torri'n ôl ar gyfleusterau chwaraeon.

16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finish.

Gorffennwch.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:14 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We need the Government to work together to deliver for the community as a whole.

Mae angen i'r Llywodraeth gydweithio i ddarparu ar gyfer y gymuned gyfan.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:14 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First, the local government settlement needs to be looked at in the context of the Westminster cuts to public expenditure. By 2015-16, the Welsh budget will be £1.5 billion lower in real terms than in 2010-11, and the amount available for capital investment will be 30% lower than it was at its peak in 2009-10. This long period of sustained reduction has an impact on all services, even those that have been relatively protected.

Yn gyntaf, mae angen edrych ar setliad llywodraeth leol yng nghyd-destun toriadau San Steffan i wariant cyhoeddus. Erbyn 2015-16, bydd cyllideb Cymru £1.5 biliwn yn is mewn termau real nag yn 2010-11, a bydd y swm sydd ar gael ar gyfer buddsoddi cyfalaf 30% yn is nag yr oedd yn ei anterth yn 2009-10. Mae'r cyfnod hir hwn o gwtogi parhaus yn effeithio ar bob gwasanaeth, hyd yn oed y rhai sydd wedi eu gwarchod yn gymharol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The Tories in the 1980s and 1990s engaged in a sustained attack on local government, but the scale of the reductions made in England up till now are far, far greater than then. Whilst I cannot predict with any accuracy what each local authority in Wales will do, I can predict what will happen somewhere across Wales: council tax will increase, in many cases by nearly 5%; charges for council services, where they have local discretion, will be increased; charges will be brought in for services that are currently free; non-statutory services will be closed; discretionary provision will disappear; the two/three mile limit for school transport will be strictly enforced; public toilets will close or the county and county borough councils will try and pass responsibility to the local community councils; branches of libraries will either close or be passed to volunteers to run; opening hours of leisure centre facilities will reduce; sports facility pitches will be passed on to local teams to manage; day centres will close; local authorities will look to pass costs on to health boards. People will be paying more for a poorer service, and they won't like it.

Opposition councillors in every local authority, aided I'm sure by many Assembly Members here, will criticise the cuts and support the demonstrations and opposition to them. There will be those who see a solution to tens of millions of pounds in cuts in the reduction of the number of councillors or councillors' allowances. If all the councillors in Wales weren't paid, it would not meet a quarter of the planned cuts in Swansea alone. Probably the worst thing that will happen is that all authorities will become similar. Today, Rhondda Cynon Taf County Borough Council has amongst the best nursery provision in Britain, a continuation of the former mid Glamorgan council's policy. Swansea council has an excellent record on culture and the arts. Education and social services will take an increasing proportion of the council budgets.

How will these changes affect health? Local government provides a variety of services that contribute to health and wellbeing. For example, if local authorities are unable to provide timely social care packages to those leaving hospitals, then beds will be blocked. If local authorities do not intervene when homecare provision is needed, soon enough people will end up in hospital. As budgets become stretched, then slowing down assessment and the production of care packages for hospital discharge could be one of the ways of staying in budget. In order for some people to be discharged from hospital, their homes need to be adapted. The disabled facilities grant is managed and funded by the local authority, and, if there is insufficient funding available for the work to be done, then the patient often cannot be released from hospital despite having no medical need to stay there.

Environmental health workers check food safety in premises where food is prepared. If there are fewer of them, then obviously visits will take place less often and the chances of food poisoning, such as from salmonella, will increase.

Ymosododd y Torïaid yn yr 1980au a'r 1990au yn barhaus ar lywodraeth leol, ond mae maint y gostyngiadau a wnaed yn Lloegr hyd yma yn llawer, llawer mwy nag a welwyd bryd hynny. Er na allaf ragweld yn fanwl gywir yr hyn y bydd pob awdurdod lleol yng Nghymru yn ei wneud, gallaf ddarogan yr hyn a fydd yn digwydd yn rhywle ar draws Cymru: bydd y dreth gyngor yn codi, bron i 5% mewn llawer o achosion; bydd taliadau am wasanaethau'r cyngor, lle y mae ganddo ddisgresiwn lleol, yn cynyddu; bydd taliadau'n cael eu cyflwyno am wasanaethau sydd ar gael am ddim ar hyn o bryd; bydd y gwasanaethau anstatudol yn cau; bydd y ddarpariaeth yn ôl disgrisiwn yn diflannu; bydd y terfyn dwy / tair milltir ar gyfer cludiant ysgolion yn cael ei orfodi'n llym; bydd toiledau cyhoeddus yn cau neu bydd y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol yn ceisio trosglwyddo cyfrifoldeb i'r cynghorau cymuned lleol; bydd canghennau llyfrgelloedd naill ai'n cau neu'n cael eu trosglwyddo i wirfoddolwyr i'w rhedeg; bydd oriau agor cyfleusterau canolfannau hamdden yn cael eu cwtogi; bydd caeau chwarae cyfleusterau chwaraeon yn cael eu trosglwyddo i dimau lleol i'w rheoli; bydd canolfannau dydd yn cau; bydd awdurdodau lleol yn ceisio pasio costau ymlaen i fyrdau iechyd. Bydd pobl yn talu mwy am wasanaeth salach, ac ni fyddant yn hoffi hynny.

Bydd cynghorwyr y gwrthbleidiau ym mhob awdurdod lleol, gyda chymorth llawer o Aelodau'r Cynulliad yma rwyf yn siŵr, yn beirniadu'r toriadau ac yn cefnogi'r protestiadau a'r gwrthwynebiad iddynt. Bydd rhai'n credu mai drwy leihau nifer y cynghorwyr neu lwfansau cynghorwyr y mae ymdrin â'r degau o filiynau o bunnoedd o doriadau. Pe na bai'r holl gynghorwyr yng Nghymru'n cael eu talu, ni fyddai'n talu am chwarter y toriadau arfaethedig yn Abertawe yn unig. Mae'n debyg mai'r peth gwaethaf a fydd yn digwydd yw y bydd pob awdurdod yn debyg i'w gilydd. Heddiw, mae darpariaeth feithrin Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ymhlith y gorau ym Mhrydain, parhad o bolisi hen gyngor canol Morgannwg. Mae gan gyngor Abertawe record ragorol o ran diwylliant a'r celfyddydau. Bydd addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn cymryd cyfran gynyddol o gyllidebau'r cyngor.

Sut y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar iechyd? Mae llywodraeth leol yn darparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n cyfrannu at iechyd a lles. Er enghraifft, os na all awdurdodau lleol ddarparu pecynnau gofal cymdeithasol amserol i'r rhai sy'n gadael ysbytai, yna bydd gwylau'n cael eu blocio. Os na fydd awdurdodau lleol yn ymyrryd pan fo angen darpariaeth gofal cartref, cyn hir bydd pobl yn gorfod mynd i'r ysbyty. Wrth i gyllidebau ddod o dan bwysau, gallai arafu asesiadau a chynhyrchu pecynnau gofal rhyddhau o'r ysbyty fod yn un ffordd o aros o fewn yn y gyllideb. Er mwyn i rai pobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty, mae angen addasu eu cartrefi. Mae'r grant cyfleusterau i'r anabl yn cael ei reoli a'i ariannu gan yr awdurdod lleol, ac os nad oes digon o arian ar gael i wneud y gwaith sydd i'w wneud, yna yn aml nid oes modd rhyddhau'r claf o'r ysbyty er nad oes angen meddygol iddo aros yno.

Mae gweithwyr iechyd yr amgylchedd yn archwilio diogelwch bwyd mewn safleoedd lle y mae bwyd yn cael ei baratoi. Os oes llai ohonynt, yna yn amlwg bydd ymweliadau'n digwydd yn llai aml ac mae'r siawns o gael gwenwyn bwyd, megis salmonela, yn cynyddu.

Of course, all these are statutory services but, if they are fully protected, then the discretionary services could be hit hard. Councils could reduce spending on road maintenance and street lighting, but doing so increases the chances of accidents occurring and will add to the pressure on accident and emergency services.

In a country where a lack of exercise and unhealthy lifestyles contribute to an obesity epidemic and to early deaths, the last thing that we need is the closure of leisure facilities or a huge increase in their costs that stop them being available to large numbers of our people. Local authorities run leisure centres and swimming pools, providing an opportunity for people to engage in exercise at a reasonable cost. They are far, far cheaper than the private offers available. It will not improve health and fitness if they are either closed or prices increase to such an extent that they exclude a large proportion of the public. There are, of course, efficiency savings, such as 3G and 4G pitches, to upgrade their use.

Local authorities should be looking to use Welsh Government's invest-to-save fund in order to try and maximise that. They can collaborate together to save money, especially on back-office functions such as payroll, but that's only a small part of their total expenditure. If we continue to substantially reduce spending in fields other than the health service, there'll be a big trade-off and health could be the loser. Health is not only about treating the ill and injured, but also about ensuring that preventative initiatives are in place, keeping people fit. Local government is a major provider of preventative services. Large cuts in local government expenditure and a reduced provision of services could damage, and probably will damage, the overall health of the nation. We must remember, to keep Wales healthy, local government has a very major part to play.

Wrth gwrs, mae'r rhain i gyd yn wasanaethau statudol ond, os cânt eu gwarchod yn llawn, yna gallai'r gwasanaethau yn ôl disgrisiwn gael eu taro'n galed. Gallai cynghorau wario llai ar gynnal a chadw ffyrdd a goleuadau stryd, ond drwy wneud hynny mae'n fwy tebygol y gallai damweiniau ddigwydd a bydd hynny'n ychwanegu at y pwysau ar wasanaethau damweiniau ac achosion brys.

Mewn gwlad lle mae diffyg ymarfer corff a ffyrdd o fyw afiach yn cyfrannu at epidemig gordewdra ac at farwolaethau cynnar, y peth olaf y mae arnom ei angen yw cau cyfleusterau hamdden neu gynydd enfawr yn eu costau sy'n golygu na fyddant ar gael i nifer fawr o'n pobl. Mae awdurdodau lleol yn rhedeg canolfannau hamdden a phyllau nofio, gan roi cyfle i bobl gael ymarfer corff am gost resymol. Maent yn llawer, llawer rhatach na'r ddarpariaeth breifat sydd ar gael. Ni fydd yn gwella iechyd a ffitrwydd os ydynt naill ai wedi cau neu os yw'r prisiau'n codi i'r fath raddau eu bod yn cadw cyfran fawr o'r cyhoedd draw. Mae, wrth gwrs, arbedion effeithlonrwydd, megis caeau 3G a 4G, i uwchraddio eu defnydd.

Dylai awdurdodau lleol fod yn ystyried defnyddio cronfa buddsoddi i arbed Llywodraeth Cymru i geisio gwneud y gorau o hynny. Gallant gydweithio i arbed arian, yn enwedig ar swyddogaethau cefn swyddfa, megis y gyflogres, ond dim ond rhan fach o gyfanswm eu gwariant yw hynny. Os byddwn yn parhau i leihau'n sylweddol wariant mewn meysydd ar wahân i'r gwasanaeth iechyd, bydd cyfaddawdu mawr ac mae'n bosibl mai iechyd fydd ar ei gollod. Mae iechyd yn ymwneud nid yn unig â thrin y sâl a'r rhai a anafwyd, ond hefyd â sicrhau bod mentrau ataliol ar waith, yn cadw pobl yn heini. Mae llywodraeth leol yn un o brif ddarparwyr gwasanaethau ataliol. Gallai toriadau mawr yng ngwariant llywodraeth leol a llai o wasanaethau niweidio, ac mae'n debyg y bydd yn niweidio, iechyd cyffredinol y genedl. Mae'n rhaid inni gofio, er mwyn cadw Cymru'n iach, fod gan lywodraeth leol ran fawr iawn i'w chwarae.

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And the Minister to reply to the debate.

A'r Gweinidog i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:19 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Deputy Presiding Officer, this has largely been a very honest debate in which people have spoken with knowledge, frankness and passion about the challenges currently facing local government across the whole of Wales.

The Plaid Cymru spokesperson, who said they were not supporting the motion today and indeed didn't support the overall budget, gave an analysis, which I agreed with, that one of the big dangers is that local authorities are left having to focus largely on statutory services—a point I think that was echoed by a number of speakers in the debate.

Ddirprwy Lywydd, mae hon wedi bod i raddau helaeth yn ddatl onest iawn lle y mae pobl wedi siarad â gwybodaeth, gonestrwydd ac angerdd am yr heriau sy'n wynebu llywodraeth leol ar hyn o bryd ledled Cymru.

Rhoddodd llefarydd Plaid Cymru, a ddywedodd nad oeddent yn cefnogi'r cynnig heddiw ac yn wir nad oeddent yn cefnogi'r gyllideb gyffredinol, ddadansoddiad, yr oeddwn yn cytuno ag ef, mai un o'r peryglon mawr yw bod awdurdodau lleol yn gorfod canolbwyntio i raddau helaeth ar wasanaethau statudol—pwynt a adleisiwyd gan nifer o siaradwyr yn y ddatl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



He also drew attention, of course, to the fact that the challenges facing local government are a direct result of the cuts in UK Government funding to Wales, which has had the impact that we are seeing. The Liberal Democrats spokesperson recognised that the Welsh Government has over many years protected local government. He acknowledged that he himself was a councillor—he, I'm sure, will be looking forward to the local government White Paper in a couple of weeks' time, which will have observations about the dual roles of people in different places, but I welcome the insights that he brought to this debate, and I welcome also his recognition of the protection that's been put in place in respect of schools, not least through the pupil deprivation grant, and his recognition also of the damping mechanisms that we've put in place to seek to protect councils across Wales.

My colleague, the Member for Torfaen, Lynne Neagle, rightly recognised the challenging budget that exists for local authorities, not least in the area of adult social care. She again was right to say, of course, that we have protected budgets for local authorities in Wales, unlike the way in which it has been done in England. I can assure her that I will work with local authorities and across government to see what we can do to protect local services, in particular social services. Mick Antoniw rightly said that the situation facing councillors was difficult. It is not the situation that brought them into politics. I'm glad he welcomed the protection of the deprivation grant that we made, but he was right to draw attention to the analysis by the Institute of Fiscal Studies, which is that the public finances would be £50 billion worse off, were the Conservatives to win the general election, than if the Labour Party were to win. He will know, as we are very clear, and from previous analyses by the Institute for Fiscal Studies and, indeed, by the Office for Budget Responsibility, that the Conservative spending plans would take the UK back to the 1930s in terms of the proportion of state spending.

Tynnodd sylw hefyd, wrth gwrs, at y ffaith bod yr heriau sy'n wynebu llywodraeth leol yn ganlyniad uniongyrchol i'r toriadau i gyllid Llywodraeth y DU i Gymru, sydd wedi cael yr effaith yr ydym yn ei gweld. Roedd llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru dros nifer o flynyddoedd wedi gwarchod llywodraeth leol. Roedd yn cydnabod ei fod ef ei hun yn gynghorydd—bydd, rwyf yn siŵr, yn edrych ymlaen at y Papur Gwyn ar lywodraeth leol ymhen ychydig wythnosau, a fydd yn cynnwys sylwadau ynghylch rolau deul pobl mewn gwahanol leoedd, ond rwyf yn croesawu'r ddealltwriaeth a gyfrannodd i'r ddaid hon, a chroesawaf hefyd ei gydnabyddiaeth o'r mesurau gwarchod sydd wedi eu rhoi ar waith o ran ysgolion, i raddau helaeth drwy'r grant amddifadedd disgyblion, a'i gydnabyddiaeth hefyd o'r mecanweithiau lleddfu yr ydym wedi'u rhoi ar waith i geisio diogelu cynghorau ledled Cymru.

Mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Dorfaen, Lynne Neagle, yn llygad ei lle wrth gydnabod y gyllideb heriol ar gyfer awdurdodau lleol, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol i oedolion. Roedd yn llygad ei lle unwaith eto wrth ddweud, wrth gwrs, ein bod wedi gwarchod cyllidebau awdurdodau lleol yng Nghymru, yn wahanol i'r ffordd y mae wedi cael ei wneud yn Lloegr. Gallaf ei sicrhau y byddaf yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac ar draws y llywodraeth i weld beth y gallwn ei wneud i warchod gwasanaethau lleol, a gwasanaethau cymdeithasol yn benodol. Dywedodd Mick Antoniw yn briodol iawn fod y sefyllfa sy'n wynebu cynghorwyr yn anodd. Nid dyna'r sefyllfa a ddaeth â hwy i mewn i wleidyddiaeth. Rwyf yn falch ei fod yn croesawu gwarchod y grant amddifadedd a sicrhawyd gennym, ond roedd yn iawn i dynnu sylw at ddadansoddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, sef y byddai sefyllfa cyllid cyhoeddus £50 biliwn yn waeth pe byddai'r Ceidwadwyr yn ennill yr etholiad cyffredinol, na phe bai'r Blaid Lafur yn ennill. Bydd yn gwybod, gan ein bod yn glir iawn, ac o ddadansoddiadau blaenorol gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ac, yn wir, gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, y byddai cynlluniau gwariant y Ceidwadwyr yn mynd â'r DU yn ôl i'r 1930au o ran cyfran gwariant y wladwriaeth.

My colleague Alun Davies, the Member for Blaenau Gwent, paid attention to the wider world of local government, not only in terms of jobs and services but also in procurement, and rightly drew attention to the importance of local government in protecting not only local services but local jobs as well. He rightly also drew attention to the size of reserves held by local authorities, and indeed I have written to all local authorities across Wales about the size of their reserves, challenging the figures, in some cases, that they have within their budgets, challenging their own analysis, in some cases, of the way in which they record different kinds of reserves, and what I think is absolutely clear across Wales is that there is inconsistency in the recording of reserves and I very much agree with him that an injection from those reserves—which I know some authorities, such as Rhondda Cynon Taf, are making to ensure some level of protection of services—should be considered across the whole of Wales, and I have had conversations with the WLGA and with the Wales Audit Office on these issues. My colleague Mike Hedges also drew attention to the impact of the UK Government cuts and, I think, painted a very depressing potential picture of what might happen to local government spending in the future, particularly if a Conservative Government were to be returned in the general election in May, which of course he, like all of us on this side of the Chamber, will be working very hard to prevent. But I think he's right to draw attention to the opportunities for local government as well, in respect, for example, of things like the invest-to-save fund.

I said, Deputy Presiding Officer, that this had largely been an honest debate. That now brings me to the contribution of the Conservative opposition spokesperson. She started off with a criticism of the formula that operates across Wales to determine the spending for local authorities. Of course, that is a formula that is agreed with the Welsh Local Government Association through the distribution sub-group, on which all local authorities have an input and have an opportunity to influence the way in which that formula is drawn up. She referred to the council tax freeze in England, and my colleagues have pointed out that dozens of councils in England, of course, are planning to defy Eric Pickles's plans for the council tax freeze, including 30 Conservative-led councils, including Oxfordshire County Council, where David Cameron's own parliamentary seat is located. So, we know well how resistant Conservative councillors, as my colleague the Member for Pontypridd pointed out, are to the proposals being imposed on them by Eric Pickles. The reality is, as colleagues have pointed out, that council tax is lower in Wales on average and that council finances have been better protected in Wales than in England by this Welsh Labour Government. We are committed to local government in Wales. We will shortly bring forward our proposals for local government reform in our White Paper, and I commend today's motion to this Chamber.

Rhoddodd fy nghyd-Aelod, Alun Davies, yr Aelod dros Flaenau Gwent, sylw i fyd ehangach llywodraeth leol, nid yn unig o ran swyddi a gwasanaethau, ond hefyd o ran caffael, a thynnodd sylw yn briodol iawn at bwysigrwydd llywodraeth leol o ran gwarchod nid yn unig wasanaethau lleol, ond swyddi lleol hefyd. Roedd yn iawn hefyd i dynnu sylw at faint y cronfeydd wrth gefn sydd gan awdurdodau lleol, ac yn wir rwyf wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru ynghylch maint eu cronfeydd wrth gefn, gan herio'r ffigurau, mewn rhai achosion, sydd ganddynt o fewn eu cyllidebau, herio eu dadansoddiad eu hunain, mewn rhai achosion, o'r ffordd y maent yn cofnodi gwahanol fathau o gronfeydd wrth gefn, a'r hyn yr wyf yn meddwl sy'n hollol glir ledled Cymru yw bod anghysondeb o ran cofnodi cronfeydd wrth gefn ac rwyf yn cytuno'n fawr iawn ag ef y dylid ystyried chwistrelliad o'r cronfeydd wrth gefn hynny—a gwn fod rhai awdurdodau, megis Rhondda Cynon Taf, yn gwneud hynny er mwyn sicrhau bod rhyw lefel o warchod gwasanaethau—ledled Cymru, ac rwyf wedi cael sgysiaid â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac â Swyddfa Archwilio Cymru am y materion hyn. Tynnodd fy nghyd-Aelod, Mike Hedges sylw at effaith toriadau Llywodraeth y DU a chredaf iddo baentio darlun posibl digalon iawn o'r hyn a allai ddigwydd i wariant llywodraeth leol yn y dyfodol, yn enwedig os bydd Llywodraeth Geidwadol yn cael ei hethol yn yr etholiad cyffredinol ym mis Mai, y bydd ef wrth gwrs, fel pob un ohonom ar yr ochr hon i'r Siambr, yn gweithio'n galed iawn i'w atal. Ond credaf ei fod yn iawn i dynnu sylw at y cyfleoedd i lywodraeth leol yn ogystal, er enghraifft o ran pethau fel y gronfa buddsoddi i arbed.

Dywedais, Ddirprwy Lywydd, fod hon wedi bod yn ddadl onest i raddau helaeth. Mae hynny'n dod â mi yn awr at gyfraniad llfarydd yr wrthblaidd Geidwadol. Dechreuodd drwy feirniadu'r fformiwla sydd ar waith ledled Cymru i bennu gwariant awdurdodau lleol. Wrth gwrs, mae honno'n fformiwla y cytunir arni gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru drwy'r is-grŵp dosbarthu, y mae pob awdurdod lleol yn cyfrannu ato ac yn cael cyfle i ddylanwadu ar y ffordd y caiff y fformiwla ei llunio. Cyfeiriodd at rewi'r dreth gyngor yn Lloegr, ac mae fy nghyd-Aelodau wedi nodi bod dwsinau o gynghorau yn Lloegr, wrth gwrs, yn bwriadu herio cynlluniau Eric Pickles i rewi'r dreth gyngor, gan gynnwys 30 o gynghorau a arweinir gan y Ceidwadwyr, gan gynnwys Cyngor Sir Swydd Rydychen, lle mae sedd seneddol David Cameron ei hun. Felly, rydym yn gwybod yn iawn pa mor wrthwynebus yw cynghorwyr Ceidwadol, fel y nododd fy nghyd-Aelod yr Aelod dros Bontypridd, i'r cynigion sy'n cael eu gosod arnynt gan Eric Pickles. Y gwir amdani, fel y mae cyd-Aelodau wedi nodi, yw bod y dreth gyngor yn is yng Nghymru, ar gyfartaledd, a bod cyllid y cynghorau wedi ei warchod yn well yng Nghymru nag yn Lloegr gan y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru. Rydym wedi ymrwymo i lywodraeth leol yng Nghymru. Byddwn cyn hir yn cyflwyno'n cynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol yn ein Papur Gwyn, ac rwyf yn cymeradwyo'r cynnig heddiw i'r Siambr hon.

16:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I defer voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## Dadl: Adroddiad Blynyddol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2013-14

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Paul Davies, gwelliant 4 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 5, 6 a 7 yn enw Elin Jones.*

## Debate: Together for Mental Health Annual Report 2013-14

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Paul Davies, amendment 4 in the name of Aled Roberts, and amendments 5, 6 and 7 in the name of Elin Jones.*

16:25

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Item 10. Dadl: Adroddiad Blynyddol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd i wneud y cynnig—Vaughan Gething.

Item 10. Debate: Together for Mental Health Annual Report. I call on the Deputy Minister for Health to move the motion—Vaughan Gething.

Cynnig NDM5660 Jane Hutt

Motion NDM5660 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol (2013-14) Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 6 Ionawr 2015.

Notes the Together for Mental Health Annual Report (2013-14), sent to Assembly Members on 6 January 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:26

### Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm pleased today to present the Welsh Government's second annual report on 'Together for Mental Health' and to formally move the motion before us—to open today's debate. I'm also happy at the outset to say that the Welsh Government will support all of the amendments that have been tabled, which meet and support established principle, policy and practice. Mental health services have made real progress throughout 2014. By further embedding the Mental Health (Wales) Measure 2010, we are continuing to make tangible improvements to care whilst ensuring service users' views are heard. On average, over 2,600 people are now seen locally every month by primary mental health support services. These deliver advice, information and services, including befriending, books on prescription, physical activity and psychological therapies. I'm pleased that the recent Gofal service users survey recognises these continuing improvements.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Rydw i'n falch heddiw i gyflwyno ail adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' ac i gynnis y cynnig sydd ger ein bron yn ffurfiol—i agor y ddatl heddiw. Rwy'n hapus hefyd ar y dechrau i ddweud y bydd Llywodraeth Cymru'n cefnogi pob un o'r gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno, sy'n bodloni ac yn cefnogi egwyddor, polisi ac ymarfer a sefydlwyd. Mae gwasanaethau iechyd meddwl wedi cymryd camau gwirioneddol ymlaen drwy gydol 2014. Drwy ymwreiddio Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 ymhellach, rydym yn parhau i wneud gwelliannau pendant i ofal yn ogystal â sicrhau bod barn defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei chlywed. Ar gyfartaledd, mae'r gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol bellach yn gweld dros 2,600 o bobl yn lleol bob mis. Mae'r rhain yn rhoi cyngor, gwybodaeth a gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaeth cyfeillio, llyfrau ar bresgripsiwn, gweithgarwch corfforol a therapïau seicolegol. Rwy'n falch fod yr arolwg diweddar o ddefnyddwyr gwasanaethau Gofal yn cydnabod y gwelliannau parhaus hyn.

The Caerphilly cohort study, mentioned earlier today, shows that adopting healthy lifestyles improves our sense of mental wellbeing and reduces the risk of developing dementia. The Let's Get Physical campaign has delivered some 15,000 health checks right across Wales and is a good example of how people can be positively empowered to take responsibility for remaining fit and well. Schools of course play an important part in delivering the health and wellbeing message across Wales to our young people. All secondary schools in Wales now are able to offer counselling services. Some 80% of teachers have reported that pupil behaviour has improved as a result. We will also continue to tackle stigma and discrimination. That is why we have allocated an additional £0.5 million over the next three years to continue to support the Time to Change Wales campaign.

Mae'r astudiaeth o garfan Caerffili, a grybwyllwyd yn gynharach heddiw, yn dangos bod mabwysiadu ffyrdd iach o fyw yn gwella ein hymdeimlad o les meddyliol ac yn lleihau'r risg o ddatblygu dementia. Mae'r ymgyrch Caffael ar y Corfforol wedi cyflawni rhyw 15,000 o archwiliadau iechyd ar draws Cymru ac mae'n enghraifft dda o sut y gellir grymuso pobl yn gadarnhaol i gymryd cyfrifoldeb am aros yn ffit ac yn iach. Mae ysgolion wrth gwrs yn chwarae rhan bwysig wrth gyflwyno'r neges iechyd a lles ar draws Cymru i'n pobl ifanc. Mae pob ysgol uwchradd yng Nghymru erbyn hyn yn gallu cynnis gwasanaethau cwnsela. Mae tua 80% o athrawon wedi nodi bod ymddygiad disgyblion wedi gwella o ganlyniad. Byddwn hefyd yn parhau i fynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu. Dyna pam yr ydym wedi dyrannu £0.5 miliwn yn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf i barhau i gefnogi'r ymgyrch Amser i Newid Cymru.

The number of people living with dementia in Wales continues to increase, and the impact on individuals, families and communities is significant. The Alzheimer's Society's dementia friends initiative aims to increase wider community understanding of dementia and tackle stigma, and the Alzheimer's Society has now recruited more than 235 dementia champions and over 4,000 dementia friends across Wales. A groundswell of interest in dementia support of communities has seen Brecon and Swansea recently gain official 'working to become dementia-friendly' status, and I am proud that we are continuing to fund the charity to continue this important work in Wales. We also funded the Royal College of General Practitioners in Wales to produce a dementia training module for GP practice staff, including reception staff. Nearly one third of practices in Wales now have completed this award-winning training.

We talk much about safety and dignity in care, which we accept are essential. The health standards framework aims to reassure service users that the right systems are in place and the 'Trusted to Care' hospital spot checks, which were recently extended into older people's mental health units, demonstrate our commitment to ensure standards are met in practice. The mental health Measure now being embedded in provision is something that we view as a key step to improving care. For example, we know that 90% of service users in secondary mental health services now have care and treatment plans and that around 100 people a month are using their right to refer themselves back to services when they feel the need to. It is worth noting that Mind is running a campaign, Right to Know, primarily in England. It is seeking the kinds of changes that the Measure is already delivering here in Wales. We will continue to support those delivering services to drive further improvements, and there must be no levelling down of our ambition.

We know that many service users want alternatives to medication. Since November 2013, we've provided health boards with an additional £850,000 of funding to increase access to psychological therapies. Delivering a genuinely unified approach to mental health is about much more than improving health and social service provision alone. That's why we're supportive of the significant investment in early years, through the expansion of Flying Start and other holistic approaches such as Families First and integrated family support services.

One obvious area of concern highlighted in one of the amendments is the UK Government programme of welfare reform. It's a significant and persistent concern of service users. The tackling poverty action plan recognises the need to invest in benefits, housing, debt and discrimination advice and to provide practical support for families.

Mae nifer y bobl sy'n byw gyda dementia yng Nghymru yn parhau i gynyddu, ac mae'r effaith ar unigolion, teuluoedd a chymunedau yn sylweddol. Nod menter ffrindiau dementia y Gymdeithas Alzheimer yw cynyddu dealltwriaeth o ddementia ymhlith y gymuned ehangach a mynd i'r afael â stigma, ac mae'r Gymdeithas Alzheimer bellach wedi recriwtio mwy na 235 o hyrwyddwyr dementia a dros 4,000 o ffrindiau dementia ledled Cymru. Yn sgil cynnydd sylweddol yn y diddordeb mewn cefnogi dementia gan gymunedau, enillodd Aberhonddu ac Abertawe statws swyddogol 'gweithio tuag at gymunedau sy'n ystyriol o ddementia' yn ddiweddar, ac rwy'n falch ein bod yn parhau i ariannu'r elusen i barhau â'r gwaith pwysig hwn yng Nghymru. Rydym hefyd wedi ariannu Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru i gynhyrchu modiwl hyfforddiant ym maes dementia ar gyfer staff practisau meddyg teulu, gan gynnwys staff y dderbynfa. Mae bron i un rhan o dair o feddygfeydd Cymru bellach wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn sydd wedi ennill gwobrau.

Rydym yn siarad llawer am ddiogelwch ac urddas mewn gofal, ac yn derbyn bod y rhain yn hanfodol. Nod y fframwaith safonau iechyd yw rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr gwasanaethau bod y systemau cywir ar waith ac mae'r archwiliadau ar hap 'Ymddiried mewn Gofal', a gafodd eu hymestyn yn ddiweddar i unedau iechyd meddwl pobl hŷn, yn dangos ein hymrwymiad i sicrhau bod safonau'n cael eu bodloni yn ymarferol. Mae'r Mesur iechyd meddwl sy'n awr yn cael ei ymwreiddio yn y ddarpariaeth yn rhywbeth yr ydym yn ei weld fel cam allweddol i wella gofal. Er enghraifft, gwyddom fod cynlluniau gofal a thriniaeth gan 90% o ddefnyddwyr gwasanaethau mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd bellach, a bod tua 100 o bobl y mis yn defnyddio'u hawl i'w hatgyfeirio'u hunain yn ôl at wasanaethau pan fyddant yn teimlo bod angen. Mae'n werth nodi bod Mind yn cynnal ymgyrch, Right to Know, yn Lloegr yn bennaf. Mae'n ceisio'r mathau o newidiadau y mae'r Mesur eisoes yn eu cyflawni yma yng Nghymru. Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i sbarduno rhagor o welliannau, a rhaid peidio â gostwng ein huchelgais.

Rydym yn gwybod bod llawer o ddefnyddwyr gwasanaethau am gael dewisiadau ar wahân i feddyginiaeth. Ers mis Tachwedd 2013, rydym wedi darparu £850,000 o gyllid ychwanegol i fyrddau iechyd i sicrhau bod therapïau seicolegol ar gael i fwy o bobl. Mae sicrhau agwedd wirioneddol unedig tuag at wasanaethau iechyd meddwl yn ymwneud â llawer mwy na gwella darpariaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn unig. Dyna pam ein bod yn gefnogol i'r buddsoddiad sylweddol yn y blynyddoedd cynnar, trwy ehangu Dechrau'n Deg a dulliau cyfannol eraill megis Teuluoedd yn Gyntaf a gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd.

Un maes amlwg o bryder a amlygwyd yn un o'r gwelliannau yw rhaglen Llywodraeth y DU o ddiwygio'r gyfundrefn les. Mae'n bryder sylweddol a pharhaus gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r cynllun gweithredu ar drechu tlodi yn cydnabod yr angen i fuddsoddi mewn budd-daliadau, tai, cyngor ar ddyled a gwahaniaethu, ac i ddarparu cymorth ymarferol i deuluoedd.

Following several reviews of child and adolescent mental health services in recent surveys, including, most recently, the review by the Children, Young People and Education Committee, we will launch, before the end of February, a major initiative to ensure specialist CAMHS and their partners improve joint working to better meet the emotional and mental health needs of young people. This'll be about CAMHS in its broadest sense: the work, not just of the NHS, but of our schools, youth services, social work and others. These remarks give a taste of progress set out in the annual report. Our direction of travel is a positive one. The challenge that lies ahead is for us to continue to sustain the momentum we have now achieved into the strategy's third year and beyond—and I should recognise that this is an area of genuine cross-party concern, and I'm pleased to recognise there've been a number of very constructive contributions right across the year previous, and I look forward to those continuing in the year to come.

I look forward to hearing contributions during today's debate and hope that people will welcome the publication of the report.

Yn dilyn nifer o adolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed mewn arolygon diweddar, gan gynnwys, yn fwyaf diweddar, yr adolygiad gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, byddwn yn lansio menter o bwys, cyn diwedd mis Chwefror, i sicrhau bod CAMHS arbenigol a'u partneriaid yn gweithio'n well ar y cyd i ddiwallu anghenion emosïynol ac iechyd meddwl pobl ifanc yn well. Bydd hyn yn ymwneud â CAMHS yn ei ystyr ehangaf: gwaith y GIG, ond hefyd gwaith ein hysgolion, gwasanaethau ieuencid, gwaith cymdeithasol ac eraill. Mae'r sylwadau hyn yn rhoi blas ar yr hyn a nodwyd yn yr adroddiad blynyddol. Rydym yn teithio i gyfeiriad cadarnhaol. Yr her sydd o'n blaenau yw parhau i gynnal y momentwm yr ydym erbyn hyn wedi ei gyflawni, i drydedd flwyddyn y strategaeth a thu hwnt— a dylwn gydnabod bod hwn yn faes sy'n peri pryder gwirioneddol drawsbleidiol, ac rwy'n falch o gydnabod y bu nifer o gyfraniadau adeiladol iawn ar draws y flwyddyn flaenorol, ac edrychaf ymlaen at weld y rhain yn parhau yn ystod y flwyddyn i ddod.

Edrychaf ymlaen at glywed cyfraniadau yn ystod y ddadl heddiw a gobeithio y bydd pobl yn croesawu cyhoeddi'r adroddiad.

16:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf wedi dethol y saith gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod ei ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ynghylch y pwysau cynyddol ar y gwasanaeth a'i allu i ateb y galw.*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*a) cymryd camau brys i wella mynediad i wasanaethau CAMHS; a*

*b) cynnal asesiad o gyllid ar gyfer CAMHS yng Nghymru i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael adnoddau digonol i ddiwallu anghenion pobl ifanc ar draws y wlad.*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cleifion sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn cael gwybodaeth drylwyr am y dewis o driniaethau a'u hargaeledd ac i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau mewn modd amserol.*

I have selected the seven amendments to the motion. I call on Darren Millar to move amendments 1, 2 and 3 tabled in the name of Paul Davies.

*Amendment 1—Paul Davies*

*Add as new point at end of motion:*

*Notes the evidence received by the Children, Young People and Education Committee, during its inquiry into Child and Adolescent Mental Health Services (CAMHS), concerning the increased pressure on the service and its capacity to meet demand.*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to:*

*a) take urgent action to improve access to CAMHS services; and*

*b) undertake an assessment of funding for CAMHS in Wales to ensure the service is sufficiently resourced to meet the needs of young people across the country.*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Add as new point at end of motion:*

*Further calls on the Welsh Government to ensure that patients in receipt of mental health services are provided with thorough information about the choice and availability of treatments and are able to access services in a timely manner.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:32

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I do move the amendments in the name of Paul Davies on the order paper. I am glad to see that the Assembly, in this first week of 2015, is focusing on mental health and the progress that has been made in Wales. There's no doubt that there has been progress, and long may it continue, but the pace of progress, I think, is something that we need to address. Of course, there are issues that are facing services—challenges that are facing services—some of which I hope to be able to touch on.

We must remember, of course, that one in four of us at some point in our lives will suffer from a mental ill health issue. Because of the prevalence of mental ill health in society, it is important that we address some of the problems. We will be supporting all of the amendments bar amendment 5, as the Plaid Cymru spokesperson might expect, because, whilst there is no doubt that, for some people, some of the welfare reforms have had a detrimental impact on their mental health, also, the converse is true. For many people, getting back into work, for example, has had a very positive impact on people's mental health, and I don't think that your amendment recognises that at all.

So, the cost of mental ill health, of course, to Wales, runs into many billions of pounds. I'm very pleased to hear the Deputy Minister report and provide a little bit of update on the Let's Get Physical campaign—something that my party very much supports. The Time to Change Wales campaign, of course, which is noted in one of the amendments from Plaid Cymru as well, has been very successful in trying to end the stigma associated with mental ill health, and of course, I would like to put on record, I suppose, in this debate, just the acknowledgement of the fantastic work that the third sector is doing to address mental ill health issues in Wales, whether that is Mind, Gofal, Hafal or the whole host of other organisations—local organisations, as well—that are doing their bit.

The mental health Measure, of course, is something that the health committee has been looking at of late in terms of its implementation and, no doubt, our findings on that will be reported in due course.

Reference was made to the Gofal survey and of course, the headlines of that survey have been distributed to Assembly Members before today's debate. Whilst there are some positive things in there, I think it is important to note some of the concerns that are also in those findings. One in 10 GPs, and a growing proportion of GPs, according to service users, do not understand or are insufficiently empathetic to mental ill health issues. More alarmingly, a quarter of other staff in primary care are insufficiently understanding or empathetic of people's concerns. I think that those, in particular, are very challenging findings, and we'll need to work together to try to address that, notwithstanding some of the work that has already been commissioned by the Government.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau y gwelliannau yn enw Paul Davies ar y papur trefn. Rwy'n falch o weld bod y Cynulliad, yn wythnos gyntaf 2015, yn canolbwyntio ar iechyd meddwl a'r hyn a gyflawnwyd yng Nghymru. Does dim amheuaeth bod pethau wedi symud yn eu blaenau, a hir y parhaed, ond mae angen inni roi sylw, rwy'n meddwl, i ba mor gyflym y mae pethau'n symud yn eu blaenau. Wrth gwrs, mae problemau sy'n wynebu gwasanaethau—heriau sy'n wynebu gwasanaethau—rwy'n gobeithio gallu sôn am rai ohonynt.

Rhaid inni gofio, wrth gwrs, y bydd un o bob pedwar ohonom ar ryw adeg yn ein bywydau yn dioddef o broblem salwch meddwl. Oherwydd bod salwch meddwl mor gyffredin yn y gymdeithas, mae'n bwysig ein bod yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau. Byddwn yn cefnogi pob un o'r gwelliannau ar wahân i welliant 5, fel y gallai llefarydd Plaid Cymru ddisgwyl, oherwydd bod rhai o'r diwygiadau i'r gyfundrefn les wedi cael effaith andwyol ar iechyd meddwl rhai pobl, heb amheuaeth, ond bod y gwrthwyneb hefyd yn wir. Mae mynd yn ôl i weithio, er enghraifft, wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar iechyd meddwl rhai pobl, ac nid wyf yn credu bod eich gwelliant yn cydnabod hynny o gwbl.

Felly, mae cost salwch meddwl, wrth gwrs, i Gymru, yn sawl biliwn o bunnoedd. Rwy'n falch iawn o glywed y Dirprwy Weinidog yn rhoi adroddiad ac ychydig o'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgyrch Caffael y Corfforol—rhywbeth y mae fy mhlaid yn ei gefnogi'n fawr iawn. Mae ymgyrch Amser i Newid Cymru, wrth gwrs, sy'n cael ei nodi yn un o welliannau Plaid Cymru yn ogystal, wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth geisio rhoi diwedd ar y stigma sy'n gysylltiedig â salwch meddwl, ac wrth gwrs, hoffwn i gofnodi, mae'n debyg, yn y ddadl hon, y gydnabyddiaeth o'r gwaith gwych y mae'r trydydd sector yn ei wneud i fynd i'r afael â materion salwch meddwl yng Nghymru, boed hynny drwy Mind, Gofal, Hafal neu'r llu o fudiadau eraill—mudiadau lleol, yn ogystal—sy'n gwneud eu rhan.

Mae'r Mesur iechyd meddwl, wrth gwrs, yn rhywbeth y mae'r pwyllgor iechyd wedi bod yn edrych arno yn ddiweddar o ran ei weithredu ac, heb os, byddwn yn rhoi adroddiad am ein canfyddiadau yn hynny o beth maes o law.

Cyfeiriwyd at yr arolwg Gofal ac wrth gwrs, mae penawdau'r arolwg hwnnw wedi cael eu dosbarthu i Aelodau'r Cynulliad cyn y ddadl heddiw. Er bod rhai pethau cadarnhaol ynddo, rwy'n credu ei bod yn bwysig nodi rhai o'r pryderon a welir hefyd yn y canfyddiadau hynny. Nid yw un o bob 10 o feddygon teulu, a chyfran gynyddol o feddygon teulu, yn ôl defnyddwyr gwasanaeth, yn deall digon ar faterion salwch meddwl nac yn dangos digon o empathi. Yn fwy brawychus, mae chwarter yr aelodau staff eraill ym maes gofal sylfaenol heb fod yn deall digon ar bryderon pobl neu heb fod â digon o empathi. Credaf fod y rheini, yn arbennig, yn ganfyddiadau heriol iawn, a bydd angen inni weithio gyda'n gilydd i geisio mynd i'r afael â hynny, er gwaethaf rhywfaint o'r gwaith sydd eisoes wedi ei gomisiynu gan y Llywodraeth.



The other issue, of course, as well, is that it appears that a growing proportion of people are simply having pharmaceutical interventions rather than some of the psychological interventions that I know all parts of this Chamber support the need to increase and improve access to. Some of the Assembly Members in this Chamber, of course, have benefitted from some of the lower-level psychological opportunities for support that derive from mindfulness, for example, as a tool that can prevent mental ill health. It does not necessary have to be an intervention for somebody, but it's something that we can expand in terms of the use of mindfulness and access to mindfulness in schools, colleges and other places of work.

The British Psychological Society have highlighted a number of their concerns in the briefing note that was distributed to AMs. They revolve around, of course, the fact that there has been an increase in rates of suicide in Wales, there's an increase in prevalence of self-harm amongst 10 to 17-year-old females, and a worsening of mental health and wellbeing for those between 45 and 64. I think it is important that we do something to address those.

The Deputy Minister has mentioned the pressure on child and adolescent mental health services, and no doubt, some of the members of the Children, Young People and Education Committee will return to that during the course of this debate, but I am particularly concerned at the lack of capacity that we have in some of our units. The number of in-patient beds, for example, in Abergele in my own constituency, at the CAMHS unit there, has been reduced of late, and, unfortunately, patients are now having to find themselves being referred to in-patient units down in south Wales or many miles away—

Y mater arall, wrth gwrs, yn ogystal, yw ei bod yn ymddangos bod cyfran gynyddol o bobl yn cael ymyriadau fferyllol yn hytrach na rhai o'r ymyriadau seicolegol y gwn fod pob rhan o'r Siambr hon yn cefnogi'r angen i'w cynyddu a gwella mynediad atynt. Mae rhai o Aelodau'r Cynulliad yn y Siambr hon, wrth gwrs, wedi elwa ar rai o'r cyfleoedd am gymorth seicolegol lefel is sy'n deillio o ymwybyddiaeth ofalgar, er enghraifft, fel rhywbeth sy'n gallu atal afiechyd meddwl. Nid yw'n angenrheidiol iddo fod yn ymyriad i rywun, ond mae'n rhywbeth y gallwn ehangu arno, o ran y defnydd o ymwybyddiaeth ofalgar a mynediad at ymwybyddiaeth ofalgar mewn ysgolion, colegau a manau gwaith eraill.

Mae Cymdeithas Seicolegol Prydain wedi amlygu nifer o'u pryderon yn y nodyn briffio a ddsbarthwyd i Aelodau'r Cynulliad. Maent yn canolbwyntio, wrth gwrs, ar y ffaith bod y cyfraddau hunanladdiad yng Nghymru wedi cynyddu, nifer yr achosion o hunan-niweidio ymhlith merched rhwng 10 a 17 mlwydd oed wedi cynyddu, ac iechyd meddwl a lles pobl rhwng 45 a 64 wedi gwaethygu. Rwy'n credu ei bod yn bwysig inni wneud rhywbeth i fynd i'r afael â hynny.

Mae'r Dirprwy Weinidog wedi sôn am y pwysau ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, ac nid oes amheuaeth, y bydd rhai o aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dychwelyd at hynny yn ystod y ddaid hon, ond rwy'n arbennig o bryderus am y diffyg lleoedd yn rhai o'n hunedau. Mae nifer y gwelyau cleifion mewnol, er enghraifft, yn Abergele yn fy etholaeth i, yn yr uned CAMHS yno, wedi'u cwtogi'n ddiweddar, ac, yn anffodus, mae cleifion nawr yn gorfod cael eu hatgyfeirio at unedau cleifion mewnol i lawr yn ne Cymru neu filltiroedd lawer i fwrdd—

16:37 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
And England.

A Lloegr.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:37 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
[Continues.]—into England. I was just saying that: or many miles away into England, which is clearly unsatisfactory. So, more work needs to be done to alleviate those pressures.

[Yn parhau.] - I mewn i Loegr. Roeddwn wrthi'n dweud hynny: neu lawer o filltiroedd i fwrdd i Loegr, sy'n amlwg yn anfoddfaol. Felly, mae angen gwneud mwy o waith i liniaru'r pwysau hwnnw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Ann Jones a gododd—*

*Ann Jones rose—*

16:37 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Time doesn't permit me to go on for too much longer, but I just want to refer very briefly, if I may—

Nid yw amser yn caniatáu i mi fynd ymlaen am lawer hirach, ond rwyf am gyfeirio yn fyr iawn, os caf—

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Lynne Neagle a gododd—*

*Lynne Neagle rose—*

16:37 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
No. Quickly, come on.

Na. Yn gyflym, dewch ymlaen.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 16:37 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- [Continues.]—to the Veterans NHS Wales service. I think that has been very positive in terms of its development. What we do need to see, though, is more sustained investment in that in order to reduce the waiting times for those therapies that are available.
- [Yn parhau.]—at wasanaeth GIG Cymru i gyn-filwyr. Credaf fod hwnnw wedi bod yn gadarnhaol iawn o ran ei ddatblygiad. Beth sydd angen i ni ei weld, fodd bynnag, yw buddsoddiad mwy cyson yn hwnnw, er mwyn lleihau'r amseroedd aros ar gyfer y therapiau sydd ar gael.
- 16:37 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr. Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 4 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.
- Thank you. I call on Kirsty Williams to move amendment 4 tabled in the name of Aled Roberts.
- Gwelliant 4—Aled Roberts*
- Amendment 4—Aled Roberts*
- Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*
- Add as new point at end of motion:*
- Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r camau y mae'n eu cymryd i sicrhau cydraddoldeb rhwng iechyd meddwl a chorfforol ac i roi terfyn ar stigma.*
- Calls on the Welsh Government to set out the steps it is taking to ensure parity between mental and physical health and to end stigma.*
- Cynigiwyd gwelliant 4.*
- Amendment 4 moved.*
- 16:38 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much, Deputy Presiding Officer. Could I formally move amendment 4 on this afternoon's order paper, tabled by Aled Roberts on behalf of the Liberal Democrat group, which calls upon the Welsh Government to outline what steps it's taking to ensure parity between physical and mental health?
- Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. A gaf i gynnig yn ffurfiol welliant 4 ar bapur trefn prynhawn heddiw, a gyflwynwyd gan Aled Roberts ar ran grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd i sicrhau cydraddoldeb rhwng iechyd corfforol a meddyliol?
- I think, in Wales, we have a proud track record since the establishment of this Assembly of trying to ensure that mental health issues have been at the forefront of our work. Often, our approach in Wales has been very different, and I would argue far more enlightened, with regard to mental health legislation than some of the things we saw happening in the early 2000s, coming out of the then-Labour Government in Westminster. The passing of the Measure and the setting of targets puts us ahead of the game when it comes to trying to establish the issue of parity between physical and mental health, but I think the Government's own report acknowledges that we have still a distance to go if we are to ensure that mental health continues to receive the attention that it needs and that we break down issues around the stigma also.
- Rwy'n credu, yng Nghymru, fod gennym hanes balch ers sefydlu'r Cynulliad hwn o geisio sicrhau bod materion iechyd meddwl wedi bod yn flaenllaw yn ein gwaith. Yn aml, mae ein hagwedd yng Nghymru wedi bod yn wahanol iawn, a byddwn yn dadlau yn llawer mwy goleuedig, o ran deddfwriaeth iechyd meddwl na rhai o'r pethau a welsom yn digwydd yn y 2000au cynnar, gan y Llywodraeth Lafur bryd hynny yn San Steffan. Trwy basio'r Mesur a gosod targedau, rydym ar flaen y gad o safbwynt ceisio sefydlu cydraddoldeb rhwng iechyd corfforol a meddyliol, ond rwy'n credu bod adroddiad y Llywodraeth ei hun yn cydnabod bod gennym gryn ffordd i fynd o hyd os ydym am sicrhau bod iechyd meddwl yn parhau i dderbyn y sylw sydd ei angen arno a'n bod yn chwalu materion yn ymwneud â stigma hefyd.

I think perhaps we're beginning to see some of that work come to the forefront. The fact that we have a growing demand for mental health services could partly be explained that people are much more willing to come forward and seek help for mental ill health than the way perhaps they would have been reluctant to do so even five or 10 years ago, when admitting to your GP or your healthcare professional that you were suffering was something that many people tried to avoid doing. So, in some ways, I think we can see the beginnings of some success in tackling stigma and in encouraging people to come forward, but, of course, that success then brings its own problems. Some of those problems are outlined in the report before us, and Members will have heard those problems highlighted in the all-party group this afternoon, where there certainly was a feeling that, perhaps, the report was on the rosier side of how things felt on the ground to those people using the service, to the third sector organisations involved in helping deliver services for people in communities, and to people caring for relatives or friends who are suffering from mental distress and ill health.

I, particularly, am concerned with the issue of child and adolescent mental health. The figures outlined in the report for the rise in self-harm for teenage girls, I think, is something that should concern us all, as should repeated reports by children's commissioners and committees of the Assembly with regard to access to CAMH services for young people in Wales. Now, the Government has acknowledged those concerns, and that's why there has been a great deal of work going on behind the scenes to see what could be done to address those issues, because what we have seen is significant demands being placed upon that service and waiting times for accessing those services being simply too long.

I think we've seen some of that because of a lack of referral options that are available to healthcare professionals. Often, a referral into psychiatric services for children—CAMH services—has been the only option available to people when, perhaps, actually, that is not the most appropriate service that that young person, or child or that family needs. We really need to examine new ways—and I was glad to hear the Minister say that the work that will be coming forward, I think he said in February of this year, will look to include schools, colleges, youth services and primary care. It is a very serious thing for a young person to end up in the care of a psychiatrist—a very serious thing—a label, perhaps, that will stay with them for the rest of their lives, and that is very serious when that needn't have been the case. The children and young people who need to be in those high-end psychiatric services of CAMHS are the children who are seeing the development and the first signs of long and enduring mental health conditions. Those are the people who need to be in psychiatric services, but, often, we have children with psychological problems, behaviour problems and dual-diagnosis problems ending up in that service, and, really, it is not appropriate for their needs, and it can be detrimental to them to end up in that service, if that's not where they need to be.

Rwy'n meddwl efallai ein bod yn dechrau gweld rhywfaint o'r gwaith hwnnw'n dod i'r amlwg. Gallai'r ffaith bod gennym alw cynyddol am wasanaethau iechyd meddwl gael ei egluro'n rhannol gan y ffaith fod pobl yn llawer mwy parod i gamu ymlaen a gofyn am gymorth ar gyfer salwch meddwl ac efallai y byddent wedi bod yn amharod i wneud hynny hyd yn oed bum neu 10 mlynedd yn ôl, pan oedd cyfaddef i'ch meddyg teulu neu eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol eich bod yn dioddef yn rhywbeth yr oedd llawer o bobl yn ceisio osgoi ei wneud. Felly, mewn rhai ffyrdd, rwy'n meddwl y gallwn ni weld dechreuadau peth llwyddiant wrth fynd i'r afael â stigma ac wrth annog pobl i gamu ymlaen, ond, wrth gwrs, mae'r llwyddiant hwnnw wedyn yn dod â'i broblemau ei hun. Mae rhai o'r problemau hynny'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad ger ein bron, a bydd Aelodau wedi clywed y problemau hynny'n cael eu hamlygu yn y grŵp hollbleidiol y prynhawn yma, lle'r oedd teimlad yn sicr bod yr adroddiad, efallai, ar yr ochr fwy gobeithiol o sut y mae pethau'n teimlo ar lawr gwlad i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, i'r sefydliadau trydydd sector sy'n ymwneud â helpu i gyflwyno gwasanaethau i bobl mewn cymunedau, ac i bobl sy'n gofalu am berthnasau neu ffrindiau sy'n dioddef o dralod meddwl a salwch.

Rwyf i, yn arbennig, yn bryderus ynglŷn ag iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae'r ffigurau a amlinellir yn yr adroddiad ar gyfer y cynnydd mewn hunan-niweidio ymhlith merched yn eu harddegau, rwy'n credu, yn rhywbeth a ddylai beri pryder inni i gyd, fel y dylai adroddiadau dro ar ôl tro gan gomisiynwyr a phwyllgorau plant y Cynulliad o ran mynediad at wasanaethau CAMH ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru. Yn awr, mae'r Llywodraeth wedi cydnabod y pryderon hynny, a dyna pam y gwnaed llawer iawn o waith y tu ôl i'r lenni i weld beth y gellid ei wneud i fynd i'r afael â'r materion hynny, oherwydd mai'r hyn yr ydym wedi'i weld yw galw sylweddol ar y gwasanaeth hwnnw ac amseroedd aros ar gyfer derbyn y gwasanaethau hynny yn syml, yn rhy hir.

Rwy'n credu ein bod wedi gweld rhywfaint o hynny oherwydd diffyg dewisiadau atgyfeirio i weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Yn aml, atgyfeiriad at wasanaethau seiciatrig ar gyfer plant—gwasanaethau CAMH—fu'r unig opsiwn ar gael i bobl pan nad dyna yw'r gwasanaeth mwyaf priodol efallai, mewn gwirionedd, i'r person ifanc, neu'r plentyn neu'r teulu hwnnw. Mae gwir angen archwilio ffyrdd newydd—ac roeddwn yn falch o glywed y Gweinidog yn dweud mai'r bwriad yw i'r gwaith a fydd yn dod gerbron, rwy'n meddwl ei fod wedi dweud ym mis Chwefror eleni, gynnwys ysgolion, colegau, gwasanaethau ieuenticid a gofal sylfaenol. Mae'n beth difrifol iawn i berson ifanc ddiweddu yng ngofal seiciatrydd—rhywbeth difrifol iawn—label, efallai, a fydd yn aros gyda nhw am weddill eu bywydau, ac mae hynny'n ddirifol iawn pan nad oedd rhaid i hynny fod wedi digwydd. Y plant a'r bobl ifanc hynny y mae angen iddynt fod yn y gwasanaethau seiciatrig CAMHS lefel uchaf yw'r plant sy'n gweld datblygiad ac arwyddion cyntaf cyflyrau iechyd meddwl hir a pharhaus. Dyna'r bobl y mae angen iddynt fod mewn gwasanaethau seiciatrig, ond, yn aml, mae gennym blant â phroblemau seicolegol, problemau ymddygiad a phroblemau diagnosis deuol yn y gwasanaeth hwnnw, ac, mewn gwirionedd, nid yw'n briodol i'w hanghenion, a gall fod yn niweidiol iddyn nhw ddiweddu yn y gwasanaeth hwnnw, os nad dyna'r lle y mae angen iddynt fod.

I'm also concerned about a paucity of options, often, for children as well. I've been aware in my own constituency of children being placed not out of county, but out of country to receive services. That puts them a long way away from their support mechanisms, their homes and their families, and that can also be detrimental to their recovery, and I'd like to hear from the Minister this afternoon what more can be done to broaden the range of the more top-end services that can be developed and delivered here in Wales, rather than see our young people leave the country unnecessarily.

Rwyf hefyd yn pryderu ynglŷn â phrinder opsiynau, yn aml, i blant. Rwyf wedi bod yn ymwybodol yn fy etholaeth fy hun o blant yn cael eu lleoli nid y tu allan i'r sir, ond y tu allan i'r wlad i dderbyn gwasanaethau. Mae hynny'n golygu eu bod yn bell oddi wrth eu mecanweithiau cymorth, eu cartrefi a'u teuluoedd, a gall hynny hefyd fod yn niweidiol i'w hadferiad, a hoffwn glywed gan y Gweinidog brynhawn heddiw beth mwy y gellir ei wneud i ehangu'r ystod o wasanaethau lefel uchaf y gellir eu datblygu a'u darparu yma yng Nghymru, yn hytrach na gweld ein pobl ifanc yn gadael y wlad yn ddiangen.

16:43

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Galwaf ar Elin Jones i gynneg gwelliannau 5, 6 a 7 a gyflwynwyd yn ei henw.

I call Elin Jones to move amendments 5, 6 and 7 tabled in her name.

*Gwelliant 5—Elin Jones*

*Amendment 5—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynneg:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at effaith diwygiadau lles ar bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.*

*Regrets the impact of welfare reforms on those with mental health problems.*

*Gwelliant 6—Elin Jones*

*Amendment 6—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynneg:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda chyflogwyr i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl i hyrwyddo cyflogaeth.*

*Calls on the Welsh Government to work with employers to tackle discrimination against those with mental health problems to promote employment.*

*Gwelliant 7—Elin Jones*

*Amendment 7—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynneg:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cefnogi'r ymgyrch 'Amser i newid' i fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.*

*Supports the 'Time to change' campaign to tackle prejudice and discrimination against those with mental health problems.*

*Cynigiwyd gwelliannau 5, 6 a 7.*

*Amendments 5, 6 and 7 moved.*

16:43

## **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n cyflwyno'r gwelliannau yn enw Plaid Cymru. Rwy'n falch o'r cyfle i drafod iechyd meddwl ar gychwyn blwyddyn newydd, ac mae'n dda i gydnabod bod yna gonsensws ar draws y Cynulliad ar rai o'r blaenoriaethau, rhai o'r gwendidau a'r cyfleoedd i wella'r gwasanaethau iechyd meddwl. Fe fydd Plaid Cymru yn cefnogi'r cynneg heddiw a'r gwelliannau i gyd. Rwy'n deall amharodrwydd y Torïaid, yn wleidyddol, i gefnogi gwelliant Plaid Cymru ar effeithiau'r wladwriaeth les, ond rwy'n cydnabod bod llefarydd y Torïaid wedi cydnabod bod y newidiadau yn y wladwriaeth les wedi arwain at broblemau iechyd meddwl i rai unigolion yn ein cymdeithas ni.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I move the amendments in the name of Plaid Cymru. I am pleased to have the opportunity to discuss mental health at the start of the new year, and it's good to acknowledge that there is consensus across the Assembly on some of the priorities, some of the weak points and some of the opportunities to improve mental health services. Plaid Cymru will support the motion today as well as all the amendments. I understand the reluctance of the Tories, politically, to support Plaid Cymru's amendment on the impact of welfare reform, but I understand that the Conservative spokesperson has acknowledged that changes to the welfare state have led to mental health problems for some people in our society.

Dros y bum mlynedd diwethaf, rydym ni wedi gweld gwelliannau yn y gyfundrefn iechyd meddwl, ac fe fyddwn i'n dweud bod proffeil materion iechyd meddwl wedi cynyddu yn yr NHS a hefyd y tu mewn i gymdeithas yn fwy cyffredinol. Mae'r ddeddfwriaeth iechyd meddwl wedi cyfrannu yn sylweddol at hyn. Er hyn, mae'n rhaid inni gydnabod ffaeleddau, lle maen nhw'n bodoli: ffaeledd a methiant y Llywodraeth, i ddechrau, i gwrdd â'u targed nhw eu hunain ar fynediad i wasanaeth iechyd meddwl. Targed y Llywodraeth yw bod 90% o gleifion yn derbyn triniaeth therapiwtig o fewn 56 diwrnod, a'r Llywodraeth yn methu ar y targed yma bob mis dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae yna le pwysig iawn i driniaeth gynnar i afiechyd meddwl, yn enwedig triniaethau therapiwtig, yn hytrach na gorddibyniaeth ar gyffuriau 'antidepressant'. Rwy'n croesawu'r gyllideb ychwanegol i therapi seicolegol yr amlinellodd y Dirprwy Weinidog yn ei gyflwyniad, ond mae'n glir o dystiolaeth a gyflwynwyd i'r grŵp trawsbleidiol ar iechyd meddwl fod yna brofiad anghyson o fynediad at wasanaethau therapiwtig mewn gwahanol gymunedau yng Nghymru. Mae angen prif ffyrddio gwasanaethau therapiwtig a'u hintegreiddio'n llawn gyda phraxisys meddygon teulu a gwasanaethau cymunedol. Dyma sut mae sicrhau nad yw cyflwr meddwl unigolion yn dirywio i'r fath raddau fel bod angen ymyrraeth aciwt neu greisis arnyn nhw, neu ddbyniaeth ar gyffuriau diangen.

Mae ymyrraeth gynnar a thriniaeth amserol a phriodol yn arbennig o bwysig i blant a phobl ifanc, fel yr ydym wedi clywed. Rydym yn gwybod, o drafodaethau blaenorol yn y Cynulliad, fod yna ddyblu ar y galw am wasanaethau iechyd meddwl gan bobl ifanc dros y pedair blynedd diwethaf a bod capasiti annigonol i gwrdd â'r galw yma, yn enwedig i bobl ifanc nad ydynt angen model meddygol i'w trin nhw. Wrth gwrs, i rai unigolion, yn enwedig os nad ydynt yn derbyn ymyrraeth gynnar, yna fe all cyflwr iechyd meddwl ddatblygu angen am ymyrraeth greisis. Rydym yn ymwybodol—ac fe gyfeiriodd Darren Millar at hyn hefyd—fod yna leihad yn y gwelyau iechyd meddwl aciwt. Yn fy ardal i, er enghraifft, ym Mronglais fe gaewyd y ward yn gyfan gwbl ddwy flynedd yn ôl—y ward iechyd meddwl aciwt. Os nad oes darpariaeth 24 awr yn y gymuned, yna'r canlyniad i hynny: dim gwelyau aciwt, dim gwasanaeth 24 awr yn y gymuned. Y canlyniad i hynny yw bod galw ar yr heddlu neu ar A&E i ddelio â chleifion mewn argyfwng iechyd meddwl. Rwyf wedi siarad gydag un unigolyn yng Ngheredigion sydd wedi defnyddio gwasanaethau heddlu a gwasanaethau A&E pan fydd hi wedi wynebu cyfnodau o argyfwng, a'i phrofiad hi, fel mae'n digwydd bod, oedd bod y gwasanaeth a'r ymdriniaeth a'r gefnogaeth gan yr heddlu yn rhagori ar y driniaeth y cwrddodd hi â hi yng ngwasanaeth argyfwng yr ysbyty. Efallai fod hynny'n ein rhoi ni i feddwl am yr angen i sicrhau hyfforddi ein gweithwyr iechyd ni yn llawn ar gyflyrau iechyd meddwl. Mae angen sicrhau bod yna 'access' i welyau creisis 24 awr. Gallen nhw fod mewn ysbyty aciwt, ie, neu gallen nhw fod yn y gymuned, yn cael eu darparu gan y trydydd sector, ond mae'n rhaid bod yna ddarpariaeth i unigolion sy'n wynebu'r problemau hynny pan fyddan nhw'n codi.

Over the past five years, we have seen improvements in the mental health system, and I'd say that the profile of mental health issues has increased within the NHS and also within wider society. The mental health legislation has made a significant contribution to that. However, we must acknowledge the failings where they do arise: the failings of Government, initially, to meet their own targets on access to mental health services. The Government's target is that 90% of patients should receive therapeutic treatment within 56 days, and the Government has missed that target every month over the past two years.

There is an important role for early treatment of mental health problems, particularly those therapeutic treatments, rather than an over-reliance on antidepressant drugs. I welcome the additional budget for psychological therapy as outlined by the Deputy Minister in his opening remarks, but it is clear from the evidence clearly presented to the cross-party group on mental health that there is inconsistency in terms of access to therapeutic services in various communities across Wales. We need to mainstream therapeutic services and to integrate them fully with GP practices and community services. This is how we can ensure that the state of mind of individuals does not decline to such an extent that they need acute intervention or crisis intervention, or a dependency on unnecessary drugs.

Early intervention and timely and appropriate treatment is particularly important for children and adolescents, as we have already heard. We know, from previous debates within this Assembly, that there has been a doubling in the demand for child and adolescent mental health services over the past four years, and that there is insufficient capacity to deal with this demand, particularly for those young people who do not need a medical model of treatments. Of course, for some individuals, particularly if they do not actually experience early intervention, mental health conditions can require crisis intervention. We are aware—and Darren Millar also referred to this—that there has been a reduction in the number of acute mental health beds. In my area, for example, in Bronglais, the ward was closed entirely two years ago—that is the acute mental health ward in Bronglais. If there is no 24-hour provision within the community, then the outcome of that: there are no acute beds available or no 24-hour service available in the community. The result of that is that there are demands are placed upon the police or accident and emergency departments to deal with patients in mental health crises. I have spoken to one individual in Ceredigion who has used police and A&E services when she has faced periods of crisis. Her experience, as it happens, was that the service, treatment and support provided by the police was actually better than the treatment that she experienced in the hospital's A&E department. Perhaps that leads us to think about the need to ensure adequate training for all of our health workers in dealing with mental health issues. Therefore, we need to ensure that there is access to crisis beds 24 hours a day. Yes, they could be in an acute hospital, but they could be available in the community provided by the third sector. However, we must ensure that provision is available to individuals who face those problems when they arise.

Os caf i gloi drwy gadarnhau cefnogaeth Plaid Cymru i ymgyrch Amser i Newid Cymru a'r angen i weithio gyda chyflogwyr a chymdeithas yn ehangach i bara i herio'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ac i sicrhau'r driniaeth gyfartal y soniodd Kirsty Williams amdani—y driniaeth gyfartal yna i gleifion iechyd corfforol a iechyd meddwl.

Perhaps I could conclude by confirming Plaid Cymru's support to the Time to Change Wales campaign and the need to work with employers and wider society to continue to challenge the stigma attached to mental health problems and to ensure the equal treatment that Kirsty Williams mentioned—that equality for mental health patients and physical health patients.

16:48

## Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Some time ago, as you know, we had an excellent debate here on mental health issues. It was an excellent debate because there is still, as you know, a huge stigma around mental health problems, even though one in four of us will have a mental illness at some point in our lifetimes. I think that it was an excellent debate because so many Members here spoke so movingly about their own challenges. I think that this is helping them to break down this terrible stigma. Today, in the debate, I want to focus particularly on the children and adolescent mental health services. Most children and young people, thankfully, grow up with good mental health, but we know that surveys suggest that more children and young people present with mental health problems than 30 years ago. This may be a good thing because I think that it is the result of increased awareness, but I think that we do ignore the needs of these young people at our peril. For those young people who we don't adequately support at such a difficult time in their lives, I think that we are creating a legacy of future problems. If we don't support our young people, then these problems can easily spiral out of control into such things as low educational achievement, unemployment, drug and alcohol abuse and crime and suicide. You know, it's a terrible legacy that we would give to our young people.

I know that the children and young people committee received some very concerning evidence as part of their inquiry into CAMHS, and much of the evidence given by children and young people themselves, along with parents and carers, mirrors the concerns that constituents have brought to me over the years—young people suffering from severe anxiety, issues around autistic spectrum disorders, Asperger's, depression and eating disorders. If not addressed effectively, these can have a devastating impact on the life chances of our young people.

Now, that said, I do welcome the Minister's announcement that there will be a thorough review of CAMHS to be led by Professor Sue Bailey. I think that's a very positive note. I also note that the specialist CAMHS planning advice recommends shared pathways and clear responsibilities for health in education in the support of pupils with autistic spectrum disorder. I think that's a very good thing, because sometimes we do lack this sort of joined-up thinking and, if the young person is in the middle of it, I think sometimes their needs are not met.

I'm also pleased that work is currently being done with health boards to ensure that children and young people are seen by the most appropriate provider. On a very local level, I'm pleased that there are two new social workers in Rhondda Cynon Taf, based in the CAMHS service.

Beth amser yn ôl, fel y gwyddoch, cawsom ddadl wych yma ar faterion iechyd meddwl. Roedd yn ddadl wych oherwydd bod stigma enfawr, fel y gwyddoch, o gwmpas problemau iechyd meddwl, er y bydd un o bob pedwar ohonom yn cael salwch meddwl ar ryw adeg yn ystod ein hoes. Rwy'n credu ei bod yn ddadl wych gan fod cymaint o Aelodau yma wedi siarad mor deimladwy am eu heriau eu hunain. Rwy'n credu bod hyn yn eu helpu i chwalu'r stigma ofnadwy. Heddiw, yn y ddadl, rwyf am ganolbwytio'n arbennig ar y gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoes. Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc, diolch byth, yn tyfu gydag iechyd meddwl da, ond rydym yn gwybod bod arolygon yn awgrymu bod mwy o blant a phobl ifanc yn cyflwyno â phroblemau iechyd meddwl na 30 mlynedd yn ôl. Gall hyn fod yn beth da oherwydd ei fod yn digwydd, yn fy marn i, o ganlyniad i fwy o ymwybyddiaeth, ond credaf mai peth peryglus yw anwybyddu anghenion y bobl ifanc hyn. Rwy'n meddwl ein bod yn creu problemau yn y dyfodol i'r bobl ifanc hynny nad ydym yn eu cefnogi'n ddigonol ar adeg mor anodd yn eu bywydau. Os nad ydym yn cefnogi ein pobl ifanc, yna gall y problemau hyn yn hawdd ddatblygu'n bethau fel cyflawniad addysgol isel, diweithdra, problemau cam-drin cyffuriau ac alcohol a throsedd a hunanladdiad. Fel y gwyddoch, mae'n etifeddiaeth ofnadwy y byddem yn ei rhoi i'n pobl ifanc.

Gwn fod y pwyllgor plant a phobl ifanc wedi derbyn rhywfaint o dystiolaeth oedd yn destun pryder mawr fel rhan o'i ymchwiliad i CAMHS, ac mae llawer o'r dystiolaeth a roddwyd gan blant a phobl ifanc eu hunain, ynghyd â rhieni a gofalwyr, yn adlewyrchu'r pryderon y mae etholwyr wedi eu cyflwyno imi dros y blynyddoedd—pobl ifanc sy'n dioddef o bryder difrifol, materion yn ymwneud ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig, syndrom Asperger, iselder ac anhwylderau bwyta. Os nad eir i'r afael â nhw yn effeithiol, gall y rhain gael effaith ddinistriol ar gyfleoedd bywyd ein pobl ifanc.

Wedi dweud hynny, rwy'n croesawu cyhoeddiad y Gweinidog y bydd adolygiad trylwyr o'r CAMHS yn cael ei gynnal, dan arweiniad yr Athro Sue Bailey. Rwy'n credu bod hwn yn nodyn cadarnhaol iawn. Nodaf hefyd fod y cyngor arbenigol ar gynllunio CAMHS yn argymhell rhannu llwybrau a phennu cyfrifoldebau clir ar gyfer iechyd mewn addysg wrth gefnogi disgyblion sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Credaf fod hyn yn beth da iawn, oherwydd ein bod weithiau'n brin o'r math hwn o feddwl cydgysylltiedig ac, os yw'r person ifanc yn y canol, rwy'n meddwl weithiau nad yw ei anghenion yn cael eu diwallu.

Rwyf hefyd yn falch bod y gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gyda byrddau iechyd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu gweld gan y darparwr mwyaf priodol. Ar lefel leol iawn, rwy'n falch bod dau weithiwr cymdeithasol newydd yn Rhondda Cynon Taf, yn gweithio yn y gwasanaeth CAMHS.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



Now, all this is great and positive, but, like other Members here, I do think there is still some way to go to ensure that all our young people have the nurturing and care that they need. I am heartened by what the Deputy Minister has said today, and I look forward to further progress on this.

Nawr, mae hyn i gyd yn wych ac yn gadarnhaol, ond, fel Aelodau eraill yma, rwy'n meddwl bod tipyn o ffordd i fynd i sicrhau bod ein holl bobl ifanc yn cael y meithrin a'r gofal sydd ei angen arnynt. Mae'r hyn y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'i ddweud heddiw yn galonogol, ac edrychaf ymlaen at weld mwy yn cael ei wneud yn hyn o beth.

16:52

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome this report. I suppose, as an Assembly Member, and as a member of the health committee, I'm representing parents who come in with issues around their children, families with older people with dementia, and basically representing a whole background of issues. I suppose I look at reports and think, 'Well, this is an excellent, well-written report, but how is that going to, sort of, effect change to some of the concerns that are raised with me on what is becoming now a more than frequent basis?' A recent survey showed that, in Wales, only 33.4% of mental health patients felt that, in 2014, they were able to access the advice, treatment and support that they required, and I personally feel that nobody's level of care or treatment should be defined by the condition they have, where they live or how old they are.

CAMHS have been mentioned here today—adolescents and younger people. Of late, I've become more primarily concerned with those issues, because I am having considerably more representations now. I know that Darren Millar very ably put some points across earlier as regards access to facilities. I am very disappointed, and I actually felt some anguish myself, when we actually have an all-singing, all-dancing facility in north Wales, to be told by some very distraught parents, who saw their child hospitalised to save her life, that they didn't qualify. I would ask the Minister here today—. I've asked for an investigation there with Betsi Cadwaladr, but, by 'eck, if they don't qualify, I surely don't know who does. And one person is one person too many.

Croesawaf yr adroddiad hwn. Mae'n debyg, fel Aelod Cynulliad, ac fel aelod o'r pwyllgor iechyd, fy mod yn cynrychioli rhieni sy'n dod i mewn gyda phroblemau'n ymwneud â'u plant, teuluoedd â phobl hŷn â dementia, ac yn y bôn yn cynrychioli cefndir eang o faterion. Mae'n debyg fy mod yn edrych ar adroddiadau ac yn meddwl, 'Wel, mae hwn yn adroddiad ardderchog, wedi'i ysgrifennu'n dda, ond sut mae hyn yn mynd i, mewn ffordd, achosi newid i rai o'r pryderon sy'n cael eu codi gyda mi yn fwy na rheolaidd bellach?' Dangosodd arolwg diweddar, yng Nghymru, mai dim ond 33.4% o gleifion iechyd meddwl oedd yn teimlo, yn 2014, eu bod yn gallu cael gafael ar y cyngor, y driniaeth a'r cymorth y mae arnynt ei angen, ac rwy'n bersonol yn teimlo na ddylai lefel gofal neu driniaeth neb gael ei diffinio gan y cyflwr sydd ganddynt, lle maent yn byw na pha mor hen ydynt.

Mae CAMHS wedi cael eu crybwyll yma heddiw—y glasod a phobl iau. Yn ddiweddar, mae'r materion hynny wedi dod yn fwy i flaen fy meddwl, gan fod cryn dipyn yn fwy o sylwadau'n cael eu cyflwyno imi erbyn hyn. Gwn fod Darren Millar yn fedrus iawn wedi cyflwyno rhai pwyntiau yn gynharach o ran mynediad at gyfleusterau. Er bod gennym gyfleuster modern a blaengar yng ngogledd Cymru, roeddwn yn siomedig iawn, ac fe wnes mewn gwirionedd deimlo rhywfaint o ing fy hun, cael gwybod gan rai rhieni trallodus iawn, a welodd eu plentyn yn cael ei anfon ysbyty i achub ei bywyd, nad oeddent yn gymwys. Byddwn yn gofyn i'r Gweinidog yma heddiw—. Rwyf wedi gofyn am ymchwiliad yno gyda Betsi Cadwaladr, ond, diaist i, os nad ydynt yn gymwys, yn sicr wn i ddim pwy sydd. Ac mae un person yn un person yn ormod.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Kirsty Williams very ably mentioned concerns about self-harm in younger people, and only yesterday I had someone present who has lived with five years of somebody with very severe autism, who is now 18, and the parents themselves are facing severe hardship and anguish because there are no facilities, and they've received no support for someone who is now 18. So, there are some gaps. There are people falling through the net. For me, I want to make sure that this report, or any of the other reports—. I'll just mention that, on one of the pages, it mentions various other strategies, and they all, technically, are meant to cross-reference. Well, I can tell you, when we've taken evidence in this committee and other committees sometimes there are that many strategies and that many reports that they actually conflict with each other, so I want the Minister to provide me with some assurances that the kind of issues I've raised here today will be addressed. I have concerns about the overprescribing of medication. Gone are the days when you could sit with your GP and perhaps have some advocacy, some counselling and some support. It's very difficult. I'm having people presenting who are actually having difficulty even getting an appointment for a GP. We have talked about GP recruitment.

Eating disorders are a particular worry. In the society that we live in, the pressures that face young girls and young boys—. It is not—you know, people do have a tendency to think, 'This is just a girl-related condition'. These kinds of conditions are on the increase, and so I really want to know how the Minister is going to address those concerns.

There are some good, interesting statistics throughout, and I welcome the review of CAMHS that is going to take place, but it has to be a meaningful review. One thing that is going to be evident, again, is the lack of funding going to local authorities. It has been said that CAMHS are already under severe pressure, so how are we going to deliver better outcomes if the funding to local authorities is being cut. So, I think I have raised some pretty obvious issues, and I'd like a response from the Minister, please.

16:56

## **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I am pleased to actually speak in today's debate on the progress that is being achieved through the 'Together for Mental Health' strategy. We are all aware that this is a major challenge to our health service. It has already been mentioned: the likelihood of the number of people who will experience mental health problems at some stage in their lives. We also recognise that approximately 11.5% of the health budget is allocated to mental health services, and that is a large chunk of funding. I want to join in Darren Millar's recognition of the third sector's work and the role they play as well, at the start of my contribution.

Soniodd Kirsty Williams yn fedrus iawn am bryderon ynglŷn â hunan-niwed ymhlith pobl iau, a dim ond ddoe roedd gennyf rywun yn bresennol sydd wedi byw gyda phum mlynedd o rywun ag awtistiaeth difrifol iawn, sydd bellach yn 18 oed, ac mae'r rhieni eu hunain yn wynebu caledi difrifol a gofid oherwydd nad oes unrhyw gyfleusterau, ac nad ydynt wedi derbyn unrhyw gefnogaeth ar gyfer rhywun sydd bellach yn 18 oed. Felly, mae rhai bylchau. Mae pobl yn syrthio drwy'r rhwyd. I mi, rwyf am wneud yn siŵr bod yr adroddiad hwn, neu unrhyw un o'r adroddiadau eraill—. Rwyf ddim ond am sôn ei fod yn trafod, ar un o'r tudalennau, amryw o strategaethau eraill, ac maent i gyd, yn dechnegol, i fod i groesgyfeirio. Wel, gallaf ddweud wrthy, wrth inni gymryd tystiolaeth yn y pwyllgor hwn a phwyllgorau eraill bod cymaint o strategaethau a chymaint o adroddiadau weithiau fel eu bod mewn gwirionedd yn gwrthdaro â'i gilydd, felly rwyf am i'r Gweinidog roi rhywfaint o sicrwydd i mi y bydd y math o faterion rwyf wedi eu codi yma heddiw yn cael sylw. Mae gennyf bryderon am roi gormod o feddyginiaeth ar bresgripsiwn. Mae'r dyddiau wedi mynd pan allech chi eistedd gyda'ch meddyg teulu ac efallai gael rhywfaint o eiriolaeth, rhywfaint o gwrsela a rhywfaint o gymorth. Mae'n anodd iawn. Rwy'n cael pobl sydd mewn gwirionedd yn ei chael yn anodd hyd yn oed cael apwyntiad ar gyfer meddyg teulu. Rydym wedi siarad am recriwtio meddygon teulu.

Mae anhwylderau bwyta yn peri pryder arbennig. Yn y gymdeithas yr ydym yn byw ynddi, mae'r pwysau sy'n wynebu merched ifanc a bechgyn ifanc—. Nid yw—chi'n gwybod, mae pobl yn tueddu i feddwl, 'Cyflwr sy'n gysylltiedig â merched yn unig yw hwn'. Mae'r mathau hyn o gyflyrau ar gynnydd, ac felly rwyf wir eisiau gwybod sut y mae'r Gweinidog yn mynd i'r afael â'r pryderon hynny.

Mae rhai ystadegau da, diddorol drwyddi draw, a chroesawaf yr adolygiad o CAMHS sy'n mynd i ddigwydd, ond mae'n rhaid iddo fod yn adolygiad ystyrlon. Un peth sy'n mynd i fod yn amlwg, unwaith eto, yw'r diffyg cyllid ar gyfer awdurdodau lleol. Dywedwyd bod CAMHS eisoes dan bwysau difrifol, felly sut rydym yn mynd i gyflawni gwell canlyniadau os bydd yr arian i awdurdodau lleol yn cael ei dorri. Felly, rwy'n meddwl fy mod wedi codi rhai materion eithaf amlwg, a hoffwn ymateb gan y Gweinidog, os gwelwch yn dda.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o siarad mewn gwirionedd yn y ddadl heddiw ar yr hyn sy'n cael ei gyflawni drwy strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'. Rydym i gyd yn ymwybodol bod hon yn her fawr i'n gwasanaeth iechyd. Mae eisoes wedi cael ei grybwyll: y nifer o bobl a fydd yn debygol o brofi problemau iechyd meddwl ar ryw adeg yn eu bywydau. Rydym hefyd yn cydnabod bod tua 11.5% o'r gyllideb iechyd yn cael ei ddyrannu i wasanaethau iechyd meddwl, ac mae hwnnw'n dalp mawr o arian. Rwyf am ymuno â Darren Millar i gydnabod gwaith y trydydd sector a'r rôl maent yn ei chwarae yn ogystal, ar ddechrau fy nghyfraniad.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

He also highlighted the fact that the Health and Social Care Committee has undertaken a post-legislative inquiry into the Mental Health (Wales) Measure 2010. We will publish our report on Thursday, so I don't want to actually take any details from that report—I'll resist that temptation, and I'll wait for the debate on that report then.

The Government's focus, actually, is to deliver improved mental health services in Wales, and it's evident through its strategy that we can see on the ground the impact that these improvements can have on service users and carers. It's important to note that the mental health services in Wales have improved since the Mental Health (Wales) Measure came into force in 2012. However, as demand for mental health services is high, the Government must ensure that users and carers can continue to expect the highest standards possible in the provision they receive. It has already been mentioned by contributors, about the survey from Gofal, that only 33% of people managed to access the advice, treatment and/or support services that they needed. In fact, 26% of people felt they had no access to any of these services. When people were asked whether the service that they had accessed through primary care had led to health improvements and wellbeing, only 38% felt that it didn't, but still, a third of people felt that it didn't actually improve their health and wellbeing. We must address this. We must identify the reasons as to why people have these opinions.

This afternoon, I chaired the cross-party group on mental health, on which a strong view was expressed on both service user and carer engagement, and on the collection of evidence to evaluate the effectiveness of the actions being taken. In relation to the former point, it was felt that service user and carer representation on the national partnership board needed greater support to actually ensure that the diverse views across Wales could be fed into the board through improved pathways to achieve that engagement. I therefore hope that the Deputy Minister will be able to give reassurances that the individuals who represent the service users and carers on that partnership board will be given that support to engage with a wide range of bodies to allow a wider spectrum of views to be presented in order that services can be shaped to continue the improvements we have seen to date.

On the issue of evidence collection, it was noted that more data are being collected, but these appear to focus on process rather than on outcomes. It is important that the impact upon people, and the benefits gained through the service provision, are evidenced. For example, data on the number of people who are service users and are in employment can give an indication of how people's lives are being improved when their mental health and wellbeing is not being a barrier to work. We must collect data that provide the evidence on outcomes being achieved and that measure the experiences of service users—i.e. as seen through the service-users' lens. On outcomes for the workforce and the care and treatment plans, we must ensure that the data collected will demonstrate the quality of care and treatment received by individuals, particularly if we are to make the difference.

Tynnodd sylw hefyd at y ffaith fod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cynnal ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad ddydd Iau, felly nid wyf am gymryd unrhyw fanylion o'r adroddiad hwnnw—fe wnaif wrthsefyll y demtasiwn, a byddaf yn aros am y ddadl ar yr adroddiad hwnnw bryd hynny.

Ffocws y Llywodraeth, mewn gwirionedd, yw darparu gwell gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru, ac mae'n amlwg drwy ei strategaeth y gallwn weld ar lawr gwlad yr effaith y gall y gwelliannau hyn ei chael ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Mae'n bwysig nodi bod y gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru wedi gwella ers i'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) ddod i rym yn 2012. Fodd bynnag, gan fod y galw am wasanaethau iechyd meddwl yn uchel, rhaid i'r Llywodraeth sicrhau y gall defnyddwyr a gofalwyr ddal i ddisgwyl y safonau uchaf posibl yn y ddarpariaeth y maent yn ei derbyn. Mae cyfranwyr eisoes wedi crybwyll yr arolwg gan Gofal, a'r ffaith mai dim ond 33% o bobl wnaeth lwyddo i gael y cyngor, y driniaeth a/neu'r gwasanaethau cymorth yr oedd eu hangen arnynt. Yn wir, roedd 26% o bobl yn teimlo nad oedd unrhyw un o'r gwasanaethau hyn ar gael iddynt o gwbl. Pan ofynnwyd i bobl a oedd y gwasanaeth yr oeddent wedi ei ddefnyddio drwy ofal sylfaenol wedi arwain at wella'u hiechyd a'u lles, dim ond 38% oedd yn teimlo nad oedd, ond eto, roedd traean o bobl yn teimlo nad oedd mewn gwirionedd wedi gwella eu hiechyd a'u lles. Rhaid inni fynd i'r afael â hyn. Rhaid i ni ganfod pam fod pobl yn teimlo fel hyn.

Brynhawn heddiw, cadeiriais y grŵp trawsbleidiol ar iechyd meddwl, lle y mynegwyd barn gref ynglŷn ag ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, ac ynglŷn â chasglu tystiolaeth i werthuso pa mor effeithiol yw'r camau sy'n cael eu cymryd. O ran y pwynt blaenorol, teimlwyd bod angen mwy o gefnogaeth ar gyfer cynrychiolaeth defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ar y bwrdd partneriaeth cenedlaethol er mwyn sicrhau mewn gwirionedd y gellir cyfrannu'r safbwyntiau amrywiol ledled Cymru i'r bwrdd trwy well llwybrau i gyflawni'r ymgysylltu hwnnw. Felly, rwy'n gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn gallu rhoi sicrwydd y bydd yr unigolion sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ar y bwrdd partneriaeth yn cael y cymorth hwnnw i ymgysylltu ag ystod eang o gyrff er mwyn gallu cyflwyno sbectrwm ehangach o farn fel bod modd llunio gwasanaethau i barhau â'r gwelliannau yr ydym wedi'u gweld hyd yn hyn.

O ran casglu tystiolaeth, nodwyd bod mwy o ddata'n cael eu casglu, ond bod y rhain i'w gweld yn canolbwyntio ar brosesau yn hytrach nag ar ganlyniadau. Mae'n bwysig cael tystiolaeth o'r effaith ar bobl, a'r manteision a gafwyd trwy ddarparu gwasanaeth. Er enghraifft, gall data ar nifer y bobl sy'n ddefnyddwyr gwasanaeth ac mewn cyflogaeth roi syniad o sut mae bywydau pobl yn cael eu gwella pan nad yw eu hiechyd meddwl a'u lles yn eu rhwystro rhag cael gwaith. Rhaid inni gasglu data sy'n darparu'r dystiolaeth o ran y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni ac sy'n mesur profiadau defnyddwyr gwasanaeth—h.y. gweld drwy lens defnyddwyr y gwasanaeth. O ran canlyniadau i'r gweithlu a'r cynlluniau gofal a thriniaeth, rhaid inni sicrhau y bydd y data a gesglir yn dangos ansawdd y gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd gan unigolion, yn enwedig os ydym am wneud gwahaniaeth.

My final point this afternoon will be focused on the provision of services available at primary care, and that these must be consistent across Wales. The Health and Social Care Committee heard evidence that access to primary mental health assessments is easier, and we have heard that 31,000 people have been assessed by local primary mental health services in the past year, with many of these having gone on to receive psychological therapies. On that point of psychological therapies, I acknowledge the work undertaken by the Welsh Government on tackling this area and providing additional funding of £850,000 for improving skills and competencies in delivering psychological therapies. However, I would ask the Deputy Minister whether he could provide an indication as to how that will be apportioned across Wales, and how it will be measured—its effectiveness.

Many people mentioned other aspects, and there are huge areas—CAMHS, child and adolescent mental health services, being a clear one, so I will not discuss that this afternoon. But it is vital that continued improvements in the advice given by GPs, along with their greater awareness of the impact on mental health conditions, continue to be driven by the LHBs so that service users and carers can maintain confidence in the provision in primary care. Darren Millar has already mentioned the concept of empathy, and that was often highlighted as well.

We also need to ensure that GP practices utilise the training opportunities that are launched by the Welsh Government. Only 30% of practices in Wales have completed dementia-awareness training. More practices need to take up important training opportunities on diagnosis and management of depression in the elderly, understanding the mental health needs of young people and the issues of suicide and self-harm.

Bydd fy mhwynt olaf y prynhawn yma yn canolbwyntio ar y gwasanaethau sydd ar gael mewn gofal sylfaenol, a bod rhaid i'r rhain fod yn gyson ar draws Cymru. Clywodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol dystiolaeth ei bod yn haws cael asesiadau iechyd meddwl sylfaenol, ac rydym wedi clywed bod 31,000 o bobl wedi cael eu hasesu gan y gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol lleol yn y flwyddyn ddiwethaf, gyda llawer o'r rhain wedi mynd ymlaen i dderbyn therapiau seicolegol. Ar y pwynt hwnnw, sef therapiau seicolegol, rwy'n cydnabod y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â'r maes hwn a darparu cyllid ychwanegol o £850,000 i wella sgiliau a chymwyseddau o ran darparu therapiau seicolegol. Fodd bynnag, byddwn yn gofyn i'r Dirprwy Weinidog a allai roi syniad ynghylch sut bydd hwnnw'n cael ei ddosrannu ar draws Cymru, a sut y caiff ei fesur—ei effeithiolrwydd.

Mae llawer o bobl wedi crybwyll agweddau eraill, ac mae meysydd enfawr—CAMHS, gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, yn un amlwg, felly ni fyddaf yn trafod hynny brynawn heddiw. Ond mae'n hanfodol bod y Byrddau Iechyd Lleol yn parhau i sbarduno gwelliannau parhaus yn y cyngor a roddir gan feddygon teulu, a'u hannog i fod yn fwy ymwybodol o'r effaith ar gyflyrau iechyd meddwl, fel y gall defnyddwyr gwasanaeth a gofawyr barhau i fod â hyder yn y ddarpariaeth ym maes gofal sylfaenol. Mae Darren Millar eisoes wedi crybwyll y cysyniad o empathy, a chafodd hynny ei amlygu'n aml hefyd.

Mae angen hefyd inni sicrhau bod practisau meddygon teulu yn defnyddio'r cyfleoedd hyfforddi sy'n cael eu lansio gan Lywodraeth Cymru. Dim ond 30% o feddygfeydd yng Nghymru sydd wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddementia. Mae angen i fwy o feddygfeydd fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi pwysig ar ddiagnosis a rheoli iselder yn yr henoed, deall anghenion iechyd meddwl pobl ifanc, a materion hunanladdiad a hunan-niwed.

- 17:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
You need to finish now, please. Mae angen ichi orffen yn awr, os gwelwch yn dda.
- 17:02 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
To conclude, much has been achieved, but more needs to be done. I gloi, mae llawer wedi'i gyflawni, ond mae angen gwneud mwy.
- 17:02 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
I am grateful to be able to speak on this report today. There is so much to say on this subject, so I would like to confine myself to two specific areas, but they both lead out of one of the high-level outcomes that the Welsh Government is aiming for, which is the access to, and the quality of, preventative measures, early intervention and treatment services, and that they should be improved and that more people recover as a result. Rwy'n ddiolchgar am gael siarad am yr adroddiad hwn heddiw. Mae cymaint i'w ddweud am y pwnc hwn, felly hoffwn gyfyngu fy hun i ddau faes penodol, ond mae'r ddau yn deillio o un o'r canlyniadau lefel uchel y mae Llywodraeth Cymru'n anelu atynt, sef ansawdd a mynediad at fesurau ataliol, ymyriadau cynnar a gwasanaethau triniaeth, ac y dylent gael eu gwella, a bod mwy o bobl yn gwella o ganlyniad.

I think that it goes without saying, really, that, if you suffer from a mental health disorder of any sort whatsoever, you are going to find it extremely difficult to walk into a GP or talk to an advocate and ask for that help. Having done so, it must be even more difficult to then be told that your course of treatment is going to take place far removed from your very, very small and secure theatre of operations. One of the real concerns that I have is that, for all people who suffer from mental health disorders—particularly the young, but I do say all—in order to access some of those services, they are being asked to make, you know, quantum leaps for them to go and get the help that they need.

Now, I can understand that, you know, money is finite; I can understand that we need to boil our best practice into key areas. But that does not help, particularly in more rural areas, when you are saying to a child with severe eating disorders, 'Actually, you've got to go all the way to Bridgend to have that help or to access it'. We need to be able to look at how we can build little stepping stones that will help individuals to be able to move towards that specialist care that they need, because you cannot take them just from one place straight to another.

Another area is that a lot of mental health services are now provided on a family-wide basis, and that isn't always possible. I have got constituents who are finding it very difficult to access some of the services that they need, particularly if it involves cognitive and psychological therapies, if a therapist wants to see the entire family again far removed from that individual's theatre of operations. Not all families want to engage. We all know how dysfunctional families can be, and how very complicated, and very secretive, a lot of the issues surrounding mental health are. It is a brave person who can step forward and ask for that help, and I think that we just need to make it easier for them. It isn't like having a broken hip, a bad knee or whatever it might be; this affects you right down to the very core of your being, and makes some of your judgment calls extremely questionable. It is very difficult for the Government, for the state, for the service to be able to reflect every single individual person's needs. But of all of the treatments that we might offer through the NHS, I think that there is nothing that could be more individual than trying to help one person with their particular issues.

Credaf nad oes raid dweud, mewn gwirionedd eich bod yn mynd i'w chael yn anodd iawn, os ydych yn dioddef o anhwylder iechyd meddwl o unrhyw fath o gwbl, cerdded i mewn at feddyg teulu neu siarad ag eiriolwr a gofyn am y cymorth hwnnw. Ar ôl gwneud hynny, rhaid ei bod hyd yn oed yn fwy anodd wedyn cael gwybod bod eich cwrs o driniaeth yn mynd i ddiwydd yn bell oddi wrth y filltir sgwâr fach iawn, iawn lle rydych chi'n teimlo'n ddiogel. Un o'r pryderon gwirioneddol sydd gennyf yw ein bod yn gofyn i bob person sy'n dioddef o anhwylderau iechyd meddwl—yn enwedig yr ifanc, ond byddwn i'n dweud pob un—wneud naid cwantwm er mwyn cael gafael ar rai o'r gwasanaethau hynny, er mwyn mynd a chael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Nawr, gallaf ddeall bod arian, rydych chi'n gwybod, yn gyfyngedig; gallaf ddeall bod angen inni ferwi ein harferion gorau i feysydd allweddol. Ond nid yw hynny'n helpu, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig, pan fyddwch yn dweud wrth blentyn ag anhwylderau bwyta difrifol, 'A dweud y gwir, mae'n rhaid i chi fynd yr holl ffordd i Ben-y-bont ar Ogwr i gael y cymorth hwnnw, neu i gael manteisio arno'. Mae angen inni allu ystyried sut y gallwn adeiladu cerrig camu bach a fydd yn helpu unigolion i allu symud tuag at y gofal arbenigol hwnnw sydd ei angen arnynt, oherwydd na allwch fynd â nhw o un lle yn syth i un arall.

Maes arall yw bod llawer o wasanaethau iechyd meddwl bellach yn cael eu darparu ar sail y teulu cyfan, ac nid yw hynny bob amser yn bosibl. Mae gennyf etholwyr sy'n ei chael yn anodd iawn cael gafael ar rai o'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt, yn enwedig os yw'n cynnwys therapiau gwybyddol a seicolegol, os yw therapydd am weld y teulu cyfan eto ymhell oddi wrth filltir sgwâr yr unigolyn hwnnw. Nid yw pob teulu'n awyddus i gymryd rhan. Rydym i gyd yn gwybod pa mor gamweithredol y gall teuluoedd fod, a pha mor gymhleth, a chyfrinachgar iawn y mae llawer o'r materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl. Mae'n cymryd person dewr i allu camu ymlaen a gofyn am y cymorth hwnnw, ac rwy'n meddwl bod angen inni ei gwneud yn haws iddynt. Nid yw fel torri clun, poen yn y pen-glin neu beth bynnag y bo; mae hyn yn effeithio arnoch chi hyd at graidd eich bod, ac yn gwneud rhai o'ch penderfyniadau'n hynod amheus. Mae'n anodd iawn i'r Llywodraeth, i'r wladwriaeth, i'r gwasanaeth allu adlewyrchu anghenion pob person unigol. Ond o'r holl driniaethau y gallm eu cynnig drwy'r GIG, rwy'n meddwl nad oes dim a allai fod yn fwy unigol na cheisio helpu un person gyda'u problemau penodol.

Talking about the access element and the early preventative care, I would like to understand how your programmes will tie in to the proposed additional learning needs Bill that the Government is going to bring forward, because, again, so many of the younger people in particular who are in primary and secondary—let alone further and higher—education have issues trying to access all sorts of care, whether they are on the autistic spectrum, dyslexia, whether they have eating disorders that, in particular, are a great barrier to being able to move forward as a confident individual. That Bill is going to be coming forward to try to look at it from an educational point of view, and I would like to understand how mental health services, particularly CAMHS services, will be able to tie in to that. Because of that Bill, I would urge you, Minister, to try to get this review of the CAMHS services to be really punchy, really timely, really hard-hitting, because we can't possibly do one side of the equation without doing the other.

I'd like to just reverse very slightly and finally touch again on access to services. You know, as you are well aware, I represent a rural area, and both my colleague Paul Davies and I are being approached now on a fairly consistent basis by people who are very concerned that mental health services are again being withdrawn from our particular area, that wards are being closed, and that they are going to find it very difficult to access some of these services that they need. I think my final point, because there is so much to say on this, is that, in our patch, there is a huge amount of locum staff used in this area—people who do not have sufficient training to look after people with dementia, to look after people who are on wards such as St Non's and St Caradog's, and I would like you to have a look at that.

Gan siarad am yr elfen mynediad a'r gofal ataliol cynnar, hoffwn ddeall sut y bydd eich rhaglenni'n cyd-fynd â'r Bil anghenion dysgu ychwanegol arfaethedig y mae'r Llywodraeth yn mynd i'w gyflwyno, oherwydd bod llawer o'r bobl iau yn arbennig sydd mewn addysg gynradd ac uwchradd—heb sôn am addysg bellach ac uwch—yn cael problemau, unwaith eto, wrth geisio cael gafael ar bob math o ofal, p'un a ydynt ar y sbectrwm awtistig, yn dioddef o ddyslecsia, p'un a oes ganddynt anhwylderau bwyta sydd, yn arbennig, yn rhwystr mawr rhag gallu symud ymlaen fel unigolyn hyderus. Bydd y Bil hwnnw'n dod ymlaen i geisio edrych ar y mater o safbwynt addysgol, a hoffwn ddeall sut y bydd gwasanaethau iechyd meddwl, yn enwedig gwasanaethau CAMHS, yn gallu cyd-fynd â hynny. Oherwydd y Bil hwnnw, byddwn yn eich annog, Weinidog, i geisio gofalu bod yr adolygiad hwn o'r gwasanaethau CAMHS yn wirioneddol fachog, yn wirioneddol amserol, yn wirioneddol ddigyfaddawd, oherwydd na allwn ni wneud un ochr o'r hafaliad heb wneud y llall.

Hoffwn fynd tuag yn ôl ychydig bach a chyffwrdd eto ar fynediad at wasanaethau. Rydych yn gwybod, fel yr ydych yn ymwybodol, rwy'n cynrychioli ardal wledig, ac mae pobl yn cysylltu â mi a'm cydweithiwr, Paul Davies, yn weddol gyson erbyn hyn, yn bryderus iawn bod gwasanaethau iechyd meddwl eto'n cael eu tynnu'n ôl o'n hardal benodol, bod wardiau'n cael eu cau, a'u bod yn mynd i'w chael yn anodd iawn cael gafael ar rai o'r gwasanaethau hyn sydd eu hangen arnynt. Rwy'n credu mai fy mhwynt olaf, oherwydd bod cymaint i'w ddweud ar hyn, yw bod llawer iawn o staff locwm yn cael eu defnyddio yn y maes hwn yn ein bro ni—pobl nad oes ganddynt ddigon o hyfforddiant i ofalu am bobl â dementia, i ofalu am bobl sydd ar wardiau megis Santes Non a Sant Caradog, a hoffwn i chi gael golwg ar hynny.

17:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Quickly now, please.

Yn gyflym yn awr, os gwelwch yn dda.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:07 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Because whilst your report says much that is good, like all things, it is the translation on the ground that is important and I think that the translation on the ground is not working in all areas.

Oherwydd er bod eich adroddiad yn dweud llawer sy'n dda, fel pob peth, trosi hynny ar lawr gwlad sy'n bwysig ac rwy'n meddwl nad yw'r trosi ar lawr gwlad yn gweithio ym mhob ardal.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:07 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wasn't intending to speak, but many people have mentioned today the CAMHS review and I just wanted to clarify, having written to Dame Sue Bailey—I think it's a Dame; I am not up on these titles—she has stated that it won't be a terms of reference review, but they will be providing independent advice for CAMHS. There won't be terms of reference from the outset and, by the end of 2015, there will be clarity of direction of travel. So, I do welcome the fact that this is happening, but it isn't what we thought would happen. So, if there's going to be informal consultation, as the letter to me outlines, then this doesn't really satisfy me. We need to have formal consultation throughout 2015 so that we do come to conclusions by the end of 2015.

Nid oeddwn yn bwriadu siarad, ond mae llawer o bobl wedi sôn heddiw am yr adolygiad CAMHS ac roeddwn i eisiau egluro, ar ôl ysgrifennu at y Fonesig Sue Bailey—rwy'n credu mai'r Fonesig ydyw; nid wyf yn gyfarwydd â'r teitlau hyn—mae hi wedi datgan na fydd yn adolygiad cylch gorchwyl. Yn hytrach, byddant yn darparu cyngor annibynnol ar gyfer CAMHS. Ni fydd cylch gorchwyl o'r cychwyn cyntaf ac, erbyn diwedd 2015, bydd y cyfeiriad teithio'n eglur. Felly, rwy'n croesawu'r ffaith bod hyn yn digwydd, ond nid dyma'r hyn yr oeddem yn meddwl a fyddai'n digwydd. Felly, os oes ymgynghori anffurfiol yn mynd i fod, fel y mae'r llythyr ataf fi'n amlinellu, yna nid wyf hyn wir yn fy modloni. Mae angen inni gael ymgynghoriad ffurfiol trwy gydol 2015 er mwyn inni ddod i gasgliadau erbyn diwedd 2015.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



Appreciating that her work will be valid and will be thorough, I don't read in the letter that it's the review that we were calling for from committee and from cross-party groups, whether it be the mental health cross-party group or the eating disorders cross-party group, which is where this particular letter emanated from. At the end of the day, the whole reason why this was triggered, I believe, by the health Minister was because we were hearing so many pieces of evidence from people in the system—or currently not in the system because they've been rejected from the system—because we need to really get to grips with the situation, understanding when somebody doesn't need to go into the CAMHS sector or where they need to access something through the school counselling situation.

We need to make sure that they work, too, because there are two case studies I wanted to quickly mention—one where a young girl tried to commit suicide three times and was told that there were other people on the waiting list, so she couldn't be seen immediately. If you have tried to commit suicide three times, that is something that should really be prioritised; why is it not? The other case is of another teenage girl being refused laser removal for scarring caused by self-harming. The mother does realise that she would have to wait three years to conform to that, but she can't get access to a psychiatric assessment to understand whether her level of problem will have diminished. So, she is left in a situation now where she will probably have to go for private psychiatric assessment, and that is not something, again, that somebody from my region should have to do or should have to afford to do when we have the NHS in place for them. So, when we talk about preventative care we need to make sure that we are stopping as many young people as possible from going into CAMHS, in my view, so that they don't have to get to the serious state of having to either be transferred to the Priory Hospital in Bristol, and so forth, and that we capture them at an early age. Yes, adults do suffer too, but if we can stop young people getting into those crisis situations time and again, then they will be able to have a better chance as an adult in terms of where they go.

So, I recognise the work that the Welsh Government has done on this, and we are raising the stature of mental health. Now we need to focus on outcomes, understand where it's working well and where there can be differences and changes made so that we can all, when we do look at these reports in future, understand fully that they have had real-time user and carer interventions, so that we all know that we are doing our jobs effectively.

Gan werthfawrogi y bydd ei gwaith yn ddilys ac y bydd yn drylwyr, nid wyf yn darllen yn y llythyr mai dyma'r adolygiad yr oedd y pwyllgor a'r grwpiau trawsbleidiol yn galw amdano, boed y grŵp trawsbleidiol iechyd meddwl neu'r grŵp trawsbleidiol anhwylderau bwyta, sef y man y deilliodd y llythyr penodol hwn ohono. Ar ddiwedd y dydd, y rheswm pam y cafodd hyn i gyd ei sbarduno, yn fy marn i, gan y Gweinidog iechyd oedd oherwydd ein bod yn clywed cymaint o ddarnau o dystiolaeth gan bobl yn y system ar hyn o bryd—neu ddim yn y system ar hyn o bryd am eu bod wedi eu gwrthod o'r system—gan fod angen i ni wir fynd i'r afael â'r sefyllfa, gan ddeall pryd nad oes angen i rywun fynd i mewn i'r sector CAMHS neu pryd mae angen iddynt gael rhyw fath o wasanaeth trwy'r sefyllfa cwnsela mewn ysgolion.

Mae angen inni wneud yn siŵr eu bod yn gweithio, hefyd, oherwydd bod dwy astudiaeth achos yr oeddwn i eisiau sôn amdanynt yn gyflym—un lle y gwnaeth merch ifanc geisio cyflawni hunanladdiad dair gwaith a chael gwybod bod pobl eraill ar y rhestr aros, felly nad oedd modd iddi gael ei gweld ar unwaith. Os ydych wedi ceisio cyflawni hunanladdiad dair gwaith, mae hynny'n rhywbeth y dyldid ei flaenoriaethu mewn gwirionedd; pam nad ydyw? Mae'r achos arall yn ymwneud â merch yn ei harddegau yn cael gwrthod triniaeth laser i gael gwared ar greithiau a achoswyd gan hunan-niweidio. Mae'r fam yn sylweddoli y byddai'n rhaid iddi aros tair blynedd i gydymffurfio â hynny, ond ni all hi gael asesiad seiciatrig i ddeall p'un a fydd lefel ei phroblem wedi lleihau. Felly, mae hi'n cael ei gadael mewn sefyllfa erbyn hyn lle y bydd yn rhaid iddi mwy na thebyg gael asesiad seiciatrig preifat, ac nid yw hynny'n rhywbeth, unwaith eto, y dylai rhywun o fy rhanbarth orfod ei wneud neu orfod fforddio i'w wneud pan fod y GIG yno ar eu cyfer. Felly, pan fyddwn yn sôn am ofal ataliol mae angen inni wneud yn siŵr ein bod yn atal cymaint o bobl ifanc â phosibl rhag mynd i CAMHS, yn fy marn i, fel nad oes rhaid iddynt gyrraedd y cyflwr difrifol o orfod cael eu trosglwyddo i Ysbyty'r Priory ym Mryste, ac yn y blaen, a'n bod yn eu dal yn ifanc. Ydynt, mae oedolion yn dioddef hefyd, ond os gallwn atal pobl ifanc rhag mynd i'r sefyllfaoedd hyn o argyfwng dro ar ôl tro, yna byddant yn gallu cael gwell cyfle fel oedolyn o ran ble maent yn mynd.

Felly, rwy'n cydnabod y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ar hyn, ac rydym yn codi statws iechyd meddwl. Nawr mae angen inni ganolbwyntio ar ganlyniadau, deall ble mae'n gweithio'n dda a lle y gellir gwneud gwahaniaethau a newidiadau fel y gallwn i gyd, wrth edrych ar yr adroddiadau hyn yn y dyfodol, ddeall yn llawn eu bod wedi arwain ar ymyriadau amser real i ddefnyddwyr a gofawyr, er mwyn inni i gyd wybod ein bod yn gwneud ein gwaith yn effeithiol.

## Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also hadn't intended to contribute to this debate, but there were a couple of issues that I wish to raise if you would give me that moment. The first issue is to do with data, and I too would like to raise the issues that David Rees has discussed. The fundamental question in my mind when I read the report is: are we measuring the right things and are we measuring them robustly enough to ensure that the services that we wish to see are having the effect on the ground and the impact on people's lives that we want them to have? I am very glad to hear in your opening remarks, Deputy Minister, that 90% of patients in Wales now have care and treatment plans. It's a very useful volume measure and, used well, it's a fantastic way of empowering those patients to lead their own journey through their treatment. But we also need to have a robust way of assessing the impact of those plans and the effectiveness of them as well. Ultimately, if local health boards are being judged only on the numbers of the plans, then their focus will inevitably be on improving the numbers of plans rather than the quality of them, or what impact they're having on service users. So, I would ask you if you're able to look into that and see if there are more detailed ways in which we can deliver some of that measurement.

I also understand that there was a pilot study undertaken in, I think, 19 different areas, looking at the development of goal-orientated care and treatment plans. I'm wondering if you can give us an idea of the status of that pilot study, and when you'll be able to be in a position to report to the Assembly on the results of that and lessons learned so that, as I say, effectiveness can be put at the heart of how we assess the success of this strategy.

The second area I wanted to raise was in terms of the ultimately, you know, cross-Cabinet nature of this strategy. Clearly, it is very important that all of the Welsh Ministers are working together to make sure that this strategy is delivered. Clearly, there has been, and needs to be, a lot of liaison between health boards but also health boards and social services departments in local authorities. But I would also just ask for a few comments from you in terms of liaison between local health boards and education authorities too, because there are some difficulties in the crossover between educational psychology and psychiatry in terms of child and adolescent mental health. Many young people will present with a complex combination of the two different areas, and they need obviously to have an effective way of being dealt with. I've had raised with me, on many occasions by constituents, problems where they've been referred backwards and forwards between CAMHS services and educational psychology services from the local education authority. In some cases, it has taken five years to get a credible diagnosis for that child and a support structure put in place for that child. That's five years of pain for that child and five years of pain and anxiety for their parents too. So, if you could perhaps give some thought to that, Deputy Minister, I'd be incredibly grateful.

Nid oeddwn innau chwaith wedi bwriadu cyfrannu at y ddadl hon, ond roedd un neu ddau o faterion yr wyf am eu codi pe byddech yn rhoi eiliad i mi. Mae'r mater cyntaf yn ymwneud â data, a byddwn innau hefyd yn hoffi codi'r materion y mae David Rees wedi'u trafod. Y cwestiwn sylfaenol yn fy meddwl wrth ddarllen yr adroddiad yw: a ydym ni'n mesur y pethau iawn ac a ydym ni'n eu mesur yn ddigon trwyadl i sicrhau bod y gwasanaethau yr ydym am eu gweld yn cael yr effaith ar lawr gwlad a'r effaith ar fywydau pobl yr ydym am iddynt ei chael? Rwy'n falch iawn o glywed yn eich sylwadau agoriadol, Ddirprwy Weinidog, bod gan 90% o gleifion yng Nghymru gynlluniau gofal a thriniaeth erbyn hyn. Mae'n fesur defnyddiol iawn o feintioli ac, o'i ddefnyddio'n dda, mae'n ffordd wych o rymuso'r cleifion hynny i arwain eu taith eu hunain drwy eu triniaeth. Ond mae angen inni hefyd gael ffordd gadarn o asesu effaith y cynlluniau hynny a'u heffeithiolrwydd hefyd. Yn y pen draw, os bydd byrddau iechyd lleol yn cael eu barnu ar nifer y cynlluniau'n unig, yna byddant yn anochel yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y cynlluniau yn hytrach na gwella'u hansawdd, neu'r effaith y maent yn ei chael ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Felly, byddwn yn gofyn i chi a allwch chi ymchwilio i hynny a gweld a oes ffordd mwy manwl y gallwn wneud rhywfaint o'r gwaith mesur hwnnw.

Rwyf hefyd yn deall bod astudiaeth beilot wedi'i chynnal, rwy'n credu, mewn 19 ardal wahanol, yn edrych ar y broses o ddatblygu cynlluniau gofal a thriniaeth sy'n canolbwyntio ar amcanion penodol. Tybed a allech chi roi syniad o statws yr astudiaeth beilot honno inni, a phryd y byddwch yn gallu bod mewn sefyllfa i hysbysu'r Cynulliad am y canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd fel y gellir, fel y dywedais, roi effeithiolrwydd wrth wraidd y ffordd yr ydym yn asesu llwyddiant y strategaeth hon.

Yr ail faes yr oeddwn am ei godi oedd o ran yn y pen draw, chi'n gwybod, natur draws-Gabinet y strategaeth hon. Yn amlwg, mae'n bwysig iawn bod pob un o Weinidogion Cymru'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y strategaeth hon yn cael ei chyflawni. Yn amlwg, bu llawer o gyswllt rhwng byrddau iechyd, ac mae angen hynny, ond hefyd rhwng byrddau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol mewn awdurdodau lleol. Ond byddwn hefyd yn gofyn am ddim ond ychydig o sylwadau gennych chi ynglŷn â chyswllt rhwng byrddau iechyd lleol ac awdurdodau addysg hefyd, oherwydd bod rhai anawsterau yn y gorgyffwrdd rhwng seicoleg addysg a seiciatreg o ran iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Bydd llawer o bobl ifanc yn cyflwyno gyda chyfuniad cymhleth o'r ddau faes gwahanol, ac yn amlwg mae angen ffordd effeithiol o'u trin. Mae etholwyr wedi codi problemau gyda mi, ar sawl achlysur, lle maent wedi cael eu hatgyfeirio yn ôl ac ymlaen rhwng gwasanaethau CAMHS a gwasanaethau seicoleg addysg yr awdurdod addysg lleol. Mewn rhai achosion, mae wedi cymryd pum mlynedd i gael diagnosis credadwy ar gyfer y plentyn hwnnw a strwythur cymorth ar waith ar gyfer y plentyn. Dyna bum mlynedd o boen i'r plentyn hwnnw a phum mlynedd o boen a phryder i'w rieni hefyd. Felly, pe gallech efallai roi rhywfaint o ystyriaeth i hynny, Ddirprwy Weinidog, byddwn i'n hynod o ddiolchgar.

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i ymateb i'r ddadl.

I call the Deputy Minister to respond to the debate.

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'd like to thank Members who have participated in the debate today for what has been a largely constructive debate on both the progress we have made and the progress that we recognise has still yet to be made. A lot of the comments, of course, focused on prevention and the need to ensure that we have outcomes that we can deliver and adequately describe. It's important to reiterate that the report provides an account of what is a genuinely cross-government approach. It is designed to ensure that all stakeholders and partners, including professionals from health and social care, and the third sector and other agencies, and, of course, service users and carers, work together to ensure we do have the best outcomes for our citizens. We will all, therefore, have a role to play in moving forward. The report does demonstrate that real progress has been achieved year on year, and we should congratulate all those working to achieve those improvements and recognise and celebrate their success. As well as celebrating their success, it is of course right to recognise the room for improvement and the requirement for improvement.

I will try to pick up some of the points made by Members in the debate, although given the range of people who asked for just a few comments on various areas, I certainly won't be able to do all of that. I did want to pick up the point about veterans services, which I didn't mention in my opening remarks, and not just because of the recent events about commemorating military sacrifice, which is an ongoing programme and an ongoing reality. We have, of course, invested an additional £100,000, as set out in the report, in treating the effects of post-traumatic stress on our veterans this year, and that's actually enabled a 50% reduction in waiting lists right across Wales. One health board in particular managed to reduce it from seven months to six weeks. The challenge, of course, is ensuring that each health board has a level of achievement in reducing those waiting lists that properly compares with the need that it has, and it is one of the constant questions that the Minister and I ask health boards: how do they learn from the most effective practice and apply that locally? I will take the intervention.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i'r Aelodau sydd wedi cymryd rhan heddiw am ddadl a fu'n adeiladol i raddau helaeth ar yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni a'r hyn yr ydym yn cydnabod sydd angen ei wneud o hyd. Roedd llawer o'r sylwadau, wrth gwrs, yn canolbwyntio ar atal a'r angen i sicrhau bod gennym ganlyniadau y gallwn eu cyflawni a'u disgrifio'n ddigonol. Mae'n bwysig ailadrodd bod yr adroddiad yn disgrifio ymagwedd sy'n wirioneddol draws-lywodraeth. Mae wedi ei gynllunio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid a phartneriaid, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol o feysydd iechyd a gofal cymdeithasol, a'r trydydd sector ac asiantaethau eraill, ac, wrth gwrs, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau ein bod yn cael y canlyniadau gorau ar gyfer ein dinasyddion. Bydd gennym i gyd, felly, ran i'w chwarae wrth symud ymlaen. Mae'r adroddiad yn dangos bod camau gwirioneddol wedi cael eu cymryd o flwyddyn i flwyddyn, a dylem longyfarch pawb sy'n gweithio i gyflawni'r gwelliannau hynny a chydabod a dathlu eu llwyddiant. Yn ogystal â dathlu eu llwyddiant, mae wrth gwrs yn iawn cydnabod bod lle i wella a'r angen i wella.

Byddaf yn ceisio codi rhai o'r pwyntiau a wnaed gan Aelodau yn y ddadl, er o ystyried yr amrywiaeth o bobl a ofynnodd am ychydig sylwadau ar wahanol feysydd, rwy'n sicr na fyddaf yn gallu gwneud hynny i gyd. Roeddwn am godi'r pwynt ynglŷn â gwasanaethau cyn-filwyr, na wnes i sôn amdanynt yn fy sylwadau agoriadol, ac nid yn unig oherwydd y digwyddiadau diweddar ynglŷn â choffâu aberth milwrol, sy'n rhaglen barhaus ac yn realiti parhaus. Rydym eleni, wrth gwrs, wedi buddsoddi £100,000 yn ychwanegol, fel y nodwyd yn yr adroddiad, mewn trin effeithiau straen wedi trawma ar ein cyn-filwyr, ac mae hynny mewn gwirionedd wedi arwain at ostyngiad o 50% yn y rhestrau aros ar hyd a lled Cymru. Mae un bwrdd iechyd yn arbennig wedi llwyddo i'w lleihau o saith mis i chwe wythnos. Yr her, wrth gwrs, yw sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn cyflawni o ran lleihau'r rhestrau aros hynny, ar lefel sy'n cymharu'n briodol â'r angen sydd ganddo, ac mae'n un o'r cwestiynau cyson y mae'r Gweinidog a minnau'n ei ofyn i fyrdau iechyd: sut y maent yn dysgu oddi wrth yr arfer fwyaf effeithiol ac yn rhoi hynny ar waith yn lleol. Byddaf yn cymryd yr ymyriad.

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that, Minister, and indeed the £100,000 was very welcome. It has had an impact in some areas, but in other areas, people are still waiting too long. Can you tell us whether that additional investment will be ongoing and recurring now in each financial year as we go forward?

Diolch yn fawr iawn am hynny, Weinidog, ac yn wir roedd y £100,000 i'w groesawu'n fawr. Mae wedi cael effaith mewn rhai ardaloedd, ond mewn ardaloedd eraill, mae pobl yn dal i aros yn rhy hir. A allwch chi ddweud wrthym a fydd y buddsoddiad ychwanegol yn barhaus ac yn gyllid cylchol nawr ym mhob blwyddyn ariannol wrth inni symud ymlaen?

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I expect each health board to deliver properly on the promise to veterans for their services. I've got individual responsibility for NHS Wales's veterans service, and it is an area that I will be raising with each and every health board, as it plans its progress for each year subsequently. It is not a one-off issue.

Rwy'n disgwyl i bob bwrdd iechyd gyflawni'n briodol ar yr addewid i gyn-filwyr am eu gwasanaethau. Mae gennyf gyfrifoldeb unigol am wasanaeth GIG Cymru i gyn-filwyr, ac mae'n faes y byddaf yn ei godi gyda phob un bwrdd iechyd, wrth iddo gynllunio'r ffordd ymlaen ar gyfer pob blwyddyn ar ôl hynny. Nid yw'n fater unwaith ac am byth.

I also wanted to touch on the issue about the impact of ill health and the world of work, which is referred to in one of the amendments, because the Welsh Government's Healthy Working Wales programme will continue to provide a range of support to employers, employees and health professionals. Looking at the report, the scale of that is that over 1,800 organisations in Wales, which employ over 380,000 people, have engaged in the Healthy Working Wales programme. That represents 27% of the working-age population of Wales. It is something that I am particularly interested in, given the job that I used to have, when people used to respect me before I got elected, in that I dealt with and represented a large number of people with mental health problems. Probably the majority or the largest individual cohort of people with disability discrimination claims that I helped and advised were people with mental health conditions, and the struggle that they faced in actually having practical support from their employers. So, it is a very real issue that I have a very direct experience of. I note the comments that Angela Burns made about people accessing support services, and it varies. It varies in terms of the individual condition, and how they feel and the support they have, not just in the workplace but in their family units too. So, I take a special interest in the progress that Healthy Working Wales continues to make in coming years.

I have described some of where we've come from and the improvements made so far. I also want to deal with some of the other points made. It is probably appropriate at this point to make a few more comments about the CAMHS service—because nearly every Member who spoke mentioned CAMHS in their contribution—and the particular points made about the access to the appropriate service. We do recognise that the demand has increased. There is also the concern that Kirsty Williams, in particular, mentioned, about whether demand is being appropriately managed and whether people are unnecessarily being referred to the specialist end of the service. This is a common theme in health: how we deal with demand and ensure that the people who really need that specialist end service are seen, and the people who don't need that are moved to the most appropriate area for them as well. It's fair to point out that the Minister has already met, before Christmas, in a meeting organised by the children's commissioner, a range of young people and some of their parents, to understand their direct experiences—good, bad and indifferent—of the service. This isn't an issue that's being soft-soaped or moved, and it does very much occupy ministerial attention. Of course, the Minister has accepted the report from the committee. So, throughout 2014, we worked with CAMHS to deliver improvements. That included an additional investment of £0.25 million in eating disorder services. That has already meant that more young people are now being cared for closer to home in Wales, and we have achieved a significant reduction in the number of beds used outside Wales by the specialist CAMHS service.

Rwyf hefyd am grybwyll y mater ynglŷn ag effaith afiechyd a byd gwaith, y cyfeirir ato yn un o'r gwelliannau, gan y bydd rhaglen Llywodraeth Cymru, Cymru Iach ar Waith, yn parhau i ddarparu amrywiaeth o gefnogaeth i gyflogwyr, gweithwyr cyflogedig a gweithwyr iechyd proffesiynol. O edrych ar yr adroddiad, graddfa hynny yw bod dros 1,800 o sefydliadau yng Nghymru, sy'n cyflogi dros 380,000 o bobl, wedi cymryd rhan yn y rhaglen Cymru Iach ar Waith. Mae hynny'n gyfystyr â 27% o'r boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru. Mae'n rhywbeth y mae gennyf ddiddordeb arbennig ynddo, o ystyried y gwaith yr oeddwn yn arfer ei wneud, pan oedd pobl yn arfer fy mharchu cyn imi gael fy ethol, yn y ffaith fy mod yn cynrychioli ac yn delio â nifer fawr o bobl oedd â phroblemau iechyd meddwl. Mae'n debyg mai pobl â chyflyrau iechyd meddwl oedd y rhan fwyaf neu'r garfan unigol fwyaf o bobl â hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd y rhoddais help a chynghor iddynt, a'r frwydr yr oeddent yn ei hwynebu er mwyn cael cefnogaeth ymarferol gan eu cyflogwyr. Felly, mae'n fater go iawn y mae gennyf brofiad uniongyrchol iawn ohono. Nodaf y sylwadau a wnaeth Angela Burns am bobl yn cael gafael ar wasanaethau cymorth, ac mae'n amrywio. Mae'n amrywio o ran y cyflwr unigol, a sut y maent yn teimlo a'r gefnogaeth sydd ganddynt, yn eu hunedau teulu yn ogystal ag yn y gweithle. Felly, mae gennyf ddiddordeb arbennig yn yr hyn y bydd Cymru Iach ar Waith yn parhau i'w gyflawni yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Rwyf wedi disgrifio rhywfaint ar y sefyllfa yr ydym wedi dod ohoni a'r gwelliannau a wnaed hyd yn hyn. Rwyf hefyd yn awyddus i ddelio â rhai o'r pwyntiau eraill a wnaed. Mae'n debyg ei bod yn briodol ar hyn o bryd gwneud ychydig mwy o sylwadau am y gwasanaeth CAMHS—gan fod bron pob Aelod a siaradodd wedi crybwyll CAMHS yn ei gyfraniad—a'r pwyntiau penodol a wnaed ynghylch y mynediad at y gwasanaeth priodol. Rydym yn cydnabod bod y galw wedi cynyddu. Mae hefyd y pryder a grybwyllodd Kirsty Williams, yn arbennig, ynghylch a yw galw yn cael ei reoli'n briodol ac a yw pobl yn cael eu hatgyfeirio yn ddiangen at ben arbenigol y gwasanaeth. Mae hon yn thema gyffredin ym maes iechyd: sut yr ydym yn ymdrin â galw a sicrhau bod y bobl sydd wir angen y gwasanaeth arbenigol hwnnw'n cael eu gweld, a bod y bobl nad oes arnynt ei angen yn cael eu symud i'r maes mwyaf priodol ar eu cyfer hwythau hefyd. Mae'n deg nodi bod y Gweinidog eisoes wedi cwrrd ag amrywiaeth o bobl ifanc a rhai o'u rhieni, cyn y Nadolig, mewn cyfarfod a drefnwyd gan y comisiynydd plant, i ddeall eu profiadau uniongyrchol—da, drwg a gweddol—o'r gwasanaeth. Nid yw hwn yn fater sy'n cael ei seboni na'i roi o'r neilltu ac mae Gweinidogion wir yn rhoi sylw iddo. Wrth gwrs, mae'r Gweinidog wedi derbyn yr adroddiad gan y pwyllgor. Felly, drwy gydol 2014, buom yn gweithio gyda CAMHS i sicrhau gwelliannau. Mae hynny'n cynnwys buddsoddiad ychwanegol o £0.25 miliwn yn y gwasanaethau anhwylderau bwyta. Mae hynny eisoes wedi golygu bod mwy o bobl ifanc yn awr yn derbyn gofal yn nes at eu cartref yng Nghymru, ac rydym wedi cyflawni gostyngiad sylweddol yn nifer y gwelyau y mae'r gwasanaeth CAMHS arbenigol yn eu defnyddio y tu allan i Gymru.

17:20

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I want to make some progress on this, Darren. We expect to see further improvements made as a result of our plans to reshape CAMHS and make it fit for the future. That work will be launched on 26 February, supported by Professor Dame Sue Bailey. We want to have a clear plan to deliver the generational shift that we recognise we need to see in the way that CAMHS works. Janet Finch-Saunders in particular raised a specific issue that I would be grateful if she would write to me on. I hesitate to say this, but in the midst of a very constructive debate, I do feel real irritation about demands to, say, put more money into local government at the same time as demanding more money into health. We have a fixed budget, which is reducing in real terms, and we can't do both. If we want to maintain a constructive and honest debate about how we fund the big blocks of Welsh public service, we can't demand that both areas see funding rises that all of us know are simply not possible to deliver. But, thinking about funding, on the mental health funding ring fence for all mental health services, including CAMHS, the review is under way and will report shortly.

For older people, we'll continue to work to make Wales a dementia-friendly nation. A number of people did mention this. I know it's an issue of significant concern in all of our constituencies. We'll use the recent programme of elderly mental health unit spot checks to identify best practice, which we expect all services to learn from and apply. It's probably worth mentioning the Talk to Me 2 suicide and self-harm prevention strategy that the Minister launched only a week ago, in a visit to Cardiff Samaritans service. It is currently out for consultation, and I hope that Members will encourage people they know in their constituencies and advocacy groups to get involved and take part in the consultation, to try to inform how we tackle these important issues that, again, I know a number of Members mentioned.

I want to deal with one of the points that Elin Jones raised in particular about some local service issues, because, again, I'd like to remind people that the Minister visited Bronglais before Christmas and met mental health services in Aberystwyth. It's fair to say that the local health board are looking to deal with the issue of crisis beds, but the solution they're looking for is those beds within the community. To ensure the need—[Interruption.] Yes, to ensure the need is met, rather than in the hospital. It's part of what we look to do about how we have the most appropriate means of meeting what we recognise is a real demand and a real need.

Rwyf am symud ymlaen yn hyn o beth, Darren. Rydym yn disgwyl gweld rhagor o welliannau o ganlyniad i'n cynlluniau i ail-lunio CAMHS a'i wneud yn addas ar gyfer y dyfodol. Bydd y gwaith hwnnw'n cael ei lansio ar 26 Chwefror, gyda chefnogaeth gan yr Athro Fonesig Sue Bailey. Rydym am gael cynllun clir i gyflawni'r gweddnewidiad yr ydym yn cydnabod y mae angen inni ei weld yn y ffordd y mae CAMHS yn gweithio. Gwnaeth Janet Finch-Saunders yn arbennig godi mater penodol y byddwn yn ddiolchgar pe byddai'n ysgrifennu ataf yn ei gylch. Rwy'n petruso cyn dweud hyn, ond yng nghanol dadl adeiladol iawn, rwy'n teimlo dichter gwirioneddol ynghylch galwadau i roi mwy o arian i lywodraeth leol, dyweder, ar yr un pryd â mynnu mwy o arian ar gyfer iechyd. Mae gennym gyllideb sefydlog, sy'n lleihau mewn termau real, ac ni allwn wneud y ddau. Os ydym am gynnal dadl adeiladol a gonest am sut yr ydym yn ariannu blociau mawr gwasanaethau cyhoeddus Cymru, ni allwn fynnu cael mwy o gyllid i'r ddau faes a phob un ohonom yn gwybod bod hynny'n amhosibl. Ond, wrth feddwl am arian, o ran y cyllid iechyd meddwl a glustnodwyd ar gyfer yr holl wasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys CAMHS, mae'r adolygiad yn mynd rhagddo a bydd adroddiad yn cael i gyflwyno'n fuan.

Ar gyfer pobl hŷn, byddwn yn parhau i weithio i wneud Cymru'n genedl ystyriol o ddementia. Soniodd nifer o bobl am hyn. Rwy'n gwybod ei fod yn fater o bryder mawr ym mhob un o'n hetholaethau. Byddwn yn defnyddio'r rhaglen ddiweddar o archwiliadau ar hap ar unedau iechyd meddwl yr henoed i nodi arfer gorau, a disgwyliwn i bob gwasanaeth ddysgu oddi wrtho a'i ddefnyddio. Mae'n fwy na thebyg yn werth sôn am y strategaeth Beth am Siarad â Fi 2 ar hunanladdiad ac atal hunan-niweidio a lansiodd y Gweinidog ddim ond wythnos yn ôl, mewn ymweliad â gwasanaeth Samariaid Caerdydd. Mae'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, ac rwy'n gobeithio y bydd Aelodau'n annog pobl y maent yn eu hadnabod yn eu hetholaethau a grwpiau eiriolaeth i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, i geisio llywio sut rydym yn mynd i'r afael â'r materion pwysig hyn, y gwnaeth nifer o Aelodau eu crybwyll, unwaith eto, rwy'n gwybod.

Rwyf am ymdrin ag un o'r pwyntiau a gododd Elin Jones yn arbennig ynghylch rhai materion gwasanaeth lleol, oherwydd, unwaith eto, hoffwn atgoffa pobl bod y Gweinidog wedi ymweld â Bronglais cyn y Nadolig a chyfarfod â gwasanaethau iechyd meddwl yn Aberystwyth. Mae'n deg dweud bod y bwrdd iechyd lleol yn ceisio mynd i'r afael â mater gwelyau argyfwng, ond yr ateb y maent yn chwilio amdano yw'r gwelyau hynny yn y gymuned. Er mwyn sicrhau bod yr angen— [Torri ar draws.] Ie, er mwyn sicrhau bod yr angen yn cael ei fodloni, yn hytrach nag yn yr ysbyty. Mae'n rhan o'r hyn yr ydym yn ceisio'i wneud ynglŷn â sut mae cael y dull mwyaf priodol o ddiwallu'r hyn yr ydym yn cydnabod sy'n alw go iawn ac yn angen gwirioneddol.

I do want to return to the Measure in moving to close because, again, as Kirsty Williams recognises, the Measure had genuine cross-party support when it was delivered, and the challenge for the Government is how we deliver on the aspirations that all of us share in different parties. I do believe the Measure is a significant step forward for us and it has drawn attention nationally and internationally. The holistic care planning it introduced will continue to help ensure that real patient choice, with regard to treatment, becomes a reality. This deals with the point that David Rees has mentioned about ensuring that there is effective engagement of service users in the design and the delivery at a strategic national level as well as individually, because individual choice is important in this area of health provision. And, of course, patient voice and choice in designing healthcare is a core element of our prudent healthcare approach.

Rwyf am ddychwelyd at y Mesur wrth symud i gloi oherwydd bod gan y Mesur, unwaith eto, fel y mae Kirsty Williams yn cydnabod, gefnogaeth drawsbleidiol go iawn pan gafodd ei gyflwyno, a'r her i'r Llywodraeth yw sut yr ydym yn cyflawni'r dyheadau y mae pob un ohonom ni'n eu rhannu mewn gwahanol bleidiau. Rwyf wir yn credu bod y Mesur yn gam pwysig ymlaen inni ac mae wedi tynnu sylw yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Bydd y broses gyfannol o gynllunio gofal a gyflwynodd yn parhau i helpu i sicrhau bod dewis go iawn i gleifion, o ran triniaeth, yn dod yn realiti. Mae hyn yn ymdrin â'r pwynt y mae David Rees wedi'i grybwyll ynglŷn â sicrhau yr ymgysylltir yn effeithiol â defnyddwyr gwasanaeth wrth gynllunio a darparu ar lefel genedlaethol strategol yn ogystal ag yn unigol, gan fod dewis yr unigolyn yn bwysig yn y maes hwn o ddarpariaeth iechyd. Ac, wrth gwrs, mae llais cleifion a dewis wrth gynllunio gofal iechyd yn elfen graidd o'n hagwedd graff tuag at ofal iechyd.

I want to, in closing, recognise again the contribution of the wider voluntary sector in helping to deliver not just support, but the design and delivery of our services here in Wales. And, I'd like to thank all Members for a thoughtful and interesting debate on how we not only recall and remember, but actually deliver the shared aspirations we have on improving mental health provision for all of our people here in Wales.

Wrth gloi, rwyf am gydnabod cyfraniad y sector gwirfoddol ehangach unwaith eto o ran helpu i gynllunio a darparu ein gwasanaethau yma yng Nghymru, yn ogystal â darparu ein cefnogaeth. A hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau am ddadl ystyrlon a diddorol ar sut rydym yn galw i gof, ond hefyd yn cyflawni'r dyheadau yr ydym yn eu rhannu ar gyfer gwella darpariaeth iechyd meddwl ar gyfer pob un o'n pobl yma yng Nghymru.

17:24

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? Felly, derbynnir gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The question is that amendment 1 be agreed to. Does any Member object? Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:24

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw wrthwynebiad? Felly, derbynnir gwelliant 2.

The question is that amendment 2 be agreed to. Does any Member object? Amendment 2 is therefore agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:24

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw wrthwynebiad? Felly, derbynnir gwelliant 3.

The question is that amendment 3 be agreed to. Does any Member object? Amendment 3 is therefore agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:25

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw wrthwynebiad? Felly, derbynnir gwelliant 4.

The question is that amendment 4 be agreed to. Does any Member object? No. Therefore, amendment 4 is agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 4 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*



- 17:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gohiriwyd pob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.
- The question is that amendment 5 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] Voting on this item will be deferred until voting time.
- Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.* *Voting deferred until voting time.*
- 
- 17:25 **Cyfnod Pleidleisio** **Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- Now we move to voting time. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. We vote first, then, on the local government settlement. I call for a vote on the motion tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27; there voted against 22; there were five abstentions. Therefore, the motion is agreed.
- Nawr rydym yn symud i'r cyfnod pleidleisio. Cyn imi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes. Rydym yn pleidleisio yn gyntaf, felly, ar y setliad llywodraeth leol. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid; pleidleisiodd 22 yn erbyn; roedd pum ymataliad. Felly, derbyniwyd y cynnig.
- Derbyniwyd y cynnig: O blaid 27, Yn erbyn 22, Ymatal 5.* *Motion agreed: For 27, Against 22, Abstain 5.*
- [Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5658.](#) [Result of the vote on motion NDM5658.](#)
- 
- 17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We will now vote on the debate on the 'Together for Mental Health Annual Report'. We've dispatched the first four amendments. I call for a vote on amendment 5, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 37; there voted against 17. Therefore, amendment 5 is agreed.
- Pleidleisiwn yn awr ar y ddatl ar 'Adroddiad Blynyddol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'. Rydym wedi ymdrin â'r pedwar gwelliant cyntaf. Galwaf am bleidlais ar welliant 5, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 37 o blaid; pleidleisiodd 17 yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 5.
- Derbyniwyd gwelliant 5: O blaid 37, Yn erbyn 17, Ymatal 0.* *Amendment 5 agreed: For 37, Against 17, Abstain 0.*
- [Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnis NDM5660.](#) [Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5660.](#)
- 
- 17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call for a vote on amendment 6, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 54; there are no votes against. Therefore, amendment 6 is agreed.
- Galwaf am bleidlais ar welliant 6, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 54 o blaid; nid oes unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 6.
- Derbyniwyd gwelliant 6: O blaid 54, Yn erbyn 0, Ymatal 0.* *Amendment 6 agreed: For 54, Against 0, Abstain 0.*
- [Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnis NDM5660.](#) [Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5660.](#)
- 
- 17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call for a vote on amendment 7, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 54; there are no votes against. Therefore, amendment 7 is agreed.
- Galwaf am bleidlais ar welliant 7, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 54 o blaid; nid oes unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbyniwyd gwelliant 7.
- Derbyniwyd gwelliant 7: O blaid 54, Yn erbyn 0, Ymatal 0.* *Amendment 7 agreed: For 54, Against 0, Abstain 0.*
- [Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnis NDM5660.](#) [Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5660.](#)

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I now call for a vote on the motion as amended, tabled in the name of Jane Hutt.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt.

Cynnig NDM5660 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5660 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi Adroddiad Blynyddol (2013-14) Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 6 Ionawr 2015.

1. Notes the Together for Mental Health Annual Report (2013-14), sent to Assembly Members on 6 January 2015.

2. Yn nodi'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod ei ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ynghylch y pwysau cynyddol ar y gwasanaeth a'i allu i ateb y galw.

2. Notes the evidence received by the Children, Young People and Education Committee, during its inquiry into Child and Adolescent Mental Health Services (CAMHS), concerning the increased pressure on the service and its capacity to meet demand.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

3. Calls on the Welsh Government to:

a) cymryd camau brys i wella mynediad i wasanaethau CAMHS; a

a) take urgent action to improve access to CAMHS services; and

b) cynnal asesiad o gyllid ar gyfer CAMHS yng Nghymru i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael adnoddau digonol i ddiwallu anghenion pobl ifanc ar draws y wlad.

b) undertake an assessment of funding for CAMHS in Wales to ensure the service is sufficiently resourced to meet the needs of young people across the country.

4. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cleifion sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn cael gwybodaeth drylwyr am y dewis o driniaethau a'u hargaeledd ac i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau mewn modd amserol.

4. Further calls on the Welsh Government to ensure that patients in receipt of mental health services are provided with thorough information about the choice and availability of treatments and are able to access services in a timely manner.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r camau y mae'n eu cymryd i sicrhau cydraddoldeb rhwng iechyd meddwl a chorfforol ac i roi terfyn ar stigma.

5. Calls on the Welsh Government to set out the steps it is taking to ensure parity between mental and physical health and to end stigma.

6. Yn gresynu at effaith diwygiadau lles ar bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.

6. Regrets the impact of welfare reforms on those with mental health problems.

7. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda chyflogwyr i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl i hyrwyddo cyflogaeth.

7. Calls on the Welsh Government to work with employers to tackle discrimination against those with mental health problems to promote employment.

8. Yn cefnogi'r ymgyrch 'Amser i newid' i fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.

8. Supports the 'Time to change' campaign to tackle prejudice and discrimination against those with mental health problems.

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 42; there voted against 12. Therefore, the motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 42 o blaid; pleidleisiodd 12 yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

*Derbyniwyd cynnig NDM5660 fel y'i diwygiwyd: O blaid 42, Yn erbyn 12, Ymatal 0.*

*Motion NDM5660 as amended agreed: For 42, Against 12, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5660 fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote on motion NDM5660 as amended.](#)

17:27

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:27.*

*The meeting ended at 17:27.*